

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 22 MEDI 2026 10.00 o'r gloch		TUESDAY 22 SEPTEMBER 2026 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM		COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor		Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2026.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1, 2026/27 (Tudalennau 19 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

7 HUNANASESIAD A PHERFFORMIAD (LLESIANT) BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26 (Tudalennau 37 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

8 MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1, 2026/27 (Tudalennau 93 - 116)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 MONITRO CYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1, 2026/27 (Tudalennau 117 - 130)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1, 2026/27 (Tudalennau 131 - 138)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran

151.

11 ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26 (Tudalennau 139 - 158)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

12 CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2027/28 - 2029/30 (Tudalennau 159 - 188)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

13 PENDERFYNIAD AR GYFLWYNO ARDOLL YMWELWYR POSIBL YN YNYS MÔN (Tudalennau 189 - 342)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

14 NEWID I GASGLIADAU AILGYLCHU A GWASTRAFF (Tudalennau 343 - 396)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

This page is intentionally left blank

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 21 Gorffennaf 2026

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Prif Swyddog Datblygu Economaidd (TJ) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones.

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriad am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2026 a Mawrth 2027 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch y newidiadau canlynol i'r Flaenraglen Waith –

- Cyfarfod 22 Medi 2026
 - Adolygiad Blynnyddol Rheoli'r Trysorlys 2025/26 - ychwanegwyd fel eitem newydd
- Cyfarfod 21 Mawrth 2027
 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 2026/27 – ychwanegwyd fel eitem newydd
- Newidiadau ers cyhoeddi'r rhaglen
 - Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031- i'w hychwanegu at gyfarfod 21 Mawrth 2027
 - Cyfarwyddyd Erthygl 4: Y Ffordd Ymlaen Arfaethedig ar gyfer Ynys Môn – i'w gadarnhau ar gyfer cyfarfod 20 Hydref 2026.
 - Masnachfaint Bysiau – i'w gadarnhau ar gyfer cyfarfod 22 Medi 2026 neu 20 Hydref 2026.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod Awst 2026 i Fawrth 2027 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.

6. ALLDRO CYFALAF 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi sefyllfa alldro ddrafft y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi bod cyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yn £70.648m, sy'n cynnwys £3.704m a dderbyniwyd yn y chwarter olaf y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo'n ffurfiol i'w ychwanegu at y gyllideb. Gwariwyd cyfanswm o £54.552m neu 77% o'r gyllideb sydd ar gael, ar 98 o brosiectau gwahanol ar draws nifer o wasanaethau. Heb gynnwys y cynlluniau na chyflawnwyd yn uniongyrchol gan y Cyngor, mae'r ganran a wariwyd yn cynyddu i 80%. Cyfanswm y tanwariant oedd £15.986m nad yw'n annisgwyl o ystyried y nifer fawr o brosiectau cymhleth yn y rhaglen. Mae'r holl gyllid allanol na chafodd ei wario wedi'i sicrhau a bydd ar gael i ariannu'r llithriad sydd wedi'i gario ymlaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gwaith o archwilio'r cyfrifon ar y gweill ac felly gall y ffigurau newid. Mae alldro y gyllideb gyfalaf yn bwydo i mewn i'r adolygiad o strategaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer 2025/26 a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2026 ac wedyn i'r Cyngor Llawn.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa alldro drafft ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26, yn amodol ar archwiliad.**

- Cymeradwyo ychwanegu £3.704m at gyllideb 2025/26 o ganlyniad i dderbyn cyllid ychwanegol yn ystod y chwarter olaf, sy'n golygu bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 yn £70.648m.
- Cymeradwyo dwyn ymlaen £8.949m o wariant, ynghyd â'r cyllid cysylltiedig i gyllideb 2026/27. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2026/27 yw £63.033m.

7. MONITRO CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 4 2025/6

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad gan nodi bod cyllideb refeniw y CRT wedi'i gosod gyda gwarged cyllidebol o £6,291k. Y gyllideb cyfalaf gros ar gyfer 2025/26 ar ôl addasiadau yn ystod y flwyddyn, oedd £26,914k. Roedd cyllideb cyllid grant gwerth £10,783k yn gostwng y gyllideb net i £16,131k. Gyda'i gilydd, rhoddodd y cyllidebau refeniw a chyfalaf wedi'u haddasu ddiffyg arfaethedig o £9,840k, gyda £6,820k i'w ariannu o gronfa wrth gefn y CRT, a £3,019k o fenthyciadau allanol.

Perfformiodd y CRT yn well na'r gyllideb, gan orffen y flwyddyn gyda gwarged refeniw £1.731k yn uwch na'r disgwyl. Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £25,114k, £1,800k yn is na'r gyllideb oherwydd y rhesymau a nodir yn adran 9 o'r adroddiad, ac atodiadau B ac C. Roedd y diffyg ar alldro, trwy gyfuno'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, yn £4,914k, £1,907k yn llai na'r gyllideb. Ariannwyd hyn yn llawn o gronfa wrth gefn y CRT ac nid oedd angen benthycha allanol yn 2025/26.

Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7,976k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael balans o £1,155k yn y gronfa wrth gefn, sef yr isafswm balans fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Roedd balans terfynol cronfa wrth gefn y CRT yn £3,062k.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn debygol y bydd angen benthycha yn 2026/27 a bydd hyn yn bwydo i mewn i Gynllun Busnes 30 mlynedd y CRT wedi'i ddiweddarau i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Nododd fod sefyllfa ariannol y CRT yn tynhau, sy'n golygu y bydd angen adolygu lefel y buddsoddiad ar gyfer cynnal y stoc dai i safonau SATC, yn ogystal â datblygu tai newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol ei fod wedi ymweld â dau o ddatblygiadau tai newydd y Cyngor yng Nghaergybi a Niwbwrch yn ddiweddar a'i fod yn falch iawn o ansawdd y cynlluniau. Tynnodd sylw hefyd at waith y Cyngor i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a'i raglen barhaus o uwchraddio tai, pob un ohonynt yn cefnogi contractwyr lleol ac yn cyfrannu at yr economi leol. Roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi a chynnal rhaglen fuddsoddi mewn tai y Cyngor.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y cynhelir cyfarfod gyda Llywodraeth newydd Cymru i drafod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas â thai, gan gynnwys goblygiadau polisi rhent a'r cap rhent, ac edrychir ymlaen at y drafodaeth honno.

Penderfynwyd nodi'r canlynol –

- Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 4 2025/26.
- Yr alldro ar gyfer 2025/26.

8. CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2025/26 A'R DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y prif ddatganiadau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant drafft cynhwysfawr, y fantolen ddrafft ynghyd â chrynodeb o falansau cyffredinol y Cyngor, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, balansau ysgolion a chronfa wrth gefn y CRT.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad, gan nodi bod cyfrifon drafft y Cyngor heb eu harchwilio ar gyfer 2025/26 wedi'u paratoi a'u llofnodi gan y Swyddog Adran 151 erbyn 30 Mehefin 2026. Er mai'r dyddiad cau statudol yw 31 Mai, mae Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru wedi cydnabod nad oedd hyn yn bosibl ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 a chafodd yr amserlen ei hymestyn hyd at 30 Mehefin 2026, gyda'r cyfrifon archwiledig terfynol i'w cyhoeddi erbyn 30 Medi. Mae'r cyfrifon drafft bellach gan yr archwilyr.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r Tîm Cyllid am gwblhau'r cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin. Mae'r cyfrifon drafft wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor a byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, gyda hysbysiad statudol i'w gyhoeddi. Y nod yw cwblhau'r archwiliad a llofnodi'r cyfrifon erbyn 30 Medi 2026 yn amodol ar unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a fydd yn codi. Nododd fod yr adroddiad hefyd yn nodi defnyddiau arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2026/27 gan gynnwys rhyddhau £2.373m o falansau cyffredinol ar gyfer yr ardaloedd a restrir yn nhabl 9 yr adroddiad. Byddai hyn yn dal i adael balansau sy'n weddill o £15.590m (7.54% o gyllideb refeniw net 2026/27) sy'n cael ei ystyried yn lefel iach ac yn sicrhau swm digonol ar gyfer unrhyw risgiau ariannu posibl y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Ategodd aelodau'r pwyllgor gwaith y diolchiadau i dîm y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith ar y cyfrifon. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd bwysigrwydd cynnal balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol cadarn wrth i gyllidebau barhau i dynhau a chroesawodd sefyllfa ariannol iach y Cyngor wrth i'r gwaith ddechrau ar ddatblygu cyllideb 2027/28.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r datganiadau ariannol drafft sydd heb eu harchwilio ym y flwyddyn ariannol 2025/26. (Mae'r Datganiad Cyfrifon Drafft llawn 2025/26 wedi'i gyhoeddi ar <https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyllid/Datganiad-or-cyfrifon/2025-2026/datganiad-o-cyfrifon-drafft-2025-i-2026.pdf?nocache=1>)**
- **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2026, sef £19.037m.**
- **Nodi balans y cronfeydd wrth gefn clustnodedig o £24.434m a chymeradwyo creu £0.510m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd.**
- **Cymeradwyo'n ffurfiol trosglwyddo £0.716m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.**
- **Nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion o £4.327m.**
- **Nodi balans cronfa'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) o £3.063m.**
- **Cymeradwyo defnyddio £2.373m o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig at y dibenion a nodir yn Nhabl 9 yr adroddiad.**

9. ASESIAD PERFFORMIAD PANEL (APP) – ADRODDIAD TERFYNOL AC YMATEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr a oedd yn nodi canfyddiadau Asesiad Perfformiad Panel (APP) y Cyngor i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad, gan nodi bod yr Asesiad Perfformiad Panel wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2025 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gyda'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2026. Roedd yr asesiad yn archwilio trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor a gwerthuso pa mor effeithiol y mae'n gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i gyflawni'r amcanion hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams fod y Panel wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau perfformiad a amlinellir yn y Ddeddf, ac yn dangos llywodraethu cadarn, perthnasodd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion a llwybr clir o wella ers 2018. Mae'r Cyngor yn derbyn pob un o'r wyth argymhelliaid ac wedi datblygu cynllun gweithredu lefel uchel yn unol â chanllawiau'r CLILC. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y Cyngor. Cyflwynwyd adroddiad yr APP i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Mehefin 2026, lle cafodd ei dderbyn yn gadarnhaol a chymeradwywyd y cynllun gweithredu.

Tynnodd sylw at y ffaith bod y panel wedi cynnal adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda gwahanol randdeiliaid mewnol ac allanol. Diolchodd i bawb a gymerodd ran yn yr asesiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod casgliadau'r Panel, sef bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, yn rhoi sicrwydd pwysig nid yn unig i'r Cyngor, ond i drethdalwyr a chymunedau'r ynys. Pwysleisiodd fod y casgliadau cadarnhaol ynghylch llywodraethu a'r berthynas rhwng aelodau a swyddogion yn arbennig o arwyddocaol, a bod yr adroddiad hefyd yn cynrychioli cymeradwyaeth allanol o ymrwymiad staff. Nododd y Panel hefyd fod y Cyngor wedi meithrin partneriaethau cadarn, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol, bod ganddo Gynllun Cyngor cadarn sy'n cael ei gydnabod yn fewnol ac yn allanol ac ymdeimlad clir o hunaniaeth sefydliadol. Er bod yr asesiad yn adlewyrchu pwynt mewn amser, pwysleisiodd mai'r mater allweddol yw bod sylfeini cadarn yn eu lle a bod y Cyngor yn cydnabod ac yn ymateb i newidiadau parhaus ar y cyd, yn unol â'i rôl fel sefydliad partneriaeth.

Cadarnhaodd ei fod yn falch iawn o'r canfyddiadau a bod gan y Cyngor reswm da i fod yn falch o'i drefniadau a'i staff.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi cynnal sesiynau adeiladol gyda staff i rannu canfyddiadau'r APP, diolchwyd iddynt am eu gwaith a rhoddwyd cyfle i ofyn cwestiynau am yr adroddiad, ei argymhellion a chamau nesaf y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y byddai gweithredu'r argymhellion yn cael ei fonitro, eglurodd y Prif Weithredwr y byddant yn cael eu cynnwys yng ngwaith bob dydd y Cyngor yn hytrach na'i drin fel prosiect annibynnol. Bydd y Timau Arweinyddiaeth a Rheoli yn cefnogi swyddogion, a bydd aelodau portffolio yn derbyn diweddariadau ar feysydd perthnasol, gyda diweddariadau hefyd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Gwaith yn anffurfiol. Bydd yr argymhellion hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwella blynyddol ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gwella. Ychwanegodd y gellid trefnu sesiwn frifio i'r aelodau a chyhoeddi diweddariad ysgrifenedig i randdeiliaid sy'n cymryd rhan a'r CLILC.

Nododd y Cadeirydd, gan fod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymgymryd ag APP unwaith bob cylch etholiadol, bydd yr asesiad nesaf a gynhelir ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2027 yn adolygu ac yn cadarnhau'r modd y gweithredir yr argymhellion presennol.

Penderfynwyd derbyn y Cynllun Gweithredu sy'n nodi ymateb y Cyngor i'r wyth argymhelliad, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

10. GWYTNWCH CROESI'R FENAI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn nodi'r achos dros drydedd bont dros y Fenai i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, yr adroddiad gan nodi mai ei bwrpas yw codi ymwybyddiaeth ehangach o bryderon ynghylch gwytnwch croesi'r Fenai. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar ddau bapur cynharach o 2023 a 2024 a oedd hefyd yn tynnu sylw at amheuan difrifol ynghylch dibynadwyedd y croesfannau. Cyfeiriodd at y rhwystredigaethau a achosir pan gaiff y pontydd eu cau'n aml a'r tagfeydd sy'n tarfu ar fywyd bob dydd trigolion ac ymwelwyr, gan gynnwys colli apwyntiadau, oedi wrth fynd i'r gwaith a chiwiau hir. Dywedodd na ellir gorbwysleisio'r rhwystredigaeth a deimlir gan aelodau etholedig a'r Cyngor, yn enwedig ers cau Pont Menai yn sydyn ym mis Hydref 2022.

Y bwriad yw rhannu'r adroddiad gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i nodi safbwynt clir ar yr angen am archwiliad manwl o wydnwch y croesfannau, er budd yr ardal ac i gefnogi'r economi ehangach a buddsoddiadau mawr sydd ar ddod fel y Porthladd Rhydd a'r Adweithydd Modiwlwr Bach ar safle'r Wylfa..

Tynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd sylw at yr ymdrechion y mae'r Cyngor wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud i ddod â'r mater hwn i'r amlwg. Cyfeiriodd at y dyfyniad agoriadol yn yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi bod pobl Ynys Môn a Gogledd Cymru wedi cael eu siomi am amser rhy hir ynglŷn â gwytnwch croesi'r Fenai. Dywedodd mai rôl y Pwyllgor Gwaith yw sicrhau bod Llywodraeth newydd Cymru'n cadw at ei hymrwymiad i weithredu gyda mwy o frys a ffocws.

Ailadroddodd y Cynghorydd Robin Williams, wrth siarad fel aelod lleol, y rhwystredigaethau a deimlir gan drigolion a busnesau lleol pam fydd tagfeydd ers tro, sy'n cael ei wneud yn waeth pan fydd Pont Menai'n cau ar fyr rybudd neu heb unrhyw rybudd, gan achosi nifer o broblemau. Pwysleisiodd nad oedd y pontydd wedi'u cynllunio i ymdopi â lefel y traffig heddiw ac mai gwytnwch yw'r mater allweddol, o ystyried nad oes llwybrau eraill i'r ynys nac oddi arni. Roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn anrhydeddu'r achos amlinellol strategol a wnaed yn 2016 ar gyfer trydedd bont, a ddisgrifiodd fel yr unig opsiwn hyfyw.

Nododd y Cynghorydd Carwyn Jones fod galwadau am drydedd bont wedi cael eu gwneud ers nifer o flynyddoedd a bod cau pontydd dro ar ôl tro, yn enwedig yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai, wedi tynnu sylw pellach at y broblem. Mae'r gwaith adfer sy'n parhau ers 2022 hefyd yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod neges y Cyngor wedi parhau i fod yn gyson, mae gwytnwch y croesfannau wedi lleihau, gyda'r pontydd yn cau a'r problemau sy'n gysylltiedig â hynny'n digwydd yn amlach. Pwysleisiodd fod y ddwy bont yn seilwaith hanfodol i Ynys Môn fel ynys, i'w heconomi, ei hymwelwyr a bywyd bob dydd trigolion. Tynnodd sylw yn arbennig at bwysigrwydd croesfannau dibynadwy, eu bod ar gael mewn argyfwng, sy'n

golygu bod gwella eu gwytnwch yn hanfodol. Ychwanegodd fod yn rhaid i lywodraethau Cymru a'r DU ddod o hyd i ateb a sicrhau cyllid ar gyfer y seilwaith hanfodol hwn.

Penderfynwyd –

- Codi ymwybyddiaeth a phroffil yr adroddiad trwy ei rannu â'r holl randdeiliaid rhanbarthol (sector cyhoeddus – Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a.y.y.b.) a phartneriaid yn y sector preifat.
- Rhannu'r adroddiad ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DU a Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth.
- Trefnu cyfarfod â'r gweinidogion uchod i drafod dull cydweithredol o fynd i'r afael â problem Croesi'r Fenai, cytuno ar strwythurau llywodraethu ac amserlen arfaethedig ar gyfer y camau nesaf, a sicrhau fod cynnydd yn digwydd.

**Y Cyngorydd Gary Pritchard
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	22 Medi 2026
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) portffolio:	Y Cynghorydd Gary Pritchard
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2026 – Mai 2027**
- adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda phwyllgorau sgrwtini'r Cyngor
- nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Amherthnasol

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Amherthnasol

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amherthnasol

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amherthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.

Amherthnasol

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amherthnasol

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth
2. Cyllid / Swyddog 151	Gweler uchod
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Gweler uchod
4. Adnoddau Dynol	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. Technoleg Gwybodaeth	Amherthnasol

7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau bwyllgor sgriwtini, er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9. Aelodau lleol	Amherthnasol

F – Atodiadau

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2026 – Mai 2027
--

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

--

Cyngor Sir Ynys Môn

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Hydref 2026 - Mai 2027

Tudalen 12

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 9 Medi 2026

Hydref 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 20.10.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cyfarwyddyd Erthygl 4: Y ffordd ymlaen arfaethedig ar Ynys Môn	Cyng Nicola Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 13.10.26

Tachwedd 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 17.11.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) Blynnyddol 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 11.11.26
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2026/27	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 11.11.26
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 05.11.26
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 05.11.26
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2026/27	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgrwtini Adnoddau 05.11.26
	Sylfaen y Dreth Gyngor 2027/28	Cyng Robin Williams	

Rhagfyr 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 15.12.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad Canol Blwyddyn 2026/27	Cyng Robin Williams	Cyngor Llawn 04.03.27
	Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2027/28	Cyng Carwyn Jones	
	Cyllideb Refeniw drafft 2027/28	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol

Ionawr 2027

Tudalen 14

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 26.01.27	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – ffioedd a thaliadau 2027/28	Cyng Neville Evans	
	Cartrefi preswyl yr Awdurdod Lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2027/28	Cyng Neville Evans	
	Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2027/28	Cyng Neville Evans	
	Strategaeth Gyfalaf	Cyng Robin Williams	

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Cynllun Datblygu Lleol – ymgynghoriad ar y strategaeth a ffeirir	Cyng Nicola Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 20.01.27

Chwefror 2027

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 23.02.27	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2026/27	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2027/28	Cyng Robin Williams	Cyngor Llawn 04.03.27
	Ffioedd a Thaliadau 2027/28	Cyng Robin Williams	
	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2027/28	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol Cyngor Llawn 04.03.27
	Cyllideb Gyfalaf 2027/28	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol Cyngor Llawn 04.03.27

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 16.02.27
	Asesiad Digonlwydd Gofal Plant	Cyng Dyfed Wyn Jones	Cyngor Llawn 04.03.27

Mawrth 2027

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 16.03.27	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2026/27	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 10.03.27
	Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 10.03.27

Tudalen 16

Ebrill 2027

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 20.04.27	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2027

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Mai 2027	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Arweinydd y Cyngor	

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	22 Medi 2026
Pwnc:	Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1 (2026/27)
Aelod(au) portffolio:	Y Cyngorydd Robin W Williams
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Huw Ynyr
Awdur yr adroddiad:	Gwyndaf Parry GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu'r cerdyn sgorio Ch1 26/27 a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol (1.3 isod).

1.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad Ch1. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hysbysebwyd 90% o swyddi'r Cyngor fel rhai â gofyniad Cymraeg lefel 3 ac uwch, yn erbyn targed o 82%
- Roedd canran y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis yn 0%, o'i gymharu â tharged o 12%
- Cwblhawyd 100% o'r Cynlluniau Llwybr Cychwynnol o fewn yr amserlenni, gan ragori ar y targed o 90%
- Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol mewn 15.6 diwrnod ar gyfartaledd, o fewn y targed o 18 diwrnod
- Roedd 98.5% o sefydliadau bwyd yn cyrraedd safonau hylendid bwyd, gan ragori ar y targed o 98%
- Roedd canran y gwastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o adeiladau'r Cyngor yn 56.57%, gan ragori ar y targed o 47%
- Roedd 100% o'r strydoedd a archwiliwyd yn lân, gan ragori ar y targed o 98%

1.3 Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

1.3.1 Yr Iaith Gymraeg – 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg – Coch ar 4.47% yn erbyn targed o 6%. Cynhaliwyd dau ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod Ch1, a byddem yn parhau i fonitro lefelau'r ymatebion yn y Gymraeg, gan ystyried opsiynau i annog mwy o ddefnydd o'r opsiwn Gymraeg wrth ymateb.

- 1.3.2** Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol – Ambr ar 85.91% yn erbyn targed o 92%. Roedd y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion wedi effeithio ar berfformiad, o 84 yn Ch1 2025/26 i 220 yn Ch1 2026/27. Mae adnoddau staff ychwanegol wedi'u neilltuo i helpu i reoli'r galw.
- 1.3.3** Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – Ambr ar 56 diwrnod yn erbyn targed o 51 diwrnod. Er bod y perfformiad ychydig yn uwch na'r targed, mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â 89 diwrnod yn Ch1 2025/26.
- 1.3.4** Economi – 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – Coch ar 68% yn erbyn targed o 90%. Cwblhawyd pob arolygiad Categori A a B, ond roedd rhai arolygiadau Categori C heb eu cwblhau ar ddiwedd y chwarter a byddant yn cael eu blaenoriaethu yn ystod Ch2 pan fydd capasiti'r gwasanaeth yn caniatâi hynny.
- 1.3.5** Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – Coch ar 63.95% yn erbyn targed o 70%. Mae'r perfformiad yn parhau'n is na'r targed yn dilyn y newid ledled Cymru yn y ffordd y caiff ailgylchu pren ei adrodd. Bydd opsiynau i wella perfformiad yn cael eu trafod gan y pwyllgorau ym mis Medi.
- 1.3.6** Iechyd Cyngor Cyfan – 11) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen – Ambr ar 85% yn erbyn targed o 90%. Roedd y perfformiad yn is na'r lefel cydymffurfiaeth ddisgwyliedig, gyda 62 o ymatebion hwyr.
- 1.3.7** Iechyd Cyngor Cyfan – 14) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd – Ambr ar 2.31 diwrnod fesul CAL yn erbyn targed o 2.12 diwrnod. Salwch hirdymor oedd y prif bwysau, ac mae adolygiadau wedi'u targedu i gefnogi'r gwaith o reoli lefelau absenoldeb yn parhau.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amh.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Gallai perfformiad rhai dangosyddion perfformiad o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Ymgwymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Chwaraeon Cymru, ymhlith eraill.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amh

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amh

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amh

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amh

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad
2. Cyllid / Swyddog 151	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
4. Adnoddau Dynol	
5. Eiddo	
6. Technoleg Gwybodaeth	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16/09/2026. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn.
9. Aelodau Lleol	

F – Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 1
--

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

- | |
|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun y Cyngor 2023-2028 • Cerdyn Sgorio Ch4 25/26 |
|---|

Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2026/27

Adroddiad Chwarter 1

Tudalen 23


Paratowyd gan – Gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol, ynghyd â'r camau gweithredu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



Yr Iaith Gymraeg



Gofal Cymdeithasol
a Llesiant



Addysg



Tai



Economi



Newid Hinsawdd



Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

- 1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio hwn ar gyfer 2026/27 i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.
- 1.3 Mae rhai DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rai ohonynt dargedau ar hyn o bryd (wedi'u dangos mewn blwch llwyd) ac maent yno i osod gwaelodlin. Ni fydd data ar gael ar gyfer nifer o'r dangosyddion tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn (eto wedi'u lliwio'n llwyd tan eu bod ar gael). Bydd tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2026/27 gyda'r nod o osod targedau yn 2027/28 lle bo'n briodol.
- 1.4 Mae'r adroddiad yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar y Cyngor i fonitro ei berfformiad ac i wneud penderfyniadau ar sail data. Mae hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniaru y mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno arnynt er mwyn sicrhau gwelliant mewn perfformiad yn y dyfodol.
- 1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac, felly, bydd colofn tuedd ar gael o Ch2 i ddangos tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall.
- 1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei chwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:
- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
 - Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
 - Melyn – o fewn 5% i'r targed
 - Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (86%) o'r dangosyddion sydd â thargedau a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae saith dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau. Y rhain yw:

2.2.1 Yr Iaith Gymraeg – 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg – COCH - 4.47%, Targed - 6%

Cynhaliwyd dau ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod Ch1, gyda 4.47% o'r ymatebion wedi'u derbyn drwy'r fersiwn Gymraeg yn erbyn targed o 6%. Ymatebodd 37 o bobl drwy'r arolwg Cymraeg allan o 875 o ymatebion i'r ymgynghoriad 'Rheoli Cŵn ar Ynys Môn', ac ymatebodd 7 o bobl drwy'r fersiwn Gymraeg, allan o 109 o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu 'ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Amlwch'. Mae'r perfformiad felly yn Goch ar gyfer y chwarter. Mae'r ganran yn seiliedig ar y fersiwn iaith a ddefnyddiwyd i gwblhau'r ymateb, yn hytrach na'r iaith a ddefnyddiwyd mewn atebion testun rhydd unigol.

Bydd lefelau'r ymatebion yn y Gymraeg yn parhau i gael eu monitro yn ystod y flwyddyn, a bydd opsiynau i annog a chynyddu ymatebion drwy'r fersiwn Gymraeg yn cael eu hystyried lle bo hynny'n bosibl. Ni ddylid cymryd y ffaith bod rhai trigolion yn dewis peidio ag ymateb yn Gymraeg fel tystiolaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg neu nad ydynt yn gwerthfawrogi gwasanaethau Cymraeg.

2.2.2 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol – AMBR - 85.91%, Targed - 92%

Roedd perfformiad Ch1 yn 85.91%, islaw'r targed o 92% ac yn is na'r 96.34% a adroddwyd yn Ch1 2025/26. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion, a gododd o 84 yn Ch1 2025/26 i 220 yn Ch1 2026/27. Mae'r cynnydd yn y galw wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i gwblhau pob ymholiad o fewn yr amserlenni statudol. Mae adnoddau staff wedi'u neilltuo i helpu i reoli'r galw cynyddol, ac mae adolygu a chau ymholiadau'n brydlon yn parhau'n flaenoriaeth.

2.2.3 Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – AMBR - 56 diwrnod, Targed - 51 diwrnod

Roedd perfformiad Ch1 yn 56 diwrnod yn erbyn targed o 51 diwrnod. Mae'r perfformiad felly yn Ambr, ond mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r 89 diwrnod a adroddwyd yn Ch1 2025/26. Gall yr amser cyfartalog i ail-osod eiddo gael ei effeithio gan gyflwr yr eiddo pan fyddant yn dod yn wag, lefel y gwaith atgyweirio neu gydymffurfio sydd ei angen cyn eu hail-osod, ac oedi wrth adennill meddiant yn dilyn diwedd tenantiaethau. Bydd y gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad y dangosydd hwn.

2.2.4 Economi – 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – COCH - 68%, Targed - 90%

Roedd perfformiad Ch1 yn 68% yn erbyn targed o 90%, ac mae felly yn Goch. Mae hyn yn cymharu â 85.42% yn Ch1 2025/26. Cwblhawyd yr holl arolygiadau blaenoriaeth uchaf a oedd yn ddyledus yn Ch1, gan gynnwys pob safle Categori A a B, ynghyd ag 11 o'r 19 arolygiad Categori C. Defnyddir y categorïau hyn i flaenoriaethu arolygiadau yn ôl risg hylendid bwyd, gyda safleoedd Categori A a B angen arolygiadau mwy rheolaidd.

Mae'r ganran gyffredinol yn is oherwydd bod rhai o'r arolygiadau Categori C a oedd wedi'u cynllunio yn dal heb eu cwblhau ar ddiwedd y chwarter. Cwblhaodd y gwasanaeth gryn dipyn o waith arolygu hylendid bwyd ychwanegol hefyd yn ystod Ch1, gan gynnwys arolygiadau o fusnesau bwyd risg is, heb eu graddio ac yn newydd, gan arwain at 90 o arolygiadau i gyd. Cafodd y gwaith hwn ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod safleoedd newydd a safleoedd heb eu graddio yn cael eu cynnwys yn y rhaglen arolygu cyn gynted â phosibl. Cafodd adnoddau swyddogion hefyd eu hailgyfeirio yn ystod y chwarter i ymateb i archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd yr arolygiadau Categori C sydd heb eu cwblhau yn cael eu blaenoriaethu yn ystod Ch2.

2.2.5 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH - 63.95%, Targed - 70%

Roedd perfformiad ailgylchu Ch1 yn 63.95%, ychydig yn uwch na'r ffigwr diwygiedig o 63.88% ar gyfer Ch1 2025/26. Y ffigwr a adroddwyd yn flaenorol ar gyfer Ch1 2025/26 oedd 66.41%, ond mae hwn wedi'i ailddatgan yn dilyn newid Cymru gyfan yn y ffordd y caiff ailgylchu pren gwastraff ei adrodd. Cynghorodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynghorau i ddefnyddio ffactorau dosrannu ar sail safleoedd lle nad oedd digon o dystiolaeth gadarn bod yr holl bren a adroddwyd yn flaenorol fel pren wedi'i ailgylchu wedi cyrraedd cyrchfannau ailgylchu terfynol. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran bach o'r tunelli pren y gellir eu cyfrif bellach fel deunydd sydd wedi'i ailgylchu, gyda'r gweddill yn cael ei drin fel colled broses neu adferiad arall. Mae'r newid wedi lleihau perfformiad ailgylchu a adroddir ledled Cymru, gan gynnwys Ynys Môn.

Er hynny, mae'r gyfradd ailgylchu wedi gwella ychydig o'i chymharu â'r ffigwr diwygiedig ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, ac mae ailddefnyddio ar safleoedd ailgylchu'n parhau i gynyddu. Ar y cyfan, mae'r perfformiad yn parhau'n debyg i'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r targed blyneddol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar, bydd y cynigion ar gyfer trefniadau casglu gwastraff yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol yn ystod mis Medi.

- 2.2.6 Iechyd Cyngor Cyfan – 11) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen – AMBR - 85%, Targed - 90%

Adroddwyd bod 85% o ymatebion i geisiadau FOI/EIR wedi'u cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith yn Ch1, i lawr o 92% yn Ch4 2025/26 ac yn is na'r lefel cydymffurfiaeth ddisgwyliedig o 90% a bennwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Cofnododd yr adroddiad 62 o ymatebion hwyr. Mae'r gostyngiad mewn perfformiad yn bennaf oherwydd nifer fach o feysydd gwasanaeth â chyfraddau cydymffurfiaeth is, gan gynnwys rhai meysydd lle mae cydymffurfiaeth wedi gostwng ers y chwarter blaenorol. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn cyfarfod â'r uwch swyddogion perthnasol i drafod y rhesymau dros y lefel cydymffurfiaeth is ac i gytuno ar unrhyw gamau sydd eu hangen.

- 2.2.7 Iechyd Cyngor Cyfan – 14) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd – AMBR – 2.3 diwrnod fesul CALI, Targed – 2.12 diwrnod fesul CALI

Roedd absenoldeb salwch Ch1 yn 2.31 o ddiwrnodau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul CALI, sy'n uwch na'r targed o 2.12. Salwch hirdymor oedd y prif bwysau, gan gyfrif am 1.66 diwrnod fesul CALI, o'i gymharu â 0.65 diwrnod fesul CALI ar gyfer salwch tymor byr. Y prif resymau dros absenoldeb oedd gôr bryder, straen ac iselder, triniaeth ar ôl llawdriniaeth neu driniaeth ysbyty, a chyflyrau iechyd hirdymor eraill. Bydd y gwaith presennol yn parhau, gyda gwaith adolygu wedi'i dargedu ar absenoldeb hirdymor er mwyn nodi achosion sylfaenol a chefnogi ymdrechion parhaus i reoli lefelau absenoldeb.

- 2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

- 2.3.1 Hysbysebwyd 90% o swyddi'r Cyngor fel rhai â gofyniad Cymraeg lefel 3 ac uwch, yn erbyn targed o 82%
- 2.3.2 Roedd canran y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis yn 0%, o'i gymharu â tharged o 12%
- 2.3.3 Cwblhawyd 100% o'r Cynlluniau Llwybr Cychwynnol o fewn yr amserlenni, gan ragori ar y targed o 90%
- 2.3.4 Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol mewn 15.6 diwrnod ar gyfartaledd, o fewn y targed o 18 diwrnod

- 2.3.5 Roedd 98.5% o sefydliadau bwyd yn cyrraedd safonau hylendid bwyd, gan ragori ar y targed o 98%
- 2.3.6 Roedd canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o adeiladau'r Cyngor yn 56.57%, gan ragori ar y targed o 47%
- 2.3.7 Roedd 100% o'r strydoedd a archwiliwyd yn lân, gan ragori ar y targed o 98%

3. Yr Iaith Gymraeg



	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) Canran y swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor a oedd â gofyniad Cymraeg Lefel 3 neu uwch [>]	90%	82%	G	85%	Hysbysebwyd 196 o'r 218 o swyddi gwag ar lefel siarad Cymraeg 3, 4 neu 5 (89.91%). Mae'r data recriwtio'n cwmpasu Ionawr–Mawrth 2026 er mwyn caniatáu ar gyfer y cyfnod rhwng cyfweliad a chyflogaeth.
02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg [>]	48	50	M	50	Cofrestrodd 5 aelod o staff o'r newydd ar gwrs Cymraeg yn ystod Ch1
03) Nifer y cwynion sy'n codi amheuaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg [<]	1	2	G	0	
04) Nifer y cwynion a arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg [<]	1	2	G	1	
05) Canran yr ymweliadau ag ochr Gymraeg ein prif wefan [>]	7.98%	8%	M	8.57%	Cafwyd 19.5k o ymweliadau â'r ochr Gymraeg o'r wefan, allan o gyfanswm o 243k.
06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg [>]	4.47%	6.00%	C	-	Cynhaliwyd dau weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod Ch1.
07) Canran dilynwyr prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg y Cyngor [>]	22.02%	22%	G	22.87%	Roedd 6,442 o ddilynwyr ar Facebook a 4,659 ar X.
08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] [>]	66.28%	67.00%	M		Roedd 66.28% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.
09) Uned Iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [>]	100%	95%	G		



4. Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Tudalen 30

	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol [>]	247	230	G	256	
02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol [>]	85.91%	92%	A	96.34%	Roedd perfformiad Ch1 yn 85.91%, islaw'r targed yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion, o 84 yn Ch1 2025/26 i 220 yn Ch1 2026/27. Mae adnoddau staff wedi'u neilltuo i helpu i ymdopi â'r galw cynyddol, ac mae adolygu a chau ymholiadau'n brydlon yn parhau'n flaenoriaeth.
03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol [>]	88.80%	86%	G	88.07%	
04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal [<]	306	330	G	295	
05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn [>]	95.70%	94%	G	98.20%	
06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter [<]	188	250	G	163	
07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr [<]	0%	12%	G	3.57%	
08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [<]	6.25%	15%	G	7.69%	
09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau [>]	90.27%	90%	G	90.61%	
10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni [>]	100.00%	90%	G	100%	
12) Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif [>]	135,541	142,500	M	146,746	Yn Ch1, cofnodwyd 126,830 o gyfranogiadau mewn canolfannau hamdden ac 8,711 mewn digwyddiadau cymunedol. Effeithiwyd ar berfformiad gan waith ar y to yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.
13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [>]					

5. Addysg



	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) [>]	92.70%	95%	M	93.20%	Roedd presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd yn 92.70%.
02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) [>]	88.10%	90%	M	88.20%	Roedd presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd yn 88.10%.
03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth [<]					
04) Nifer yr ysgolion mewn categori dilyniant neu gategori statudol gan Estyn [<]	1			1	Roedd un ysgol mewn categori dilynol neu statudol gan Estyn yn Ch1.
05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol [<]	21	23	G	23	Cafodd dau blentyn neu berson ifanc eu gwahardd yn barhaol rhwng Ebrill a Mehefin. Cyfanswm y flwyddyn academiaidd 2025/26 oedd 21.
06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol [<]	3			6	
09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [>]					
10) Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif [>]	632	643	M	924	



6. Tai

Tudalen 32

	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol [<]	16	18	G	15	
02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol [>]	80.80%	85%	M	84%	
03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [<]	56	51	A	89	Roedd perfformiad Ch1 ychydig yn uwch na'r targed gan fod angen gwaith atgyweirio a chydymffurfio ychwanegol ar rai eiddo cyn eu hailosod, ynghyd ag oedi cyn adennill meddiant ar ôl i denantiaethau ddod i ben.
04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (£1k-10k) [<]	154	205	G	205	
05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) [<]		221		289	Ni chwblhawyd unrhyw addasiadau mawr yn Ch1.
06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor [>]	4	4	G	4	
07) Canran tenantiaid presennol y Cyngor sydd ag ôl-ddyledion rhent o fwy na deu fis [N] [<]					
08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy ein hymyriadau Tai Gwag [>]	17	17	G	15	
09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref [>]	100%	90%	G	1	
10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) [<]	168			117	
11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd [<]	72			79	

7. Economi



	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd [>]	109.00%			69.87%	O flaen y proffil — cyllideb: £1.65m; gwariant: £1.8m (109%).
02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£) [>]	£1.8m			£1.653m	
03) Canran yr unedau busnes a masnachol a osodwyd gan y Cyngor [>]	98.98%	95%	G	95%	
05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd [>]	94.67%	94%	G	93.90%	142 o'r 150 o geisiadau cynllunio.
06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod [>]	91.30%	80%	G	86.76%	
07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [>]	68.00%	90%	C	85.42%	Cwblhawyd yr holl arolygiadau Categori A a B a oedd yn ddyledus yn Ch1, ynghyd ag 11 o'r 19 arolygiad Categori C. Rhoddir blaenoriaeth i'r arolygiadau sy'n weddill yn Ch2.
08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd [>]	98.50%	98%	G	98.66%	
09) Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth [>]	99	99	G	162	Yn Ch1, cefnogwyd 99 o ymyriadau llwybrau at gyflogaeth, gan gynnwys cymorth gan weithwyr allweddol, ailhyfforddi a chymryd rhan mewn addysg.



8. Newid Hinsawdd

	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Ch1 2025/26	Sylwadau Ch1
01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladau'r cyngor (tCO2e) [<]					
02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio [>]	63.95%	70%	C	63.88%	Roedd perfformiad ailgylchu Ch1 yn 63.95%, ychydig yn uwch na'r 63.88% a gofnodwyd yn Ch1 2025/26. Cyflawnwyd y gwelliant hwn er gwaethaf y gostyngiad mewn ailgylchu pren sy'n effeithio ar awdurdodau ledled Cymru. Mae aildddefnyddio ar safleoedd ailgylchu'n parhau i gynyddu, ac mae gwastraff gweddilliol wedi gostwng ychydig.
03) Canran y gwastraff o adeiladau'r Cyngor a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio [>]	56.57%	47%	G	46%	
04) Canran y strydoedd sy'n lân [>]	100.00%	98%	G	100%	
05) Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon [<]	0.05	0.50	G	0.01	
06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]					
07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]					
08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]					
09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tCO2e inc WTT) [<]	157.11	156	M	156.51	
10) Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau newid hinsawdd achrededig [>]					
12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus a weithredir gan y Cyngor (kWh) [>]	69,447			76,786	

9. Iechyd Cyngor Cyfan

	CAMG	Tuedd	Cyllideb	Canlyniad	Amrywiant (%)	Rhagolygon o'r Gwariant	Amrywiant a Ragwelir (%)
01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) [<]	G		£205,343,000			£203,956,000	-0.68%
02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) [>]			£72,127,000			£70,543,000	-2.20%
03) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn [>]						-£17,703,920	
04) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer [<]						1.78%	
05) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb [<]						1	
06) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>]	M			96.6%			
07) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>]	M			93.6%			

Tudalen 35

	Ch1	Targed Ch1	CAMG Ch1	Sylwadau Ch1
08) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol [<]	5			Cofnodwyd 14 o gwynion Cam 2: cadarnhawyd neu gadarnhawyd yn rhannol 5 ohonynt, ac ni chadarnhawyd neu nid oedd teilyngdod i 8 ohonynt.
09) % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) [>]	85.71%	80%	G	Cafodd 12 o'r 14 o gwynion Cam 2 ymateb ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (85.71%).
10) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) [>]	100.00%	80%	G	
11) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen [>]	85.00%	90%	A	Yn Ch1, cofnodwyd 258 o geisiadau, gyda 62 o ymatebion hwyr.
12) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) [>]	15%			
13) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (CALI)	2,373.49			
14) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd [<]	2.31	2.12	A	Salwch hirdymor oedd y prif bwysau, gan gyfrif am 1.66 diwrnod fesul CALI, o'i gymharu â 0.65 diwrnod fesul CALI ar gyfer salwch tymor byr.
15) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul CALI	0.65			
16) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul CALI	1.66			
17) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) [<]				
18) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith [>]	68.06%	70%	M	Llenwyd 49 o'r 72 o swyddi gwag yn ystod y rownd hysbysebu gyntaf.

10. Casgliad ac Argymhellion

- 10.1 Mae'r perfformiad o 86% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.
- 10.2 Mae hyn yn dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.
- 10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**
 - 10.3.1 Yr Iaith Gymraeg – 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg
 - 10.3.2 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol
 - 10.3.3 Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)
 - 10.3.4 Economi – 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hyllendid Bwyd
 - 10.3.5 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio
 - 10.3.6 Iechyd Cyngor Cyfan – 11) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen
 - 10.3.7 Iechyd Cyngor Cyfan – 14) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	22 Medi 2026
Pwnc:	Hunanasesiad a Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Drafft 2025/26
Aelod(au) portffolio:	Y Cynghorydd Robin W Williams
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Huw Ynyr, Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad:	Gwyndaf Parry Gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Amh

A – Argymhellion a rhesymau

1. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r ddogfen atodedig fel drafft ac yn gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried ei chynnwys ymhellach yn ei gyfarfod ar y 28ain Medi 2026

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'r ddyletswydd ganlynol yn cael ei chydabod ar Gyngor Sir Ynys Môn:

... Parhau i adolygu ei berfformiad

1) Rhaid iddo barhau i adolygu'r graddau -

(a) ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol,

(b) ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, a

(c) bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r materion a nodir ym mharagraffau

(a) a (b)

ac mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol,

gwneud adroddiad yn nodi ei gasgliadau o ran i ba raddau y cyflawnodd y gofynion perfformiad (A, B ac C uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Er mwyn cwrdd â'r disgwyliad uchod, paratowyd Hunanasesiad drafft y Cyngor ar gyfer 2025/26. Mae'r adroddiad yn dangos allbwn fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor ac mae'n ddiwedd proses sy'n uno sawl agwedd wahanol gyda'i gilydd.

Yn ogystal mae'r adroddiad yn adlewyrchu perfformiad y cyngor yn erbyn ein amcnaion llesiant yn unol a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ac yn monitor cynydd yn erbyn chwech amcan strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan ei bod yn disgwyliadau craidd y ddeddfwriaethau - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac wedi ei ddiprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfansoddiad

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac wedi ei ddiprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfansoddiad

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, ac felly nid oes unrhyw ofyniad cyllidebol uniongyrchol yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes o fewn cyllideb gymeradwy'r Cyngor.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel cyngor.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Yn rhannol - ie, ynglŷn â'r gwelliannau disgwylidig sydd eu hangen ym mherfformiad rhai ardaloedd ac ati.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Mae rhan benodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithredol sy'n digwydd ar draws ystod y Gwasanaethau

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Mae trigolion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau Sgriwtini corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi eu barn a herio'r gorfforaeth ar ei pherfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn nodi sut mae'r gwahanol wasanaethau'n cynnwys dinasyddion yn ei benderfyniadau.

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ragwelir y bydd y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amh

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amh

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Cafodd hyn ei ystyried gan y Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (LT) ac mae eu sylwadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad
2. Cyllid / Swyddog 151	Mae sylwadau'r Swyddog Adran 151 fel aelod o'r LT hefyd wedi'u cynnwys
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod o'r LT wedi'u cynnwys
4. Adnoddau Dynol	
5. Eiddo	
6. Technoleg Gwybodaeth	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	
9. Aelodau lleol	
10. Pwyllgor Llywodraethu ag Archwilio	Cyflwynir y drafft hwn o'r adroddiad i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried ac i ddarparu adborth ar 28/9.

F – Atodiadau

Hunanasesiad a Adroddiad Perfformiad (Llesiant) 2025/26

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Adroddiad Hunanasesiad 2024/25



Hunanasesiad ac Adroddiad Perfformiad (Llesiant) 2025/26

Paratowyd gan – Gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

Dyddiad cyhoeddi – Medi 2026

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Sylwer: Mae'r ddogfen hon yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd gyda chymorth deallusrwydd artiffisial (DA). Mae'r awdur wedi adolygu'r deunydd hwn er mwyn sicrhau ei fod yn gywir, ac wedi'i olygu yn ôl yr angen. Yr awdur sy'n llwyr gyfrifol am gynnwys y ddogfen.

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn asesu perfformiad, trefniadau llywodraethu, defnydd o adnoddau a gweithgarwch gwella'r Cyngor yn ystod 2025/26, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.



Crynodeb

Casgliad cyffredinol: Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol

Mae'r trefniadau wedi'u gwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, deall y galw a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau, cynllunio anghenion y gweithlu, ymateb i adborth a nodi risgiau cyn iddynt ddatblygu'n faterion corfforaethol ehangach.

Sut rydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Daeth proses hunanasesu'r Cyngor i'r casgliad bod y trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a llywodraethu wedi gwreiddio, ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, cefnogi penderfyniadau, cyflawni blaenoriaethau a nodi cyfleoedd i wella.

Sut ydyn ni'n gwybod?

- Monitro'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol.
- Hunanasesiadau Gwasanaeth ac Adolygiadau Gwasanaeth a gynhaliwyd gyda swyddogion uwch ac aelodau etholedig.
- Tystiolaeth ariannol, tystiolaeth am y gweithlu a thystiolaeth lywodraethu.
- Gwaith Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol ac arolygiadau rheoleiddiol.
- Y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ac adroddiadau pwyllgor; a
- Asesiad Panel Perfformiad.

Beth allwn ni ei wneud yn well, a sut?

Mae blaenoriaethau gwella ar gyfer 2026/27 yn cynnwys:

- Moderneiddio, gwasanaethau digidol a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- Arweinyddiaeth seiliedig ar le, datblygu economaidd ac ymgysylltu â chymunedau
- Gwydnwch y gweithlu a chapasiti'r sefydliad
- Gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu mewnol; a
- Rheoli asedau




Uchafbwyntiau Perfformiad 2025/26

Sut y cyfrannodd perfformiad y Cyngor at yr Amcanion Llesiant

1

AMCAN LLESIANT 1

Mae pobl Ynys Môn wedi'u haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial tymor hir



UCHAFBWYNTIAU DPA

100%

Plant wedi cyrraedd targedau trochi'r Uned Iaith Gymraeg

0.6%

Gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

82

Swyddogion wedi cael hyfforddiant i ddysgu Cymraeg

97.9%


Defnyddwyr llyfrgell yn graddio'r gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn



2

AMCAN LLESIANT 2

Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl



UCHAFBWYNTIAU DPA

90.17%

Ymweliadau statudol â phlant mewn gofal wedi'u cwblhau mewn pryd

95%

Aelwydydd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

619,301

Cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif

86%


Boddhad tenantiaid ag atgyweiriadau ymatebol



3

AMCAN LLESIANT 3

Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



UCHAFBWYNTIAU DPA

100%

Unedau busnes a gofod masnachol y Cyngor wedi'u meddiannu

96%

Ceisiadau cynllunio wedi'u penderfynu o fewn yr amserlen

99.9%

Strydoedd a oedd yn lân pan gawsant eu harolygu

64.17%

Gwastraff cartref wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2025/26, ac o ba mor effeithiol y mae'n cyflawni'r ymrwymïadau a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae'n dod â threfniadau hunanasesu blynyddol y Cyngor a'i drefniadau adrodd ar berfformiad a llesiant ynghyd mewn un ddogfen, gan ddarparu asesiad cynhwysfawr o berfformiad, llywodraethu, defnydd o adnoddau a gwelliant parhaus.

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei lywio gan ei weledigaeth, sef "**creu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu**". Mae Cynllun y Cyngor yn nodi'r amcanion strategol a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth hon, ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio, cyflawni a monitro blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cefnogi uchelgais y Cyngor i wella canlyniadau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r adroddiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n asesu pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau, yn cefnogi llywodraethu da ac yn cyfrannu at lesiant hirdymor pobl Ynys Môn.

Yn ogystal ag adrodd ar berfformiad, mae'r adroddiad yn adlewyrchu canfyddiadau proses Hunanasesu flynyddol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd drwy hunanasesiadau gwasanaeth, adolygiadau gwasanaeth, monitro perfformiad, rheolaeth ariannol, cynllunio'r gweithlu, trefniadau llywodraethu a gweithgarwch sicrwydd. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn gweithredu, yn nodi enghreifftiau o arfer da ac yn amlygu'r meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni a'i berfformiad yn erbyn yr ymrwymïadau a osododd iddo'i hun yn ystod y flwyddyn. Er ei fod yn tynnu sylw at gynnydd tuag at ganlyniadau tymor hwy, mae llawer o ganlyniadau ehangach i gymunedau yn cael eu dylanwadu gan ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, gan gynnwys polisi cenedlaethol, amodau economaidd a gweithgarwch sefydliadau partner.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i drigolion, cymunedau a busnesau ar draws yr Ynys. Mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd yn erbyn yr ymrwymïadau yn Nogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26, y cynnydd tuag at gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor erbyn 2028, a chyfraniad y Cyngor at ei Amcanion Llesiant. Mae hefyd yn nodi'r prif feysydd y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'i waith gwella yn ystod 2026/27 a thu hwnt.

Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r amcanion strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor wedi'u llunio i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Ein hamcanion llesiant:

- Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
- Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

Amcanion Llesiant y Cyngor	Amcanion Strategol y Cyngor	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir	Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a'r Economi	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib	Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai		✓	✓	✓	✓	✓	
Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Yr Iaith Gymraeg, Economi a Newid Hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Cynllun y Cyngor 2023–2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n llywio penderfyniadau ar bob lefel. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a bwrw ymlaen â blaenoriaethau, yn llywio gwariant blynyddol ac yn galluogi'r Cyngor i fonitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda trigolion, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

'Creu Ynys Môn sy'n
iach a llewyrchus lle
gall pobl ffynnu'



Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu,
magu hyder a defnyddio'r iaith



Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg
gywir



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar
gyfer heddiw a chenedlaethau'r
dyfodol



Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i
alw rhywle'n 'gartref'



Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu
economi'r ynys



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r
afael â newid a gweithio at fod
yn sefydliad sero net erbyn
2030



Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

Ein Dull Hunanasesu

Sefydldd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefniadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fonitro ac asesu ei berfformiad drwy broses hunanasesu.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r broses hunanasesu yn gynhwysfawr bob blwyddyn. Mae'r adolygiad yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom ddatblygu ein dull o gynnal Hunanasesiadau Gwasanaeth ac Adolygiadau Gwasanaeth ymhellach. Yn dilyn adborth o'r flwyddyn flaenorol, symudodd y fframwaith asesu oddi wrth y disgrifiadau blaenorol, sef "Rhagorol / Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau / Yn Bodloni Disgwyliadau / Angen Gwella", a chyflwynwyd model aeddfedrwydd pedair lefel cliriach. Cafodd y model hwn ei lunio i helpu gwasanaethau i ystyried nid yn unig a oedd trefniadau craidd ar waith, ond hefyd pa mor dda yr oedd y trefniadau hynny wedi gwreiddio, wedi'u hintegreiddio ac yn cael eu defnyddio i gefnogi gwelliant.

Parhaodd gwasanaethau i hunanasesu yn erbyn pedwar maes allweddol. Mae gan bob maes ei feini prawf sgorio manwl ei hun er mwyn adlewyrchu y gwahanol fathau o dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y thema honno, gan barhau i ddarparu fframwaith cyson ar gyfer herio a chymharu ar draws gwasanaethau. Gellir gweld y pedwar maes isod. Parhaodd cyfarfodydd Adolygu Gwasanaeth i ddarparu her a chymedroli, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan wasanaethau ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad, cyllid, y gweithlu a llywodraethu.



Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad



Cynllunio Ariannol



Cynllunio Gweithlu



Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg

Mae hunanasesu yn rhan annatod o broses wella unrhyw sefydliad, a'i brif ddiben yw rhoi sicrwydd mewnol. Fodd bynnag, cydnabyddir yng Nghyngor Sir Ynys Môn fod hunanasesu da hefyd yn gallu rhoi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr a thrigolion.

Gofynnwyd i bob un o'r naw gwasanaeth gwblhau hunanasesiad yn erbyn y fframwaith wedi'i ddiweddarau. Dewisodd gwasanaethau lefel ar gyfer pob un o'r pedwar maes allweddol a chyflwyno dystiolaeth ategol drwy'r templed. Yna cafodd eu canfyddiadau eu herio drwy'r broses Adolygu

Gwasanaeth gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig. Bwriad y dull diwygiedig yw cefnogi asesiad mwy cyflawn o aeddfedrwydd, gwydnwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Lefel Perfformiad	Disgrifiad
Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Mae'r trefniadau'n aeddfed, yn rhagweithiol ac yn arloesol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio data a thystiolaeth i ragweld galw, yn cynllunio dros y tymor hwy, â diwylliant gweithlu cryf, yn dangos llywodraethu ystwyth ac yn gallu dangos arfer arweiniol neu arfer sydd wedi'i gydnabod yn allanol.
Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Mae'r trefniadau wedi gwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, deall galw a'r ffactorau sy'n gyrru costau, cynllunio anghenion y gweithlu, ymateb i adborth a nodi materion cyn iddynt ddod yn risgiau corfforaethol.
Lefel 2 – Gwreiddio a Gweithredol	Caiff y prif ddyletswyddau statudol a'r gofynion corfforaethol eu cyflawni, ac mae trefniadau sylfaenol ar waith. Fodd bynnag, mae gweithgarwch gwella yn aml yn canolbwyntio ar dasgau unigol neu'n ymateb i broblemau, yn hytrach na bod yn gwbl strategol.
Lefel 1 – Datblygu ac Ymatebol	Mae'r trefniadau'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, gyda dibyniaeth ar unigolion allweddol, cynllunio cyfyngedig neu wydnwch cyfyngedig. Mae angen gwella er mwyn symud o ddull ymatebol o ddarparu gwasanaethau tuag at drefniadau sefydlog a chynaliadwy.

Cyfrifwyd sgôr gyffredinol y gwasanaeth drwy ddefnyddio egwyddor gymedroli: ni chaiff y sgôr gyffredinol fod fwy nag un lefel yn uwch na'r sgôr isaf a ddyfarnwyd i unrhyw thema unigol. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad yw gwendid sylweddol mewn un maes yn cael ei guddio gan berfformiad cryfach mewn mannau eraill, ac yn cefnogi darlun cytbwys o wydnwch ac effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth.

Mae'r canlyniadau manwl ar gyfer pob gwasanaeth yn erbyn y pedair thema hunanasesu i'w gweld yn [Atodiad 1](#). Cafodd y canlyniadau hyn eu defnyddio i lywio asesiad cyffredinol y Cyngor ac maent yn rhoi crynodeb o berfformiad gwasanaethau ar draws y pedwar maes hunanasesu yn ystod 2025/26.


Gofynnwyd i wasanaethau unigol nodi meysydd i'w gwella y byddai angen iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r meysydd gwella hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad hwn; fodd bynnag, mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn maes gwella ehangach ar gyfer y Cyngor a byddant yn cael eu rheoli gan wasanaeth arweiniol a nodir yn adran 'Meysydd Gwella a Nodwyd' yr adroddiad hwn.

Caiff meysydd gwella gwasanaethau unigol eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan geisio ateb y cwestiynau canlynol mewn ffordd mor glir â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella, a sut?

Mae'r Hunanasesiad yn ffurfio rhan hanfodol o'n trefniadau rheoli perfformiad fel y gellir ei weld yn y diagram isod –



Am ragor o fanylion ar sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad, ewch i <https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx>.

Sicrwydd Allanol ac Asesiad Panel Perfformiad

Yn ogystal â phroses Hunanasesu flynyddol y Cyngor, cynhaliwyd Asesiad Panel Perfformiad (APP) ym mis Tachwedd 2025 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cafodd yr asesiad ei hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ystyriodd y panel pa mor effeithiol yr oedd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

Daeth y panel i'r casgliad bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'i ddyletswyddau perfformiad, gan dynnu sylw at drefniadau llywodraethu cryf, perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, a chyfeiriad clir o welliant. Nododd yr asesiad hefyd nifer o argymhellion yn ymwneud â moderneiddio, monitro perfformiad, arweinyddiaeth seiliedig ar le, gwydnwch y gweithlu, cyflawni prosiectau a datblygu economaidd.

Mae'r camau gweithredu a nodwyd mewn ymateb i'r APP wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Darparu Gwasanaeth ac yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, a chânt eu monitro drwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr [adroddiad Asesiad Panel Perfformiad a'r ymateb gan y Cyngor](#).

Themâu Allweddol a Nodwyd gan y Panel

Nododd yr Asesiad Panel Perfformiad nifer o gryfderau a chyfleoedd i wella mewn perthynas â'r canlynol:

Cryfderau a Nodwyd gan y Panel	
Trefniadau llywodraethu cryf	Partneriaethau cryf
Perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion	Hunaniaeth gref seiliedig ar le
Tystiolaeth glir o welliant ers 2018	

Argymhellion a wnaed gan y Panel	
Arweinyddiaeth seiliedig ar le ac ymgysylltu â chymunedau	Cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â staff
Moderneiddio sefydliadol a chynaliadwyedd hirdymor	Trefniadau craffu a datblygu aelodau
Datblygu economaidd a chyfleoedd twf	Monitro perfformiad a defnyddio gwybodaeth am berfformiad
Capasiti i gyflawni prosiectau a gwydnwch sefydliadol	Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio

Cynllunio Gwasanaeth a pherfformiad

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaethau yn arf hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n nodi beth fydd gwasanaethau'n ei ddarparu, yn darparu trywydd clir ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun y Cyngor, ac yn sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau. Yna mae rheoli perfformiad yn rhoi hyn ar waith drwy alluogi'r Cyngor a'i staff i gynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau drwy amcanion strategol, gwasanaethol ac unigol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant parhaus.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad y Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio corfforaethol clir drwy Gynllun y Cyngor, y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith cyson ar gyfer pennu blaenoriaethau, monitro cynnydd ac adrodd ar berfformiad.

Mae'r broses Adolygu Gwasanaeth yn rhoi cyfle ychwanegol i asesu i ba raddau y mae'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio ar draws gwasanaethau. Mae'r dystiolaeth yn dangos enghreifftiau o arfer aeddfed a rhagweithiol, ond hefyd feysydd lle gellid cryfhau'r defnydd o ddata, gwybodaeth ddadansoddol, meincnodi a dulliau o sicrhau gwelliant parhaus.

Yn ystod 2025/26, cryfhodd y Cyngor gapasiti rheoli strategol hefyd drwy ailstrwythuro'r hen Wasanaeth Trawsnewid yn ddau wasanaeth mwy penodol: Digidol, Perfformiad a Moderneiddio, ac Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer. Mae hyn yn darparu capasiti arwain cliriach ar gyfer moderneiddio digidol, perfformiad, y gweithlu, cyfathrebu, profiad y cwsmer a gwelliant sefydliadol ehangach.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio corfforaethol clir, gyda'r amcanion strategol yn cael eu cefnogi gan ymrwymadau cyflawni blynyddol, Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r trefniadau hyn yn cysylltu blaenoriaethau corfforaethol â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac yn darparu sail ar gyfer monitro cynnydd.	• Cynllun y Cyngor a Dogfen Gyflawni Flynyddol • Gwerthoedd y Cyngor • Strategaethau a chynlluniau ategol • Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 12-16, 20-22 • Cerdyn Sgorio Corfforaethol • Cynllun Darparu Gwasanaeth

Meincnodi, Casglu a Dadansoddi Data – Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddefnydd o ddata, dadansoddi a meincnodi er mwyn cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd drwy ddangosyddion corfforaethol a gwasanaeth, gan ddefnyddio meincnodi lle mae data cymharol dibynadwy ar gael.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth • Tystiolaeth Adolygiadau Gwasanaeth a Hunanasesiadau Gwasanaeth • Dangosfyrddau Power BI: sero net, mynd i'r afael â thlodi, a phrofiad y cwsmer • Stats Cymru • Data Cymru / CLILC • Data Cymru / CLILC Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi) • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 • Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor • Cofnodion Pwyllgor y Cyngor
Monitro ac Adrodd Rheolaidd – Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd drwy drefniadau corfforaethol sefydledig, gan gynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, diweddariadau ar y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, adroddiadau perfformiad blynyddol, craffu ac adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.	• Adroddiad Perfformiad Blynyddol • Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol • Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Diweddariadau Monitro'r Dogfen Gyflawni Flynyddol • Adroddiadau Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a Pwyllgor Gwaith • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR)
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau ymgysylltu ac adborth i ddeall barn trigolion, defnyddwyr gwasanaeth, tenantiaid, partneriaid, busnesau a staff, ac i lywio gwaith cynllunio a gwella gwasanaethau.	• Ymgynghoriadau cyhoeddus • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 • Arolwg Preswylwyr • Arolwg Staff
Arloesi ac Addasu – Gall y Cyngor ddangos enghreifftiau o arloesi ac addasu ar draws gwasanaethau, yn enwedig wrth ymateb i heriau sy'n	• Porth car solar mewn meysydd parcio'r cyngor • Uned Ysgol y Graig 'Fach' yn Net Sero • Porthladd rhydd

ymwneud â'r hinsawdd, digidol, llesiant cymunedol, yr economi a darparu gwasanaethau.	• Cynllun Strategol Digidol a datblygiadau CRM
Cydymffurfio â Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddiol – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i gefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, dyletswyddau statudol, gofynion archwilio a safonau rheoleiddiol, ac i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw.	• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynnyddol • Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Diwylliant o Welliant Parhaus – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi gwelliant parhaus, gan gynnwys adroddiadau perfformiad rheolaidd, hunanasesu gwasanaethau, craffu, archwilio a gweithgarwch adolygu. Mae proses Adolygu Gwasanaeth 2025/26 wedi cryfhau'r sail dystiolaeth ac wedi helpu i nodi lle mae angen gwreiddio gweithgarwch gwella ymhellach.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 • Proses Hunanasesu Gwasanaeth ac Adolygu Gwasanaeth

Cynllunio Ariannol

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dyrannu adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at flwyddyn), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y Cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaethau i'r gymuned.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer rheoli cyllidebau, monitro ariannol, cynllunio tymor canolig a dyrannu adnoddau. Mae gwasanaethau'n dangos dealltwriaeth dda o bwysau ariannol, y ffactorau sy'n gyrru costau a chyfleoedd cyllido, ac maent yn defnyddio gwybodaeth ariannol yn gynyddol i gefnogi cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, gan gynnwys chwyddiant, pwysau cynnal a chadw asedau ac ansicrwydd ynghylch ffrydiau cyllido yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau'n rheoli'r risgiau hyn yn weithredol ac yn nodi cyfleoedd i wella cynaliadwyedd ariannol.


Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Rheoli Cyllideb – Mae gan y Cyngor broses gadarn ar gyfer rheoli cyllidebau sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, gan leihau'r risg o orwariant neu danariannu.	Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Sefydlogrwydd Ariannol – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd ariannol drwy reolaeth ariannol ofalus, cynllunio cronfeydd wrth gefn a rhagolygon ariannol tymor canolig.	Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Datganiad ar Gyfrifon Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol – Mae'r Cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni galw gwasanaethau a gofynion cyflawni, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae ganddo drefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Llyfr y Gyllideb Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 Strategaeth Gyfalaf Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029

Lefel 3 – Integredig ac
Effeithiol



Monitro Ariannol, Tryloywder ac Atebolrwydd – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar berfformiad ariannol drwy adroddiadau cyllideb rheolaidd, atebolrwydd cyhoeddus a threfniadau llywodraethu.	• <u>Datganiad ar Gyfrifon</u> • <u>Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 23-24</u> • <u>Y Broses Pennu'r Gyllideb</u> • <u>Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith</u>
Llywodraethu Ariannol, Archwilio a Chydymffurfio – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ariannol, safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol, gyda chymorth gweithgarwch archwilio mewnol ac allanol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros drefniadau rheoli ariannol.	• <u>Datganiad Llywodraethu Blynnyddol</u> • <u>Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7</u> • <u>Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</u> • <u>Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol</u> • <u>Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynnyddol</u>
Cynhyrchu Incwm a Chyllid Allanol – Mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i chwilio am gyfleoedd cyllido allanol ac yn cynhyrchu incwm o amrywiaeth o ffynonellau i gefnogi darparu gwasanaethau, buddsoddiad a chynaliadwyedd hirdymor.	• <u>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb</u> • Rhaglenni cyllido grant • Rhaglen y Porthladd Rhydd • Y Gronfa Ffyniant Gyffredin • Y Gronfa Ffyniant Bro • Cyllid grant ar gyfer tai ac adfywio • Hunanasesiadau Adolygu Gwasanaeth



Cynllunio Gweithlu

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio'r gweithlu yn broses lle mae'r Cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu a'i anghenion yn y dyfodol yng nghyd-destun ei ymrwymadau, ei gynlluniau a'i amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw y gweithwyr y bydd eu hangen arno yn y dyfodol, gan adlewyrchu'r egwyddor o feddwl am y tymor hir sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio gweithlu'r Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i gefnogi cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw staff, dysgu a datblygu, cynllunio olyniaeth a llesiant gweithwyr. Mae gwasanaethau'n dangos dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu'r gweithlu, ac maent yn defnyddio gwybodaeth am y gweithlu'n gynyddol i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Nododd y broses Adolygu Gwasanaeth enghreifftiau o arferion cryf o ran cynllunio'r gweithlu ar draws y Cyngor, gan gynnwys cyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid, cynllunio olyniaeth a gweithgarwch dysgu a datblygu wedi'i dargedu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu heriau parhaus mewn rhai gwasanaethau, gan gynnwys recriwtio a chadw staff arbenigol, proffil oedran hyn y gweithlu a gwydnwch y gweithlu mewn swyddi proffesiynol a thechnegol allweddol.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Hyfforddiant a Datblygu – Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu, hyfforddi a datblygu i gefnogi datblygiad proffesiynol, arweinyddiaeth, cynllunio olyniaeth ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol.	• Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 • Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant • Academi Môn • Cyrsiau byr i staff
Cynllunio'r Gweithlu – Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddo'r bobl iawn, â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu yn cefnogi gwasanaethau i nodi anghenion y gweithlu i'r dyfodol, risgiau olyniaeth ac anghenion sgiliau, gan fuddsoddi hefyd yn natblygiad talent y dyfodol drwy gyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid.	• Strategaeth Cynllunio Gweithlu • Strategaeth Rheoli Risg Pobl • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 • Rhaglen Denu Talent • Rhaglen Raddedigion Dyfodol Môn • Academi Môn

	• Cyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid ar draws gwasanaethau
Buddion cyflogaeth – Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gweithle ac ystod o bolisiau eraill sydd wedi'u cynllunio i wella cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.	• Gweithio hyblyg (Hybrid / Opsiynnau i weithio'n hyblyg / ymddeol yn hyblyg) • Cynllun beicio i'r gwaith • Manteision Môn
Adolygu perfformiad – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi perfformiad a datblygiad gweithwyr, ac i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor drwy sgysiau datblygu blynyddol, adolygiadau gweithlu a gweithgarwch rheoli talent.	• System werthuso • Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19
Ymgysylltu â gweithwyr a'u boddhad – Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o fecanweithiau cyfathrebu, ymgysylltu ac adborth i gefnogi llesiant gweithwyr, ymgysylltiad a datblygiad sefydliadol.	• Presenoldeb staff • Cadw staff • Holiaduron staff • Sesiwn Briffio Aelodau • Fforwm Môn • Y Ddolen • Diweddariad gan y Prif Weithredwr • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19

Llywodraethu: Rheoli Risg, Archwilio, Caffael a Chontractau

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y Cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r Cyngor. Mae'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y Cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg, archwilio, caffael a rheoli contractau'r Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor strwythurau llywodraethu, trefniadau rheoli risg, swyddogaethau archwilio mewnol a phrosesau caffael sefydledig sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, atebolrwydd a chydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasoedd cadarnhaol â rheoleiddwyr, arolygwyr ac archwilwyr, ac yn cael sicrwydd drwy ystod o waith adolygu mewnol ac allanol. Ceir sicrwydd drwy weithgarwch Adolygu Gwasanaeth, archwilio mewnol, archwilio allanol, arolygiadau rheoleiddiol a phroses y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Fodd bynnag, mae'r broses Adolygu Gwasanaeth a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn nodi meysydd lle gellid cryfhau trefniadau ymhellach, gan gynnwys caffael a rheoli contractau, rheoli risg ar lefel gwasanaeth, gwydnwch llywodraethu gwybodaeth, a'r gwaith parhaus o ddatblygu trefniadau perfformiad a sicrwydd.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Nodi ac asesu Risgiau – Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio.	• Strategaeth Rheoli Risg • Fframwaith Rheoli Risg • Cofrestr Risg Strategol • Cofrestr Risg Gwasanaeth • Cofrestr Risg Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24

Lliniaru Risgiau – Mae'r Cyngor yn rheoli risgiau'n rhagweithiol er mwyn lleihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol. Mae'n gwneud hyn drwy ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli a chatau lliniaru priodol.	• Strategaeth Rheoli Risd • Fframwaith Rheoli Risd • Cofrestr Risd Strategol • Cofrestr Risd Gwasanaeth • Cofrestr Risd Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24
Swyddogaeth Archwilio Mewnol – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngror i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a aelodau lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngror a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.	• Strategaeth Archwilio Mewnol • Siarter Archwilio Mewnol • Diweddariadau Archwilio Mewnol • Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24 • Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol
Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr – Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agored ac yn adeiladol â'i archwilywyr allanol a'i reoleiddwyr ar draws ei feysydd gwaith, gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gweithgarwch corfforaethol. Mae'r gwaith hwn yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch trefniadau rheoli ac arferion y Cyngor.	• Adroddiad Monitro Archwilio Allanol • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynnyddol • Adroddiadau Estyn • Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru • Asesiad Panel Perfformiad
Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a Chaffael Moesegol – Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau caffael perthnasol. Caiff contractau eu rheoli a'u monitro drwy gydol eu hoes, gan gynnwys pan fydd angen eu hadnewyddu neu sefydlu trefniadau newydd. Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau.	• Canllaw Caffael • Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029 • Polisi Caffael TG • Cytundeb a pholisi prosesu data • Datganiad Llywodraethu Blynnyddol • Diogelu mewn caffael a chontractio • Polisi Caffael Cynaliadwy • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Rheoli Contractau a Monitro Perfformiad – Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt.	• Strategaeth Rheoli Contractau • Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus ac yn defnyddio amrywiaeth o brosesau sicrwydd ac adolygu i nodi cyfleoedd i ddatblygu ymhellach. Yn ystod 2025/26, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella drwy'r broses Hunanasesu Gwasanaeth ac Adolygu Gwasanaeth, ochr yn ochr â materion llywodraethu a nodwyd drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac argymhellion a ddeilliodd o'r Asesiad Panel Perfformiad.

Bydd y materion llywodraethu a nodwyd drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i gael eu monitro a'u hadrodd drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r materion gwella isod yn cynrychioli'r prif feysydd corfforaethol i'w gwella a nodwyd drwy'r broses Hunanasesu ac ymateb y Cyngor i'r Asesiad Panel Perfformiad. Mae camau gweithredu sydd wedi'u nodi fel (APP) yn ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion yr Asesiad Panel Perfformiad, a byddant yn cael eu monitro drwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y Cyngor yn ystod 2026/27.

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
1. Mae angen i'r Cyngor barhau i foderneiddio ei wasanaethau, ei systemau a'i ddefnydd o fewnwelediad sefydliadol er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol, profiad y cwsmer a chynaliadwyedd hirdymor.	- Datblygu a gweithredu Cynllun Strategol Moderneiddio (APP) - Parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol a'r Cynllun Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial - Cryfhau gwydnwch seiber ar draws y Cyngor ac ysgolion - Datblygu gallu'r sefydliad i gasglu, dadansoddi a defnyddio data - Gwella'r defnydd o ddata, mewnwelediad a gwybodaeth am berfformiad i gefnogi penderfyniadau a gwella gwasanaethau (APP) - Adolygu trefniadau a dangosyddion perfformiad wrth baratoi ar gyfer Cynllun nesaf y Cyngor (APP)	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	Gorffennaf 2027
2. Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar ei drefniadau arweinyddiaeth seiliedig ar le ac ymgysylltu, gan ddatblygu gweledigaeth	Datblygu cynlluniau creu lleoedd a chanllawiau ategol seiliedig ar le (APP)	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Tîm Arweinyddiaeth	Mawrth 2028

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
hirdymor ar gyfer twf economaidd a llesiant cymunedol.	- Gwella'r defnydd o wybodaeth ddemograffig a gwybodaeth gymunedol i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau (APP) - Datblygu Cynllun Strategol Datblygu Economaidd hirdymor (APP) - Cryfhau trefniadau ymgysylltu â chymunedau i gefnogi blaenoriaethau lleol a darparu gwasanaethau (APP)		
3. Mae angen i'r Cyngor wella gwydnwch y gweithlu a chapasiti'r sefydliad er mwyn deall risgiau'r gweithlu yn y dyfodol yn well, cefnogi cynllunio olyniaeth a sicrhau bod digon o gapasiti i gyflawni blaenoriaethau a phrosiectau strategol.	- Datblygu dangosfwrdd craidd ar gyfer y gweithlu, set o ddangosyddion a fframwaith adrodd - Cynnal adolygiadau o wydnwch y gweithlu a chynllunio olyniaeth ar draws gwasanaethau - Nodi a monitro risgiau recriwtio, cadw staff a phroffil oedran y gweithlu - Gwerthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian mentrau i ddenu a chadw staff - Adolygu capasiti'r sefydliad a sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau strategol a rhaglenni moderneiddio (APP)	Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mawrth 2027
4. Mae angen i'r Cyngor barhau i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth, cydweithio a chyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau a gwella effeithiolrwydd y sefydliad.	- Parhau i weithredu'r Cynllun Cyfathrebu Mewnol newydd (APP) - Parhau i gryfhau gwaith partneriaeth gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (APP)	Tîm Arweinyddiaeth / Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mawrth 2027

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
	- Parhau i hyrwyddo dulliau cydweithredol o gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau cyffredin (APP) - Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau partneriaeth, gan gynnwys mentrau Oed-gyfeillgar a Gwybodus am Drawma (APP)		
5. Mae angen i'r Cyngor barhau i wella cynaliadwyedd, cyflwr a rheolaeth hirdymor ei asedau a'i seilwaith.	- Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau - Rhesymoli asedau'r Cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024–2029. - Gwella gwybodaeth am asedau i gefnogi cynllunio buddsoddi hirdymor a gwneud penderfyniadau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mawrth 2028

Cynnydd yn erbyn y materion gwella a nodwyd o'r hunanasesiad blaenorol

Mae'r tabl yn amlinellu'r camau gwella a nodwyd y llynedd a gellir gweld diweddariad ar y cynnydd isod.

Materion gwella a nodwyd	Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd
1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	Bwrdd Digidol	Mae'r Cyngor wedi parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a'i seilwaith data. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u cymeradwyo yng nghyllideb 2026/27 i sefydlu rôl Rheolwr Data, a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynllun Strategol Data. Mae gwaith cyflawni'r Cynllun Strategol Digidol wedi parhau, gan wella systemau, diogelwch a gwasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae gwaith hefyd wedi adolygu model y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid, tra bod yr ateb 'bot sgwrsio' a gynigiwyd yn flaenorol wedi cael ei ailasesu a bydd opsiynau eraill yn cael eu harchwilio. Statws: Ar y trywydd iawn – dyddiad targed Mawrth 2027.bu
2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu'r Cynllun Gwella Caffael, gyda threfniadau interim yn cynnal parhad tra oedd y broses recriwtio ar gyfer swydd y Rheolwr Caffael yn mynd rhagddi. Bu staff asiantaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu, cafodd polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau yn unol â Deddf Gaffael 2023, a chyflwynwyd hyfforddiant ar draws yr Awdurdod. Dechreuodd Rheolwr Caffael parhaol yn ei swydd ym mis Ebrill 2026, ac fe gymeradwyodd y Cyngor gyllideb ychwanegol ar gyfer 2026/27 i gryfhau staffio a systemau caffael. Statws: Ar ei hôl hi.
3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull strwythuredig o gryfhau gwydnwch ariannol, gan gynnwys gwneud y gorau o incwm allanol a chyllid grant drwy drefniadau ffurfiol ar gyfer awdurdodi a monitro ceisiadau. Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ddiweddarau a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025. Nododd y Cyngor £975k o arbedion fel rhan o'r broses o bennu cyllideb refeniw 2026/27, gyda mesurau effeithlonrwydd a moderneiddio ehangach yn cael eu cefnogi drwy fuddsoddi mewn gwelliannau digidol a gweithredol. Statws: Wedi'i


		gwblhau ar gyfer 2025/26 – mae'r broses bellach yn rhan o drefniadau arferol y Cyngor.
4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mae'r Cyngor wedi cryfhau rheolaeth a chynaliadwyedd hirdymor ei asedau drwy ddatblygu a mabwysiadu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau a'r Cynllun Strategol Rheoli Môn-ddaliadau, gyda chymorth cyllid untro ychwanegol. Mae'r system Rheoli Cyfleusterau gyda Chymorth Cyfrifiadur bellach yn weithredol, gyda rhagor o welliannau ar y gweill i wella data asedau, monitro ac integreiddio. Mae rhesymoli asedau yn parhau i fod ar gam cynnar a bydd angen gwella ansawdd data a sicrhau bod y system yn fwy aeddfed er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Statws: Ar ei hôl hi.
5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i heriau cynllunio'r gweithlu. Mae Rhaglen Denu Talent, sy'n rhan o gynllun Dyfodol Môn, wedi'i chyflawni dros ddwy flynedd yn olynol ac wedi cryfhau'r llwybr i'r gweithlu yn y dyfodol. Mae cynllunio'r gweithlu bellach yn cael ei gefnogi drwy ymgysylltu rheolaidd rhwng Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Busnes, gyda heriau'n cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae Rhaglen Raddedigion Dyfodol Môn hefyd wedi'i lansio, gyda graddedigion wedi'u penodi mewn meysydd proffesiynol allweddol. Statws: Wedi'i gwblhau ar gyfer 2025/26 – mae'r broses bellach yn rhan o drefniadau arferol y Cyngor.

Adroddiad Perfformiad


Uchafbwyntiau Perfformiad Allweddol

Gellir gweld rhai o brif uchafbwyntiau perfformiad eleni isod

Cynnydd mewn perthynas â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol



Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/24 to 2025/26



Deall y statws CAMG a ddefnyddir yn yr adran hon		
Statws	Dogfen Gyflawni Flynyddol	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Gwyrdd	Mae bron yr holl waith cynlluniedig wedi'i gwblhau, gydag ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol.	Mae perfformiad wedi cyrraedd y targed neu wedi rhagori arno.
Melyn	Mae rhwng 70% a 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.	Mae perfformiad o fewn y goddefiant y cytunwyd arno, fel arfer o fewn 5% i gyrraedd y targed.
Ambr	Mae rhwng 50% a 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ganlynol, neu mae rhywfaint o'r gwaith wedi'i oedi.	Mae perfformiad islaw'r goddefiant y cytunwyd arno ac mae angen sylw rheolwyr.
Coch	Mae llai na 50% o'r gwaith wedi'i gwblhau, nid yw'r gwaith wedi'i wneud eto, neu mae wedi'i ganslo.	Mae perfformiad yn sylweddol is na'r targed ac mae angen camau cywiro.


Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r tudalennau isod yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn ystod 2025/26 tuag at gyflawni'r amcanion llesiant, Cynllun y Cyngor a'r amcanion tymor hir ar gyfer 2028.

Mae'r dystiolaeth fanwl a'r diweddariadau sy'n sail i'r crynodebau hyn ar gael yn Atodiad 2, lle eglurir statws CAMG a'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu yn 25/26 yn llawn.

Gyda'i gilydd, mae'r adrannau hyn yn dangos sut sut mae'r camau gweithredu blynyddol (ymrwymiadau 25/26) yn cyfrannu at gyflawni amcanion tymor hwy'r Cyngor (canlyniadau erbyn 2028).

Mae'r darlun isod yn dangos sut mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn cysylltu â'r diweddariadau manwl yn Atodiad 2, a ddangosir fel '25/26 ymrwymiad' isod.



Mae pob un o'r tablau isod yn nodi:

- beth mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni **erbyn 2028** (y canlyniadau tymor hwy),
- beth yr ydym wedi **ymrwymo i'w gyflawni yn ystod 2025/26** (o'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 25/26), a
- faint o gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Yr Iaith Gymraeg	Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026	Ar Amser	• Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor • Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Diweddarau ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Ar Amser	• Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg • Profi dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Ehangu ein cynnig o hyfforddiant fel bod staff, cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys yn cael mwy o gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.	Ar Amser	• Gynnal pump dosbarth iaith Gymraeg ar gyfer staff ac aelodau etholedig • Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg • Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle • Cefnogi a hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol	Ar Amser	• Ymgynghori ar gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi newydd yn ystod Mehefin a Gorffennaf • Paratoi a chyflwyno achos busnes amlinellol strategol i Lywodraeth Cymru • Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Addysg	Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol drwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg	Ar Amser	- Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith - Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Llanfawr, Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Caergybi - Sicrhau bod 100% o ddysgwyr blwyddyn 6 yn derbyn asesiad cyfranogiad a medrusrwydd iaith Gymraeg	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobl ifanc drwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned dysgu ar draws yr ynys	Ar Amser	- Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95% - Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol - Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol - Gweithio at gwblhau hyfforddiant diogelu Grŵp A, B a C 100% ar gyfer staff sydd angen y lefel hyfforddiant perthnasol - Gweithio tuag at fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma - cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS - Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion, sy'n hwyluso'r gwaith o fonitro, mesur addasrwydd, ansawdd a chanlyniadau dysgwyr gydag ADY	Melyn
Addysg	Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol drwy gydol eu bywyd	Ar Amser	Sefydlu rhaglen o weithgareddau i'w chynnal yn Creu / Caffi Ffiws yn Neuadd y Farchnad, Caergybi Gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn a Mencap Môn	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			- Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i fanteisio ar weithgareddau addysgol a Swyddogion Ysgolion Cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo plant a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a chymuned y tu allan i oriau ysgol traddodiadol er mwyn ymgysylltu teuluoedd gydag ysgolion 50% o ysgolion yn cynnig mannau cymunedol - Cynllun Cwrs Dysgu Gydol Oes wedi'i weithredu'n llawn drwy bartneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai	

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth	Ar Amser	- Gweithio gyda'n gilydd i fod yn ynys oed-gyfeillgar drwy weithgareddau ataliol: - Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi, ac ehangu'r model yng nghanol Ynys Môn ac yn y dwyrain. - Gweithio i gynnal y niferoedd isel o bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a gweithio i leihau niferoedd eto lle bynnag y bo'n bosibl - Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif - Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			Sicrhau bod cronfa ddata gofal cymdeithasol modern ar waith yn lle WCCIS ac yn sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth	Ar Amser	- Moderneiddio a gwneud y gorau o 'Dai â Chymorth' drwy greu capasiti ychwanegol o 12 ac unedau o safon yn Fali, Rhostrehwfa a Gwalchmai, a cynyddu darpariaeth yn Caergybi a Llangefni - Adnabod rhaglen ychwanegol o 3 eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol	Ar Amser	- Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal lleiafswm o 6 fforwm cymuned a gwella hygyrchedd yr hybiau, gan ddarparu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn rhai o'r hybiau hynny - Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa - i gynnal Canolfan Dementia Ynys Môn - Ehangu'r rhaglen Nifty60s i chwe cymuned arall - Gweithio gyda Chynghrair Seiriol i beilota prosiect trafndiaeth gymunedol - Lleihau unigrwydd ac unigedd drwy drefnu digwyddiadau rhwng cenedlaethau, gan gynnwys gweithgareddau 'Atgofion Chwaraeon', Boccia a 'Dawns i Bawb'. 500 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth	Ar Amser	- Dod o hyd i eiddo ar gyfer dau Cartref Clyd pellach ar yr ynys - Ceisio cael saith lleoliad gofal maeth ychwanegol (gwely) yn ystod 25/26	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant gan cynnwys cymhwysedd, y gyfradd cymryd rhan, ansawdd a boddhad rhieni	
Tai	Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd	Ar ei hôl hi	Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy	Gwyrdd
Tai	Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau	Ar Amser	- Cyflawni ein cynllun Profiad Cwsmer - cynnydd o 10% fesul mis mewn cysylltiadau CRM gan denantiaid - Adolygu ein dull adroddiad ar Reoli Perfformiad i sicrhau y dilyniad dull sy'n cael ei arwain gan ddata, a bod hynny'n gwella perfformiad gan roi pwyslais ar feysydd nad ydynt yn perfformio cystal - Digideiddio: Teleofal erbyn Medi 2025	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Tai	Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II	Ar Amser	- Cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio â tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%; cynnydd targed o 400 eiddo. - Cynllun gweithredu tlodi Gogledd Ynys Môn - dull Cyngor cyfan at wella ffactorau economaidd-gymdeithasol. - Erbyn 31 Mawrth 2026, bydd holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Tai	Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy	Ar Amser	Cyflawni cynllun gweithredu trosi eiddo gwag	Ambr
Tai	Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf	Ar Amser	- Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau deddfwriaethol Lansio PCOT newydd yn 2025 - Datblygu 45 tŷ newydd - Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 tŷ gwag - Cynorthwyo hyd at 6 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai	Melyn
Economi	Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel	Ar Amser	- Gweithio gyda phartneriaid i wireddu prosiect niwclear newydd posibl yn Wylfa mewn ffordd sy'n lleihau effaith a sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol - Darparu cymorth a chynghor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi - Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr - Gweithio gyda datblygwr Fferm Solar Maen Hir a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses DCO (gan gynnwys bod yn bresennol mewn gwrandawiadau cyhoeddus, a pharatoi ar eu cyfer gan sicrhau yr ymdrinnir â'r ffeithiau a'r buddion)	Gwyrdd
Economi	Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol	Ar Amser	Ymestyn y trefniadau i gasglu eitemau y gellir eu hailddefnyddio (yn hytrach na'u hailgylchu) yn cynnwys creu swydd benodol i gasglu eitemau i'w hailddefnyddio ym Mhenhesgyn	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Economi	Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol	Ar Amser	- Sicrhau cyllid cyfalaf i godi 10 uned fusnes newydd yn Amlwch - Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu'r adeilad Terfynfa Forol yn Amlwch - Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn drwy: - Goruchwyllo'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn - Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi, a dyrannu cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a menter Trawsnewid Tref sy'n cael ei chefnogi gan Llywodraeth Cymru	Melyn
Economi	Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol	Ar Amser	- Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd llwyddiannus yn Ynys Môn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r DU, a sefydlu trefniadau llywodraethu grymus - Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn e.e. y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro - cynnal agwedd fasnachol mewn perthynas â rheoli Canolfannau Hamdden	Gwyrdd
Economi	Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr	Ar Amser	- Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu - Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr - Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd	Melyn

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			- Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy, drwy arbrawf Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE - Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (DMP) (2023-2028): Sefydlu Partneriaeth Cyrchfan Newydd - Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a phwysau negyddol Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella gweithgareddau i ymwelwyr ar fordeithiau sy'n cyrraedd Caergybi - Parhau i adolygu cynigion sy'n ymwneud â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr er mwyn deall y cyfleoedd a'r problemau cysylltiedig ar yr Ynys - Canolbwyntio ar wella'r Llwybr Arfordirol drwy ddefnyddio ffynonellau ariannu allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn gyda phrosiectau gwella natur er mwyn cyfoethogi profiadau'r rheiny sy'n defnyddio'r llwybr arfordirol	
Economi	Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol	Ar Amser	Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol, gan gynnwys: hen safle Anglesey Aluminium, safle Two Sisters, Rhosgoch, Octel (Amlwch), hen safle Peboc, Llangefni a hen safle diwydiannol Lairds ym Miwmares	Melyn
Newid Hinsawdd	Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed sero net 2030 o fewn cyrraedd	Ar Amser	- Cyhoeddi Cynllun Strategol Sero Net 2025–2030 - Sefydlu grŵp bioamrywiaeth - Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel - Gosod systemau carbon isel yn 24 adeilad y Cyngor	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Newid Hinsawdd	Cynyddu cyfraddau ailgylchu	Ar ei hôl hi	- Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r Cyngor - Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60% - Lleihau digwyddiadau tipio o 10% (o gymharu â ffigyrau 24/25)	Coch
Newid Hinsawdd	Sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau	Ar Amser	- Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru): - Gweithio ar ein trefniadau SAB yn fewnol - datblygu a gweithredu trefniadau newydd ar gyfer SAB; i gynnwys cynhyrchu incwm yn ystod ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau	Melyn
Newid Hinsawdd	Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys	Ar Amser	- Rhoi cynlluniau teithio llesol ar waith rhwng Malltraeth a Niwbwrch - Treialu cynllun trafndiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafndiaeth - Gweithredu newidiadau i'r cyfyngiad cyflymder 20mya mewn 27 lleoliad - Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 14 lleoliad ledled yr ynys (yn ddibynnol ar gyllid allanol a phenodi cyflenwr addas)	Gwyrdd

Perfformiad Cyffredinol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 ar gyfer 2025/26 yn rhoi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i fonitro'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gyffredinol, roedd 87% o'r dangosyddion a oedd â tharged naill ai'n Wyrdd neu'n Felyn. Roeddent felly wedi cyrraedd eu targedau, wedi rhagori arnynt neu heb fod mwy na 5% islaw'r targed.

Mae perfformiad blynyddol y Cyngor ar gyfer yr holl ddangosyddion cymaradwy, sef 48 i gyd, yn dangos bod 20 dangosydd, neu 42%, wedi gwella yn ystod y flwyddyn; bod 24 dangosydd, neu 50%, wedi dirywio; a bod 4 dangosydd, neu 8%, wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

Er bod mwy o'r dangosyddion cymaradwy wedi dirywio nag a wellodd, mae'r darlun cyffredinol yn parhau'n gadarnhaol. O'r dangosyddion a ddirywiodd, roedd 62% yn parhau i berfformio yn uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w gyrraedd, roedd 21% yn Ambr neu'n Goch yn erbyn y targed, ac nid oedd targed wedi'i osod ar gyfer 17%.

Mae'r adroddiad cerdyn sgorio yn tynnu sylw at nifer o enghreifftiau o berfformiad da, gan gynnwys:

- Parhaodd gweithgarwch hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn, gyda 82 o swyddogion yn derbyn hyfforddiant, tra bod 86% o swyddi'n cael eu hysbysebu â gofyniad Cymraeg Lefel 3 neu uwch.
- Cyflawnodd 100% o'r plant y disgwyliadau a bennwyd ar gyfer y cyfnod trochi yn yr Uned Iaith.
- Roedd 249 o oedolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n uwch na'r targed o 224.
- Roedd cyfran y rhai a adawodd Flwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 0.6%, gan wella o 1.9% yn 2024/25 a 4% yn 2023/24.
- Perfformiodd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda, gyda 97.9% o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn nodi bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn, a defnyddwyr 16 oed neu iau yn rhoi sgôr boddhad gyfartalog o 9.5 allan o 10.
- Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol tai o fewn yr amserlenni targed, sef 17 diwrnod o'i gymharu â tharged o 18 diwrnod, ac roedd boddhad tenantiaid ag atgyweiriadau ymatebol yn 86%, uwch na'r targed o 85%.
- Cwblhawyd pob arolygiad hylendid bwyd risg uchel erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn camau gweithredu penodol gan y gwasanaeth yn ystod Chwarter 4.
- Roedd pob categori o gyflwr ffyrdd yn Wyrdd o'i gymharu â'r targed, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at wyth dangosydd sydd angen sylw rheoli pellach. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith, bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ymchwilio i'r rhesymau dros y perfformiad, yn cytuno ar gamau gwella ac yn monitro'r cynnydd. Y dangosyddion yw:

1. Gofal Cymdeithasol a Llesiant – Canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis.


2. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i ail-osod unedau llety, heb gynnwys unedau sy'n anodd eu gosod.
3. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflawni addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl canolig.
4. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflawni addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl mawr.
5. Tai – Nifer y cartrefi Cyngor newydd a ddatblygwyd a chyn-gartrefi Cyngor a brynwyd ac a ddygwyd yn ôl i fod yn gartrefi rhent y Cyngor.
6. Economi – Cyfanswm nifer y cwsmeriaid â chontractau angori blyneddol.
7. Newid Hinsawdd – Canran y gwastraff domestig a aildddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd.
8. Iechyd y Cyngor Cyfan – Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys yr holl ddangosyddion, ar gael yn y Cerdyn Sgorio Chwarter 4 ar gyfer 2025/26.



Alldro Refeniw Ariannol 2025/26

Mae'r alldro refeniw ar gyfer pob Gwasanaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), i'w weld yn y siart isod:



Ceir rhagor o wybodaeth yn yr [Alldro Refeniw ar gyfer 25/26](#) a'r [CRT](#)

Atodiad 1 - Crynodeb o Ganlyniadau Hunanasesu Gwasanaethau'r Cyngor, 2026

Nodir isod ymateb pob gwasanaeth yn erbyn y categorïau tystiolaeth ar gyfer 2026.

Gwasanaeth	Cynllunio gwasanaeth a pherfformiad	Cynllunio ariannol	Cynllunio'r gweithlu	Llywodraethu; caffael a rheoli contractau; risg ac archwilio
Gwasanaethau Oedolion	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Busnes y Cyngor	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 2 – Gwreiddio a Gweithredol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Tai	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Dysgu	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Adnoddau	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Trawsnewid (bellach wedi'i rannu'n ddau Wasanaeth – Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer / Digidol, Perfformiad a Moderneiddio)	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Asesiad Cyffredinol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol

Atodiad 2 – Diweddariadau manwl ar y gwaith a gyflawnwyd yn 2025/26

Mae system CAMG (Coch, Ambr, Melyn, Gwyrdd) wedi'i dylunio i grynhoi perfformiad -

CAMG	Disgrifiad
Gwyrdd	Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith, sef 90% neu fwy, wedi'i chwblhau gydag ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol
Melyn	70% i 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol
Ambr	50% i 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol neu ryw faint o'r gwaith wedi'i oedi
Coch	Mae llai na 50% o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, neu nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor.	Cynhaliwyd adolygiad siopwr cudd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dangosodd y canfyddiadau fod lefel uchel o gydymffurfiaeth. Rhannwyd enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi iaith gyda'r gwasanaethau perthnasol, a chafodd cywiriadau eu gwneud.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	Rhannwyd asesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â Chomisiynydd y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw feysydd o bryder sylweddol, ac mae adborth gan y rheoleiddiwr yn ddisgwyliedig.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg.	Mae Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2025.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Profi dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg.	Mae'r gwaith o brofi dealltwriaeth staff o Safonau'r Gymraeg a'r polisi drwy'r Porth Polisi wedi'i ohirio yn dilyn cyflwyno polisiau gorfodol newydd gan y Tîm Arweinyddiaeth.	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal pum dosbarth iaith Gymraeg ar gyfer staff ac aelodau etholedig.	Cynhaliwyd pedwar dosbarth wythnosol ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd drwy bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd, o leiaf yn fisol, i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.	Rhannwyd her iaith Gymraeg yn fisol â staff drwy e-bost, drwy'r Ddolen ac ar bapur.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.	Diweddarwyd cynllun gweithredu is-grŵp gweithleoedd Fforwm Iaith Ynys Môn, a pharhaodd y gwaith ar y prosiect 'Chwalu Mythau', sy'n ceisio herio camdybiaethau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth recriwtio staff.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Cefnogi a hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026.	Cynhaliwyd digwyddiad codi arian ar y cyd â'r Urdd a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yng Nghanolfan Busnes Ynys Môn. Mae grŵp tasg ar y cyd, gyda swyddogion allweddol o'r Cyngor a chynrychiolwyr yr Urdd, wedi cyfarfod yn rheolaidd ers mis Medi 2025. Mae strwythur pabell y Cyngor wedi'i gytuno, mae is-grŵp gweithgareddau wedi'i sefydlu, ac mae'r gwaith o gysylltu â'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch yn parhau.	Gwyrdd
Addysg	Ymgynghori ar gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi newydd a pharatoi a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru.	Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi ar 6 Tachwedd 2025, ac yna bu cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Paratowyd adroddiad ar y gwrthwynebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'i anfon at Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2026. Derbyniwyd cymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2026. Paratowyd yr Achos Amlinellol Strategol i'w gyflwyno, ac roedd disgwyl iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 7 Mai.	Gwyrdd
Addysg	Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol.	Parhaodd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol a'r coleg i archwilio trefniadau cydweithio agosach, gan gynnwys defnyddio adnoddau'r coleg a rhannu arbenigedd staff. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi arferion dysgu rhithwir effeithiol, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth gydweithredol gyda chymau gweithredu pendant.	Melyn
Addysg	Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith.	Roedd nifer y disgyblion a oedd yn defnyddio'r canolfannau iaith yn unol â'r targed, gan gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion uwchradd yn Ysgol Uwchradd Caergybi.	Gwyrdd
Addysg	Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Llanfawr, Ysgol Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Caergybi.	Mae'r tiwtor a oedd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd Caergybi wedi gadael ei swydd, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i benodi tiwtor newydd. Bydd cymorth i staff ysgolion yn parhau unwaith y bydd tiwtor yn ei swydd.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod 100% o ddysgwyr blwyddyn 6 yn derbyn asesiad	Mae prosesau ysgolion yn cadarnhau bod pob ysgol gynradd yn asesu medrusrwydd yn y Gymraeg.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
	cyfranogiad a medrusrwydd iaith Gymraeg.		
Addysg	Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95%.	Mae prosesau targedu presenoldeb ar waith. Mae'r tîm bellach yn gweithredu hyd eithaf ei gapasiti ac yn casglu data ar ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol.	Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i dreialu adnodd Deallusrwydd Artiffisial cenedlaethol newydd i gefnogi gwaith cynllunio cwricwlwm mewn ysgolion. Mae grŵp o ysgolion cynradd wedi dechrau prosiect ymchwil gyda Phrifysgol Wrecsam ar brosesau asesu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol.	Mae uwch arweinwyr yn cynnal trafodaethau dalgylch i adolygu trefniadau pontio yn dilyn adborth gan y Panel Sgriwtini. Mae cynlluniau cydweithio'n cael eu gweithredu ac mae matrices hunanasesu ar waith, gyda'r arweinwyr system yn cymryd cyfrifoldeb am ei gynnwys.	Melyn
Addysg	Gweithio tuag at sicrhau bod 100% o'r staff perthnasol yn cwblhau hyfforddiant diogelu Grwpiau A, B neu C, yn ôl y gofyn.	Mae hyfforddiant diogelu Grŵp A bellach yn orfodol drwy Learning Pool. Mae 60% o'r tîm Addysg wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp A. Mae ysgolion wedi dechrau hyfforddi staff Grŵp B, ac mae dros 190 o bobl wedi mynychu rhannau 1 a 2 o hyfforddiant Grŵp C.	Melyn
Addysg	Gweithio at ddod yn Ynys Wybodus am Drawma - cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS.	Mae Ysgol Gynradd Kingsland ac Ysgol y Graig wedi mynegi diddordeb mewn gweithio tuag at achrediad, ac mae cynllun ar waith. Mae'r rhaglen VR yn parhau i fod yn boblogaidd, gyda dros 750 wedi'u hyfforddi ers mis Ebrill. Mae Ysgol David Hughes ac Ysgol Cybi wedi cwblhau'r hyfforddiant.	Melyn
Addysg	Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion.	Mae gwaith yn parhau i fonitro ac addasu'r fformiwla ariannu ar gyfer mapio darpariaeth drwy'r Fforwm ADY. Bydd angen i'r gwaith mapio barhau ochr yn ochr â'r gwaith ariannol, ac mae angen trafodaeth bellach ar enwebu arweinydd system ar gyfer pob dalgylch.	Ambr
Addysg	Sefydlu rhaglen o weithgareddau i'w chynnal yn Creu / Caffi Ffiws yn Neuadd y Farchnad, Caergybi, mewn	Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys 12 sesiwn grŵp, 20 archeb unigol ar beiriannau a chwe gweithdy. Cynhaliwyd 38 o weithgareddau i gyd, gyda 180 o gyfranogwyr.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
	partneriaeth â Menter Môn a Mencap Môn.		
Addysg	Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i fanteisio ar weithgareddau addysgol a chymunedol y tu allan i oriau ysgol traddodiadol drwy Ysgolion Bro.	Mae trefniadau ar waith ar gyfer Bwyd a Hwyl 2026, gan gynnwys darpariaeth bosibl yn nalgylch Amlwch. Mae gwaith wedi dechrau ar gae 3G saith bob ochr yn Ysgol Gyfun Llangefni ac ar welliannau i'r cyrtiau tenis drwy gyllid cyfalaf Ysgolion Bro. Mae gweithgareddau eraill yn cael eu cynllunio hefyd, gan gynnwys digwyddiad pontio i Flwyddyn 6.	Melyn
Addysg	Gweithredu Cynllun Cyrsiau Dysgu Gydol Oes yn llawn drwy bartneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai.	Cynhaliwyd deg cwrs ar gyfer 74 o ddysgwyr, gan gynnwys pum cwrs undydd gyda 19 o ddysgwyr a thri chwrs blasu gyda 17 o ddysgwyr. Yn gyfan gwbl, darparwyd 1,566 o oriau dysgu i 110 o ddysgwyr mewn wyth lleoliad.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda'n gilydd i fod yn ynys oed-gyfeillgar drwy weithgareddau ataliol.	Cynhaliwyd Diwrnod Agored Heneiddio'n Dda dros y gaeaf yn Hafan Cefni, Llangefni, sef y cyntaf mewn cyfres o 10 digwyddiad. Cynhaliwyd ymweliad hel atgofion hefyd yn Oriel Môn gyda grŵp dementia o ardal Llangoed.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adnabod lleoliad cyfleus sy'n cynnig cyfleoedd i asesu, hyrwyddo a datblygu sgiliau byw'n annibynnol.	Cwblhawyd Cam 2 Canolfan Glanhwfa. Bydd y ganolfan yn cynnig ardal benodol i annog sgiliau byw'n annibynnol i bobl â dementia ac anableddau dysgu.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi ac ehangu'r model yng nghanol a dwyrain Ynys Môn.	Parhaodd y gwaith o drawsnewid gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar greu cyfleoedd personol, datblygu sgiliau bywyd a chynnig gweithgareddau cymunedol amrywiol mewn partneriaeth â sefydliadau fel Mencap Môn. Mae gwaith ar estyniad Gors Felen a'r ystafell newid arbenigol wedi dechrau ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif.	Cofnododd Canolfannau Hamdden Môn Actif 170,212 o ymweliadau yn ystod Chwarter 4 a 575,194 o ymweliadau rhwng Chwarter 1 a Chwarter 4.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Buddsoddi £1m yng nghyfleusterau Môn Actif, gan gynnwys Plas Arthur, Caergybi, Amlwch ac archwiliadau pyllau nofio.	Mae Alliance Leisure wedi cael ei benodi i gefnogi prosiect Plas Arthur, gyda'r arolygon adeiladu'n cael eu cwblhau a'r gwaith adeiladu'n ddisgwyliedig yn hydref 2026. Mae offer ffitrwydd newydd a gwaith moderneiddio'r gofod ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi wedi'u cwblhau. Nid yw'r gwaith ar ystafelloedd newid Amlwch wedi dechrau gan fod prosiectau ysgolion yn cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd. Ni fydd gwaith archwilio'r pyllau nofio yn cael ei gwblhau yn 2025/26 oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Sicrhau bod cronfa ddata Gofal Cymdeithasol modern, Cysylltu Gofal, ar waith yn lle WCCIS, gan gynnwys trosglwyddo data a gwybodaeth yn llwyddiannus.	Mae'r prosiect ar waith ledled Cymru, dan arweiniad CLILC ar ran awdurdodau lleol. Cafwyd cadarnhad bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo £20.9m i CLILC, ac rydym yn disgwyl cadarnhad o gyfran y Cyngor ar gyfer 2026/27. Mae'r gwaith o fudo data o WCCIS i Mosaic yn parhau, gyda chymau 1 a 2 wedi'u cwblhau. Mae'r dyddiad mynd yn fyw amcangyfrifedig wedi symud o fis Medi i ddechrau 2027.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Moderneiddio a gwneud y gorau o Dai â Chymorth drwy greu 12 uned ychwanegol o safon uchel yn y Fali, Pencoed a Maes y Ffridd, a bwrw ymlaen â darpariaeth yng Nghaergybi a Llangefni.	Mae prosiect y Fali yn weithredol ac mae pobl wedi ymgartrefu. Mae gwaith adeiladu Pencoed wedi'i gwblhau. Mae addasiadau adeiladu ym Maes y Ffridd ar y gweill a rhaid eu cwblhau cyn i bobl symud i mewn. Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer Caergybi a Llangefni wedi'u cyflwyno, gyda'r gwaith yn debygol o barhau yn ystod 2026/27.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adnabod rhaglen ychwanegol o dri eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth.	Y bwriad yw ceisio prynu un adeilad newydd o'r farchnad agored bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal o leiaf chwe fforwm cymunedol a darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau.	Cynhaliwyd Diwrnod Agored Heneiddio'n Dda yn Hafan Cefni, Llangefni, sef y cyntaf mewn cyfres arfaethedig o 10 digwyddiad o'r fath.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa i gynnal Canolfan Dementia Ynys Môn.	Cwblhawyd y gwaith adeiladu yng Nghanolfan Glanhwfa.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu'r rhaglen Nifty60s i chwe chymuned arall.	Mae gweithdai wythnosol Nifty60s yn cael eu cynnal mewn naw lleoliad: Amlwch, Llangefni, Rhosneigr, Llanddona, Llanfairpwll, Benllech, Llangaffo, Llanfaethlu a Chaergybi, gyda phum sesiwn yr wythnos yng Nghaergybi. Mae'r rhaglen yn cyrraedd dros 350 o bobl bob wythnos.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda Chynghrair Seiriol i beilota prosiect trafndiaeth gymunedol.	Lansiwyd y prosiect trafndiaeth gymunedol ar 2 Mehefin fel treial tri mis ac mae wedi'i ymestyn tan fis Ebrill 2026.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Lleihau unigrwydd ac unigedd drwy drefnu digwyddiadau rhyng-genhedlaeth, gan gynnwys gweithgareddau Atgofion Chwaraeon, Boccia a Dawns i Bawb.	Cynhaliwyd dau ddigwyddiad 'parti paned' yng Nghanolfan Glanhwfa yn Llangefni, ac mae gweithgareddau Dawns i Bawb wedi parhau mewn cartrefi gofal gyda phlant o ysgolion lleol yn mynychu o bryd i'w gilydd.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Dod o hyd i eiddo ar gyfer dau Cartref Clyd pellach ar yr ynys.	Mae eiddo arall wedi'i nodi ac mae gwaith ar y gweill gyda Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i gadarnhau a yw'n opsiwn ymarferol ar gyfer y Cartref Clyd olaf.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ceisio sicrhau saith lleoliad gofal maeth ychwanegol yn ystod 2025/26.	Ers 1 Ebrill 2025, mae dau wely gofal maeth cyffredinol a 12 gwely gofal maeth gyda pherson cysylltiedig wedi'u sicrhau.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant, gan gynnwys cymhwysedd, y gyfradd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, ansawdd a boddhad rhieni.	Cafodd 190 o blant ofal plant Dechrau'n Deg; cafodd 60 o blant ofal plant dwyflwydd oed drwy'r rhaglen ehangu gofal plant; roedd gan 344 o blant gytundeb Cynnig Gofal Plant ar waith; cynigiwyd 71 sesiwn grŵp a 33 cwrs anffurfiol strwythuredig i rieni; cynigiwyd pedwar cwrs hyfforddi, gyda 26 aelod o staff gofal plant yn dilyn hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf; a chrëwyd dau leoliad gofal plant diwrnod llawn newydd.	Gwyrdd
Tai	Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Gofal Ychwanegol newydd yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy.	Mae cynllun draenio addas wedi'i ganfod. Mae'r cais grant ar gyfer dylunio ac adeiladu wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd caniatâd cynllunio llawn ym mis Ebrill 2026 ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Tai	Cyflawni'r Cynllun Profiad Cwsmer, gan gynnwys cynyddu cysylltiadau CRM gan denantiaid.	Aeth y ffurflen gais dai ar-lein yn fyw ar 20 Hydref 2025 er mwyn lleihau galwadau cwsmeriaid a cheisiadau papur. Mae'r broses ar gyfer derbyn cwynion i'r adran wedi bod yn fyw ar y CRM Corfforaethol ers 1 Hydref 2025.	Gwyrdd
Tai	Adolygu adroddiadau rheoli perfformiad er mwyn cryfhau'r dull sy'n cael ei arwain gan ddata a gwella meysydd sy'n tanberfformio.	Mae adolygiad wedi'i gwblhau, gan arwain at dempled newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd ar berfformiad. Mae'r templed yn cyflwyno data clir ar draws pob maes perfformiad ac yn rhoi lle i reolwyr wneud sylwadau ar feysydd sy'n tanberfformio.	Gwyrdd
Tai	Cwblhau'r gwaith o ddigideiddio Teleofal erbyn Medi 2025.	Mae'r cynllun Teleofal wedi'i gwblhau ar gyfer pob tenant a gytunodd i symud o system Tunstall i system Chiptech.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Tai	Cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio â tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%.	Mae'r Gwasanaeth Tai'n hyderus bod y targed i 40% o'r stoc dai gydymffurfio â tharged ynni SATC o SAP 75 erbyn 31 Mawrth 2026 wedi'i gyrraedd a'i ragori. Bydd y Tystysgrifau Perfformiad Ynni newydd sy'n gysylltiedig â'r mesurau adnewyddadwy a osodwyd yn ystod 2025/26 yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn ystod Chwarter 1 2026/27.	Gwyrdd
Tai	Cynllun gweithredu tlodi Gogledd Ynys Môn - dull Cyngor cyfan at wella ffactorau economaidd-gymdeithasol.	Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer dau gynllun unedau cyflogaeth yn Amlwch.	Gwyrdd
Tai	Erbyn 31 Mawrth 2026, bydd holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed.	Mae gan yr holl stoc dai Lwybr Ynni Targed. Mae gan 83% o'r stoc dai Lwybr Ynni Targed terfynol, ac mae'r llwybrau ar gyfer yr 17% sy'n weddill ar ffurf drafft.	Gwyrdd
Tai	Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau	Mae gwaith cwmpasu'n mynd rhagddo ar ofynion deddfwriaeth ddigartrefedd newydd sydd i ddod i rym ym mis Chwefror 2027.	Ambr

	deddfwriaethol, a lansio PCOT newydd yn 2025.		
Tai	Datblygu 45 tŷ newydd.	Cyflawnwyd cyfanswm o 31 eiddo yn erbyn y targed o 45. Roedd perfformiad islaw'r targed oherwydd cymhlethdodau ar safleoedd; disgwylir cyflawni'r targed erbyn mis Medi 2026.	Ambr
Tai	Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 tŷ gwag.	Mae cyfanswm o 55 eiddo gwag wedi cael eu hailddefnyddio.	Melyn
Tai	Cynorthwyo hyd at 6 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai.	Prynodd 12 o bobl gartref drwy'r grant cymorth i brynu tai gwag, a phrynodd tri unigolyn arall gartref drwy Gynllun Cymorth Prynu Môn.	Gwyrdd
Tai	Cyflawni'r cynllun gweithredu trosi eiddo gwag erbyn 31 Mawrth 2026.	Mae rhagor o elfennau'r cynllun wedi'u cwblhau ac mae rhai elfennau wedi dechrau.	Ambr
Economi	Gweithio gyda phartneriaid i wireddu prosiect niwclear newydd posibl yn Wylfa mewn ffordd sy'n lleihau effaith ac yn sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol.	Mae GBE-N wedi cadarnhau mai SMR yw'r dechnoleg arfaethedig, a bod Rolls-Royce wedi'i nodi fel y darparwr technoleg. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â GBE-N a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall y cyfleoedd a'r goblygiadau i'r Ynys.	Gwyrdd
Economi	Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu'r Hwb Hydrogen yng Nghaergybi.	Mae Tîm Ynys Ynni yn parhau i gysylltu â Menter Môn ynghylch yr Hwb Hydrogen arfaethedig. Mae cais cynllunio bellach wedi'i gyflwyno a'i ddilysu.	Gwyrdd
Economi	Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr.	Yn dilyn cyhoeddiad Wylfa, mae cysylltiadau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu sefydlu a'u ffurfioli. Cynhaliwyd Fforwm Strategol y Cyngor, a oedd yn cynnwys diweddariad gan GBE-N ar safle Wylfa. Mae dylanwadu a chydweithio yn parhau'n flaenoriaethau allweddol i Raglen Ynys Ynni.	Gwyrdd
Economi	Gweithio gyda datblygwr Fferm Solar Maen Hir a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses DCO.	Mae'r gwaith ar Faen Hir yn parhau, er nad yw'r cais DCO wedi'i gyflwyno eto. Mae oedi pellach wedi codi ar ran y datblygwr, ac mae Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i gysylltu â Lightsource bp.	Ambr

Economi	Ymestyn y trefniadau i gasglu eitemau y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na'u hailgylchu, gan gynnwys rôl benodol ar gyfer aildddefnyddio ym Mhenhesgyn.	Prynwyd cynhwysydd ychwanegol, silffoedd ac offer llaw ar gyfer Penhesgyn. Erbyn Chwarter 4, roedd 42 tunnell o eitemau wedi'u casglu a'u hailddefnyddio. Gosodwyd logos a baneri aildddefnyddio, cynhaliwyd ymgyrch 'Rhoi ail fywyd i bethau da!', cwblhaodd dau aelod o staff safle hyfforddiant trin beiciau, ac estynnwyd cytundebau staff y safle sy'n gweithio ar y cynllun aildddefnyddio hyd at fis Mawrth 2027.	Gwyrdd
Economi	Sicrhau cyllid cyfalaf i godi 10 uned fusnes newydd yn Amlwch.	Sicrhodd prosiect Safleoedd ac Eiddo Gogledd Ynys Môn £6.994m o gyllid cyfalaf gan Uchelgais Gogledd Cymru a £920,000 gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor gyfraniad ar y cyd o £1.5m ar gyfer yr unedau. Mae'r dyluniadau wedi'u cwblhau hyd at RIBA 4 ac mae'r broses dendro wedi'i chwblhau, gyda'r gwaith disgwylidig i ddechrau ym mis Mai.	Melyn
Economi	Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu adeilad y Derfynfa Forol yn Amlwch.	Mae adnewyddu'r Derfynfa Forol yn rhan o brosiect Safleoedd ac Eiddo Gogledd Ynys Môn, sydd wedi sicrhau cyllid cyfalaf allanol gan Uchelgais Gogledd Cymru a rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae gwaith dylunio a chaffael y prosiect wedi symud ymlaen, gyda'r gwaith disgwylidig i ddechrau yn 2026/27.	Melyn
Economi	Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn.	Sicrhawyd cyllid o £351,000 dros dair blynedd gan yr NRS i ariannu Swyddog Gogledd Ynys Môn a gwaith datblygu prosiectau. Mae gwaith datblygu i nodi prosiectau newydd ar y gweill.	Melyn
Economi	Goruchwyllo'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn.	Mae gwaith paratoi cynlluniau canol tref yn mynd rhagddo ar gyfer y pum canol tref. Mae cydweithio'n parhau gyda phartneriaid, gan gynnwys Môn CF, drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Llywodraeth Cymru i wella canol trefi drwy ymyraethau uniongyrchol.	Melyn
Economi	Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.	Mae grantiau sylweddol drwy raglen Trawsnewid Trefi a grantiau creu lleoedd wedi'u sicrhau i sicrhau gwelliannau gweledol mewn canol trefi. Bydd prosiect 'Lle Da' y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau yn ystod 2026/27 i gefnogi	Melyn

		gweithgareddau, ymyraethau, arolygon a chynlluniau canol trefi. Sicrhawyd cyllid pellach ar gyfer cynlluniau yn Llangefni, Biwmares ac Amlwch.	
Economi	Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd lwyddiannus yn Ynys Môn, a sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn.	Mae'r Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y ddwy Lywodraeth. Mae cytundebau tirfeddianwyr wedi'u llofnodi gan bob parti, mae cwmni ffurfiol Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi'i sefydlu, ac fe lofnodwyd Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda'r ddwy Lywodraeth ym mis Mawrth 2026.	Gwyrdd
Economi	Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro.	Mae trafodaethau'n parhau gyda'r ddwy Lywodraeth a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd cyllid allanol i'r Cyngor. Mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn agosáu at ei chwblhau ym mis Mehefin 2026.	Melyn
Economi	Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu.	Mae'r cynllun gweithredu wedi'i weithredu yn unol â chyllid craidd SLSP a dyraniad Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar adfer cynefinoedd, gwaredu rhywogaethau estron niweidiol, gwaith dalgylch a gweithredu treial y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.	Melyn
Economi	Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr.	Mae gwaith yn parhau ar ffensio afonydd, gwella cynefinoedd a phlannu coed ar ddalgylchoedd Wygyr, Braint ac Alaw.	Gwyrdd
Economi	Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd.	Mae gwaith cynllunio ar y gweill i ddosbarthu grantiau i ffermydd sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol i wella cynefinoedd, wedi'u cysylltu â modelau ffermio cynaliadwy. Bydd gwybodaeth am arfer da yn cael ei rhannu gyda'r gymuned ffermio drwy hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r cynllun.	Melyn
Economi	Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy drwy dreial Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.	Ffermio Bro yw treial Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cael ei gynnal mewn Tirweddau Cenedlaethol ac mae'n ceisio cefnogi ffermio sy'n sensitif i natur ar raddfa tirwedd. Bydd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i ffermwyr, gan gynnwys gwaith ar iechyd pridd, economeg a chadwraeth natur.	Melyn
Economi	Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr	Mae'r tîm yn rhan o bum prosiect partneriaeth, gan gynnwys Corsydd Calon Môn a Glasffordd Môn, i wella'r AHNE a'i	Melyn

	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).	chysylltiadau â gweddill yr ynys ar y cyd. Mae pecynnau addysgol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol, yr hinsawdd ac ansawdd dŵr wedi'u datblygu ac maent ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae gwaith parhaus hefyd yn cynnwys gwella mynediad, arwyddion diogelwch ar yr arfordir, diweddaru'r wefan a gwella cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.	
Economi	Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023–2028 a sefydlu Partneriaeth Cyrchfan newydd.	Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn parhau i gael ei gyflawni, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cyrchfan gynaliadwy sy'n seiliedig ar seilwaith gwyrdd. Mae dros £1m o gyllid allanol wedi'i fuddsoddi dros y 12 mis diwethaf i wella mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys byrddau pren, gwelliannau i Lwybr yr Arfordir ac ailsefydlu llwybrau cylchol. Mae ailsefydlu'r Bartneriaeth Cyrchfan wedi'i gymeradwyo, ond mae ei ffurfio wedi'i ohirio tan ar ôl etholiadau'r Senedd.	Ambr
Economi	Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a'r pwysau negyddol, gan gynnwys cydweithio â Llywodraeth Cymru ar weithgareddau mordeithiau yng Nghaergybi.	Mae'r Tîm Cyrchfan yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i ddarparu atebion rhagweithiol i faterion rheoli ymwelwyr yn Niwbwrch, Rhosneigr, Trearddur a Benllech. Mae gwefan a chyfryngau cymdeithasol Visit Anglesey yn weithredol ac yn rhannu negeseuon allweddol. Ar gyfer tymor mordeithiau 2026, mae dros 70 o longau wedi'u cadarnhau ac mae'r tîm yn gweithio gydag atyniadau lleol i ddatblygu cynigion newydd.	Melyn
Economi	Parhau i adolygu cynigion sy'n ymwneud â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr.	Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr yn gynnar yn 2026/27, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn.	Melyn
Economi	Canolbwyntio ar wella Llwybr yr Arfordir drwy ddefnyddio ffynonellau cyllid allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn â phrosiectau gwella natur.	Mae byrddau pren yn cael eu hadeiladu yn Niwbwrch ac ar Lôn Las Cefni i wella mynediad. Mae gwaith sylweddol i wella hygyrchedd Llwybr yr Arfordir ar waith drwy gydol y flwyddyn.	Gwyrdd
Economi	Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol segur a safleoedd tir llwyd.	Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â pherchnogion tir a'u cefnogi i ailddatblygu safleoedd tir llwyd lle mae capasiti'n caniatáu hynny. Mae safle Peboc wedi'i brynu, mae cyllid cyfalaf allanol drwy'r Porthladd Rhydd ac Uchelgais Gogledd	Melyn

		Cymru wedi'i sicrhau, ac mae cynnydd ar waith i ddechrau adfer y tir a dymchwel yn ystod haf 2026.	
Newid Hinsawdd	Cyhoeddi Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026–2031.	Mae Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026–2031 wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel.	Mae archeb wedi'i gosod ar gyfer 12 cerbyd trydan newydd, gan gynnwys un cerbyd llyfrgell newydd, drwy ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Archwilio cynllun peilot ar gyfer gwefru cartref ar gyfer fflyd cerbydau trydan y Cyngor.	Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda phartneriaid. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys materion diogelu, atebolrwydd, cyfreithiol, cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch. Mae angen rhagor o waith i asesu gwerth am arian.	Ambr
Newid Hinsawdd	Cwblhau a chomisiynu'r canopiâu solar ym meysydd parcio Llangefni.	Mae'r strwythurau yn y maes parcio uchaf wedi'u cwblhau, mae'r gwaith ail-wynebu wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith gosod batris a'r gwaith trydanol wedi'u cwblhau a'u comisiynu. Mae'r gwaith cwblhau a chomisiynu terfynol wedi'i ohirio tan Chwarter 1 2026/27.	Ambr
	Gosod systemau gwresogi carbon isel mewn 24 adeilad y Cyngor.	Mae 16 safle wedi'u cwblhau a'u comisiynu, ac mae 18 arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27.	Ambr
Newid Hinsawdd	Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r Cyngor.	Mae gwaith ymgysylltu â chartrefi ar garreg y drws yn parhau er mwyn lleihau gwastraff gweddilliol a chynyddu ailgylchu wrth garreg y drws. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos ar newidiadau posibl i'r gwasanaeth casglu ailgylchu a gwastraff yn ystod Chwarter 4. Mae WRAP Cymru a CRS yn paratoi dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Mae cais sylweddol am gyllid ISPA wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol nesaf.	Coch
Newid Hinsawdd	Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60%.	Y perfformiad presennol yw 44%, sy'n is na'r targed o 60%.	Coch
Newid Hinsawdd	Lleihau digwyddiadau tipio anghyfreithlon 10% o'i gymharu â 2024/25.	Mae matrices cyfrifoldebau wedi'i ddrafftio a'i rannu, ac rydym yn aros am adborth cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Mae taflen ganllaw wedi'i rhannu â safleoedd y Cyngor, gyda rhagor o wybodaeth i ddilyn yn ôl yr angen.	Melyn

Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys, yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.	Mae dogfennau dylunio drafft ar gyfer Porthaethwy wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu, gyda thrafodaethau â pherchnogion tai i'w cynnal nesaf. Mae gwaith dylunio a gosodiad Llanfairpwll wedi'i oedi dros dro oherwydd diffyg capasiti. Mae'r gwaith adeiladu ar gynlluniau Lôn Trearddur a Bodffordd yn mynd rhagddo, ac mae'r gwaith ym Mhorth Diana wedi'i gwblhau.	Melyn
Newid Hinsawdd	Dod â threfniadau SAB yn fewnol drwy ddatblygu a gweithredu trefniadau newydd, gan gynnwys cynhyrchu incwm drwy ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau.	Mae materion apeliadau SAB wedi oedi'r gwaith o ddarparu adroddiadau ar gyfer y trefniadau SAB newydd. Mae'r swyddog SAB ar gyfnod sabothol am 12 mis ac mae'r Cyngor yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth gan YGC yn y cyfamser.	Ambr
Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau teithio llesol ar waith rhwng Malltraeth a Niwbwrch	Cynlluniau Teithiol Llesol wedi cwblhau yn Malltraeth a Niwbwrch	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Treialu cynllun trafndiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafndiaeth	Cynllun peilot mewn lle yn ardal Seiriol	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gweithredu newidiadau i'r cyfyngiad cyflymder 20mya mewn 27 lleoliad	Newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer cyfyngiad cyflymder 20mya wedi cwblhau	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 14 lleoliad ledled yr ynys (yn ddibynnol ar gyllid allanol a phenodi cyflenwr addas)	Ceisiadau tendr wrthi'n cael eu sgorio ar gyfer penodiad asesu. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau ar gyfer 2025/26.	Melyn

DRAFT

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	22 MEDI 2026
Pwnc:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2026/27
Deilydd Portffolio:	CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG 01248 752663 BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	DDIM YN BERTHNASOL

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellion

- (i) Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2026/27;
- (ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2026/27, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
- (iii) Nodi canlyniadau monitro costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2026/27 yn Atodiadau D a DD;
- (iv) Nodi canlyniadau monitro gwariant y Gronfa Cost Newid yn 2026/27 yn Atodiad E.

Rheswm

Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn awgrymu y bydd tanwariant o £2.114m (1.30%) yn y gyllideb refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2026. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhai hefyd. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1 yn anodd, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae rhai meysydd allweddol sy'n anodd eu rhagdybio a'u rhagweld mor gynnar â hyn yn y flwyddyn, a'r meysydd allweddol hynny yw:-

1. Newidiadau yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw ac, yn bennaf, lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol.
2. Derbyn cyllid grant ychwanegol nad oedd ei ddisgwyl yn ystod y flwyddyn.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd.
5. Dyfarniadau cyflog nad ydynt wedi cael eu cytuno eto, ar gyfer staff NJC ac athrawon.

O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £17.704m (8.62% o gyllideb refeniw net 2026/27) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £7.437m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn darogan tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i'r balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi, ond mae unrhyw newidiadau o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.

Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hir dymor fel ynys?

Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i lunio'r strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?

Amherthnasol

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2026/27 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amherthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amherthnasol

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amherthnasol

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2026. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y TA yn y drafft terfynol.
2. Cyllid / Swyddog Adran 151	Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad.
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA.
4. AD	Nid yw'r materion yn yr adroddiad yn effeithio ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol.
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Fe wnaeth y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Medi ac 16 Medi 2026.
9. Aelodau Lleol	Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod o'r Cyngor.

F - Atodiadau

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2026/27
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2026/27
- Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiannau a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rheswm
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2026/27
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro gwariant ar Staff Asiantaeth 2026/27
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro gwariant ar Ymgynghorwyr 2026/27
- Atodiad E - Cost Newid 2026/27

Ff- Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Cyllideb Refeniw 2026/27 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 24 Chwefror 2026 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 5 Mawrth 2026)

ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW

1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWDYD AR GYFER 2026/27

1.1. Cymeradwydd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2026/27

	£'000	£'000
Cyfanswm Gwariant Refeniw a Gymeradwywyd	207,029	
Newidiadau ers Cymeradwyo'r Gyllideb	-	
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor	(1,685)	
Cyllideb Bresennol 2026/27 a Gymeradwywyd (heb gynnwys Cronfeydd wrth Gefn)		205,344
Cyllidwyd Gan:		
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	144,585	
Debyd Dreth Gyngor Safonol a Godwyd	55,998	
Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag	4,761	
Cyfanswm Cyllid 2026/27		205,344

2. SEFYLLFA'R GYLLIDEB A RAGWELIR AR ALLDRO 2026/27

2.1. Mae'r alldro heb ei archwilio'n cael ei ddangos yn Nhabl 2, isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Rhagolwg o'r Sefyllfa ar Ddiwedd y Flwyddyn ar 30 Mehefin 2026

	Cyllideb 2026/27	Alldro Ch 1 (Tan) / Gor Wariant	% Amrywiant
	£'000	£'000	%
Cyllidebau Gwasanaeth	186,805	(1,145)	(0.35%)
Cyllidebau Corfforaethol	20,224	(243)	(4.00%)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	(1,685)	-	0.00%
Gwariant Refeniw Net	205,344	(1,388)	(0.68%)
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	144,585	-	0.00%
Y Dreth Gyngor Safonol	55,998	(3)	(0.01%)
Premiwm y Dreth Gyngor	4,761	(723)	(15.17%)
Cyllid Net	205,344	(726)	(0.35%)
Rhagolwg o'r (Tan) / Gorwariant Net	0	(2,114)	1.03%

2.2 Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2027

	Swm £'m	Sylwadau
Balans Agoriadol (Heb ei Archwilio)	(19.038)	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026 - Tabl 3
Cyllido Cyllideb Refeniw 2026/27	1.685	Yn unol â Phenderfyniad Cyllideb 2026/27 - Mawrth 2026
Trosglwyddwyd i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	(0.710)	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026
Trosglwyddwyd o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	2.373	Gweler adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith - Gorffennaf 2026
Dyrannwyd yn 2026/27	0.100	Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith - Chwefror 2026
Sefyllfa Alldro a Ragwelir ar gyfer 2026/27	(2.114)	Gweler Tabl 2 uchod
Balans Cyffredinol Cronfa'r Cyngor Heb ei Archwilio ar 31 Mawrth 2027	(17.704)	

3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

- 3.1.** Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod alldro o £1.145m yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gwelir yn Nhabl 4, isod, ddadansoddiad fesul Gwasanaeth ac mae dadansoddiad manylach wedi'i gynnwys yn Atodiad B:-

Tabl 4
Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth

	(Tan) / Gorwariant £'000	%
Addysg Ganolog	(152)	(2.74)
Gwasanaethau Oedolion	(744)	(1.64)
Priffyrdd	(285)	(3.29)
Eiddo	100	5.06
Digidol, Perfformiad a Phrofiad y Cwsmer	(386)	(6.17)
Busnes y Cyngor	151	6.24
Gwasanaethau Eraill (Amrywiadau o dan £100k)	171	
Cyfanswm Amrywiadau Gwasanaeth	(1,145)	(0.35)

- 3.2.** Mae'r amcangyfrif presennol yn rhagweld fod tanwariant yn y Gwasanaethau Oedolion ac mae disgwyl i bob maes gwasanaeth danwario er gwaetha'r ffaith fod y galw'n parhau i fod yn uwch. Y rheswm am hyn yw bod arbedion oherwydd swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol ac incwm uwch na'r disgwyl yn fwy na chost y galw ychwanegol.
- 3.3.** Rhagwelir i'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Plant fod yn sylweddol well nag yn y blynyddoedd blaenorol ac, er bod cost lleoliadau allsirol yn parhau i fod yn uwch na'r gyllideb, mae swyddi gweigion a cyllid grant ychwanegol yn ddigon i wrthbwysu'r costau o'r cynnydd yn y galw.

- 3.4. Mae'r rhagolwg ar gyfer y gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio'n parhau i ddangos lefel uchel o danwariant, er bod y ffigwr yn is nag mewn blynyddoedd a fu. Mae tanwariant oherwydd swyddi gweigion wedi gostwng yn sylweddol ac mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant bellach yn gysylltiedig â chostau meddalwedd a thrwyddedau.
- 3.5. Mae'r prif resymau am yr amrywiadau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Iswasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

Tabl 5
Dadansoddiad o Amrywiadau a Ragwelir yn ôl Rheswm

	Amrywiant a Ragwelir yn Chwarter 1 £'000
Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau	1,044
Amrywiant mewn costau staffio oherwydd swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth	(452)
Newidiadau mewn prisiau contractau nad oedd y gyllideb a gymeradwywyd yn darparu ar eu cyfer	(51)
Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd	(730)
Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm	(1,457)
Amrywiant mewn costau yn gysylltiedig ag adeiladau	(181)
Amrywiadau mewn costau yn gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol	104
Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol	512
Camgymeriadau amlwg yn y broses gosod cyllideb	197
Rhesymau amrywiol	(131)
CYFANSWM YR AMRYWIANNAU A RAGWELIR	(1,145)

- 3.6. Dengys y tabl uchod danwariant net o £1.145m ar draws pob gwasanaeth. Y materion canlynol sydd bennaf gyfrifol am y sefyllfa:-

- Incwm uwch na'r disgwyl, yn bennaf yn y meysydd gofal cymdeithasol oedolion, priffyrdd, cynllunio a hamdden, er y dylid nodi fod yr incwm ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn gorbwyso'r cynnydd yn y galw a bydd y ffioedd cynllunio ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido costau ymdrin â cheisiadau cynllunio mawr yn y dyfodol.
- Arbedion staffio oherwydd swyddi gweigion ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant, er bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i wynebu costau staff asiantaeth uwch. Rhyddhawyd £100k o'r balansau cyffredinol i wrthbwysu rhywfaint o'r costau (yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2026). Gall y sefyllfa mewn perthynas â'r amrywiant hwn newid yn ystod y flwyddyn wrth i swyddi gael eu llenwi neu wrth i staff adael a chreu swyddi gweigion newydd.
- Mae cyllid grant ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant, yn golygu bod modd cyllido galw ychwanegol am wasanaethau a gellir cyllido costau craidd o'r grant yn hytrach na defnyddio'r gyllideb graidd.
- Mae galw am wasanaethau'n parhau i roi pwysau ar y gyllideb, unwaith, eto ym maes gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant yn bennaf, yn ogystal â chynnal a chadw ffyrdd (wedi'i gyllido o'r incwm ychwanegol). Mae'r galw am brydau ysgol wedi gostwng, ac mae hyn yn creu arbedion yn y gyllideb.

- 3.7. Er bod nifer o wasanaethau'n profi pwysau ar gyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw, mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir yn dangos, fod perfformiad ffafriol incwm, newidiadau mewn cyllid grant ac arbedion staffio yn lliniaru'r pwysau hyn i raddau sylweddol. Serch hynny, mae'r Awdurdod yn rhagweld tanwariant net o £1.145m yn Chwarter 1. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn anodd ar ddiwedd chwarter 1, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi.

4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

- 4.1. Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2026/27

	Cyllideb 2026/27	Rhagolwg Aldro Ch1 (Tan) / Gorwariant	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant
	£'000	£'000	%	
Ardollau	5,450	-	-	Benthycia is ac enillion uwch ar fuddsoddiadau Llai o achosion na'r disgwyl
Rhyddhad Trethi Dewisol	108	(22)	(22.33)	
Cyllido Cyfalaf	5,396	(127)	(2.35)	
Budd-daliadau a Roddir	7,826	(324)	(4.15)	
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau, Darpariaeth ar gyfer Drwg Ddyledion)	-	500	-	
Cyfraniad o'r CRT am Wasanaethau Cefnogi	(865)	-	-	
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl Cyffredinol ac Eraill, gan gynnwys Arbedion Corfforaethol	2,309	(270)	(11.96)	
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	(1,685)	-	-	
CYFANSWM	18,539	(243)	(1.31)	

5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

- 5.1. Mae cyllideb Cronfa Gasglu'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2025. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddiethriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Fel arfer, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Roedd incwm y Dreth Gyngor craidd cyfredol £3k yn uwch na'r gyllideb.

5.2. Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Oherwydd bod y rheolau cymhwysu ar gyfer trethi busnes ar lety hunanarlwyo wedi newid, mae nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r gofrestr Dreth Gyngor o'r gofrestr trethi busnes, felly, mae mwy o eiddo'n gymwys i dalu'r premiwm ar ail gartrefi. O ganlyniad, roedd elfen premiwm y Dreth Gyngor £723k yn uwch na'r gyllideb. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd apeladau'n cael eu penderfynu yn 2026/27 a thu hwnt mewn perthynas ag eiddo hunanarlwyo a drosglwyddwyd o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gyda rhai wedi'u hôl-ddyddio i Ebrill 2023. Mae cronfa wrth gefn glustnodedig o £762k yn bodoli a chaiff ei defnyddio i gyllido costau unrhyw ad-daliadau y bydd rhaid eu gwneud os yw apêl y perchnogion yn llwyddo.

6. CYLLIDEBAU AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL

6.1. Cyfanswm y cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl gwreiddiol oedd £2.250m. Mae £1.980m o'r cyllidebau hyn wedi'u hymrwymo a'u rhagweld, gan adael £270k heb eu hymrwymo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae dadansoddiad llawn ynghlwm yn Atodiad Ch.

7. COSTAU ASiantaeth AC YMGYNGHORWYR

7.1. Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £464k ar staff asiantaeth, gyda'r costau mwyaf yn gysylltiedig â Gwasanaethau Oedolion (£111k) ac Ysgolion (£102k), ac yna Gwastraff (£94k) a Busnes y Cyngor (£67k). Cyllidwyd y mwyafrif o'r costau o'r cyllidebau gwasanaeth presennol, gan gynnwys cyllidebau craidd, cyllidebau gwasanaeth penodol a chyllidebau staff heb eu defnyddio. Defnyddiwyd cronfeydd i gefnogi rhywfaint o wariant lle'r oedd hynny'n briodol.

7.2. Penodwyd staff asiantaeth er mwyn cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth a gwytnwch gweithredol os nad oedd yr adnoddau staffio'n ddigonol i fodloni gofynion gwasanaeth. Roedd y prif resymau dros gyflogi staff asiantaeth yn cynnwys darpariaeth llanw ar gyfer swyddi gweigion, cefnogi trefniadau recriwtio ac anwytho ar gyfer gweithwyr newydd, mynd i'r afael â phwysau tymor byr ar wasanaethau a rheoli cyfnodau o absenoldebau salwch. Mewn nifer fechan o achosion, defnyddiwyd staff asiantaeth i ddarparu sgiliau arbenigol a chapasiti ychwanegol yr oedd ei angen i gyflawni darnau penodol o waith.

7.3. Gwariwyd cyfanswm o £163k ar Ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, a chyllidwyd £94k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad Dd yn cynnwys crynodeb llawn o wariant fesul gwasanaeth.

8. CRONFA COST NEWID

8.1. Gwariwyd £110k ar brosiectau unigol oedd yn cael eu cyllido o'r Gronfa Cost Newid, ac mae £207k o wariant wedi'i drosglwyddo i 2026/27. Mae dau o'r naw prosiect wedi'u cwblhau, ac mae 4 prosiect arall bron yn gyflawn, gydag adolygiadau prosiect yn cael eu cynnal i sicrhau fod pob prosiect yn cyflawni'r briff a'i fod wedi'i gwblhau'n unol â'r disgwyliadau. Nid yw tri o'r prosiectau wedi cychwyn eto. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad E.

9. CASGLIADAU

9.1. Mae sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar ddiwedd Chwarter 1 yn rhagweld tanwariant o £2.114m (1.03%) erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/27. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £1.145m ar gyllidebau gwasanaeth, gyda thanwariant pellach ar gyllidebau corfforaeth ac incwm uwch na'r disgwyl Premiwm y Dreth Gyngor. Incwm uwch na'r disgwyl, arbedion ar swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol a symudiadau ffafriol o fewn y cyllidebau corfforaethol sydd bennaf gyfrifol am y rhagolwg cadarnhaol. Maent wedi gwrthbwysu pwysau sylweddol ar wasanaethau rheng flaen sy'n cael eu harwain gan y galw, yn enwedig Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

- 9.2.** Er bod y rhagolwg presennol yn galonogol, asesiad cynnar o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ydyw ac mae nifer o faterion yn creu ansicrwydd sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol, cefnogaeth ddigartrefedd, cludiant ysgol a lleoliadau allsirol addysg yn parhau i greu risgiau ariannol, ynghyd ag effaith posibl dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio a gwariant annisgwyl. Yn ogystal, gallai Premiwm y Dreth Gyngor fod yn destun apeliadau ac addasiadau yn y dyfodol.
- 9.3.** Os bydd y sefyllfa a ragwelir yn parhau, mae disgwyl i Falansau Cyffredinol y Cyngor gynyddu i £17.693m erbyn 31 Mawrth 2027, a pharhau i fod yn sylweddol uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell. Ystyrir, felly, bod y sefyllfa ariannol gyffredinol yn sefydlog ar hyn o bryd, er y bydd angen parhau i gadw llygaid ar y sefyllfa, yn ogystal â rheolaeth ariannol ddarbodus, drwy gydol gweddill y flwyddyn ariannol i sicrhau fod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2027
REVENUE OUTTURN FOR THE FINANCIAL YEAR ENDING 31 MARCH 2027

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau	2026/27 Ch1 Amrywiant	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under)	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
Addysq, Sqiliau a Phobl Ifanc <i>Education, Skills and Young People</i>									
Ddelegated Schools Budget	66,179	13,389	13,389	-	0.00%	66,179	-	0.00%	0
Ddysg Ganolog <i>Central Education</i>	5,541	2,221	2,160	(61)	(2.76%)	5,389	(152)	(2.74%)	(1,033)
Diwylliant <i>Culture</i>	1,657	379	536	157	41.45%	1,726	69	4.16%	30
Gwasanaethau Oedolion <i>Adult Services</i>	45,244	11,719	13,020	1,301	(11.10%)	44,500	(744)	(1.64%)	(873)
Gwasanaethau Plant <i>Children's Services</i>	18,670	5,474	5,547	73	1.33%	18,627	(43)	(0.23%)	1,337
Tai <i>Housing</i>	2,098	603	623	(20)	(3.45%)	2,082	(16)	(0.76%)	0
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff <i>Highways, Property & Waste</i>									
Priffyrdd <i>Highways</i>	8,653	2,053	1,908	(145)	(7.08%)	8,368	(285)	(3.29%)	(188)
Eiddo <i>Property</i>	1,978	(725)	(630)	95	(13.11%)	2,078	100	5.06%	118
Gwastraff <i>Waste</i>	10,788	1,755	1,725	(30)	(1.73%)	10,803	15	0.14%	(41)

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	2026/27 Ch1 Amrywiant Q1 Variance	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under)	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> <u>Regulation & Economic Development</u>									
Datblygu Economaidd <i>Economic Development</i>	2,768	857	1,151	294	34.34%	2,690	(78)	(2.82%)	(153)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd <i>Planning and Public Protection</i>	3,417	924	312	(612)	(66.25%)	3,569	152	4.45%	104
<u>AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer</u> <u>HR, Communications & Customer Experience</u>	2,432	680	694	14	2.06%	2,432	0	0.00%	(86)
<u>Digidol, Perfformiad a Moderneiddio</u> <u>Digital, Performance & Modernisation</u>	6,256	3,168	2,959	(209)	(6.60%)	5,870	(386)	(6.17)	(508)
<u>Adnoddau</u> <u>Resources</u>	4,113	1,145	1,206	61	5.40%	4,124	11	0.27%	3
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>	2,421	599	1,070	471	78.55%	2,572	151	6.24%	275
<u>Costau Corfforaethol a Democrataidd</u> <u>Corporate & Democratic costs</u>	3,712	1,318	1,343	25	1.88%	3,756	44	1.19%	98
<u>Rheolaeth Gorfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>	878	219	215	(4)	(1.61%)	895	17	1.94%	(28)
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth Total Service Budgets	186,805	45,778	47,228	1,450	3.17%	185,660	(1,145)	(0.35%)	(945)
Ardollau <i>Levies</i>	5,450	5,367	5,367	-	0.00%	5,450	-	0.00%	4
Rhyddhad Trethi Dewisol <i>Discretionary Rate Relief</i>	108	0	0	0	0.00%	86	(22)	(20.33%)	77
Cyllido Cyfalaf <i>Capital Financing</i>	5,396	804	678	(126)	0.00%	5,269	(127)	(2.35)	(771)
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl Cyffredinol ac Eraill <i>General & Other Contingencies</i>	2,250	2,249	1,980	(269)	(11.96%)	1,980	(270)	(11.96%)	154

Gwasanaeth / Swyddogaeth Service / Function	2026/27 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2026/27 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	2026/27 Ch1 Amrywiant Q1 Variance	2026/27 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q1 Actual & Committed Spend	Ch1 Amcangyfrif Gwariant hyd at 31 Mawrth 2027 Q1 Estimated Expenditure to 31 March 2027 £'000	Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2027 gor / (tan) wariant Q1 Estimated Outturn 31 March 2027 over / (under) £'000	2025/26 Gor / (tan) wariant a Ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget	2025/26 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over / (Under) spend
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
Arbedion Cyllideb i'w Cyflawni <i>Budget Savings to be Achieved</i>	59	14	-	(14)	0.00%	59	-	0.00%	(29)
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor <i>Council's General Reserves</i>	(1,685)	-	-	-	0.00%	(1,685)	-	0.00%	0
Cyfraniad gan y CRT am Wasanaethau Cefnogol <i>Support Services contribution HRA</i>	(865)	-	-	-	0.00%	(865)	-	0.00%	25
Budd-daliadau a Roddwyd <i>Benefits Granted</i>	7,826	462	2,602	2,140	463.75%	7,502	(324)	(4.15%)	(189)
Costau heb gyllideb ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / Iwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income</i>						500	500	0.00%	385
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol Total Corporate Finance	18,539	8,896	10,627	1,731	19.46%	18,296	(243)	(4.00%)	(344)
Cyfanswm 2026/27 Total 2026/27	205,344	54,674	57,855	3,181	5.82%	203,956	(1,388)	(0.68)	(1,289)
Cyllido Funding									
Trethi Annomestig <i>NDR</i>	(24,081)	(7,410)	(7,410)	-	0.01%	(24,081)	-	0.00%	0
Y Dreth Gyngor <i>Council Tax</i>	(55,998)	-	-	-	0.00%	(56,001)	(3)	0.01%	(119)
Premiwm y Dreth Gyngor <i>Council Tax Premium</i>	(4,761)	-	-	-	0.00%	(5,484)	(723)	15.17%	(1,212)
Grant Cynnal Refeniw <i>Revenue Support Grant</i>	(120,504)	(37,108)	(37,108)	-	0.00%	(120,504)	-	0.00%	0
Cyfanswm Cyllid 2026/27 Total Funding 2025/26	(205,344)	(44,518)	(44,518)	-	0.00%	(206,070)	(726)	(0.35%)	(1,331)
Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido Total outturn, including impact of funding	0	10,156	13,337	3,181	31.32%	(2,114)	(2,114)	1.03%	(2,620)

DADANSODDIAD O'R AMRYWIADAU A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESYMAU

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisïau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghor wyr	Trosglwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg Ganolog	Cludiant Ysgol	2	2	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Prydau Ysgol	(232)	(232)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Strategaeth ADY	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Eithriadau Ysgolion	(15)	-	13	-	-	-	(30)	-	-	-	2
	Canolfan Iaith	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar	(29)	-	(22)	-	-	-	-	-	-	-	(7)
	Clwb Gofal Plant	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Addysg Bellach	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Addysg Ganolog	107	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Lleoliadau Allsirol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Millbank	25	-	-	-	-	8	17	-	-	-	-
	Eraill	(10)	-	(10)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(152)	(230)	(19)	-	-	8	(13)	-	-	107	(5)
Diwylliant	Amgueddfeydd ac Oriolau	85	-	-	-	-	20	15	-	-	-	50
	Llyfrgelloedd	(21)	-	(36)	-	-	15		-	-	-	-
	Archifau	5	-	-	-	-	(5)	10	-	-	-	-
	CYFANSWM	69	-	(36)	-	-	30	25	-	-	-	50
Gwasanaethau Oedolion	Yr Henoed - Preswyl	146	550	-	-	-	(404)	-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Nyrsio	(224)	(78)	-	-	-	(146)	-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Gofal Cartref	56	56	-	-	-		-	-	-	-	-
	Yr Henoed - Arall	(118)	(3)	15	-	(100)		-	-	-	-	-
	Anableddau Corfforol - Preswyl	(47)	(43)	-	-	-	(4)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo l / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion (parhad)	Anabledau Corfforol - Gofal Cartref	(1)	(1)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Corfforol - Arall	40	-	40	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Preswyl	(271)	(271)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Gofal Cartref	20	20	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Gofal Dydd	69	69	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Llety â Chefnogaeth	(2)	(2)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Anabledau Dysgu - Arall	(38)	73	(111)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Preswyl	(28)	(30)	-	-	-	2	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Gofal Cartref	(25)	(25)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Llety â Chefnogaeth	(21)	(21)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Iechyd Meddwl - Arall	(80)	(31)	(49)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Preswyl	161	21	140	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Gofal Cartref	(82)	(7)	(75)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Gofal Dydd	(41)	20	(61)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Llety â Chefnogaeth	(88)	(19)	(69)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Uned Ddarparu - Arall	(40)	(14)	(26)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Cefnogi Rheoli	(130)	27	18	-	(175)	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(744)	291	(208)	-	(275)	(552)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo l / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tudalen 107	Gwasanaethau Plant											
	Plant Mewn Gofal - Lleoliadau Allsirol	289	289	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gofal Maeth	111	111	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cartrefi Clyd	(468)	(20)	(60)	-	(388)	-	-	-	-	-	-
	Plant Mewn Gofal - Arall	272	272	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cefnogaeth i Deuluoedd	87	87	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Plant ag Anableddau	(156)	35	(191)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	(5)	34	(39)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Gwasanaethau Ieuenctid	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Arall	(173)	(16)	(157)	-	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(43)	792	(447)	-	(388)	-	-	-	-	-	-
Tudalen 107	Gwasanaethau Tai	43	-	25	-	-	-	-	-	-	-	18
	Digartrefedd	(60)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(60)
	Canolfan J.E. O'Toole	1	-	(1)	-	-	-	-	-	-	-	2
	CYFANSWM	(16)	-	24	-	-	-	-	-	-	-	(40)
Priffyrdd	Priffyrdd - Cefnogaeth a Rheolaeth	(40)	(20)	(20)	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cludiant Cymunedol Môn	(50)	(50)	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Meysydd Parcio a Rheoli Parcio	(60)	-	-	-	-	(60)	-	-	-	-	-
	Rheoli Datblygu	(30)	-	-	-	-	(30)	-	-	-	-	-
	Gwaith Stryd Preifat	(300)	-	-	-	-	(300)	-	-	-	-	-
	Cyllideb Gwaith	295	295	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cynnal a Chadw a Rheoli	10	10	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw	(50)	-	-	-	-	(50)	-	-	-	-	-
	Trafnidiaeth Gyhoeddus	(60)	(10)	-	-	-	(50)	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Iswasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am wasanaeth	Staff / Asiantaeth Amrywiannau	Newidia dau mewn Prisiau neu Gontract	Newidiadau mewn Cyllid Grant	Amrywiant mewn Incwm	Costau Adeiladau	Costau Ymgynghorwyr	Trosglwyddo I / (O) Gronfeydd wrth Gefn	Gor / Tan Ddarpariaeth yn y Gyllideb	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Priffyrdd (parhad)	Fflyd	-	-	-	-	-		-	-	-	-	-
	CYFANSWM	(285)	225	(20)	-	-	(490)	-	-	-	-	-
Eiddo	Ystadau	101	-	-	-	-	45	54	-	-	-	2
	Glanhau	20	-	-	-	-			-	-	-	20
	Cynnal a Chadw	(99)	-	-	-	-		(116)	-	-	-	17
	Gwasanaethau Pensaernïol	78	-	-	-	-	78		-	-	-	
	CYFANSWM	100	-	-	-	-	123	(62)	-	-	-	39
Gwastraff	Casglu a Gwaredu Gwastraff	(70)	-	-	(70)	-	-	-	-	-	-	-
	Cynhyrchu Trydan	50	-	-	-	-	50	-	-	-	-	-
	Ailgylchu	50	-	-	50	-	-	-	-	-	-	-
	Gweinyddu a Rheoli	(15)	(5)	-	(10)	-	-	-	-	-	-	-
	CYFANSWM	15	(5)	-	(30)	-	50	-	-	-	-	-
Datblygu Economaidd	Datblygu Economaidd	27	-	(35)	-	-	62	-	-	-	-	-
	Cyrchfan	(20)	-	-	-	-	(10)	-	-	-	-	(10)
	Hamdden	(85)	-	66	-	-	(100)	(131)	-	-	-	80
	CYFANSWM	(78)	-	31	-	-	(48)	(131)	-	-	-	70
Cynllunio	Gweinyddu Cynllunio	1	-		-	-	-	-	-	-	-	1
	Rheoli Cynllunio	(6)	-	24	-	-	(716)	-	40	646	-	
	Rheolaeth Adeiladu	158	-	119	-	-	56	-	-	-	-	(17)
	Polisi Cynllunio	(51)	-	(50)	-	-	-	-	-	-	-	(1)
	Cadwraeth	8	-	8	-	-	-	-	-	-	-	-
	Cofrestrfa Tir	(21)	-	-	-	-	(21)	-	-	-	-	-
- 11.1.** Mae'r Cyngor yn dal digon o gyllid yn ei falansau cyffredinol i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn na ellir ei gyllido o'r gyllideb refeniw neu gyfalaf bresennol. Yn ogystal â hyn, mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer costau risgiau posibl, costau prosiectau a gynlluniwyd yn y dyfodol ac i ddal cyllid grant sydd heb ei ddefnyddio, neu unrhyw symiau eraill o gyllid sydd gan y Cyngor sydd â chyfyngiad arnynt.
- 11.2.** Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor £19.038m o falansau cyffredinol a £25.042m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer balansau cyffredinol, sef cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2026/27, bydd angen balans cyffredinol o £10.35m neu fwy. Pan osodwyd cyllideb 2026/27, defnyddiwyd £1.685m o falansau cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo defnyddio swm ychwanegol o £1.763m i gyllido prosiectau cyfalaf a refeniw unwaith ac am byth. Mae hyn yn golygu bod y balansau cyffredinol yn gostwng i £15.59m, sef £5.24m yn uwch na'r isafswm balans gofynnol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai unrhyw orwariant yng nghyllideb refeniw 2026/27 yn cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol. Mae'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 2026/27 yn amcangyfrif tanwariant o £2.114m yn y gyllideb refeniw. Y balans a ragwelir, felly, yw £17.704m, sef £7.437m yn uwch na'r lleiafswm.

- 11.3.** Cynhaliwyd arolwg o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, a throsglwyddwyd £1.43m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn cynnwys £8.9m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer risgiau penodol a nodwyd megis chwyddiant, colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a chynnydd yn y galw am wasanaethau penodol. Byddai'n bosib rhyddhau'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol, ond byddai hyn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor oherwydd byddai'n rhaid cyllido'r gost ariannol o'r balansau cyffredinol pe gwireddwyd y risgiau hyn.

12. YSGOLION

- 12.1.** Mae'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn elfen bwysig o gyllideb gyffredinol y Cyngor, ac mae 27.7% o'r gyllideb net gyffredinol yn cael ei dyrannu i ysgolion. Mae ysgolion hefyd yn cadw unrhyw gyllid sy'n weddill yn eu cronfeydd wrth gefn eu hunain, ac mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn arwydd da o'r pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion. Dengys Tabl 12 isod lefel balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2026 a'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2027, wedi i ysgolion ddyrannu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2026/27:-

Tabl 12
Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a Rhagolwg o Falansau ar 31 Mawrth 2026

	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Balans ar 31 Mawrth 2026	£1,942,402	£2,118,961	£265,920	£4,327,283
Defnyddiwyd i Gydbwyso Cyllideb 2026/27	(£552,461)	(£1,321,490)	(£51,770)	(£1,925,721)
Amcangyfrif o'r Balans ar 31 Mawrth 2027	£1,389,941	£797,471	£214,150	£2,401,562
Nifer o Ysgolion mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2026	6	0	0	4
Nifer Ysgolion a amcangyfrifir iddynt fod mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2027	7	1	0	4

- 12.2.** Mae'r balans cyffredinol yn rhoi syniad bras, ond mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill wrth benderfynu ar iechyd ariannol pob ysgol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys maint yr ysgol a'r tuedd yn y balans dros nifer o flynyddoedd. Mae Tabl 13, isod, yn darparu asesiad cryno o'r ysgolion:-

Tabl 13
Crynodeb o Iechyd Ariannol Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026

Ar 31 Mawrth 2026				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	5	0	1	6
Sefydlog a balans digonol	7	1	0	8
Gwaethygu ond balans digonol	13	3	0	16
Gwella ond balans isel	1	0	0	1
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn ddifrifol	3	0	0	3
Gwaethygu ac yn dod yn ddifrifol	2	1	0	3
Difrifol	7	0	0	7
Cyfanswm	38	5	1	44

Ar 31 Mawrth 2027				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	4	0	1	5
Sefydlog a balans digonol	7	1	0	8
Gwaethygu ond balans digonol	11	3	0	14
Gwella ond balans isel	0	0	0	0
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn ddifrifol	5	0	0	5
Gwaethygu ac yn dod yn ddifrifol	4	1	0	5
Difrifol	7	0	0	7
Cyfanswm	38	5	1	44

- 12.3. Mae Tabl 12 yn cadarnhau bod sefyllfa ariannol ysgolion yn dda at ei gilydd, er bod y sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae Tabl 13 yn cadarnhau bod iechyd ariannol ysgolion yn gwaethygu ychydig, ac ystyrir mai dim ond 5 ysgol fydd mewn sefyllfa ariannol iach ym Mawrth 2027, o gymharu â 6 ym Mawrth 2026. Yn ogystal, mae 12 ysgol mewn perygl o fod mewn sefyllfa ariannol ddifrifol yn y tymor byr i ganolog, o gymharu â 10 ym Mawrth 2026.

13. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

- 13.1. Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen swm ychwanegol o £8.5m i gwrdd â phwysau chwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau presennol a chwrdd â chynnydd yn y galw yn 2027/28, er y dylid nodi fod y ffigwr hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau fydd angen eu hadolygu wrth i'r broses gyllidebol fynd rhagddi. Ar sail y rhagdybiaethau uchod, mae Tabl 14 yn dangos y sefyllfa gyllidebol bresennol yn ystod y tair blynedd o'r cynllun:-

Tabl 14
Amcangyfrif o'r Diffyg Cyllido 2027/28 - 2029/30

	2027/28 £'m		2028/29 £'m		2029/30 £'m	
Diffyg Cyllidebol (yn unol â Thabl 8)		8.502		5.614		5.838
Cynnydd yn y CAC	(1.727)		(2.926)		(3.731)	
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	(3.035)		(1.914)		(1.643)	
Cyllid Ychwanegol		(4.761)		(4.840)		(5.374)
		3.741		0.774		0.464
Cronfeydd Wrth Gefn a Ddefnyddiwyd i Gydbwyso Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol		1.685		0.000		0.000
Amcangyfrif o'r Diffyg Cyllidebol ar ôl cyllido		5.426		0.774		0.464
Rhagdybiaeth o gynnydd yn yr CAC		+ 1.2%		+2.0%		2.5%
Rhagdybiaeth o Gynnydd yn y Dreth Gyngor		+ 5.0%		+3.0%		2.5%

- 13.2.** Os na fyddai'r CAC yn cynyddu, byddai angen cynnydd o 14.0% yn y Dreth Gyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2027/28. Byddai hyn yn gynydd blynyddol o £251, a byddai Dreth Gyngor Ynys Môn yr 8fed uchaf yng Nghymru, gan dybio y byddai pob Cyngor arall yn cynyddu'r dreth gan 5% yn 2027/28.
- 13.3.** Fel y gwelir ym mharagraff 11, mae gan y Cyngor rywfaint o hyblygrwydd i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i leihau'r bwlch cyllido, ond mae risgiau'n gysylltiedig â defnyddio cronfeydd wrth gefn gan nad ydynt yn ffynhonnell incwm sydd ar gael flwyddyn ar ôl blwyddyn ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn osgoi'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Yn ogystal, wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor yn lleihau ac mae ei sefyllfa ariannol yn gwanhau. Rhaid gofalu nad yw lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir yn golygu nad oes gan y Cyngor ddigon o gyllid i gwrdd â gwariant annisgwyl, neu fynd i'r afael ag unrhyw risgiau posib os ydynt yn cael eu gwireddu ac angen gweithred a chyllid.
- 13.4.** Er bod sefyllfa ariannol ysgolion yn gwaethygu, dengys Paragraff 12 bod gan ysgolion rhywfaint o le i gyfrannu at y targed arbedion. Mae'r model ariannol yn gostwng y gyllideb ddatganoledig i ysgolion i £56.39m, sef 1.8% o ostyngiad mewn termau ariannol. Y rheswm pennaf am hyn yw gostyngiad yng nghyfraniadau'r cyflogwr at y cynllun pensiwn athrawon, gyda 2% o ostyngiad yn y gyllideb hon yn creu £1.13m o arbedion. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i ysgolion unigol gydbwyso eu cyllideb yn 2026/27, yn enwedig ysgolion llai lle ceir llai o hyblygrwydd mewn perthynas â maint dosbarthiadau.
- 13.5.** Y dewis arall yw gostwng y gyllideb wariant net ac, o ystyried bod rhwng £1.3m a £4.8m o danwariant yn ystod y 5 mlynedd ariannol ddiwethaf, mae'n ymddangos bod rhywfaint o le i dorri cyllidebau ymhellach.
- 13.6.** Unwaith eto, gan ragdybio bod y bwlch cyllido yn £5.426m, mae hyn gyfystyr ag arbedion refeniw o 2.6% o gyllideb wariant net 2026/27. Fodd bynnag, mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau y mae'n rhaid eu cyllido er nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli. Maent yn cynnwys:-
- Ardoll y Gwasanaeth Tân - £5.36m yn 2026/27;
 - Ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig - £0.08m yn 2026/27;
 - Costau Cyllido Cyfalaf - £5.86m yn 2026/27;
 - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £7.93m yn 2026/27;
 - Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.03m yn 2026/27;
 - Lwfansau Aelodau - £1.28m yn 2026/27;
 - Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.46m yn 2026/27;
 - Costau Crwner - £0.32 yn 2026/27.
- 13.7.** Yn ogystal, os gosodir cap ar y gyllideb ysgolion, ni fydd yn bosib cynnwys y gyllideb ysgolion mewn unrhyw dargedau arbedion pellach. Felly, bydd rhaid canfod unrhyw arbedion o'r cyllidebau sy'n weddill (£127.29m yn 2026/27), ac mae hyn gyfystyr ag arbedion o 4.3% o'r cyllidebau lle mae'n bosib gwneud arbedion.
- 13.8.** Mae tua 85% o wariant y Cyngor yn mynd ar wasanaethau statudol, a 3% arall ar wasanaethau rhannol statudol. O'r 12% sy'n weddill, mae 9% yn cael ei wario ar wasanaethau cefnogi, a dim ond 3% sy'n cael ei wario ar wasanaethau anstatudol. Mae'n anodd gostwng gwariant ar wasanaethau statudol a'r unig ffordd o wneud hynny yw trwy ddarparu'r gwasanaeth yn fwy effeithlon neu leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir a ddarparu'r isafswm a ddiffiniwyd yn unig.
- 13.9.** Mae'r gwaith o nodi arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gweithredu wedi dechrau ond, o ystyried y toriadau blaenorol oherwydd cynni ariannol a chynnydd yn y galw am wasanaethau, nid yw Gwasanaethau wedi darganfod unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol y gellir eu cynhyrchu. Yr unig ffordd o greu arbedion yw trwy leihau gwasanaethau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

- 13.10.** Ar sail y rhagolwg hwn, mae Tabl 15, isod, yn dangos y dangosydd gwytnwch ariannol sy'n penderfynu'r bwlch cyllido fel canran o'r gwariant refeniw net:-

Tabl 15
Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido fel Canran o Wariant Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Ddisymud	CAC	Y Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol (Nodyn 1)	Cyfanswm Cyllid Cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor	Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido	% Bwlch
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	132.337	94.924	33.644	128.568	3.769	2.85%
2019/20	134.702	95.159	35.087	130.246	7.156	5.21%
2020/21	142.203	101.005	39.370	140.375	1.828	1.29%
2021/22	147.076	104.825	41.161	145.986	1.090	0.74%
2022/23	155.501	114.549	42.957	157.506	(2.005)	(1.29%)
2023/24	173.830	123.665	44.879	168.544	5.286	3.04%
2024/25	188.992	127.586	47.628	175.214	13.778	7.29%
2025/26	199.025	135.605	52.628	188.233	10.792	5.42%
2026/27	206.773	144.579	57.810	202.389	4.384	2.12%
Rhagolwg 2027/28 (Nodyn 2)	215.531	146.311	63.794	210.105	5.426	2.52%
Rhagolwg 2028/29 (Nodyn 2)	215.719	149.237	65.708	214.945	0.772	0.36%
Rhagolwg 2028/29	220.783	152.968	67.351	220.320	0.464	0.21%
Nodyn 1 - Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu i ystyried newidiadau yn sylfaen y dreth						
Nodyn 2 - Mae'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2027/28 a 2028/29 yn cynnwys rhagdybiaeth bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 yn cael ei hadolygu a'i bod yn gostwng i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael						

- 13.11.** Er bod y sefyllfa yn 2027/28 ychydig yn well na'r sefyllfa yn 2025/26 ac yn debyg i'r sefyllfa yn 2026/27, mae'n parhau i fod yn flwyddyn ariannol hynod o heriol o ran gosod y gyllideb, gan fod unrhyw arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu gwireddu yn y gorffennol. Mae'r sefyllfa'n dechrau gwella yn 2028/29, ond mae'n ddibynnol ar chwyddiant a dyfarniadau cyflog aros yn isel, y galw am wasanaethau aros yr un fath, nodi a gwireddu arbedion gwasanaeth a byddai angen i'r setliad i lywodraeth leol gynyddu o leiaf yn unol â chwyddiant.

14. CASGLIADAU

- 14.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn darparu amcangyfrif o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y 3 blynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, ac mae rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth cyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion yn creu mwy o ansicrwydd ynghylch y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrif costau'r dyfodol ar adeg pan nad yw dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u cytuno eto, amcangyfrif y galw am wasanaethau, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor, cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn dilyn penodi Prif Weinidog newydd i y DU ac etholiadau LIC, a'r ffaith fod y LIC bresennol yn llywodraeth leiafrifol. Mae lefel y gefnogaeth gan LIC yn elfen allweddol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac mae diffyg rhagolygon cywir o lefelau cyllido yn y dyfodol yn effeithio ar lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei ddarparu.

- 14.2.** Bydd y galw am wasanaethau statudol a'r pwysau i gynyddu cyflogau rhai carfanau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan gcontract) yn cynyddu costau'n sylweddol, yn enwedig yn 2027/28. Os nad yw'r pwysau ychwanegol yn cael ei adlewyrchu yn y setliad cyllido gan LIC, yna bydd yn rhaid i'r Cyngor weithredu toriadau i wasanaethau a / neu bydd angen i'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn uwch na chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac sy'n adlewyrchu'n gywir gwir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.
- 14.3.** Mae gan y Cyngor rywfaint o gronfeydd wrth gefn y gellir ei ddefnyddio yn 2027/28 i helpu i leihau'r bwlch cyllido posibl, ond mae'r cyllid y gellir ei ryddhau yn gyfyngedig ac ni fydd yn pontio'r bwlch cyfan. Os defnyddir cronfeydd wrth gefn, bydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor a ni fydd ond yn gohirio'r angen i wneud arbedion cyllidebol neu gynyddu'r Dreth Gyngor. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, ac er mwyn datrys y sefyllfa ariannol bresennol, bydd rhaid canfod tua £7m o arbedion parhaol neu bydd angen cynnydd o £7m yn incwm y Dreth Gyngor, ar ben y cynnydd sydd eisoes wedi cael ei ragdybio.
- 14.4.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn amlygu'r ffaith bod y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac ansicr arall ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2027/28 a thu hwnt.
- 14.5.** Rhaid ystyried cynyddu lefel y Dreth Gyngor gan fwy na lefel chwyddiant cyffredinol fel rhan o'r datrysiad ariannol tymor hir cyffredinol i gyllido'r diffyg ariannol. Mae'r gallu gan y Cyngor i wneud hynny wrth gymharu lefel y Dreth Gyngor â lefelau'r Dreth Gyngor mewn awdurdodau eraill tebyg / cyfagos.
- 14.6.** Ar gyfer 2027/28, fel yn y gorffennol, bydd angen cymysgedd o arbedion cyllidebol, cynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n uwch na chwyddiant a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Y SENARIO FWYAF TEBYGOL			
	2027/28	2028/29	2029/30
Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau			
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Staff nad ydynt yn Athrawon	3.0%	2.0%	2.0%
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Athrawon	3.5%	2.5%	2.0%
Cyfradd Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	0.0%	0.0%	0.0%
Cyfradd Cyfraniadau Pensiynau Athrawon	-38.5%	0.0%	0.0%
Trydan	5.0%	5.0%	5.0%
Nwy	5.0%	5.0%	5.0%
CPI (gan gynnwys unrhyw gywiriad o'r flwyddyn flaenorol)	3.2%	2.0%	2.0%
Prif Gontractau Gwasanaeth	3.2%	2.0%	2.0%
Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol	4.2%	2.5%	2.5%
Ffioedd a Thaliadau	3.0%	3.0%	3.0%
Y Dreth Gyngor	5.0%	3.0%	2.5%
Cyllid Allanol Cyfun	1.2%	2.0%	2.5%
Grantiau Llywodraeth	1.0%	3.0%	3.0%
Ardollau	4.0%	3.0%	3.0%
Costau Cyllido Cyfalaf	17.7%	5.7%	7.7%
Cynnydd yn y Galw			
Lleoliadau Plant	5.0%	3.0%	3.0%
Lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion	3.6%	2.0%	2.0%
Cludiant Ysgol	2.0%	2.0%	0.0%
Digartrefedd	2.0%	2.0%	0.0%
Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	0.0%	0.0%	0.0%
Anghenion Dysgu Ychwanegol	3.0%	2.0%	2.0%

CRYNODEB AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET 2026/27 - 2029/30

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m
Cyflogau - Staff nad ydynt yn Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	68.476	71.218	72.759	74.424
Cyflogau - Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	43.580	41.927	42.528	42.986
Costau Gweithwyr Eraill	3.934	4.055	4.136	4.219
Costau Adeiladau	7.927	8.180	8.344	8.510
Ynni	3.112	3.267	3.430	3.602
Trafnidiaeth	1.296	1.337	1.364	1.391
Cyflenwadau a Gwasanaethau	29.923	31.018	31.561	32.359
Cludiant Ysgol	4.626	4.809	4.944	5.083
Prydau Ysgol	3.468	3.579	3.651	3.724
Lleoliadau Allsirol Addysg	0.864	0.899	0.926	0.954
Strategaeth ADY Addysg	2.527	2.603	2.656	2.709
Gofal Cymdeithasol Oedolion	39.435	42.116	43.917	45.382
Lleoliadau Gofal Plant	12.743	13.839	14.543	15.278
Casglu a Gwaredu Gwastraff	9.245	9.534	9.725	9.920
Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd	5.755	6.110	6.232	6.357
Gwasanaeth Trafnidiaeth Bysiau Cyhoeddus	2.458	2.535	2.585	2.637
Cefnogaeth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf	1.050	1.103	1.136	1.164
Digartrefedd	1.546	1.619	1.675	1.733
Lwfansau a Threuliau Aelodau	1.285	1.324	1.363	1.404
Crwneriaid	0.319	0.328	0.335	0.342
Ffioedd Archwilio ac Arolygu	0.461	0.476	0.485	0.495
Ardoll y Gwasanaeth Tân ac Ardollau Eraill	5.450	5.668	5.838	6.014
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill	7.935	8.331	8.581	8.796
Costau Cyllido Cyfalaf a Llog a Dderbynnir	5.396	6.446	6.839	7.469
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl	1.199	1.200	1.127	1.152
CYFANSWM GWARIANT GROS	264.009	273.521	280.680	288.104
Grantiau	(30.389)	(30.692)	(31.613)	(32.561)
Ffioedd a Thaliadau	(15.544)	(15.936)	(16.333)	(16.739)
Ail-godi Tâl	(9.267)	(9.546)	(9.737)	(9.932)
Rhenti	(1.780)	(1.816)	(1.852)	(1.889)
CYFANSWM INCWM GROS	(56.980)	(57.990)	(59.535)	(61.121)
GWARIANT REFENIW NET	207.029	215.531	221.145	226.983
Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		8.502	5.614	5.838
% Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		+4.11%	+2.60%	+2.64%

**CRYNODEB AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET FESUL GWASANAETH 2026/27 -
2029/30**

	2026/27 £'m		2027/28 £'m		2028/29 £'m		2029/30 £'m	
Datblygu Economaidd	1.023		1.058		1.077		1.098	
Cyrchfan	0.790		0.820		0.834		0.849	
Hamdden	0.955		1.002		1.016		1.034	
Cynllunio	1.372		1.494		1.519		1.546	
Gwarchod y Cyhoedd	2.032		2.158		2.199		2.244	
Rheoleiddio		6.172		6.532		6.645		6.771
Priffyrdd	8.653		9.153		9.289		9.431	
Eiddo	1.978		2.064		2.112		2.167	
Gwastraff	10.788		11.152		11.358		11.570	
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo		21.419		22.369		22.759		23.168
Gwasanaethau Oedolion		45.377		48.466		50.327		51.875
Gwasanaethau Plant		18.606		20.101		20.885		21.711
Ysgolion	57.407		56.388		57.383		58.259	
Addysg Ganolog	14.314		14.922		15.274		15.633	
Diwylliant	1.657		1.712		1.747		1.785	
Addysg a Diwylliant		73.378		73.022		74.404		75.677
AD, Cyfathrebu a Gofal Cwsmer		2.246		2.316		2.362		2.412
Digidol, Perfformiad a Moderneiddio		6.472		6.829		6.991		7.162
Tai		2.098		2.184		2.249		2.316
Adnoddau		4.248		4.387		4.470		4.561
Busnes y Cyngor		2.380		2.694		2.507		2.560
Rheolaeth Gorfforaethol		0.878		0.904		0.922		0.942
Cyllido Cyfalaf	5.396		6.446		6.839		7.469	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau	7.935		8.332		8.581		8.796	
Ardollau	5.450		5.668		5.839		6.013	
Cefnogaeth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf	1.050		1.103		1.136		1.164	
Corfforaethol a Democrataidd	3.590		3.734		3.876		4.026	
Ail-godi Tâl ar y CRT (Cyfrif Refeniw Tai)	(0.865)		(0.891)		(0.909)		(0.927)	
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl	1.199		1.335		1.262		1.287	
Ddim yn gysylltiedig â Gwasanaethau		23.755		25.727		26.624		27.828
CYFANSWM GWARIANT NET		207.029		215.531		221.145		226.983

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	22ain Medi 2026
Pwnc:	Penderfyniad ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr posibl yn Ynys Môn
Aelod Portffolio:	Y Cynghorydd Alun Roberts (Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo).
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Andy Godber Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol andygodber@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Mae’n berthnasol i bob Aelod Lleol

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi'r argymhellion canlynol: Nad yw'r Cyngor yn mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr o ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith. Bydd y Cyngor yn monitro, adolygu ac yn ystyried tystiolaeth effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a ddewisodd mabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr o'r fath at Lywodraeth Cymru gyda'r holl aelodau etholedig. Cefndir Derbyniodd Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 18 Hydref. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol godi ardoll (yr ardoll) ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Mae'r ardoll ymwelwyr yn cynnwys ffi ychwanegol i'w dalu wrth aros mewn llety ymwelwyr yng Nghymru. Bydd yr arian a godir drwy'r ardoll yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i wella twristiaeth leol. Gall yr ardoll ymwelwyr helpu i: - gynnal cyfleusterau a seilwaith lleol - gwarchod tirluniau hardd Cymru - sicrhau bod cymunedau'n parhau i groesawu ymwelwyr yn ogystal â chynnal yr hyn sy'n gwneud yr ardal yn arbennig Gall awdurdodau lleol benderfynu sut i ddefnyddio unrhyw arian a godir o'r ardoll ymwelwyr er mwyn cefnogi mentrau twristiaeth a rheoli cyrchfan. Y bwriad yw y gallai'r arian hwn dalu costau cysylltiedig â derbyn ymwelwyr, megis glanhau strydoedd, casglu gwastraff, cynnal atyniadau naturiol a diwylliannol, yn ogystal â chefnogi a gwella isadeiledd ar gyfer ymwelwyr megis toiledau, llwybrau troed a chanolfannau ymwelwyr. Gall awdurdodau lleol ddewis os ydynt eisiau cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardal. Byddant yn gwneud penderfyniad ar ôl ymgynghori gyda phreswylwyr, busnesau ac ymwelwyr ac asesu ei effaith. Golyga hyn y codir yr ardoll dim ond yn yr ardaloedd hynny lle mae cymunedau wedi penderfynu mai dyna'r dewis cywir iddyn nhw. Mae'r broses gwneud penderfyniad yn cael ei arwain gan yr ymgynghoriad a'r asesiadau ar yr effaith ar yr economi a chydraddoldeb. Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Gwnaethom ystyried a allai'r ardoll ymwelwyr effeithio'n annheg ar bobl oherwydd eu hoed, eu hanabledd, eu rhyw, eu hil, eu crefydd neu eu cred, eu cyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu rhywiol, eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil, ar eu beichiogrwydd neu famolaeth. Gwnaethom hefyd ystyried effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg ac ar bobl all brofi anfantais economaidd-gymdeithasol. Beth wnaethom ddysgu - Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb yn ystod y cyfnod hwn. - Mae'r gyfraith yn cynnwys mesurau diogelu, eithriadau ac ad-daliadau i leihau'r risg o effeithiau annheg. - Efallai y gall ymwelwyr anabl sydd angen teithio gyda char hawlio ad-daliad mewn rhai amgylchiadau.

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau
- Byddai plant a phobl ifanc sy'n aros mewn llety cost isel yn cael eu heithrio o'r ardoll. Fodd bynnag, gwnaeth yr ymgynghoriad amlygu risg y byddai'r gyfradd sylfaenol i'w gweithredu ar draws pob math o lety yn cynnwys codi ffi ar blant, ac mae'n bosibl y gall hynny effeithio'n negyddol ar deuluoedd incwm is. - Disgwylir na fydd yr effaith ehangach ar swyddi neu wariant ymwelwyr yn sylweddol, ac mae posibilrwydd y byddai'n cael ei leihau drwy ail-fuddsoddi'r arian yn lleol. - Mae Ynys Môn yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, ac mae gan weithwyr yn y diwydiant twristiaeth sgiliau uchel yn yr iaith Gymraeg. Os cyflwynir yr ardoll, bydd cyfle i ddefnyddio ychydig o'r incwm i gefnogi gwasanaethau ymwelwyr cyfrwng Cymraeg, diwylliant leol, arwyddion, digwyddiadau a seilwaith mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan dwristiaeth.
Casgliad cyffredinol Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg na materion economaidd-gymdeithasol, yn seiliedig ar y wybodaeth a adolygwyd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i fonitro effeithiau dros amser, a sicrhau bod unrhyw arian a godir yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n elwa trigolion, ymwelwyr, busnesau lleol a chymunedau Cymraeg.
Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar yr Economi
Beth wnaethom ddysgu - Ni ddisgwylir llawer o effaith ar yr economi. - Mae'r model yn awgrymu y gallai'r ardoll arwain at ostyngiad bach iawn yng ngalw ymwelwyr, ond gwneir yn iawn am hyn drwy fuddsoddiadau lleol wedi'u hariannu drwy'r ardoll. Galli'r effaith amrywio o fod ychydig yn negyddol i eithaf cadarnhaol, yn dibynnu ar y rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd. - Mae'r dadansoddiad craidd yn rhagweld y gallai'r ardoll godi mwy na £1.2-£1.5 miliwn bob blwyddyn ar gyfer Ynys Môn, ac eithrio TAW ac ar ôl costau gweinyddol Llywodraeth Cymru. Byddai'r incwm yn darparu ffynhonnell ariannu gadarn ar gyfer prosiectau a gwasanaethau sy'n cefnogi trigolion, ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol. - Mae'r effaith ar swyddi a'r economi ehangach yn gyfyngedig iawn. Dan y senarios craidd, mae'r effaith yn gymesur â llai na 0.1% o gyfanswm cyflogaeth Ynys Môn, ac oddeutu -0.01% o economi'r ynys. Dylid hefyd trin y ffigyrau'n bwylllog oherwydd mae data ymwelwyr lleol yn ansicr ac mae ffynonellau data gwahanol yn cynnig rhagdybiaethau gwahanol.
Casgliad cyffredinol Yn gryno, mae'r asesiad yn dangos mai ychydig iawn o risgiau economaidd sydd ynghlwm â'r Ardoll Ymwelwyr, ac y byddai'n creu incwm newydd i'w fuddsoddi yn economi ymwelwyr Ynys Môn. Byddai'r effaith terfynol yn dibynnu ar sut y gweithredir yr ardoll, sut mae busnesau'n ymateb, a pa mor effeithiol y defnyddir y cyllid i wella profiad ymwelwyr a rheoli effeithiau lleol. Mae'r Asesiad ar yr Effaith ar Gydraddoldeb wedi amlygu amrywiaeth o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghlwm â'r cynnig. Er bod ymatebion yr ymgynghoriad yn dangos pryder sylweddol mewn perthynas ag effeithiau andwyol posibl, yn enwedig ar y sector twristiaeth, dylid ystyried y safbwyntiau hyn ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Asesiadau, sydd dal yn arfarniad dilys o'r effeithiau a'r cyfleoedd posibl a all godi drwy weithredu'r ardoll. Mae sawl ffactor yn cynnwys effaith gynyddol yr Ardoll ar fusnesau sydd eisoes yn teimlo effaith yr hinsawdd economaidd bresennol, y rheol 182 ar lety hunan-arlwyio a'r lefel TAW 20%. Ym marn yr ymatebwyr, mae'r ffactorau cynyddol hyn yn fwy na'r effeithiau cadarnhaol a welir o ran mwy o fuddsoddiad mewn gwaith rheoli cyrchfan, fyddai'n deillio o gyflwyno'r Ardoll.
Y Broses Ymgynghori Cynhaliwyd proses ymgynghori gyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn a hynny drwy arolwg ar-lein oedd yn dechrau ar 15 Mai 2026 (yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn), ac a ddaeth i ben ar 13 Gorffennaf 2026. Yn ychwanegol, cynhaliwyd 6 sesiwn wyneb yn wyneb yn: - Llangefni, 15 Mehefin 2026 - Biwmares, 17 Mehefin 2026 - Niwbwrch, 24 Mehefin 2026 - Caergybi, 29 Mehefin 2026 - Porthaethwy, 1 Gorffennaf 2026 - Amlwch, 6 Gorffennaf 2026 Cynhaliwyd un sesiwn yn benodol ar gyfer y sector busnes ar y cyd ag Awdurdod Cyllid Cymru yn Llangefni ar 22 Mehefin 2026. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori (fel sy'n cael ei eirioli gan Lywodraeth Cymru). Maent yn cynnwys: - Mae'n rhaid ymgynghori ar gam ffurfiannol - Mae'n rhaid darparu digon o wybodaeth er mwyn gallu ystyried ymatebion gyda deallusrwydd a gall gynnwys asesiad o'r effaith ar yr economi - Mae'n rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb - Mae'n rhaid i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ystyried adborth i'r ymgynghoriad.

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau										
Canfyddiadau'r Ymgynghoriad Derbyniodd y Cyngor 2,098 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein. Roedd adborth a gafodd ei ddarparu yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb hefyd ynghlwm â'r ymatebion hyn. Mae gwrthwynebiad i'r Ardoll Ymwelwyr yn gryf, gyda 1,482 (70.8%) o'r holl ymatebwyr yn gwrthwynebu, neu'n dueddol o wrthwynebu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, tra bo 525 (25.1%) yn cefnogi, neu'n dueddol o'i gefnogi. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn: <table><tr><th>Categori</th><th>Nifer</th></tr><tr><td>Preswylwyr</td><td>1066</td></tr><tr><td>Ymwelwyr</td><td>766</td></tr><tr><td>Perchenogion Busnes</td><td>355</td></tr><tr><td>Gweithwyr Twristiaeth</td><td>206</td></tr></table> (roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un disgrifiad, felly mae cyfanswm y carfanau'n fwy na nifer yr ymatebion). Roedd y gwrthwynebiad yn erbyn mabwysiadu'r Ardoll yn gryf ymhlith gweithwyr ym maes twristiaeth, perchnogion/rheolwyr busnes ac ymwelwyr. Roedd preswylwyr yn fwy amhendant, ond roedd y gwrthwynebiad o 58% dal yn fwy na'r gefnogaeth. Roedd ymatebion yn ymestyn ledled yr Ynys, gyda mwy o ymatebion yn deillio o'r prif drefi a chymunedau arfordirol. Cyflwynwyd oddeutu 5.1% o ymatebion drwy'r holiadur iaith Gymraeg. Roedd yr ymgynghoriad yn un hunan-ddewisol yn hytrach na chynrychioli ystadegau, felly gellid darllen y dystiolaeth fel tystiolaeth gan randdeiliaid yn hytrach nag arolwg poblogaeth. Roedd yn amlwg fod angen mwy o adnoddau i Reoli Cyrchfannau er mwyn creu effaith wirioneddol mewn cymunedau a gwella'r cynnig sydd ar gael gan Ynys Môn mewn perthynas â chynnal effaith gadarnhaol twristiaeth. Fodd bynnag, ni welwyd y >£1.5 miliwn y gellid ei greu drwy'r Ardoll fel swm digonol i leddfu effeithiau negyddol posibl yr Ardoll. Crynodeb o'r Gwrthwynebiad a. Roedd gwrthwynebu yn canolbwyntio'n bennaf ar y risg bosibl i fusnesau bach a thymhorol, y canran uchel o lety hunan-arlwygo yn Ynys Môn a'r rheol 182 (sy'n berthnasol i eiddo hunan-arlwygo, lle mae'n rhaid iddynt fod ar gael am isafswm o 182 noson y flwyddyn er mwyn cymhwyso ar gyfer cyfraddau busnes yn hytrach na'r dreth gyngor), a'r trothwy TAW 20%. b. Codwyd pryderon am ddiffyg data clir i ddangos posibilrwydd yr Ardoll i ddarparu incwm ar lefel fyddai'n gwella'r gwaith o reoli cyrchfan. Teimlwyd y dylai'r cofrestriad mandadol fod mewn grym cyn ystyried Ardoll, oherwydd byddai hyn yn rhoi darlun mwy clir o'r refeniw posibl. c. Cymhlethdod gweinyddol a'r ddibyniaeth ar y busnes i weithredu fel 'banciwr' ar gyfer yr ardoll heb unrhyw iawn-dal ariannol. d. Pryderon dros y trethiad ar blant ac effaith hyn ar deuluoedd sydd ar lai o incwm. e. Amlygwyd costau uwch ar gyfer ymwelwyr o ganlyniad i lai o gystadleuaeth yn erbyn cyrchfannau ar y tir mawr neu gyrchfannau eraill, a'r gostyngiad posibl yn hyd yr arosiadau a gwariant cyffredinol. f. Codwyd pryder na fyddai refeniw ychwanegol yn cael ei wario ar wasanaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o reoli cyrchfan, ac na fyddai'r arian yn creu buddion. Crynodeb o'r Cymorth a. Gwerthfawrogir yr heriau sy'n wynebu Ynys Môn o safbwynt pwysau twristiaeth. Roedd cefnogaeth glir am yr angen am refeniw ychwanegol i gefnogi'r gwaith o reoli cyrchfan ac i leihau effeithiau gor-dwristiaeth ar y safleoedd. b. Roedd cefnogaeth yn canolbwyntio ar yr egwyddor fod ymwelwyr yn cyfrannu at bwysau lleol ac y dylent wneud cyfraniad rhesymol at gynnal a chadw ardaloedd cyhoeddus, seilwaith ymwelwyr, asedau diwylliannol a threftadaeth, gwarchod yr amgylchedd a gwasanaethau lleol. c. Roedd cymorth ar gyfer darparu gwelliannau i reoli cyrchfan fyddai'n elwa preswylwyr ac ymwelwyr yn bwysig iawn, a chytunwyd y dylid rheoli hyn drwy bartneriaeth gyda'r Fforwm Ardal Ymwelwyr allanol. d. Amlygwyd cyfleoedd i ddarparu gwelliannau i gyrchfannau seiliedig yn y gymuned. Crynodeb o Dir Cyffredin a. Roedd cefnogwyr a gwrthwynebwyr yn amlygu'r angen am dryloywder, eithriadau teg, costau gweinyddol isel a chanlyniadau lleol gweladwy. Casgliadau'r Broses Ymgynghori • Mae'r sector ymwelwyr yn rhan annatod o economi'r Ynys, yn cefnogi prif atyniadau, llety, busnesau bwyd a manwerthu. Mae'r Ynys yn un o'r ardaloedd hynny yn y Deyrnas Unedig sydd fwyaf dibynnol ar dwristiaeth. • Mae'n amlwg fod effaith cyfyngiadau ariannol a deddfwriaethol eraill yn cael effaith ar gymorth leol ar gyfer cyflwyno Ardoll Ymwelwyr.	Categori	Nifer	Preswylwyr	1066	Ymwelwyr	766	Perchenogion Busnes	355	Gweithwyr Twristiaeth	206
Categori	Nifer									
Preswylwyr	1066									
Ymwelwyr	766									
Perchenogion Busnes	355									
Gweithwyr Twristiaeth	206									

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau
- Er y cydnabyddir fod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer rheoli cyrchfan er mwyn bod mewn sefyllfa gryf, byddai effaith treth ychwanegol yn ormod yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae’r Adroddiad llawn ar yr Ymgynghoriad ar gael yn Atodiad A. Rhesymau Dros yr Argymhellion Mae’r Cyngor eisiau mabwysiadu dull rhagweithiol mewn perthynas â chanfyddiadau’r broses ymgynghori. Byddwn yn ceisio darparu’r canlynol er mwyn gwella dealltwriaeth am y goblygiadau ymarferol o gyflwyno Ardoll posibl yn y dyfodol o ystyried y gwahaniaeth sylweddol mewn agwedd, ac er mwyn gwella cyfleoedd i Reoli Cyrchfan yn Ynys Môn, waeth beth fo sefyllfa’r Ardoll. - Cwblhau asesiadau pellach i bennu a fyddai’r incwm fyddai’n deillio o’r ardoll, sy’n cael ei glustnodi ar gyfer gwelliannau i’r gwaith o reoli cyrchfan, yn gwneud yn iawn am yr effeithiau negyddol cysylltiedig posibl. - Cyflwyno’r Gofrestr Genedlaethol yn effeithiol ar gyfer darparwyr llety, a defnyddio data er mwyn rhoi asesiad mwy clir ar effeithiau’r Ardoll Ymwelwyr pe byddai’n cael ei gyflwyno. - Ymgysylltu’n effeithiol gyda’r sector i wella’r gwaith o reoli cyrchfan a datblygu model ar y cyd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. - Ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ddiffinio canfyddiadau’r ymgynghoriad yn glir, gyda’r bwriad i amlygu’r angen i adolygu agweddau ar ddeddfwriaeth, yn cynnwys trethu plant, a’r ddibyniaeth ar ddarparwyr llety i weinyddu’r Ardoll. - Datblygu model ariannol clir ar gyfer incwm gros, costau gweinyddol a threfniadau sefydlu, incwm net a cyllid sydd wedi ei glustnodi. - Cyfrannu'n weithredol at ymgynghoriad/adolygiad parhaus Llywodraeth Cymru ar y rheol 182 diwrnod. Mae’n debygol y byddai unrhyw benderfyniad i fabwysiadu’r Ardoll Ymwelwyr yn y dyfodol yn digwydd mewn cyfnod o 2 flynedd, a bydd hynny’n cynnwys yr angen am ymgynghoriad a chyfnod o rybudd 1 blwyddyn i Awdurdod Cyllid Cymru.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?
Gallai'r Cyngor benderfynu mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn, er gwaethaf cryfder yr ymatebion a'r adborth negyddol. Ni ystyrir bod hyn yn opsiwn ymarferol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?
Mae angen sicrhau cefnogaeth ffurfiol y Pwyllgor Gwaith oherwydd pwysigrwydd economaidd-gymdeithasol y sector ymwelwyr i economi'r Ynys a'r diddordeb sylweddol yn y broses ymgynghori ddiweddar.

Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?
Er nad oes cyfeiriad penodol ato yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau na Chynllun y Cyngor, mae rhesymeg yr Ardoll i helpu i gyflawni rheolaeth gynaliadwy o gyrchfannau yn gyson â'r ddau Gynllun.

D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Mae’r ymgynghoriad a’r asesiadau economaidd ac effaith ar gydraddoldeb cysylltiedig wedi costio oddeutu £15,000. Defnyddiwyd cyllid y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae cyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau a thrawsnewid cynnyrch twristiaeth Ynys Môn i un sy'n fwy cynaliadwy ac wedi'i reoli'n dda yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Byddai cyflwyno’r Ardoll Ymwelwyr wedi darparu mwy na £1.5 miliwn o refeniw wedi’i glustnodi ar gyfer y gwaith o Reoli Cyrchfan, a helpu i leddfu’r effeithiau ar gymunedau yn ogystal â datblygu’r cynnig cyrchfan all Ynys Môn ei ddarparu. Mae’r argymhelliad i beidio a mabwysiadu’r Ardoll yn golygu nad oes adnoddau ychwanegol ar gael i fynd i’r afael â’r heriau o Reoli Cyrchfan, a bydd angen gwneud gwaith ymchwil pellach i benderfynu a yw’r refeniw sydd ei angen i reoli cyrchfannau’n well drwy’r Ardoll yn gwneud yn iawn am yr effeithiau negyddol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Na – mae'r argymhelliad i beidio â mabwysiadu'r Ardoll ar hyn o bryd yn golygu bod Rheoli Cyrchfannau'n weithgaredd anstatudol sy'n gofyn am gefnogaeth gan gronfeydd cyhoeddus craidd sy'n fwyfwy heriol a grantiau allanol cystadleuol.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.	Rydym wedi cydweithio â Chyngor Gwynedd, Cyngor Sir Conwy ac Awdurdod Cyllid Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y	Mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i roi adborth drwy'r broses ymgynghori a gweithdai.

Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):		
	rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi (Atodiad B). Yn gryno, mae’n nodi: Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg na materion economaidd-gymdeithasol, ar yr amod bod mesurau diogelu statudol yn cael eu gweithredu a bod y refeniw yn cael ei ail-fuddsoddi yn unol â'r Ddeddf. Bydd penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau gwariant a monitro yn hanfodol wrth sicrhau'r buddion mwyaf posibl a lliniaru unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg—yn enwedig ar gyfer: • Gweithwyr ifanc • Ymwelwyr anabl • Cymunedau Cymraeg
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar yr Economi wedi'i baratoi (Atodiad C). Yn gryno, mae’n nodi: Mae'n debygol y bydd Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn yn peri risg economaidd fach iawn, yn cynhyrchu refeniw lleol dibynadwy ac arwyddocaol, ac yn cynnig manteision hirdymor posibl os caiff y cronfeydd eu buddsoddi'n effeithiol. Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn cyd-fynd ag arfarniad cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan awgrymu effeithiau economaidd ymylol yn unig ochr yn ochr â ffrwd ariannu newydd sylweddol ar gyfer gwella cyrchfannau.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.	Mae gwerthusiad o’r effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B). Yn gryno, mae’n nodi: Mae Ynys Môn yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, gyda 69% o'r trigolion yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â 25% ar draws Cymru, ac mae gan oddeutu 51% o'r gweithwyr yn y diwydiant twristiaeth sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Gallai ardoll ymwelwyr gael effaith gadarnhaol ar yr iaith os caiff refeniw ei fuddsoddi mewn profiadau cyfrwng Cymraeg i ymwelwyr, digwyddiadau diwylliannol, dehongli ac arwyddion dwyieithog, ac isadeiledd o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Er bod posibilrwydd i gael rhai effeithiau negyddol, megis ychydig o ostyngiad yng ngwariant ymwelwyr, disgwylir i'r rhain fod yn gyfyngedig. Ar y cyfan, mae’n bosibl i’r ardoll gefnogi a chryfhau'r Gymraeg, ar yr amod bod buddsoddiad yn cael ei dargedu'n effeithiol.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Cytuno â'r argymhellion
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Paratoi’r deunydd ymgynghori digidol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Atodiad A – Adroddiad yr Ymgynghoriad
Atodiad B - Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

YMGYNGHORIAD ARDOLL YMWELWYR

ADRODDIAD TERFYNOL

Tystiolaeth feintiol ac ansoddol gyfunol

Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Marchnata Aqua ac Ymgynghoriaeth Rhos

Awst 2026



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr – Adroddiad Terfynol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau proses ymgynghori 8 wythnos a gynhaliwyd rhwng y 15fed o Fai 2026 a'r 13eg o Orffennaf 2026.

Mae'n sail i wneud penderfyniadau gwybodus gan y Cyngor Llawn dros fabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn.

Cynnwys a chwmpas yr adroddiad

1. Crynodeb gweithredol	1
2. Methodoleg a chyrhaeddiad yr ymgynghoriad.....	4
3. Proffil yr ymatebion a'r safbwynt cyffredinol	7
4. Canfyddiadau yn ôl carfan ymatebwyr	11
5. Canfyddiadau trigolion.....	14
6. Canfyddiadau busnesau a'r sector llety	19
7. Canfyddiadau ymwelwyr.....	23
8. Ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwyntiau.....	28
9. Canlyniadau posibl a blaenoriaethau aifuddsoddi	34
10. Llywodraethu, ymddiriedaeth a hyder	38
11. Ystyriaethau daearyddol	43
12. Tystiolaeth sesiynau galw heibio cymunedol	47
13. Cyfarfod darparwyr llety.....	52
14. Sylwadau ysgrifenedig rhanddeiliaid.....	57
15. Adolygiad o hyrwyddo a chyfathrebu.....	62
16. Dehongliad integredig: egwyddor, amseru a pharodrwydd.....	68
17. Sensitifrwydd a chyfyngiadau.....	73
18. Casgliadau terfynol.....	75
19. Casgliad cyffredinol y dystiolaeth.....	78

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn integreiddio set ddata derfynol yr arolwg, sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth o sesiynau galw heibio cymunedol, y cyfarfod darparwyr llety ac adolygiad o'r gwaith hyrwyddo gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chroeso Môn a oedd ar gael i'w chwilio'n gyhoeddus.

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Sail dystiolaeth a'r prif ganlyniad

Mae'r arolwg dwyieithog terfynol yn cynnwys 2,098 o gofnodion: 1,991 drwy'r llwybr Saesneg a 107 drwy'r llwybr Cymraeg. Ategir hyn gan chwe sesiwn galw heibio cymunedol, cyfarfod sector a fynychwyd gan 17 o ddarparwyr llety, 13 o safbwyntiau ysgrifenedig gan randdeiliaid a enwyd, dadansoddiad daearyddol ac adolygiad o hyrwyddo a chyfathrebu'r ymgynghoriad. Mae'r gwahanol ffyrddau tystiolaeth yn cyflawni dibenion gwahanol: yr arolwg sy'n darparu'r darlun rhifiadol cliraf o'r safbwyntiau a gyflwynwyd; mae'r digwyddiadau a'r cyfarfod sector yn ychwanegu dyfnder lleol a gweithredol; ac mae'r cyflwyniadau ysgrifenedig yn ychwanegu safbwyntiau sefydliadol, technegol ac arbenigol.

Ymhlith 2,092 o atebion dilys i'r prif gwestiwn safbwynt, roedd 1,482 (70.8%) yn gwrthwynebu neu'n tueddu i wrthwynebu'r ardoll, roedd 525 (25.1%) yn cefnogi neu'n tueddu i'w chefnogi ac roedd 85 (4.1%) yn niwtral neu'n ansicr. Gwrthwynebiad cryf oedd y categori ymateb unigol mwyaf. Roedd yr ymgynghoriad yn hunanddethol yn hytrach na phôl gynrychioliadol, felly mae'r ffigurau hyn yn disgrifio cydbwysedd y safbwyntiau a gyflwynwyd yn hytrach na refferendwm wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth.

Prif ganfyddiad	Canlyniad / dehongliad
Trigolion	57.8% yn gwrthwynebu; 38.1% yn cefnogi. Yn fwy rhanedig na busnesau neu ymwelwyr, ond gwrthwynebiad oedd y safbwynt mwyaf o hyd.
Busnesau	83.1% yn gwrthwynebu. Mae hyder casglwyr a pharodrwydd gweithredol yn faterion gweithredu mawr.
Ymwelwyr	84.2% yn gwrthwynebu. Mae'r sensitifrwydd ymddygiadol datganedig yn sylweddol ond ni ddylid ei drin fel rhagolwg.
Llywodraethu	Barnodd 1,890 o ymatebwyr fod llywodraethu clir yn bwysig neu'n bwysig iawn.
Buddsoddi	Toiledau cyhoeddus a glendid oedd y brif flaenoriaeth ailfuddsoddi.
Cyffredinol	Gwrthwynebiad i gyflwyno ar unwaith oedd safbwynt y mwyafrif o fewn yr ymgynghoriad, tra cefnogodd lleiafrif o ymatebwyr a sawl rhanddeiliad egwyddor Ardoll Ymwelwyr, neu eu bod yn ei chefnogi'n amodol.

1.3 Canfyddiadau yn ôl carfan ymatebwyr

Roedd cryfder y gwrthwynebiad yn amrywio'n sylweddol yn ôl perthynas yr ymatebydd ag Ynys Môn. Trigolion oedd y garfan fwyaf ac roeddent wedi'u rhannu'n glir, gyda bron i ddau o bob pump o'r ymatebion dilys gan drigolion yn gefnogol. Mewn cyferbyniad, roedd busnesau ac ymwelwyr yn gwrthwynebu'n llethol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig gan mai busnesau fyddai'n cyflawni llawer o'r gwaith casglu a chyfathrebu â chwsmeriaid, tra mai ymwelwyr fyddai'n talu'r tâl.

Nododd ymatebwyr a oedd yn ymwelwyr hefyd ymatebion ymddygiadol posibl. Dywedodd cyfanswm o 454 y byddai'r ardoll yn effeithio'n sylweddol ar eu penderfyniad i ymweld, dywedodd 475 y byddent yn aros am gyfnod byrrach a dywedodd 508 y gallent aros y tu allan i Ynys Môn. Bwriadau a fynegwyd mewn perthynas â thâl damcaniaethol yn y dyfodol yw'r rhain. Maent yn nodi meysydd o risg ymddygiadol bosibl, ond nid ydynt yn sefydlu faint o ymwelwyr fyddai mewn gwirionedd yn newid eu hymddygiad na'r effaith ganlyniadol ar nifer y nosweithiau neu'r gwariant.

1.4 Canfyddiadau busnesau a'r sector llety

Cododd ymatebwyr busnes ystod o bryderon ynghylch amseriad gweithredu'r ardoll. Ystyriodd ymatebwyr yr ardoll ochr yn ochr â thymoroldeb, y rheol gosod 182 diwrnod, TAW, cyflogau ac Yswiriant Gwladol, costau ynni a gweithredu, elw cul a newidiadau rheoleiddiol ehangach. Felly, barnwyd y cynnig yn gronol yn hytrach nag fel tâl ar ei ben ei hun.

Ychwanegodd y cyfarfod darparwyr llety bryderon gweithredu manwl: cofrestru, cosbau, gorfodi, cofnodion gwesteion, eithriadau, ad-daliadau, babanod a hawliadau anabledd, TAW, comisiwn llwyfannau, taliadau trafodion a newidiadau i systemau archebu. Roedd y cyfranogwyr o'r farn y gallai'r beichiau hyn ddisgyn yn anghymesur ar ficrofusnesau, gweithredwyr hunanarlwyo, darparwyr sy'n dibynnu ar asiantaethau a busnesau sy'n defnyddio sawl llwyfan. Nodwyd hefyd fod llifoedd gwaith wedi'u profi, enghreifftiau wedi'u gweithio, cymorth hygyrch ac eglurder ynghylch cyfrifoldebau yn ystyriaethau gweithredu pwysig.

1.5 Tegwch, fforddiadwyedd a chystadleurwydd

Roedd pryderon ynghylch tegwch yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd, costau cronol i deuluoedd a grwpiau, arhosiadau hirach, llety cost is, cartrefi modur ac arosiadau anffurfiol dros nos. Holodd busnesau hefyd a allai tâl a gymhwysir yn lleol effeithio ar gystadleurwydd o'i gymharu ag ardaloedd cyfagos neu gyrchfannau eraill. Nid yw'r adroddiad yn tybio mai'r ardoll yn unig sy'n pennu'r dewis o gyrchfan; mae cyfanswm y pris, ansawdd, argaeledd, teyrngarwch ymwelwyr a pha mor weladwy yw'r gwelliannau hefyd yn bwysig.

1.6 Blaenoriaethau ail-fuddsoddi a manteision posibl

Nid oedd gwrthwynebiad i'r ardoll yn golygu nad oedd ymatebwyr yn gweld angen am reoli cyrchfan. Toiledau cyhoeddus a glendid oedd y prif flaenoriaethau, ac yna trafndiaeth, parcio a mynediad, cymorth i fusnesau lleol, llwybrau a phromenadau, yr amgylchedd naturiol a chyfleusterau cymunedol. Mae'r rhain yn ymyriadau ymarferol a gweladwy a all fod o fudd i drigolion ac ymwelwyr.

1.7 Llywodraethu, ymddiriedaeth ac atebolrwydd lleol

Roedd llywodraethu yn un o'r meysydd cydgyfeirio cryfaf ar draws safbwyntiau a oedd fel arall yn wahanol. Roedd ymatebwyr am weld cynrychiolaeth i ddarparwyr llety, busnesau twristiaeth, trigolion a grwpiau cymunedol, ynghyd â rheolau gwneud penderfyniadau clir, trefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau, adrodd ariannol a chraffu annibynnol. Roedd diffyg ymddiriedaeth yn canolbwyntio ar a fyddai incwm yn cael ei neilltuo, a allai ddisodli cyllidebau presennol, faint fyddai'n cael ei ddidynnu ar gyfer gweinyddu ac a fyddai lleoedd sy'n wynebu pwysau gan ymwelwyr yn cael cyfran deg yn ôl.

Mater a godwyd	Trefniadau a nodwyd yn y dystiolaeth
Llywodraethu cynrychioliadol	Nododd ymatebwyr a rhanddeiliaid llywodraethu cynrychioliadol, gan gynnwys rôl bosibl Partneriaeth Cyrchfan Môn neu gorff cyfatebol, gydag eglurder ynghylch aelodaeth a chylch gwaith.
Ychwanegedd	Cysylltodd ymatebwyr hyder â neilltuo cyllid, ychwanegedd ac eglurder ynghylch gwariant gwaelodlin.
Tryloywder	Galwodd ymatebwyr am dryloywder ynghylch incwm gros, didyniadau, buddsoddiad net, dyraniad daearyddol a chanlyniadau.
Atebolrwydd lleol	Mae'r dystiolaeth yn cofnodi blaenoriaethau ar draws yr ynys a galw am fudd gweladwy ar sail lle.
Gwerthuso	Nodwyd dangosyddion gwaelodlin a monitro annibynnol fel rhai perthnasol i ddeall effeithiau economaidd, gweithredol, amgylcheddol a daearyddol.

1.8 Tystiolaeth ddaearyddol, digwyddiadau a rhanddeiliaid

Staffio	Gall galw gwannach neu weinyddu ychwanegol effeithio ar benderfyniadau staffio.	Llai o oriau, oedi cyn recriwtio neu ddargyfeirio amser staff.
Cadwyn gyflenwi	Gall effeithiau ar lety a gwariant ymwelwyr drosglwyddo i gyflenwyr lleol.	Llai o alw am fwyd, golchi dillad, cynnal a chadw, trafndiaeth a gwasanaethau proffesiynol.

Mae'r risgiau hyn yn gydgyssylltiedig yn hytrach nag yn annibynnol. Gall gostyngiad mewn archebion effeithio ar feddiannaeth, hyd arhosiad, gwariant eilaidd, staffio a phryniannau gan gyflenwyr lleol. Yn yr un modd, hyd yn oed os yw'r galw'n parhau'n sefydlog, gallai cost weinyddol casglu leihau elw neu ailgyfeirio amser staff oddi wrth wasanaeth cwsmeriaid a datblygu busnes.

Mae'r crynodeb a ddarparwyd yn cofnodi risgiau canfyddedig yn hytrach nag effeithiau yn y dyfodol a fesurwyd. Nid yw'n sefydlu y byddai pob canlyniad yn digwydd nac yn mesur ei faint. Mae'r canfyddiadau'n nodi'r meysydd yr oedd busnesau'n disgwyl iddynt gael eu heffeithio a'r materion a gysylltwyd ganddynt â monitro pe bai cynllun yn cael ei gyflwyno.

6.4 Baich gweinyddol

Disgrifiodd darparwyr weinyddu fel cadwyn o dasgau cysylltiedig yn hytrach nag un trafodiad talu. Byddai'r baich yn dechrau cyn casglu, drwy newidiadau i systemau archebu a chyfrifyddu, ac yn parhau drwy asesu gwesteion, talu, cysoni, cadw cofnodion a ffurflenni. Gallai cymhlethdod gynyddu lle mae archebion yn cael eu newid, eu had-dalu, eu disgowntio neu eu gwneud drwy lwyfannau trydydd parti.

Cam	Tasgau a nodwyd gan ddarparwyr	Ffynhonnell bosibl o faich
Paratoi systemau	Addasu systemau archebu, rheoli eiddo a chyfrifyddu.	Cost sefydlu, newidiadau meddalwedd, profi a hyfforddi staff.
Asesu atebolrwydd	Nodi gwesteion a nosweithiau sy'n atebol a chymhwyso eithriadau.	Angen rheolau cywir, tystiolaeth a thriniaeth gyson.
Cyfathrebu â chwsmeriaid	Egluro'r tâl cyn archebu, wrth dalu ac yn ystod yr arhosiad.	Ymholiadau, anghydfodau, pwysau ar enw da a gwybodaeth amlieithog.
Casglu a chysoni	Casglu taliadau a'u cysoni ag archebion a chyfrifon.	Trafodion ar wahân, gwahaniaethau amseru a chywiro gwallau.
Newidiadau i archebion	Rheoli cansladau, ad-daliadau, diwygiadau a nosweithiau am ddim.	Ailgyfrifo a rhyngweithio â thelerau archebu.
Costau trydydd parti	Ymdrin â thaliadau cerdyn, trefniadau asiantaeth a thaliadau llwyfan.	Ansicrwydd ynghylch comisiwn, ffioedd a phwy sy'n prosesu'r ardoll.
Cofnodion a ffurflenni	Cynnal cofnodion a chwblhau ffurflenni cyfnodol.	Amser staff cylchol, risg cydymffurfio a gofynion cadw cofnodion.

Teimlai microfusnesau a gweithredwyr hunanarlwyo eu bod yn arbennig o agored gan fod gan lawer allu gweinyddol cyfyngedig, dim tîm cyllid penodol a dibyniaeth uchel ar amser y perchennog. Gall gofyniad a allai fod yn hylaw i westy mwy â systemau integredig gael effaith gyfrannol wahanol ar weithredwr un eiddo.

Nododd busnesau sy'n defnyddio asiantaethau neu sawl llwyfan archebu gymhlethdod ychwanegol hefyd. Gall archebion, taliadau, ad-daliadau a gwybodaeth cwsmeriaid gael eu trin ar draws gwahanol systemau neu sefydliadau. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai angen eglurder ynghylch cyfrifoldeb, trosglwyddo data, trin llwyfannau, cysoni a'r ffordd o ymdrin ag archebion a wnaed cyn dyddiad gweithredu.

6.5 Materion gweinyddol a nodwyd gan fusnesau

Mater gweinyddol	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Enghreifftiau a drafodwyd yn y dystiolaeth
Rheolau syml a sefydlog	Lleihau amwysedd ynghylch atebolrwydd, nosweithiau ac eithriadau.	Canllawiau cryno, enghreifftiau wedi'u gweithio a rhybudd ymlaen llaw am newidiadau.
Systemau digidol cydnaws	Osgoi mewnbynnu a chysoni â llaw dro ar ôl tro.	Rhyngwynebau safonol, swyddogaethau allforio a phrofi gyda llwyfannau cyffredin.
Triniaeth glir o ad-daliadau a diwygiadau	Atal cyfrifiadau anghyson ac anghydfodau.	Senarios cyhoeddiedig sy'n ymdrin â chansladau, nosweithiau am ddim ac ad-daliadau rhannol.
Cefnogaeth hygyrch	Helpu darparwyr bach i ddatrys cwestiynau'n gyflym.	Sianel gymorth benodol, hyfforddiant, Cwestiynau Cyffredin a chymorth gweithredu cynnar.
Cofnodion a ffurflenni cymesur	Cyfyngu ar gost cydymffurfio cylchol.	Dim ond data angenrheidiol, amllder adrodd synhwyrol a chyfnodau cadw clir.
Monitro cost i ddarparwyr	Nodi a yw'r baich yn anghymesur.	Arolygon busnes, asesiad cost amser ac adolygiad ar ôl gweithredu.

Ni fyddai symleiddio gweinyddol yn dileu gwrthwynebiadau i egwyddor nac amseriad economaidd yr ardoll, ond byddai'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag un o'r pryderon ymarferol a ddisgrifiwyd amlaf. Byddai profi cynnar gyda gwahanol fodelau busnes yn hanfodol gan ei bod yn annhebygol y byddai'r baich yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal.

6.6 TAW a phwysau cronol

Credai 74 o ymatebwyr busnes y gallai casglu'r ardoll eu gwrthio dros y trothwy cofrestru TAW, tra roedd 73 arall yn ansicr. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod 147 o ymatebwyr naill ai'n rhagweld risg trothwy neu'n brin o hyder ynghylch goblygiadau TAW. Nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn nodi nifer y rhai a atebodd y cwestiwn TAW na nifer y rhai a gredai na fyddai unrhyw effaith, felly ni chyfrifwyd canrannau.

Safbwynt TAW a adroddwyd	Nifer	Dehongliad
Credai y gallai casglu'r ardoll fynd â'r busnes dros y trothwy	74	Yn dangos risg uniongyrchol ganfyddedig i statws treth.
Ansicr a allai effeithio ar y trothwy	73	Yn dangos ansicrwydd ac angen am ganllawiau awdurdodol.
Risg neu ansicrwydd cyfunol a ganfyddir	147	Yn dangos maint y pryder a gynrychiolir yn y ffigurau a ddarparwyd; nid canran heb enwadur dilys y cwestiwn.

Dylid adrodd y pryder TAW fel canfyddiad ymatebwyr oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau drwy'r rheolau treth perthnasol ac amgylchiadau busnes unigol. Mae tystiolaeth yr

ymgyngoriad yn dangos ansicrwydd ac amlygiad canfyddedig; nid yw'n sefydlu y byddai'r 74 busnes i gyd mewn gwirionedd yn dod yn atebol i gofrestru.

6.7 Pwysau masnachu cronol

Cysylltodd tystiolaeth y digwyddiadau yr ardoll â thymoroldeb, y rheol gosod 182 diwrnod, pwysau cyflogau ac Yswiriant Gwladol a rhwymedigaethau TAW presennol. Disgrifiodd ymatebwyr y materion hyn yn gronnol. Nid eu pryder o reidrwydd oedd y byddai'r ardoll ar ei phen ei hun yn gwneud busnes hyfyw yn anhyfyw, ond y byddai'n cael ei chyflwyno ochr yn ochr â phwysau rheoleiddiol, trethiannol a gweithredol eraill.

Pwysau a nodwyd	Sut y cafodd ei gysylltu â'r ardoll	Effaith gronnol bosibl
Tymoroldeb	Mae incwm wedi'i grynhoi mewn rhan o'r flwyddyn tra bod llawer o gostau'n parhau drwy gydol y flwyddyn.	Llai o allu i amsugno gweinyddu ychwanegol neu alw gwannach.
Rheol gosod 182 diwrnod	Cysylltodd ymatebwyr gymhwysedd a thriniaeth dreth â gofynion meddiannaeth.	Pwysau i sicrhau digon o archebion ochr yn ochr â phryder am alw.
Costau cyflog ac Yswiriant Gwladol	Roedd costau cyflogaeth eisoes yn cynyddu.	Llai o hyblygrwydd o ran staffio a chyfnodau agor.
Rhwymedigaethau TAW presennol	Mae rhai busnesau eisoes yn rheoli TAW neu'n pryderu am groesi'r trothwy.	Cymhlethdod ychwanegol, ansicrwydd ac effeithiau pris posibl.
Costau gweithredu cyffredinol	Disgrifwyd elw fel rhywbeth yr effeithir arno gan sawl pwysau ar yr un pryd.	Gall yr ardoll gael ei barnu fel rhan o faich cost ehangach yn hytrach nag ar ei phen ei hun.

6.8 Cyfyngiadau ac asesiad terfynol

Mae canfyddiadau busnes yn seiliedig ar ymatebion ymgynghori a gyflwynwyd ac nid ydynt yn gyfrifiad nac yn amcangyfrif wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth o holl fusnesau'r ynys. Gall y categori busnes orgyffwrdd â pherthnasoedd trigolion ac ymatebwyr eraill. Nid yw'r data a ddarparwyd ychwaith yn cynnwys enwaduron cyflawn ar gyfer y cwestiynau pryder am effaith a TAW, felly adroddir y ffigurau hynny fel niferoedd yn hytrach na chanrannau.


O fewn y cyfyngiadau hynny, mae'r dystiolaeth yn glir. Cofnododd ymatebwyr cysylltiedig â busnes wrthwynebiad llethol a disgrifiasant risg economaidd a llwyth gwaith gweinyddol manwl. Roedd pryder yn gysylltiedig ag archebion, hyd arhosiad, gwariant ymwelwyr, elw, staffio a'r gadwyn gyflenwi leol, tra roedd microfusnesau a gweithredwyr aml-lwyfan yn rhagweld cymhlethdod anghymesur.

Cryfhawyd y safbwynt negyddol gan ansicrwydd ynghylch TAW ac effaith gronnol tymoroldeb, y rheol 182 diwrnod, cyflogau, Yswiriant Gwladol a phwysau treth presennol.

7. Canfyddiadau ymwelwyr

Nododd cyfanswm o 766 o ymatebwyr eu bod yn ymwelwyr. O'r rhain, rhoddodd 764 ateb dilys i'r prif gwestiwn safbwynt, sy'n cyfateb i tua 99.7% o'r garfan ymwelwyr. Mae'r gwahaniaeth bach iawn rhwng nifer y rhai a nododd eu bod yn ymwelwyr a nifer y rhai a atebodd y cwestiwn safbwynt yn dangos bod bron pob ymwelydd a gymerodd ran wedi mynegi barn bendant ar y cynnig.

Mesur	Nifer	Cyfran
Ymwelwyr sy'n nodi eu bod yn y garfan	766	100.0% o gofnodion ymwelwyr
Atebion dilys i'r cwestiwn safbwynt	764	99.7% o gofnodion ymwelwyr
Cefnogi	89	11.6% o atebion dilys
Niwtral	32	4.2% o atebion dilys
Gwrthwynebu	643	84.2% o atebion dilys



Ffigur 7.1. Dosbarthiad safbwyntiau dilys ymwelwyr.

7.1 Safbwynt cyffredinol ymwelwyr

Roedd barn ymwelwyr yn gwrthwynebu'r ardoll yn llethol. Roedd cyfanswm o 643 o ymatebion dilys (84.2%) yn gwrthwynebu'r cynnig, o'i gymharu ag 89 (11.6%) oedd yn ei gefnogi a 32 (4.2%) oedd yn niwtral. Roedd gwrthwynebiad yn fwy na chefnogaeth o 554 o ymatebion ac o 72.6 pwynt canran.


Hwn oedd y gyfradd gwrthwynebiad uchaf ymhlith y pedair prif garfan, er ei bod yn agos iawn at y canlyniad cysylltiedig â busnes. Mae'r gyfran niwtral isel yn dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn ymwelwyr wedi ffurfio barn glir. Felly, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod y cynnig wedi'i dderbyn yn wael gan yr ymwelwyr a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

Ni ddylid trin y canlyniad fel rhagolwg o ymddygiad ymwelwyr nac fel amcangyfrif wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth o holl ymwelwyr Ynys Môn. Serch hynny, mae'n gofnod cryf o'r farn a fynegwyd ac yn darparu tystiolaeth bwysig am risgiau canfyddedig o ran cost, gwerth a dewis cyrchfan.

7.2 Effaith a fynegwyd ar y penderfyniad i ymweld

O fewn y garfan ymwelwyr, dywedodd 454 o ymatebwyr y byddai'r ardoll yn effeithio'n sylweddol ar eu penderfyniad i ymweld a dywedodd 139 y byddai'n effeithio ychydig ar y penderfyniad. Nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn cynnwys yr enwadur dilys ar gyfer y

cwestiwn hwn na nifer y rhai a ddewisodd unrhyw gategorïau eraill. Felly, cyflwynir y ffigurau hyn fel niferoedd yn hytrach na chanrannau.




Ffigur 7.2. Effaith yr ardoll a adroddwyd ar y penderfyniad i ymweld.

Adroddodd dros dair gwaith cymaint o ymatebwyr effaith sylweddol ag effaith fach. Mae hyn yn dangos nad oedd yr ardoll yn cael ei disgrifio'n gyffredinol fel ystyriaeth ymylol gan y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd. I lawer o ymatebwyr, roedd y pryder a fynegwyd yn ddigon cryf i ddylanwadu ar y dewis a ddylid ymweld o gwbl.

Mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiad hwn. Nid yw datganiad y byddai tâl yn effeithio ar benderfyniad yn sefydlu y byddai'r ymatebydd yn canslo taith, yn dewis cyrchfan arall neu'n newid gwariant mewn gwirionedd. Mae ymddygiad gwirioneddol yn cael ei lywio gan gyfanswm cost y daith, cysylltiad â'r gyrchfan, dewisiadau eraill sydd ar gael, amseriad, dewis llety a pha mor weladwy yw unrhyw welliannau a ariennir gan yr ardoll.

7.3 Ymatebion ymddygiadol posibl a fynegwyd

Dywedodd cyfanswm o 475 o ymwelwyr y byddent yn aros am gyfnod byrrach, tra dywedodd 508 y gallent aros y tu allan i Ynys Môn. Mae'r ffigurau hyn yn disgrifio bwriadau a fynegwyd mewn ymateb i gwestiwn ymgynghori. Nid oedd yr enwaduron dilys nac unrhyw gategorïau ymateb amgen wedi'u cynnwys yn y crynodeb a ddarparwyd, felly ni chyfrifwyd canrannau.



Ffigur 7.3. Newidiadau posibl a fynegwyd i hyd a lleoliad yr arhosiad.

7.4 Dehongliad o'r bwriadau a fynegwyd

Mae'r ddau ymateb ymddygiadol a adroddwyd yn pwyntio at effeithiau posibl gwahanol. Gallai arhosiad byrrach leihau incwm llety a gwariant eilaidd tra'n cadw'r ymwelydd ar Ynys Môn. Gallai aros y tu allan i'r ynys symud gwariant llety i ardal awdurdod lleol arall tra bo'r ymwelydd yn dal i wneud teithiau dydd i atyniadau, ffyrdd a chyfleusterau cyhoeddus yr ynys.

Ymateb datganedig	Effaith bosibl pe bai'n digwydd	Dangosyddion posibl a nodwyd
Arhosiad byrrach	Llai o nosweithiau meddiannol ac o bosibl llai o wariant ar fwyd, manwerthu, atyniadau a thrafnidiaeth.	Hyd arhosiad cyfartalog, nosweithiau meddiannol, gwerth archebion a gwariant ymwelwyr.
Aros y tu allan i Ynys Môn	Gall incwm llety symud y tu allan i'r ynys tra gall pwysau ymwelwyr barhau drwy ymweliadau dydd.	Daearyddiaeth llety, gweithgarwch teithiau dydd, parcio, traffig a defnydd o atyniadau.
Penderfyniad wedi'i effeithio'n sylweddol	Dadleoli posibl i gyrchfan arall neu ganslo.	Trosi archebion, cansladau, ymweliadau ailadroddus a pherfformiad cymharol cyrchfannau.
Penderfyniad wedi'i effeithio ychydig	Gall yr ardoll gael ei hamsugno ond gallai newid gwariant neu ddewis llety.	Cyllidebau ymwelwyr, cymysgedd llety a gwariant dewisol.

Mae'r mecanweithiau hyn yn gredadwy ond nid ydynt wedi'u profi gan yr ymgynghoriad. Mae'r dystiolaeth yn nodi'r mathau o ymateb ymddygiadol yr oedd ymwelwyr yn eu rhagweld. Nid yw'n sefydlu nifer y rhai a fyddai'n gweithredu ar y bwriadau hynny, hyd unrhyw effaith na'r effaith net ar ôl ystyried amodau ehangach y farchnad.

7.5 Pryderon fforddiadwyedd

Canolbwyntiodd pryderon fforddiadwyedd yn arbennig ar deuluoedd, grwpiau, arhosiadau hirach a llety cost is. Ym mhob achos, gall tâl fesul person neu fesul nos gynrychioli ychwanegiad absoliwt mwy at gyfanswm cost yr archeb neu gyfran fwy o bris y llety.

Amgylchiadau'r ymwelydd	Pam y gall yr ardoll deimlo'n fwy arwyddocaol	Ystyriaeth bosibl
Teuluoedd	Gall nifer o bobl atebol luosi'r gost nosweithiol ar draws yr arhosiad.	Enghreiffiau cost clir i deuluoedd a monitro effeithiau dosbarthiadol.
Grwpiau	Gall y tâl Gronni ar draws nifer fwy o westeion.	Gwybodaeth archebu dryloyw cyn ymrwymo.
Arosiadau hirach	Mae tâl nosweithiol yn cynyddu gyda hyd yr ymweliad.	Asesiad a yw arosiadau hirach yn wynebu cynnydd cyffredinol anghymesur.
Llety cost is	Mae tâl sefydlog yn ffurfio canran fwy o bris yr ystafell neu'r llain.	Ystyried cymesuredde ar draws mathau o lety.
Ymwelwyr ar incwm is	Gall llai o gyllideb ddewisol fod ar gael i amsugno tâl ychwanegol.	Monitro hygyrchedd a newidiadau yng nghymysgedd ymwelwyr.

Felly, nid yw'r pryder wedi'i gyfyngu i'r gyfradd bennawd ar ei phen ei hun. Gall ymwelwyr asesu'r swm cronol ar draws pob person a noson a'i gymharu â chost a gwerth canfyddedig y llety. Gellir gweld yr un tâl fel un bach mewn gwyliau byr gwerth uchel ond yn sylweddol mewn arhosiad teuluol neu grŵp cost is.

7.6 Safbwyntiau cefnogol ymwelwyr

Roedd ymwelwyr cefnogol yn fwy tebygol o ddisgrifio'r tâl fel un cymedrol lle'r oedd yn ariannu gwelliannau gweladwy. Mae hyn yn awgrymu bod derbynioldeb yn gysylltiedig â'r berthynas rhwng cost a budd canfyddedig yn hytrach nag â'r tâl ar ei ben ei hun.

Amod sy'n gysylltiedig â chefnogaeth	Arwyddocâd deongliadol	Tystiolaeth y byddai ymwelwyr yn ei disgwyl
Gwelliannau gweladwy	Gall ymwelwyr gysylltu'r tâl â phrofiad cyrchfan gwell.	Prosiectau a enwyd, arwyddion a chynnydd cyhoeddedig.
Diben clir	Mae'r tâl yn haws ei ddeall lle mae ei ddefnydd yn benodol.	Eglurhad syml wrth archebu a thalu.
Buddsoddiad ychwanegol	Gall cefnogaeth wanhau os yw'r ardoll yn ymddangos fel pe bai'n disodli cyllidebau presennol.	Adrodd ar wahân ar wariant gwaelodlin a gwariant a ariennir gan yr ardoll.
Tâl rhesymol	Mae ymwelwyr yn cymharu'r ardoll â chyfanswm cost y daith a gwerth y gyrchfan.	Enghreifftiau tryloyw ac adolygiad parhaus o'r gyfradd.
Budd amgylcheddol a seilwaith ymwelwyr	Gall ymwelwyr dderbyn cyfraniad lle mae'r pwysau'n weladwy.	Tystiolaeth o welliannau i lanweithdra, llwybrau, mynediad a chyfleusterau.

7.7 Cyfathrebu a chynnig y gyrchfan

Mae canfyddiadau ymwelwyr yn dangos ffafriaeth am gyfathrebu sy'n mynd y tu hwnt i ddatgan bod ardoll yn berthnasol. Nododd sylwadau bwysigrwydd gwybodaeth glir am y swm, pwy sy'n atebol, pa nosweithiau neu arhosiadau sy'n cael eu cwmpasu, eithriadau, sut y cesglir y taliad a beth fyddai'r incwm yn ei ariannu. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai gwybodaeth a ddarperir cyn archebu yn well na dod ar ei thraws am y tro cyntaf wrth gyrraedd neu ymadael.

Byddai cynnig y gyrchfan hefyd yn bwysig. Lle mae ymwelwyr yn gweld Ynys Môn fel lle sy'n cynnig gwerth unigryw ac yn gallu gweld toiledau cyhoeddus wedi'u cynnal yn dda, lleoedd glân, llwybrau hygyrch, gwybodaeth drafnidiaeth dda a rheolaeth amgylcheddol, gall fod yn haws deall tâl cymedrol. Lle mae'r manteision yn aneglur neu lle mae gwasanaethau presennol yn cael eu hystyried yn annigonol, gall yr un tâl atgyfnerthu anfodlonrwydd.

Cam cyfathrebu	Gwybodaeth a nodwyd gan ymatebwyr	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth
Cyn archebu	Cyfradd, atebolrwydd, eithriadau a chyfanswm amcangyfrifedig cost yr ardoll.	Osgoi syndod a chaniatáu cymhariaeth wybodus.
Wrth archebu	Sut y caiff y tâl ei gasglu a'i drin os bydd yr archeb yn newid.	Lleihau anghydfodau ac ansicrwydd.
Cyn cyrraedd	Nodyn atgoffa, diben a dolenni i welliannau a ariannwyd.	Atgyfnerthu tryloywder a gwerth.
Yn ystod yr arhosiad	Gwybodaeth weladwy am brosiectau a budd lleol.	Cysylltu'r cyfraniad â phrofiad yr ymwelydd.
Ar ôl gweithredu	Incwm, didyniadau, gwariant a chanlyniadau cyhoeddedig.	Dangos hygyrddedd a chefnogi gwerthuso.

7.8 Cyfyngiadau

Mae canlyniadau ymwelwyr yn seiliedig ar ymatebion hunanddethol i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn amcangyfrif wedi'i bwysoli yn ôl y boblogaeth o holl ymwelwyr Ynys Môn. Gall y garfan ymwelwyr orgyffwrdd hefyd â pherthnasoedd trigolion, busnes neu gymunedol. Mae ffigurau'r safbwyntiau dilys yn disgrifio'n gywir yr atebion a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd o

fewn y garfan, ond ni ddylid eu trin fel canlyniad refferendwm.

Mae'r cwestiynau ymddygiad a fynegwyd yn mesur bwriadau o dan dâl damcaniaethol yn y dyfodol. Gall bwriadau orddatgan neu danddatgan ymddygiad gwirioneddol, ac nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn rhoi enwaduron ar gyfer y cwestiynau penderfyniad, arhosiad byrrach neu aros y tu allan i'r ynys. Felly, adroddir y ffigurau hynny fel niferoedd a dylid eu defnyddio fel dangosyddion risg yn hytrach na rhagolygon.

7.8 Asesiad terfynol

Cofnododd tystiolaeth ymwelwyr wrthwynebiad llethol i'r ardoll. Atgyfnerthwyd maint y safbwynt negyddol gan niferoedd uchel a nododd y byddai'r tâl yn effeithio ar y penderfyniad i ymweld, yn byrhau'r arhosiad neu'n annog defnyddio llety y tu allan i Ynys Môn.

Nid oedd y pryderon wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Nodwyd bod teuluoedd, grwpiau, arhosiadau hirach a llety cost is yn arbennig o sensitif i gost gronol. Ar yr un pryd, mae tystiolaeth ymwelwyr gefnogol yn dangos bod rhai ymatebwyr yn ystyried tâl cymedrol yn dderbyniol lle'r oedd yn cynhyrchu gwelliannau gweladwy ac ychwanegol.

Felly, mae'r canfyddiadau'n nodi risg ymddygiadol sylweddol a'r amodau y gallai derbynioldeb wella oddi tanynt.

8. Ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwyntiau

Mae tystiolaeth yr ymgynghoriad yn dangos bod safbwyntiau ar yr ardoll ymwelwyr arfaethedig wedi'u dylanwadu gan gyfuniad o ystyriaethau economaidd, ymarferol, moesegol a sefydliadol. Y prif ddylanwadau a nodwyd yn y crynodeb a ddarparwyd oedd y sector twristiaeth, busnesau lleol, tegwch a gweinyddu. Felly, roedd ymatebwyr yn ystyried mwy na swm tâl nosweithiol. Roedd eu hatebion hefyd yn adlewyrchu amseriad y cyflwyno, cystadleurwydd Ynys Môn, hyder mewn gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus a gallu busnesau i gasglu a gweinyddu'r ardoll.

Roedd y ffactorau hyn wedi'u cysylltu'n agos. Gallai ymatebydd a oedd yn pryderu am gystadleurwydd busnes hefyd gwestiynu tegwch codi tâl ar ymwelwyr dros nos, amseriad ei gyflwyno yn ystod amodau masnachu anodd ac a allai'r Cyngor ddangos defnydd ychwanegol a thryloyw o'r incwm. Felly, dylid deall y ffactorau fel fframwaith rhyngweithiol yn hytrach na themâu ar wahân ac annibynnol.

Ffactor dylanwadol	Cwestiwn craidd a godwyd gan ymatebwyr	Prif grwpiau yr effeithir arnynt
Effaith ar y sector twristiaeth	A fyddai'r ardoll yn newid galw, archebion, hyd arhosiad neu wariant ymwelwyr?	Ymwelwyr, darparwyr llety, atyniadau, lletygarwch a chyflenwyr.
Effaith ar fusnesau lleol	A allai'r cynnig effeithio ar elw, staffio, llif arian a hyfywedd busnes?	Busnesau twristiaeth a busnesau sy'n dibynnu ar wariant ymwelwyr.
Tegwch	Pwy ddylai dalu, pwy sy'n creu pwysau a phwy ddylai elwa o'r incwm?	Ymwelwyr, trigolion, busnesau a chymunedau.
Gweinyddu	Faint o waith, cost a risg cydymffurfio fyddai'r broses gasglu yn ei greu?	Darparwyr llety, asiantaethau, llwyfannau a'r Cyngor.
Amseru a adlewyrchir yn y dystiolaeth	A yw hwn yn bwynt priodol yn y cylch economaidd a rheoleiddiol i gyflwyno'r tâl?	Busnesau, gweithwyr, ymwelwyr a chymunedau lleol.
Cystadleurwydd	A allai Ynys Môn ddod yn llai deniadol o'i chymharu â chyrchfannau eraill?	Economi ymwelwyr yr ynys a chadwyni cyflenwi cysylltiedig.
Ymddiriedaeth yn y sector cyhoeddus	A fyddai incwm yn ychwanegol, yn dryloyw ac yn cael ei wario fel yr addawyd?	Pob grŵp ymatebwyr.
Gallu busnesau	A all gweithredwyr bach a thymhorol amsugno'r systemau a'r amser staff sydd eu hangen?	Microfusnesau, darparwyr hunanarlwyo a gweithredwyr aml-lwyfan.

8.1 Roedd y ddadl yn ymestyn y tu hwnt i'r tâl nosweithiol

Dim ond un elfen o'r ddadl oedd y tâl pennawd. Ystyriodd ymatebwyr yr effaith gyfan ar draws nifer y bobl a'r nosweithiau mewn archeb, y berthynas rhwng y tâl a phris y llety, a'r posibilrwydd y gallai ymwelwyr newid ble, pryd neu am ba hyd y byddent yn aros. Ystyriodd busnesau hefyd gostau anuniongyrchol newidiadau i systemau, amser staff, trin taliadau, ymholiadau cwsmeriaid, ad-daliadau, cadw cofnodion a ffurflenni.

Mae'r fframio ehangach hwn yn helpu i egluro pam y gallai ymatebwyr ystyried tâl unigol cymharol gymedrol yn sylweddol. Roedd yr effaith ganfyddedig yn dibynnu ar faint yr archeb, y math o lety, hyd yr arhosiad, yr elw oedd ar gael i'r busnes a lefel yr ymddiriedaeth y byddai'r incwm yn cynhyrchu budd ychwanegol gweladwy.

8.2 Dylanwadau'r sector twristiaeth a busnesau lleol

Roedd y sector twristiaeth yn ddylanwad pennaf gan fod y cynnig yn cael ei ddeall drwy ei effeithiau posibl ar yr economi ymwelwyr yn ei chyfanrwydd. Roedd y pryderon a gofnodwyd yn Adrannau 6 a 7 yn cynnwys archebion, hyd arhosiad, dewis cyrchfan, gwariant ymwelwyr, elw, staffio ac effeithiau ar y gadwyn gyflenwi. Felly, ystyriodd ymatebwyr effeithiau uniongyrchol ar lety ac effeithiau ehangach ar letygarwch, manwerthu, atyniadau, trafnidiaeth a gwasanaethau lleol.

Llwybr posibl	Effaith uniongyrchol a ystyriwyd	Canlyniad ehangach posibl
Mae'r ymwelydd yn wynebu cyfanswm cost taith uwch	Yn ailystyried cyrchfan, hyd arhosiad neu fath o lety.	Newid mewn archebion, nosweithiau meddiannol neu gymysgedd ymwelwyr.
Darparwr llety yn gweinyddu'r broses gasglu	Systemau ychwanegol, amser staff a thasgau cydymffurfio.	Elw is neu ddargyfeirio capasiti oddi wrth wasanaeth cwsmeriaid.
Ymwelydd yn lleihau gwariant dewisol	Llai o wariant ar fwyd, manwerthu, atyniadau neu weithgareddau.	Incwm is i fusnesau y tu hwnt i'r sector llety.
Busnes yn wynebu galw gwannach neu fwy ansicr	Yn addasu staffio, cyfnodau agor neu fuddsoddi.	Effeithiau ar gyflogaeth a chyflenwyr lleol.
Llety yn symud y tu allan i Ynys Môn	Yr ynys yn colli rhywfaint o wariant dros nos ond o bosibl yn cadw ymweliadau dydd.	Gall pwysau ymwelwyr barhau heb incwm llety cyfatebol.

Arwyddocâd y llwybrau hyn yw eu bod yn disgrifio economi leol gysylltiedig. Nid oedd ymatebwyr o reidrwydd yn gwahanu buddiannau darparwyr llety oddi wrth fuddiannau busnesau eraill neu drigolion sy'n gweithio ym maes twristiaeth. Felly, mynegwyd pryderon am fusnesau lleol yn aml fel pryderon am fywoliaethau, gwydnwch cymunedol a dosbarthiad effeithiau economaidd.

8.3 Tegwch fel dylanwad canolog

Roedd tegwch yn gweithredu ar sawl lefel. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn deg i ymwelwyr wneud cyfraniad uniongyrchol tuag at wasanaethau a phwysau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Holodd eraill a ddylai ymwelwyr dros nos ysgwyddo'r tâl pan fo ymwelwyr dydd hefyd yn defnyddio ffyrdd, parcio, toiledau cyhoeddus, llwybrau a mannau cyhoeddus. Cododd pryderon fforddiadwyedd hefyd gwestiynau ynghylch a fyddai tâl sefydlog yn effeithio'n drymach ar deuluoedd, grwpiau, arhosiadau hirach a llety cost is.

Dimensiwn tegwch	Dehongliad cefnogol	Dehongliad beirniadol
Cyfraniad at gostau lleol	Dylai ymwelwyr gyfrannu tuag at y pwysau a'r cyfleusterau y maent yn eu defnyddio.	Mae ymwelwyr eisoes yn cyfrannu drwy lety a gwariant ehangach.
Trin gwahanol fathau o ymwelwyr	Mae arosiadau dros nos yn darparu pwynt casglu ymarferol.	Gall ymwelwyr dydd greu pwysau heb dalu'r ardoll.
Gallu i dalu	Gall y tâl fod yn fach o'i gymharu â chyfanswm cost llawer o deithiau.	Gall tâl sefydlog bwyso'n drymach ar arosiadau cost is, teuluol neu hirach.
Budd daearyddol	Gall incwm ar draws yr ynys gefnogi rheoli cyrchfan strategol.	Efallai na fydd cymunedau'n gweld elw clir lle caiff yr incwm ei wario mewn man arall.
Baich ar fusnesau	Mae casglu yn rhan o weithredu cynllun lleol cyfreithlon.	Gall gweinyddu di-dâl ddisgyn yn anghymesur ar ddarparwyr bach.

Mae'r dehongliadau cystadleuol hyn yn dangos bod ymatebwyr yn ystyried tegwch mewn perthynas â mwy na'r gyfradd yn unig. Roedd pryderon hefyd yn cwmpasu atebolrwydd, eithriadau, dyrannu lleol, baich ar fusnesau a pha mor weladwy yw'r budd. Cysylltodd ymatebwyr degwch canfyddedig ag eglurder ynghylch pwy sy'n talu, pam mae'r grŵp hwnnw'n atebol a sut y byddai'r manteision canlyniadol yn cael eu dosbarthu.

8.4 Gweinyddu a gallu busnesau

Roedd gweinyddu yn ddylanwad ymarferol pennaf gan fod darparwyr yn rhagweld cadwyn o dasgau ailadroddus. Roedd y rhain yn cynnwys addasu systemau, nodi gwesteion a nosweithiau atebol, cymhwyso eithriadau, egluro'r tâl, cysoni taliadau, rheoli newidiadau ac ad-daliadau, cadw cofnodion a chwblhau ffurflenni. Asesodd ymatebwyr y cynnig yn rhannol drwy faint yr

amser staff, y newid technegol a'r risg cydymffurfio y gallai'r tasgau hyn eu creu.

Roedd gallu busnesau yn llywio'r ffordd y canfyddid yr un gofyniad. Gall gweithredwr mwy fod â systemau archebu, cyllid a rheoli penodol, tra gall microfusnes neu ddarparwr hunanarlwyo un eiddo ddibynnu ar amser y perchennog a sawl llwyfan trydydd parti. Felly, mae tystiolaeth yr ymgynghoriad yn dangos na fyddai'r baich gweinyddol wedi'i ddosbarthu'n gyfartal.

Nodwedd busnes		Pam y gall capasiti fod yn gyfyngedig	Effaith bosibl ar safbwyntiau
Microfusnes		Staff cyfyngedig a dim swyddogaeth gyllid neu gydymffurfio arbenigol.	Gall tasg gylchol fach deimlo'n faich anghymesur.
Gweithredwr tymhorol		Mae incwm a chapasiti staff yn amrywio'n sylweddol drwy'r flwyddyn.	Mae amseru gweithredu a chyfnodau ffurflenni yn dod yn bwysicach.
Darparwr hunanarlwyo		Gall y perchennog reoli archebion, glanhau, cynnal a chadw a chyfrifon yn bersonol.	Pryder am gymhlethdod ychwanegol ac amser di-dâl.
Busnes sy'n dibynnu ar asiantaeth		Gall prosesau archebu a thalu gael eu rhannu â thrydydd parti.	Ansicrwydd ynghylch cyfrifoldeb, data a chysoni.
Gweithredwr aml-lwyfan		Mae archebion, ffioedd, ad-daliadau a chyfathrebu â chwsmeriaid yn digwydd ar draws gwahanol systemau.	Mwy o risg o anghysondeb ac addasu â llaw.
Gwesty neu grŵp mwy		Nifer uwch o drafodion ac eithriadau i'w prosesu.	Gall systemau fod yn gryfach, ond mae cyfanswm y llwyth trafodion yn fwy.

8.5 Amseriad a phwysau cronol

Roedd amseriad yn ddylanwadol gan fod ymatebwyr yn ystyried yr ardoll ochr yn ochr ag amodau economaidd a rheoleiddiol ehangach. Cysylltodd y dystiolaeth fusnes y cynnig â thymoroldeb, y rheol gosod 182 diwrnod, costau cyflogau ac Yswiriant Gwladol, rhwymedigaethau TAW presennol a phwysau gweithredu cyffredinol. Felly, aseswyd y cynnig fel un elfen ychwanegol o fewn baich cronol.

Mae'r persbectif cronol hwn yn bwysig. Efallai na fydd ymatebydd yn credu y byddai'r ardoll ar ei phen ei hun yn newid hyfywedd busnes yn sylweddol, ond gallai barhau i wrthwynebu ei chyflwyno oherwydd bod elw, staffio neu alw eisoes dan bwysau. Mae amseriad hefyd yn effeithio ar hyder: gall mesur a gyflwynir yn ystod cyfnod o wendid canfyddedig gael ei farnu'n wahanol i'r un mesur a gyflwynir ar ôl masnachu cryfach neu ar ôl profi systemau a chanllawiau.

Ystyriaeth amseru	Cwestiwn a godwyd	Tystiolaeth a fyddai'n berthnasol
Amodau galw presennol	A yw archebion a gwariant ymwelwyr yn ddigon gwydn?	Meddiannaeth, cyfradd ddyddiol gyfartalog, hyd arhosiad a thueddiadau gwariant.
Amgylchedd costau busnes	A all busnesau amsugno costau gweinyddu a thrafodion?	Elw, costau cyflogaeth a thystiolaeth cost amser darparwyr.
Newid rheoleiddiol	A yw gweithredwyr eisoes yn addasu i reolau eraill?	Calendrau gweithredu ac asesiad cydymffurfio cronol.
Parodrwydd systemau	A yw llwyfannau archebu a phrosesau'r Cyngor yn barod?	Profi peilot, canllawiau technegol a threfniadau cymorth.
Cyfathrebu ag ymwelwyr	A fydd y tâl yn cael ei ddeall cyn archebu?	Deunyddiau cyhoeddedig, profi'r llwybr archebu ac adborth ymwelwyr.

8.6 Cystadleurwydd a dewis cyrchfan

Dylanwadodd cystadleurwydd ar safbwyntiau gan fod ymatebwyr yn cymharu Ynys Môn â chyrchfannau eraill ac yn ystyried a allai ymwelwyr osgoi'r tâl drwy aros mewn man arall, byrhau taith neu ddewis lleoliad gwahanol. Roedd y pryder hwn yn arbennig o amlwg yn nhystiolaeth ymwelwyr a busnesau, lle'r oedd bwriadau a fynegwyd yn cynnwys arhosiadau byrrach a llety y tu allan i'r ynys.

Nid yr ardoll yn unig sy'n pennu cystadleurwydd. Mae'n dibynnu ar gyfanswm y pris, ansawdd, unigrywiaeth, argaeledd, teyrngarwch ymwelwyr a pha mor weladwy yw'r gwelliannau. Gall tâl cymedrol gael ychydig o effaith ar rai teithiau ond fod yn fwy arwyddocaol lle mae'r llety'n rhatach, sawl person yn teithio neu'r arhosiad yn hir. Felly, ystyriodd ymatebwyr y gyfradd bennawd a chynnig gwerth ehangach Ynys Môn.

8.7 Ymddiriedaeth yn y sector cyhoeddus a hyder mewn gwariant

Roedd ymddiriedaeth yn y Cyngor a'r sector cyhoeddus ehangach yn ddylanwad mawr gan fod y budd posibl yn dibynnu ar y ffordd y byddai incwm yn cael ei gasglu, ei ddidynnu, ei ddyrannu a'i adrodd. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi egwyddor cyfraniad gan ymwelwyr ond am gael tystiolaeth y byddai'r incwm yn ychwanegol, yn cael ei reoli'n dryloyw ac yn cael ei gyfeirio at welliannau lleol gweladwy.

Lle'r oedd ymddiriedaeth yn isel, roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai'r ardoll ddisodli cyllidebau presennol, gael ei amsugno gan weinyddu neu gael ei gwario heb fudd lleol clir. Mae hyn yn golygu nad mater eilaidd oedd llywodraethu: roedd yn effeithio ar degwch, gwerth a chyfreithlondeb canfyddedig y cynnig ei hun.

Thema sy'n gysylltiedig ag ymddiriedaeth	Pam mae'n dylanwadu ar safbwyntiau	Enghreifftiau a drafodwyd yn y dystiolaeth
Ychwanegedd	Mae ymatebwyr am weld buddsoddiad newydd yn hytrach na disodli cyllidebau presennol.	Gwariant gwaelodlin cyhoeddedig a phrosiectau a ariennir gan yr ardoll wedi'u nodi ar wahân.
Tryloywder	Mae pobl am weld incwm gros, didyniadau a buddsoddiad net.	Cyfrifon blyneddol ac adrodd ariannol clir.
Gwelededd lleol	Mae trigolion ac ymwelwyr yn disgwyl canlyniadau adnabyddadwy.	Mapiau prosiectau, arwyddion ac adrodd ar sail lle.
Craffu	Gall goruchwyliaeth annibynnol neu aml-randdeiliad gynyddu hyder.	Aelodaeth, penderfyniadau a chofnodion cyhoeddedig.
Gwerthuso	Mae ymatebwyr am wybod a yw'r ardoll yn cyflawni ei hamcanion.	Monitro canlyniadau economaidd, ymwelwyr, amgylcheddol a gwasanaeth.

8.8 Dehongliad cyffredinol

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwyntiau'n dangos bod dadl yr ymgynghoriad yn aml-ddimensiwn. Nid dewis yn unig oedd ymatebwyr ynghylch a oeddent yn hoffi neu'n casáu tâl nosweithiol. Roeddent yn asesu pecyn o effeithiau disgwylledig: risg economaidd, fforddiadwyedd i ymwelwyr, tegwch, gwaith gweinyddol, sefyllfa gystadleuol, amseriad ac ymddiriedaeth mewn cyflawni.

Mae'r ffactorau hefyd yn helpu i egluro'r gwahaniaethau rhwng carfannau. Rhoddodd busnesau fwy o bwysau ar weinyddu, gallu, elw a chystadleurwydd. Canolbwyntiodd ymwelwyr fwy ar gyfanswm cost y daith, gwerth a dewis cyrchfan. Ystyriodd trigolion fywoliaethau, tegwch, gwasanaethau cyhoeddus a budd lleol, tra bod ymatebwyr cymunedol a gwirfoddol wedi'u rhannu'n fwy cyfartal rhwng budd cymunedol posibl a phryderon ynghylch gweithredu.

8.9 Goblygiadau a chyfyngiadau

Arwyddocâd deongliadol	Rheswm
Ni fyddai cyfathrebu yn unig yn datrys pob gwrthwynebiad.	Roedd rhai pryderon yn ymwneud ag egwyddor, tegwch neu farn economaidd yn hytrach na diffyg gwybodaeth.
Cysylltodd ymatebwyr gynllun gweinyddol â chyfreithlondeb.	Roedd baich a chapasiti yn ganolog i safbwyntiau busnesau.
Roedd cefnogaeth yn aml yn gysylltiedig â budd ychwanegol gweladwy.	Roedd cefnogaeth yn aml yn amodol ar welliannau tryloyw a lleol.
Roedd amseru yn ystyriaeth a ailadroddwyd yn y dystiolaeth.	Asesodd ymatebwyr yr ardoll ochr yn ochr â phwysau cronol ar fusnesau a phwysau rheoleiddiol.
Nododd ymatebwyr ffactorau y tu hwnt i'r incwm a godir fel rhai perthnasol i fonitro.	Roedd cystadleurwydd, hyd arhosiad, gwariant, gweinyddu ac effeithiau dosbarthiadol i gyd yn berthnasol.

Nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn rhoi amlderau meintiol ar gyfer pob ffactor sy'n dylanwadu. Felly, ni ddylid cyflwyno'r themâu fel graddfa rifiadol na'u defnyddio i honni bod canran benodol o ymatebwyr yn rhannu pob pryder. Mae'r tablau yn yr adran hon yn trefnu'r dylanwadau ansoddol a ddisgrifir yn y deunydd ffynhonnell ac yn dangos sut maent yn ymwneud â chanfyddiadau'r carfannau.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai derbynioldeb yn dibynnu ar y cynnig dylunio a chyflawni cyflawn yn hytrach nag ar y gyfradd nosweithiol yn unig. Ystyriodd ymatebwyr pwy sy'n talu, pwy sy'n gweinyddu, pwy sy'n elwa, pryd y cyflwynir y cynllun ac a all y Cyngor ddangos defnydd tryloyw ac effeithiol o'r incwm.

9. Canlyniadau posibl a blaenoriaethau ailfuddsoddi

Nododd tystiolaeth yr ymgynghoriad ddau faes pryder cysylltiedig ond gwahanol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chanlyniadau posibl cyflwyno ardoll ymwelwyr, gan gynnwys effeithiolrwydd gwariant, pwysau ar fusnesau bach neu dymhorol, baich gweinyddol a'r effaith ar y ffordd y canfyddir Ynys Môn fel cyrchfan. Roedd yr ail yn ymwneud â'r meysydd y credai ymatebwyr y gellid ailfuddsoddi incwm ychwanegol ynddynt pe bai ardoll yn cael ei chyflwyno.

Y pryder a ddewiswyd amlaf oedd na fyddai incwm yr ardoll yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Dilynwyd hyn gan bwysau ar fusnesau bach neu dymhorol, baich gweinyddol a chanfyddiad o'r gyrchfan. Mae'r drefn yn dangos bod pryder economaidd a hyder sefydliadol wedi'u cysylltu'n agos. Nid oedd ymatebwyr yn ystyried yn unig a allai ardoll godi incwm, ond a fyddai'r incwm yn cyrraedd blaenoriaethau gweladwy, a fyddai costau casglu'n gymesur ac a ellid rheoli'r effeithiau economaidd ehangach.

Pryder a nodwyd	Cwestiwn sylfaenol	Canlyniad posibl
Efallai na chaiff yr arian ei ddefnyddio'n effeithiol	A fyddai incwm yn ychwanegol, yn dryloyw ac wedi'i gyfeirio at flaenoriaethau clir?	Hyder isel, cyfreithlondeb gwan a llai o dderbyniad cyhoeddus.
Pwysau ar fusnesau bach neu dymhorol	A allai'r tâl neu'r gwaith o'i weinyddu effeithio ar hyfywedd, elw neu wytnwch masnachu?	Effeithiau anghymesur ar weithredwyr â chapasiti cyfyngedig neu dymhorau masnachu byr.
Baich gweinyddol	A fyddai casglu, eithriadau, ad-daliadau, cofnodion a ffurflenni yn creu gormod o waith?	Costau gweithredu uwch, risg cydymffurfio a dargyfeirio amser staff.
Canfyddiad o'r gyrchfan	A allai'r ardoll effeithio ar sut mae ymwelwyr yn gweld cost a gwerth Ynys Môn?	Llai o gystadleurwydd, arosiadau byrrach neu ddadleoli llety.

9.1 Y berthynas rhwng pryder economaidd a hyder sefydliadol

Nid oedd pryder economaidd a hyder mewn cyflawni gan y sector cyhoeddus yn faterion ar wahân. Holodd ymatebwyr a oedd yn ofni pwysau ar fusnesau hefyd a fyddai'r incwm canlyniadol yn cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol i gyfiawnhau'r pwysau hwnnw. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr a gefnogai fuddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus yn aml yn gwneud y gefnogaeth honno'n amodol ar wariant tryloyw, ychwanegol a gweladwy'n lleol.

Mae'r berthynas hon yn bwysig gan y gall cynllun gael ei farnu nid yn unig yn ôl y swm a godir ond yn ôl cydbwysedd cyflawn y costau, y risgiau a'r manteision. Os yw'r baich gweinyddol neu economaidd yn weladwy tra bod y budd canlyniadol yn cael ei oedi, yn wasgaredig neu'n cael ei egluro'n wael, gall hyder barhau'n isel hyd yn oed os yw cyfanswm yr incwm yn sylweddol.

9.2 Pryder na fyddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol

Roedd y prif bryder yn ymwneud ag effeithiolrwydd gwariant. Mae hyn yn adlewyrchu cwestiwn ehangach ynghylch a fyddai incwm yr ardoll yn trosi'n welliannau ychwanegol a mesuradwy. Roedd ymatebwyr yn debygol o asesu effeithiolrwydd drwy welededd prosiectau, tryloywder adrodd ariannol, dosbarthiad daearyddol gwariant a'r graddau y cynhyrchodd gweithgarwch a ariannwyd ganlyniadau yn hytrach na dim ond amsugno cost weinyddol.

Agwedd ar ddefnydd effeithiol	Tystiolaeth y byddai ymatebwyr yn ei disgwyl	Risg os yw'n aneglur
Ychwanegedd	Gwahaniaeth clir rhwng cyllidebau presennol y Cyngor a gwariant newydd a ariennir gan yr ardoll.	Canfyddiad bod yr ardoll yn disodli darpariaeth bresennol yn hytrach na'i hychwanegu ati.
Tryloywder	Incwm gros, didyniadau, buddsoddiad net a gwariant prosiectau wedi'u cyhoeddi.	Pryder bod gormod o incwm yn cael ei golli i weinyddu.
Blaenoriaethu	Meini prawf clir sy'n cysylltu prosiectau â phwysau ymwelwyr, angen cymunedol a chanlyniadau strategol.	Gall gwariant ymddangos yn fympwyol neu wedi'i yrru'n wleidyddol.
Gwelededd lleol	Gwelliannau adnabyddadwy mewn lleoedd yr effeithir arnynt gan weithgarwch ymwelwyr.	Efallai na fydd cymunedau'n cydnabod budd o'r ardoll.
Adrodd ar ganlyniadau	Tystiolaeth o gyfleusterau, mynediad, ansawdd amgylcheddol neu reoli ymwelwyr gwell.	Gall allbynnau gael eu rhestru heb ddangos effaith ymarferol.
Craffu	Goruchwyliaeth annibynnol neu aml-randdeiliad o ddyrannu a pherfformiad.	Ymddiriedaeth wan mewn gwneud penderfyniadau a chyflawni.

Nid yw'r pryder ynghylch effeithiolrwydd o reidrwydd yn awgrymu gwrthwynebiad i bob gwariant cyhoeddus. Mae'n dangos bod yr achos dros ardoll yn dibynnu'n helaeth ar lywodraethu a thystiolaeth. Gall ymatebwyr dderbyn yr angen am fuddsoddiad tra'n parhau'n amheus y bydd ffynhonnell incwm newydd yn cael ei diogelu, ei thargedu a'i hadrodd mewn ffordd sy'n dangos gwerth ychwanegol.

9.3 Pwysau ar fusnesau bach a thymhorol

Roedd yr ail brif bryder yn ymwneud â phwysau ar fusnesau bach neu dymhorol. Gall fod gan y gweithredwyr hyn lefelau staffio cyfyngedig, incwm amrywiol drwy'r flwyddyn a llai o allu i amsugno costau gweinyddol neu drafodion newydd. Felly, roedd y pryder yn cwmpasu effaith bosibl y tâl ar alw a baich uniongyrchol casglu.

Nodwedd busnes	Ffynhonnell bosibl o bwysau	Effaith bosibl
Microfusnes	Staff cyfyngedig a dibyniaeth ar amser y perchennog.	Gall tasg gylchol fach fod â chost anghymesur.
Gweithrediad tymhorol	Mae incwm wedi'i grynhoi o fewn cyfnod masnachu cyfyngedig.	Llai o hyblygrwydd i amsugno galw is neu waith sefydlog ychwanegol.
Darparwr hunanarlwyo	Gall archebion, cyfrifon a rheoli eiddo gael eu gwneud gan un person.	Gall cymhlethdod gweinyddol leihau'r amser sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau craidd.
Busnes ag elw is	Gallu cyfyngedig i amsugno taliadau, ffioedd neu wariant gwannach gan ymwelwyr.	Pwysau ar hyfywedd, staffio neu fuddsoddi.
Gweithredwr sy'n dibynnu ar asiantaeth neu lwyfan	Gall casglu a chysoni gynnwys sawl system.	Mwy o ansicrwydd ynghylch cyfrifoldeb, ad-daliadau a data.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr effaith weinyddol ganfyddedig yn amrywio rhwng modelau busnes. Cododd ymatebwyr gymesured a pha mor hylaw yw systemau ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr fel materion gweithredu.

9.4 Baich gweinyddol a chanfyddiad o'r gyrchfan

Roedd baich gweinyddol yn parhau'n bryder mawr gan fod darparwyr yn rhagweld cadwyn ailadroddus o dasgau, gan gynnwys nodi atebolrwydd, cymhwyso eithriadau, egluro'r tâl, casglu

a chysoni taliadau, ymdrin â chanslo ac ad-daliadau, cadw cofnodion a chwblhau ffurflenni. Mae cost y tasgau hyn yn cynnwys gwariant uniongyrchol a chost cyfle amser staff.

Roedd canfyddiad o'r gyrchfan yn ymwneud â'r posibilrwydd y gallai'r ardoll newid y ffordd y mae ymwelwyr yn asesu cost a gwerth Ynys Môn. Nid oedd y pryder wedi'i gyfyngu i swm y tâl. Roedd hefyd yn cynnwys sut y byddai'r ardoll yn cael ei chyfathrebu, a allai ymwelwyr weld gwelliannau a ariannwyd ac a oedd cyrchfannau cyfagos neu gystadleuol yn ymddangos yn fwy deniadol.

Mater	Llwybr negyddol a ystyriwyd	Tystiolaeth neu weithred liniaru
Cymhlethdod gweinyddol	Mae darparwyr yn wynebu gwaith â llaw, gwallau a risg cydymffurfio.	Rheolau syml, systemau cydnaws, hyfforddiant a chymorth hygyrch.
Tâl annisgwyl	Mae ymwelwyr yn dod ar draws yr ardoll yn hwyr yn y broses archebu.	Gwybodaeth glir cyn archebu ac enghreifftiau o gyfanswm y gost.
Cynnig gwerth gwan	Mae ymwelwyr yn gweld cost ychwanegol heb fudd gweladwy.	Prosiectau a enwyd, gwelliannau gweladwy a chanlyniadau cyhoeddus.
Cymhariaeth gystadleuol	Mae ymwelwyr yn cymharu Ynys Môn yn anffafriol â dewisiadau eraill.	Monitro pris, archebion, hyd arhosiad a pherfformiad cyrchfan.
Naratif negyddol	Daw'r ardoll i gael ei chysylltu â gwasanaethau gwael neu ddiffyg ymddiriedaeth.	Eglurhad cyson, llywodraethu tryloyw a chyflawni credadwy.

9.5 Blaenoriaethau ailfuddsoddi

Y brif flaenoriaeth ailfuddsoddi oedd toiledau cyhoeddus a glendid. Dilynwyd hyn gan trafndiaeth, parcio a mynediad; cymorth i fusnesau lleol; llwybrau a phromenadau; yr amgylchedd naturiol; a chyfleusterau cymunedol. Roedd y blaenoriaethau hyn yn ymarferol, yn weladwy ac wedi'u cysylltu'n agos â phrofiad trigolion ac ymwelwyr.

Maes blaenoriaeth	Math o ymyrraeth a awgrymir	Budd posibil
Toiledau cyhoeddus a glendid	Cynnal a chadw, gwella, glanhau a darparu mewn lleoliadau defnydd uchel.	Profiad gwell i ymwelwyr, iechyd cyhoeddus ac ansawdd amgylcheddol.
Trafndiaeth, parcio a mynediad	Gwybodaeth trafndiaeth gyhoeddus, rheoli parcio, hygyrchedd a gwelliannau symudedd.	Llai o dagfeydd, gwell mynediad a theithio mwy cynaliadwy.
Cefnogaeth i fusnesau lleol	Cymorth busnes, mentrau cyrchfan neu weithgarwch sy'n cryfhau cyflenwad a gwariant lleol.	Mwy o gadw gwerth economaidd yn lleol a mwy o wytnwch.
Llwybrau a phromenadau	Cynnal a chadw, hygyrchedd, arwyddion a gwelliannau i arwynebau.	Mynediad mwy diogel, teithio llesol a gwell symudiad ymwelwyr.
Yr amgylchedd naturiol	Cadwraeth, rheoli ymwelwyr, rheoli sbwriel a diogelu cynefinoedd.	Diogelu asedau amgylcheddol a lleihau pwysau ymwelwyr.
Cyfleusterau cymunedol	Buddsoddi mewn cyfleusterau sy'n gwasanaethu trigolion ac ymwelwyr.	Budd cymunedol ehangach a seilwaith lleol cryfach.

Mae dwy nodwedd yn gyffredin i'r blaenoriaethau. Yn gyntaf, maent yn ymwneud â gwasanaethau a seilwaith y gellir eu gweld yn uniongyrchol. Yn ail, byddai llawer ohonynt o fudd i drigolion ac ymwelwyr. Gall y budd deuol hwn helpu i egluro pam y gwnaethant ymddangos mor amlwg hyd yn oed ymhlith ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r ardoll ei hun.

9.6 Nid oedd dewis blaenoriaeth o reidrwydd yn dangos cefnogaeth

Nid oedd dewis blaenoriaeth aifuddsoddi o reidrwydd yn dangos cefnogaeth i'r ardoll. Gallai ymatebydd wrthwynebu'r cynnig ar sail economaidd, tegwch neu weinyddol tra'n dal i nodi sut y dylid defnyddio'r incwm pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen. Felly, mae cwestiynau blaenoriaeth yn cofnodi dewisiadau amodol yn hytrach na chymeradwyaeth i'r mecanwaith codi tâl.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn hanfodol wrth gyflwyno'r canfyddiadau. Mae'r blaenoriaethau aifuddsoddi'n dangos ble roedd ymatebwyr yn gweld angen neu werth posibl. Ni ddylid eu cyfuno â chanlyniadau'r safbwynt i awgrymu bod pobl a ddewisodd gategori prosiect yn cefnogi'r ardoll. Mae'r ddau fath o gwestiwn yn mesur pethau gwahanol: mae un yn cofnodi barn am y cynnig, tra bod y llall yn nodi'r defnydd a ffefrir o incwm damcaniaethol.

Safbwynt posibl ymatebydd	Safbwynt ar yr ardoll	Dull o ddewis blaenoriaethau
Cefnogol ac amodol	Yn cefnogi'r egwyddor os yw'r incwm yn ariannu gwelliannau gweladwy.	Yn dewis blaenoriaethau sy'n dangos gwerth ac ychwanegedd.
Yn gwrthwynebu ond yn bragmatig	Yn gwrthwynebu'r tâl neu ei amseru.	Yn dal i nodi'r defnydd lleiaf gwrthwynebus neu fwyaf defnyddiol o'r incwm.
Yn pryderu am lywodraethu	Gall fod yn agored i'r egwyddor ond heb hyder mewn cyflawni.	Yn dewis blaenoriaethau tra'n mynnu craffu ac adrodd tryloyw.
Yn pryderu'n economaidd	Yn gwrthwynebu oherwydd effeithiau ar fusnesau neu fforddiadwyedd.	Yn nodi blaenoriaethau ond yn ystyried nad yw'r buddion yn ddigon i orbwyso'r costau.

9.7 Materion sy'n gysylltiedig â blaenoriaethu ac adrodd

Cysylltodd tystiolaeth yr ymgynghoriad aifuddsoddi â chysondeb strategol a budd lleol gweladwy. Nododd ymatebwyr a rhanddeiliaid feini prawf cymhwysedd clir, esboniad o sut mae gwariant yn ymwneud â phwysau ymwelwyr neu angen cymunedol, ac adrodd tryloyw o'r incwm gros hyd at ganlyniadau fel ystyriaethau perthnasol.

Cam	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Gwybodaeth a gysylltodd ymatebwyr â thryloywder
Casglu incwm	Datganiad cywir o dderbyniadau gros.	Cyfanswm a gasglwyd fesul cyfnod adrodd.
Didyniadau	Triniaeth dryloyw o gostau gweinyddu a chasglu.	Didyniadau wedi'u rhestru fesul eitem a chanran o'r incwm gros.
Dyrannu	Meini prawf clir a rhesymeg ddaearyddol.	Fframwaith penderfynu, prosiectau a ariannwyd a lleoliadau.
Cyflawni	Allbynnau, amserlenni a chyrrff cyfrifol wedi'u diffinio.	Crynodebau prosiectau a diweddariadau cynnydd.
Canlyniadau	Tystiolaeth o fudd ymarferol a mesuradwy.	Dangosyddion gwasanaeth, amgylcheddol, economaidd ac ymwelwyr.
Adolygu	Craffu annibynnol neu aml-randdeiliad.	Gwerthusiad, argymhellion ac ymatebion cyhoeddedig.

9.8 Goblygiadau a chyfyngiadau


Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai gweithredu'n cael ei farnu cymaint yn ôl ansawdd aifuddsoddi ac adrodd ag yn ôl y gyfradd a godir. Gallai gwelliannau gweladwy i doiledau cyhoeddus, glendid, trafniadaeth, mynediad, llwybrau, yr amgylchedd a chyfleusterau cymunedol ddangos budd, ond dim ond lle'r oedd ymatebwyr yn hyderus bod y gwariant yn ychwanegol, yn gymesur ac yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn rhoi niferoedd na chanrannau ar gyfer y pryderon neu'r blaenoriaethau unigol. Felly, dylid eu hadrodd yn y drefn a nodwyd ond nid eu cyflwyno drwy siartiau rhifiadol wedi'u dyfeisio na'u dehongli fel gwahaniaethau manwl gywir mewn maint. Mae'r canfyddiadau'n nodi amlygrwydd cymharol a chyfeiriad thematig, nid ymylon wedi'u meintioli rhwng categorïau.

Yn gyffredinol, mae'r adran yn dangos na ellid gwahanu canlyniadau posibl a blaenoriaethau ailfuddsoddi oddi wrth ymddiriedaeth. Cryfhawyd pryder am bwysau ar fusnesau a gweinyddu lle'r oedd hyder mewn gwariant yn wan. I'r gwrthwyneb, roedd cefnogaeth neu dderbyniad amodol yn fwy tebygol lle gallai ymatebwyr ddychmygu gwelliannau ymarferol, gweladwy a pherthnasol yn lleol.

10. Llywodraethu, ymddiriedaeth a hyder

Daeth llywodraethu i'r amlwg fel un o'r materion trawsbynciol cliraf yn yr ymgynghoriad. Graddiodd cyfanswm o 1,720 o ymatebwyr drefniadau llywodraethu clir fel rhai pwysig iawn ac roedd 170 arall yn eu graddio'n bwysig. Nid yw'r crynodeb a ddarparwyd yn cynnwys union niferoedd y categorïau ymateb sy'n weddill, felly cyflwynir y siart fel cofnod gweledol awdurdodol o'r dosbarthiad llawn.



10.1 Dehongliad pennawd

Mae'r canlyniad yn dangos nad oedd llywodraethu'n bryder gweithdrefnol eilaidd. Roedd yn ganolog i'r ffordd yr asesodd ymatebwyr gyfreithlondeb, tegwch ac effeithiolrwydd tebygol ardoll ymwelwyr. Mae'r crynodiad cryf yn y categori 'pwysig iawn' yn dangos bod ymatebwyr am gael eglurder cyn gweithredu yn hytrach na sicrwydd a ddatblygir ar ôl dechrau casglu. Gofynnwyd am gynrychiolaeth gref i ddarparwyr llety, busnesau twristiaeth, trigolion a grwpiau cymunedol. Byddai darparwyr llety'n casglu'r tâl; byddai busnesau twristiaeth yn profi effeithiau ehangach ar y farchnad; byddai trigolion yn barnu budd lleol a thegwch; a gallai sefydliadau cymunedol gyfrannu gwybodaeth le-seiliedig a chraffu.

Grŵp rhanddeiliaid	Rheswm dros gynrychiolaeth	Cyfraniad at lywodraethu
Darparwyr llety	Byddent yn ymgymryd â chasglu a chyfathrebu â chwsmeriaid.	Gwybodaeth weithredol am archebion, eithriadau, ad-daliadau, llwyfannau a ffurflenni.
Busnesau twristiaeth	Gallant brofi effeithiau ehangach ar wariant, galw ac enw da'r gyrchfan.	Tystiolaeth ar gystadleurwydd, cadwyni cyflenwi, staffio ac ymddygiad ymwelwyr.
Trigolion	Byddent yn asesu budd lleol, ychwanegedd a thegwch daearyddol.	Blaenoriaethau cymunedol, pwysau ar wasanaethau ac atebolrwydd cyhoeddus.
Grwpiau cymunedol a gwirfoddol	Gallant gynrychioli lleoedd, buddiannau a chymunedau penodol yr effeithir arnynt.	Mewnwelediad lle-seiliedig, cynhwysiant a her annibynnol.
Awdurdod lleol	Byddai'n dal cyfrifoldebau statudol ac ariannol.	Cydymffurfiaeth gyfreithiol, gweinyddu, rheolaeth ariannol a chyflawni.
Arbenigedd annibynnol	Gall gryfhau craffu a gwerthuso.	Monitro gwrthrychol, archwilio ac asesu canlyniadau.

10.2 Diffyg ymddiriedaeth yn y sector cyhoeddus

Roedd diffyg ymddiriedaeth yn amlwg mewn pryder na fyddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ansicrwydd ynghylch neilltuo cyllid a sylwadau'n cwestiynu a fyddai incwm yr ardoll yn disodli cyllidebau presennol. Ni ddylid lleihau'r pryder hwn i wrthwynebiad syml i drethiant. Mae'n well ei ddeall fel mater o berthynas a chyfreithlondeb.

Roedd ymatebwyr yn asesu a allai'r Cyngor wneud ymrwymadau gweladwy a chadw atynt. Y cwestiynau canolog oedd a fyddai'r incwm yn parhau'n ychwanegol, a fyddai didyniadau gweinyddol yn gymesur, a fyddai cymunedau'n gweld budd y gellir ei adnabod ac a fyddai'r broses gwneud penderfyniadau'n agored i graffu ystyrlon.

Mynegiant o ddiffyg ymddiriedaeth	Pryder sylfaenol	Ffactorau a gysylltodd ymatebwyr â mwy o hyder
Efallai na chaiff yr arian ei ddefnyddio'n effeithiol	Efallai na fydd incwm yn trosi'n ganlyniadau ymarferol neu fesuradwy.	Blaenoriaethau cyhoeddedig, cynlluniau cyflawni ac adrodd ar ganlyniadau.
Ansicrwydd ynghylch neilltuo cyllid	Gall refeniw gael ei amsugno i gyllidebau cyffredinol.	Datganiad ffurfiol ar neilltuo cyllid a chyfrifyddu ar wahân.
Pryder am ddisodli cyllidebau	Gall gwariant presennol gael ei leihau unwaith y bydd incwm yr ardoll ar gael.	Cyllidebau gwaelodlin cyhoeddedig a phrawf ychwanegedd.
Pryder am gostau gweinyddol	Gall gormod o incwm gael ei gadw ar gyfer casglu a rheoli.	Datgelu incwm gros, didyniadau a buddsoddiad net yn llawn.
Pryder am degwch daearyddol	Gall rhai cymunedau ysgwyddo pwysau ond derbyn budd cyfyngedig.	Meini prawf dyrannu tryloyw ac adrodd daearyddol.
Pryder am ddisgresiwn gwleidyddol	Gall penderfyniadau gael eu gweld fel rhai nad ydynt yn ddigon annibynnol neu gyson.	Goruchwyliaeth aml-randdeiliad, rheolau gwrthdaro buddiannau a phenderfyniadau cyhoeddedig.

Cysylltodd ymatebwyr ymddiriedaeth â thystiolaeth ailadroddus yn hytrach nag un datganiad o fwriad, gan gynnwys deialog agored, rheolau clir, cofnodion hygyrch, cyflawni gweladwy ac ymatebolrwydd lle mae monitro'n nodi problemau.

10.3 Neilltuo cyllid ac ychwanegedd

Mae neilltuo cyllid ac ychwanegedd yn gysylltiedig ond yn wahanol. Mae neilltuo cyllid yn ymwneud ag a yw'r incwm yn cael ei gadw'n gyfreithiol neu'n weinyddol at ddibenion penodol.

Mae ychwanegedd yn ymwneud ag a yw'r gweithgarwch a ariennir yn wirioneddol ychwanegol at yr hyn a fyddai fel arall wedi'i ddarparu. Gall cynllun fod wedi'i neilltuo ond dal i ddenu beirniadaeth os caiff cyllidebau presennol eu lleihau mewn ymateb.

Egwyddor	Ystyr	Tystiolaeth a gysylltodd ymatebwyr â'r egwyddor
Neilltuo cyllid	Mae incwm yr ardoll wedi'i gyfyngu i ddibenion neu weithgareddau diffiniedig.	Cyfrif ar wahân, defnyddiau cymwys cymeradwy a gwariant wedi'i archwilio.
Ychwanegedd	Mae gweithgarwch a ariennir gan yr ardoll yn uwch na'r gwaelodlin a fyddai wedi'i gyflawni fel arall.	Cyllidebau gwaelodlin cyhoeddus a datganiad ychwanegedd ffurfiol.
Tryloywder	Gall y cyhoedd ddilyn yr incwm o'i gasglu i'r canlyniad.	Derbyniadau gros, didyniadau, dyraniadau, prosiectau a chanlyniadau.
Cysondeb	Caiff rheolau eu cymhwysu'n rhagweladwy ar draws blyneddau a phrosiectau.	Meini prawf cyhoeddus, cofnodion penderfyniadau a gweithdrefnau adolygu.

10.4 Partneriaeth Cyrchfan Môn neu gorff cyfatebol

Roedd tystiolaeth yr ymgynghoriad yn cynnwys cefnogaeth i sefydlu Partneriaeth Cyrchfan Môn, neu gorff cyfatebol, fel fforwm ar gyfer cynrychiolaeth, cyngor a chraffu. Cododd ymatebwyr a rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd eglurder ynghylch awdurdod cyfreithiol a rôl unrhyw bartneriaeth o'r fath. Roedd y swyddogaethau a drafodwyd yn cynnwys cyngor, mewnbwn i osod blaenoriaethau, adolygu perfformiad a chraffu, tra byddai penderfyniadau statudol ac ariannol ffurfiol yn parhau'n faterion i'r Cyngor. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gallai amwysedd ynghylch a oedd corff yn gynghorol neu'n gwneud penderfyniadau effeithio ar hyder.

Nodwedd llywodraethu	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Trefniant a ddisgrifir yn y dystiolaeth
Cylch gorchwyl	Diffinio cylch gwaith, awdurdod, cyfrifoldebau a chyfyngiadau.	Wedi'i gyhoeddi cyn penodiadau a'i adolygu'n gyfnodol.
Aelodaeth gytbwys	Sicrhau bod buddiannau yr effeithir arnynt yn cael eu cynrychioli.	Llety, twristiaeth, trigolion, cymuned, y Cyngor a lleisiau annibynnol.
Proses benodi	Dangos didwylledd a chyfreithlondeb.	Meini prawf cyhoeddus, dewis tryloyw a thymhorau penodol.
Trefniadau pleidleisio	Egluro sut y gwneir argymhellion neu benderfyniadau.	Cworwm diffiniedig, hawliau pleidleisio a thrin ymatal.
Gwrthdaro buddiannau	Diogelu uniondeb lle gall aelodau elwa o gyllid.	Datganiadau, rheolau tynnu'n ôl a chofrestrau cyhoeddus.
Adrodd cyhoeddus	Caniatáu i randdeiliaid deall trafodaeth a chanlyniadau.	Agendâu, cofnodion, argymhellion ac ymatebion y Cyngor.
Adolygu ac adnewyddu	Atal trefniadau rhag mynd yn statig neu'n anghynrychioliadol.	Adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd ac aelodaeth.

10.5 Tryloywder ariannol ac adrodd blynyddol

Cysylltodd ymatebwyr adrodd blynyddol tryloyw â chyfrif cyflawn a dealladwy o unrhyw ardoll. Codwyd pryderon na fyddai cyhoeddi gwerth prosiectau a ariannwyd yn unig yn dangos faint a gasglwyd, beth a ddidynnwyd na sut y gwnaed dyraniadau.

Elfen adrodd	Gwybodaeth i'w chyhoeddi	Arwyddocâd deongliadol
Incwm gros	Cyfanswm derbyniadau'r ardoll ar gyfer y cyfnod adrodd.	Yn dangos graddfa gyffredinol y ffrwd incwm.
Costau gweinyddol	Costau casglu, staffio, systemau, cymorth a gorfodi.	Yn caniatáu asesu effeithlonrwydd a chymesuredd.
Buddsoddiad net	Swm sy'n weddill ar ôl didyniadau.	Yn dangos faint sy'n cyrraedd y gwaith cyflawni.
Dyraniad daearyddol	Lle mae prosiectau a gwariant wedi'u lleoli.	Yn dangos gwelededd lleol a thegwch.
Dyraniad thematig	Gwariant yn ôl blaenoriaeth megis toiledau, trafndiaeth neu'r amgylchedd.	Yn dangos cysondeb â blaenoriaethau'r ymgynghoriad.
Allbynnau	Cyfleusterau wedi'u gwella, gwasanaethau wedi'u darparu a phrosiectau wedi'u cwblhau.	Yn darparu cofnod uniongyrchol o weithgarwch.
Canlyniadau	Newidiadau mewn ansawdd gwasanaeth, rheoli ymwelwyr, yr amgylchedd neu'r economi leol.	Yn dangos a gyflawnodd y gwariant ei ddiben.

Cysylltodd ymatebwyr dryloywder â gwybodaeth sy'n hygyrch yn ogystal ag yn gyflawn yn dechnegol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys crynodeb cyhoeddus cryno wedi'i ategu gan gyfrifon a setiau data manwl ar gyfer cynulleidfaoedd sydd angen rhagor o wybodaeth.

10.6 Monitro ac adolygu annibynnol

Nodwyd monitro ac adolygu annibynnol yn y dystiolaeth fel dulliau posibl o asesu cynllun yn erbyn amcanion datganedig yn hytrach nag yn erbyn swm yr incwm a godir yn unig. Roedd awgrymiadau'n cynnwys gwerthusiad allanol, archwiliad, adolygiad academiaidd neu broffesiynol, neu swyddogaeth graffu ffurfiol annibynnol.

Maes ar gyfer adolygiad annibynnol	Cwestiwn allweddol	Dangosydd posibl
Rheolaeth ariannol	A yw derbyniadau, didyniadau a dyraniadau yn gywir ac yn dryloyw?	Canfyddiadau archwilio, cymhareb cost a chyflawnder adrodd.
Baich gweinyddol	A yw'r broses gasglu'n gymesur ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr?	Amser darparwyr, costau systemau, cyfraddau gwallau a cheisiadau am gymorth.
Ymddygiad ymwelwyr	A yw'r ardoll wedi effeithio ar ddewis cyrchfan, hyd arhosiad neu wariant?	Archebion, nosweithiau meddiannol, arolygon ymwelwyr a thystiolaeth gwariant.
Effeithiau ar fusnesau	A yw cwmnïau bach neu dymhorol yn profi pwysau anghymesur?	Elw, cau busnesau, staffio, buddsoddi a hyder.
Tegwch daearyddol	A yw buddion yn cael eu dosbarthu mewn ffordd dryloyw ac amddiffynadwy?	Gwariant ac allbynnau yn ôl ardal a phroffil pwysau ymwelwyr.
Canlyniadau cyhoeddus	A yw prosiectau a ariennir yn cynhyrchu gwelliannau gweladwy?	Dangosyddion gwasanaeth, amgylcheddol, mynediad a chymunedol.
Hyder y cyhoedd	A yw ymddiriedaeth mewn llywodraethu a gwariant wedi gwella?	Adborth rhanddeiliaid, ymwybyddiaeth a mesurau hyder.

10.7 Trefniadau llywodraethu a nodwyd drwy'r ymgynghoriad

Trefniant llywodraethu a drafodwyd	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Amseru a adlewyrchir yn y dystiolaeth
Partneriaeth Cychfan Môn neu gorff cyfatebol.	Cysylltodd ymatebwyr a rhanddeiliaid hyn â goruchwyliaeth gynrychioladol a deialog strwythuredig.	Cysylltodd cyfranogwyr hyn â'r cyfnod cyn gweithredu.
Cylch gorchwyl, aelodaeth, pleidleisio a rheolau gwrthdaro buddiannau.	Cysylltwyd y rhain ag eglurder ynghylch awdurdod ac atebolrwydd.	Cysylltodd y dystiolaeth y wybodaeth hon â threfniadau cyn casglu.
Datganiad ffurfiol ar ychwanegedd a neilltuo cyllid.	Cysylltodd ymatebwyr hyn â diogelu incwm ac osgoi canfyddiad o ddisodli cyllideb.	Cysylltodd y dystiolaeth hyn â'r cyfnod cyn unrhyw flwyddyn gyntaf o'r ardoll.
Cyfrifon blyneddol, costau gweinyddol, dyraniad daearyddol a chanlyniadau.	Cysylltodd ymatebwyr yr eitemau hyn â llwybr archwilio cliriach o incwm i fudd.	Trafodwyd adrodd blyneddol ac, lle bo'n berthnasol, ddiweddariadau interim.
Monitro ac adolygu annibynnol.	Cysylltodd rhanddeiliaid fonitro ag asesu effeithiolrwydd, cymesuredd ac effeithiau anfwriadol.	Nodwyd gwybodaeth waelodlin ac adolygiad dilynol fel rhai perthnasol.

10.8 Goblygiadau a chyfyngiadau

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llywodraethu wedi'i gysylltu'n agos â chanfyddiadau ymatebwyr o gyfreithlondeb a chyflawni. Mae cryfder yr ymateb yn dangos bod cyfranogwyr yn rhoi pwyslais ar drefniadau llywodraethu clir a chyhoeddedig, gyda chynrychiolaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r Cyngor ei hun.

Mae'r testun a ddarparwyd yn rhoi union niferoedd y categorïau 'pwysig iawn' a 'phwysig' ond nid ar gyfer y categorïau sy'n weddill a ddangosir yn y siart. Felly, nid yw'r categorïau hynny wedi'u trosi'n ffigurau yn y naratif na'r tablau. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi nodweddion llywodraethu y gofynnwyd amdanynt ond nid yw'n pennu ffurf statudol na chyfreithiol derfynol unrhyw bartneriaeth.

10.9 Asesiad terfynol

Roedd llywodraethu ac ymddiriedaeth yn ganolog i'r ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr am gael cynrychiolaeth gref i ddarparwyr llety, busnesau twristiaeth, trigolion a sefydliadau cymunedol, ochr yn ochr â rheolau tryloyw a chraffu annibynnol.

Canolbwyntiodd diffyg ymddiriedaeth ar a fyddai refeniw'n cael ei neilltuo, a fyddai'n disodli cyllidebau presennol ac a fyddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'n well deall y pryderon hyn fel cwestiynau o berthynas, cyfreithlondeb a thystiolaeth yn hytrach nag fel gwrthwynebiad syml i drethiant.

Ar draws tystiolaeth yr ymgynghoriad, cysylltwyd hyder mewn llywodraethu ag eglurder ynghylch aelodaeth ac awdurdod, ychwanegedd, cyhoeddi'r sefyllfa ariannol ac adolygiad annibynnol. Cysylltodd ymatebwyr hyder hefyd ag a oedd trefniadau o'r fath yn weladwy, yn barhaus ac wedi'u cefnogi gan ganlyniadau y gellir eu dangos.

11. Ystyriaethau daearyddol

Mae Ynys Môn yn gweithredu fel cyrchfan gydlynol ar lefel yr ynys, ond mae tystiolaeth yr ymgynghoriad yn dangos nad yw pwysau ymwelwyr, amlygiad economaidd na blaenoriaethau lleol yn unffurf ar draws yr ynys. Nododd gwaith daearyddol interim ymatebion cryf gan drigolion o Orllewin a Gogledd Ynys Môn. Nodwyd crynodiadau cysylltiedig â busnes yng Nghaergybi / Bae Trearddur, Biwmares / Porthaethwy, Amlwch / Cemaes a Benllech / Moelfre.

Mae arwyddocâd y gwahaniaethau hyn yn ddadansoddol yn ogystal ag yn ymarferol. Gall un fframwaith polisi ar draws yr ynys fod yn briodol at ddibenion cyfreithiol, ariannol a strategol, ond mae profiad byw o bwysau ymwelwyr a'r disgwyliadau o fudd yn debygol o amrywio rhwng cymunedau. Mae hyn yn golygu bod angen dehongliad lle-seiliedig ochr yn ochr â chydlynu ar draws yr ynys.

11.1 Trosolwg o'r patrwm daearyddol

Patrwm daearyddol	Tystiolaeth interim	Dehongliad
Ardaloedd ag ymateb cryf gan drigolion	Gorllewin a Gogledd Môn	Mae'n ymddangos bod yr ardaloedd hyn wedi ymgysylltu'n arbennig o gryf â'r ymgynghoriad a gallant adlewyrchu cymunedau lle mae materion lleol a phwysau ymwelwyr yn amlwg.
Crynodiad busnes 1	Caergybi / Bae Trearddur	Porth ymwelwyr ac ardal dwristiaeth arwyddocaol gyda phryderon gweithredol a seilwaith.
Crynodiad busnes 2	Biwmares / Porthaethwy	Aneddiadau pwysig sy'n wynebu ymwelwyr gyda phresenoldeb twristiaeth cryf a gweithgarwch digwyddiadau.
Crynodiad busnes 3	Amlwch / Cemaes	Ardal arfordirol gogledd-ddwyreiniol lle roedd busnesau'n pryderu am gydnabyddiaeth ac ailfuddsoddiad lleol.
Crynodiad busnes 4	Benllech / Moelfre	Ardal ymwelwyr arfordirol lle mae gweithgarwch llety a thwristiaeth yn creu clwstwr lleol nodedig.

Mae daearyddiaeth yr ymatebion gan drigolion yn dangos na ddaeth yr ymgynghoriad yn gyfartal o bob rhan o'r ynys. Mae cyfranogiad cryfach o Orllewin a Gogledd Ynys Môn yn awgrymu y gallai rhai cymunedau fod wedi'u cymell yn arbennig i roi sylwadau ar effeithiau ymwelwyr, gwasanaethau lleol, effeithiau economaidd neu'r defnydd posibl o incwm yr ardoll.

11.2 Crynodiadau busnes ac amlygiad gweithredol

Mae'r clystyrau busnes a nodwyd yn dangos ble mae'r economi ymwelwyr yn debygol o fod wedi bod yn arbennig o weladwy o fewn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Ni ddylid trin y crynodiadau hyn fel cwmbras cyflawn o bob busnes sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ar yr ynys. Maent yn nodi lleoedd lle'r oedd ymgysylltu neu amlygiad busnes yn ddigon amlwg i lunio'r darlun daearyddol.

Clwstwr	Pam mae'n bwysig yng nghydestun yr ymgynghoriad	Materion posibl sy'n debygol o ddylanwadu ar safbwyntiau
Caergybi / Bae Trearddur	Prif borth ac ardal dwristiaeth arfordirol, gyda pherthnasedd i drafnidiaeth, darpariaeth cartrefi modur a rheoli twristiaeth gynaliadwy.	Pwysau porth, gweithgarwch llety, rhyngwynebau trafnidiaeth, seilwaith faniau gwersylla a rheoli cyrchfan.
Biwmares / Porthaethwy	Aneddiadau ymwelwyr amlwg lle mae treftadaeth, digwyddiadau a pherfformiad yr economi ymwelwyr lleol yn bwysig.	Perchnogaeth asedau lleol, gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn, budd cymunedol a chyflwyniad lle.
Amlwch / Cemaes	Ardal arfordirol ogleddol gyda thwristiaeth weithredol a sensitifrwyd i ganfyddiad o ddiffyg cydnabyddiaeth.	Cyfran deg o gyllid, gwelededd budd a gwynnwch economaidd lleol.
Benllech / Moelfre	Parth ymwelwyr arfordirol poblogaidd lle mae llety a symudiad ymwelwyr yn debygol o fod yn sylweddol.	Galw tymhorol, seilwaith lleol, trafnidiaeth a rheoli amgylcheddol.

Mae'r clystyrau hyn hefyd yn helpu i egluro pam na all cyfartaleddau ar draws yr ynys ddisgrifio profiad lleol yn llawn. Gall busnes mewn ardal dwristiaeth arfordirol brysur farnu'r ardoll yn wahanol iawn i un mewn lleoliad â llai o ymwelwyr, tra gall cymuned sy'n profi pwysau tymhorol cryf roi mwy o bwys ar ailfuddsoddi lleol gweladwy.

11.3 Tystiolaeth digwyddiadau a blaenoriaethau lle-seiliedig

Mae tystiolaeth y digwyddiadau yn ychwanegu naws ddaearyddol bwysig. Dadleuodd Prifysgol Bangor dros drefniadau llywodraethu sy'n cyfuno atebolrwydd lleol â chydlynu ar draws yr ynys. Mae hyn yn gyson â'r materion a godwyd yn y digwyddiadau lleol: roedd Biwmares am weld elw i asedau ymwelwyr sy'n eiddo'n lleol; trafododd Caergybi seilwaith faniau gwersylla a thwristiaeth gynaliadwy; roedd Amlwch yn ofni cael ei hanwybyddu; a phwysleisiodd Porthaethwy bwysigrwydd digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Lle	Mater a godwyd	Arwyddocâd deongliadol
Biwmares	Dymuniad am elw i asedau ymwelwyr sy'n eiddo'n lleol.	Mae'r dystiolaeth yn cysylltu hyder lleol â dylanwad dros flaenoriaethau ac ailfuddsoddiad lleol gweladwy.
Caergybi	Trafodaeth am seilwaith faniau gwersylla a thwristiaeth gynaliadwy.	Mae'r drafodaeth yn dangos y pwysigrwydd a roddodd cyfranogwyr ar bwysau porth a chartrefi modur.
Amlwch	Ofn cael ei hanwybyddu.	Mae'r dystiolaeth yn cofnodi pryder am degwch daearyddol, gan gynnwys ar gyfer lleoedd y tu allan i'r canolfannau ymwelwyr mwyaf adnabyddus.
Porthaethwy	Pwyslais ar ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.	Mae'r dystiolaeth yn cofnodi diddordeb mewn ymestyn y tymor a gweithgarwch economaidd lleol y tu hwnt i gyfnodau brig.
Safbwynt Prifysgol Bangor	Angen atebolrwydd lleol gyda chydlynu ar draws yr ynys.	Pwysleisiodd y safbwynt hwn atebolrwydd lleol ochr yn ochr â chydlynu ar draws yr ynys.

Gyda'i gilydd, mae'r sylwadau lle-seiliedig hyn yn dangos bod daearyddiaeth yn siapio nid yn unig ble mae pwysau ymwelwyr yn digwydd ond hefyd sut mae cymunedau'n diffinio budd. I rai

lleoedd, y flaenoriaeth yw seilwaith ffisegol; i eraill, mae'n fwy o reolaeth leol, gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn neu sicrwydd na fydd eu hardal yn cael ei chysgodi gan ganolfannau ymwelwyr mwy neu fwy adnabyddus.

11.4 Cydlynu ar draws yr ynys ac atebolrwydd lleol

Mae'r ddadl dros gyfuno cydlynu ar draws yr ynys ag atebolrwydd lleol yn adlewyrchu strwythur economi ymwelwyr yr ynys. Mae rhai materion, megis trafndiaeth, data ar draws yr ynys, rhaglenni amgylcheddol mawr a seilwaith strategol, yn fwy effeithiol ar raddfa'r ynys gyfan. Mae materion eraill, megis gwelliannau gweladwy mewn cymunedau sy'n profi pwysau tymhorol, yn gofyn am ddull lle-seiliedig.

Dull ariannu posibl a nodwyd yn y dystiolaeth	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Rhesymeg ddaeryddol
Cronfa strategol ar draws yr ynys	Trafnidiaeth, data, seilwaith mawr a rhaglenni amgylcheddol.	Yn cefnogi anghenion sy'n systemig, yn croesi ffiniau neu'n rhy fawr ar gyfer dyraniad un gymuned.
Dyraniad lle-seiliedig	Budd gweladwy mewn cymunedau sy'n profi pwysau ymwelwyr.	Yn sicrhau y gall ardaloedd lleol nodi canlyniadau ymarferol lle teimlir y pwysau mwyaf uniongyrchol.
Cronfa her / arloesi	Prosiectau cymunedol, diwylliannol, digwyddiadau a chynaliadwyedd.	Yn caniatáu menter leol, arbroti ac ymatebion llai dan arweiniad lle.
Cronfa wrth gefn ar gyfer gwerthuso	Monitro, lliniaru ac adolygu annibynnol.	Yn cefnogi dysgu ar draws yr ynys tra'n caniatáu nodi a mynd i'r afael ag effeithiau daearyddol sy'n dod i'r amlwg.

11.5 Dulliau ariannu a adlewyrchir yn y dystiolaeth

Roedd y dystiolaeth yn cynnwys dulliau ar draws yr ynys a dulliau lle-seiliedig o ymdrin â gwariant posibl. Roedd buddsoddiad ar draws yr ynys yn gysylltiedig â rhaglenni trafndiaeth, amgylcheddol a seilwaith mwy, tra roedd dyrannu ar sail lle yn gysylltiedig â'r budd lleol gweladwy yr oedd llawer o ymatebwyr yn ei gysylltu â thegwch a derbynioldeb.

Nodwyd hefyd brosiectau cymunedol, diwylliannol, digwyddiadau a chynaliadwyedd fel ffurfiau posibl ar wariant dan arweiniad lleol. Mae hyn yn berthnasol i leoedd megis Porthaethwy, lle pwysleisiwyd digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, ac i gymunedau eraill lle cododd ymatebwyr flaenoriaethau lleol o ran rheoli ymwelwyr neu'r economi.

Nododd y dystiolaeth hefyd fod monitro ac adolygu annibynnol yn berthnasol i ddeall effeithiau daearyddol dros amser, gan gynnwys a oedd dosbarthiad cyllid, pwysau ymwelwyr neu effeithiau economaidd yn anwastad.

11.6 Goblygiadau ymarferol ar gyfer dyrannu ac adrodd

Mater	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Tystiolaeth sy'n gysylltiedig â mwy o hyder
Tegwch daearyddol	Bydd cymunedau am ddeall sut y penderfynir ar ddyraniadau rhwng lleoedd.	Meini prawf clir yn seiliedig ar bwysau, angen, gwerth strategol a gallu i gyflawni.
Gwelededd budd	Bydd ardaloedd lleol yn disgwyl gweld canlyniadau yn eu hardal eu hunain.	Mapiau prosiectau, crynodebau lleol ac arwyddion ar fuddsoddiad wedi'i gwblhau.
Cydbwysedd rhwng yr ynys a lle	Gall gormod o ganoli wanhau cyfreithlondeb lleol; gall gormod o ddarnio wanhau strategaeth.	Fframwaith dyrannu cyhoeddus sy'n dangos pa fathau o fuddsoddiad sy'n perthyn i bob lefel.
Cydnabod lleoedd a anwybyddir	Gall ardaloedd megis Amlwch ofni colli allan.	Adrodd daearyddol tryloyw ac adolygiad cyfnodol o ddosbarthiad gofodol.
Cefnogaeth i anghenion tymhorol a thrwy gydol y flwyddyn	Gall gwahanol ardaloedd flaenoriaethu rheoli pwysau brig neu ymestyn y tymor.	Cronfeydd hyblyg sy'n gallu mynd i'r afael ag amcanion seilwaith a datblygu economaidd.
Her annibynnol	Gall penderfyniadau gofodol gael eu herio.	Craffu aml-randdeiliad a gwerthuso canlyniadau daearyddol.

11.7 Cyfyngiadau ac asesiad terfynol

Mae'r mapiau yn yr adran hon yn sgematig ac yn ddeongliadol. Maent yn dangos y clystyrau daearyddol a'r materion lle-seiliedig a nodwyd yn y gwaith interim a'r dystiolaeth digwyddiadau a ddarparwyd; nid allbynnau GIS na mapiau dwysedd cod post ydynt. Felly, mae'r adran yn cefnogi dehongliad ansoddol yn hytrach na mesur gofodol manwl.

O fewn y cyfyngiadau hynny, mae'r dystiolaeth yn cyflwyno Ynys Môn fel cyrchfan gydlynol, ond hefyd yn dangos bod pwysau, blaenoriaethau a disgwyliadau o ran budd yn amrywio rhwng cymunedau. Mae'r ymgynghoriad yn amlygu ymgysylltiad cryfach gan drigolion yng Ngorllewin a Gogledd Môn, crynodiadau busnes nodedig mewn aneddiadau ymwelwyr allweddol, a phryderon lle-seiliedig penodol a ddaeth i'r amlwg drwy'r digwyddiadau.


Mae'r dystiolaeth ddaearyddol yn nodi ystyriaethau ar draws yr ynys a galw am atebolrwydd lleol gweladwy. Nid yw'n sefydlu un model dyrannu a ffefrir, ond mae'n dangos bod ymatebwyr yn gwahaniaethu rhwng anghenion yr ynys gyfan a blaenoriaethau penodol i leoedd.

12. Tystiolaeth sesiynau galw heibio cymunedol

Trefnwyd chwe sesiwn galw heibio cymunedol ar draws Ynys Môn rhwng 15 Mehefin a 6 Gorffennaf 2026. Eu diben datganedig oedd rhoi cyfleoedd i drigolion mewn gwahanol rannau o'r ynys gymryd rhan wyneb yn wyneb. Hysbysebwyd y sesiynau drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Croeso Môn a Chyngor Sir Ynys Môn a thrwy grwpiau cymunedol lleol, gan gynnwys Friends of Beaumaris, Caru Amlwch a Grŵp Cymuned Llangefni.

Roedd y presenoldeb a gofnodwyd yn isel ac yn anwastad. Ar draws y chwe sesiwn gymunedol, cofnodwyd 23 o bresenoldebau, sef cyfartaledd o 3.8 fesul sesiwn. Biwmares gafodd y presenoldeb uchaf, sef saith; cofnododd Caergybi ac Amlwch chwech yr un; cofnododd Niwbwrch a Phorthaethwy ddau yr un; ac ni fynychodd neb y sesiwn yn Llangefni. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu dehongli orau fel tystiolaeth am gyrhaeddiad a natur yr ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn hytrach nag fel mesur o farn gyhoeddus ehangach.

Lleoliad	Dyddiad	Presenoldeb a gofnodwyd
Neuadd y Dref Llangefni	15 Mehefin 2026	0
Biwmares - Canolfan Biwmares	17 Mehefin 2026	7
Niwbwrch - Sefydliad Pritchard Jones	24 Mehefin 2026	2
Caergybi - Llyfrgell Neuadd y Farchnad	29 Mehefin 2026	6
Porthaethwy - Ymddiriedolaeth Treftadaeth Menai	1 Gorffennaf 2026	2
Amlwch - Neuadd Goffa	6 Gorffennaf 2026	6



Ffigur 12.1. Presenoldeb a gofnodwyd yn y chwe sesiwn galw heibio cymunedol.

12.1 Sut y dylid dehongli tystiolaeth y sesiynau galw heibio

Mae'r sesiynau galw heibio yn darparu dyfnder ansoddol yn hytrach na mesur o amllder. Mae lefel y presenoldeb yn golygu na ellir trin y safbwyntiau a fynegwyd mewn sesiwn unigol fel rhai cynrychioliadol o'r anheddiad lle cynhaliwyd y sesiwn. Yn benodol, gall sesiwn o chwech neu saith o bobl ddatgelu materion sy'n bwysig yn lleol, ond ni all sefydlu cyfran y trigolion neu'r busnesau yn yr ardal honno sy'n arddel yr un farn.

Mae'r ffaith na fynychodd neb y sesiwn yn Llangefni hefyd yn dystiolaeth ynddi'i hun. Mae'n dangos nad arweiniodd cyfle wyneb yn wyneb a hysbysebwyd at gyfranogiad ar y dyddiad hwnnw. Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r ymateb llawer mwy i'r arolwg ar-lein, yn hytrach na'i ddehongli fel tystiolaeth nad oedd gan bobl Llangefni ddiddordeb yn y pwnc.

12.2 Biwmares: ailfuddsoddiad lleol, pwysau ar fusnesau a safbwyntiau cymysg

Cofnododd Biwmares saith o fynychwyr, y nifer uchaf o'r chwe sesiwn galw heibio cymunedol. Ymhlith y rhai a gofnodwyd fel mynychwyr roedd cynrychiolwyr Cyngor Tref Biwmares a Siambr Fasnach Biwmares, asiant teithio a darparwr bwthyn gwyliau, darparwr hunanarlwyo a chynrychiolydd â chysylltiad ag UK Events.

Roedd y drafodaeth yn bennaf yn canolbwyntio ar bryderon. Pwysleisiodd Cyngor Tref Biwmares fod yr ardal yn gyrchfan ymwelwyr o bwys ac y gallai gynhyrchu incwm sylweddol o'r ardoll. Roedd am weld buddsoddiad yn dychwelyd i'r dref, yn enwedig gan fod cyrff lleol yn gyfrifol am asedau sy'n gwasanaethu ymwelwyr, gan gynnwys y Ganolfan, toiledau cyhoeddus, y Carchar, y Llŷs a'r ganolfan wybodaeth i dwristiaid. Mae hyn yn enghraifft glir o'r mater atebolrwydd lle-seiliedig a nodwyd mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad.

Roedd pryderon economaidd yn cynnwys y ffaith na fyddai ymwelwyr dydd yn talu, y gost gronol i deuluoedd sy'n aros dros nos, gostyngiadau posibl mewn gwariant ar y stryd fawr, y rheol gosod 182 diwrnod, tymoroldeb, nifer isel o ymwelwyr yn y gaeaf, pryderon ynghylch trothwy TAW a gweinyddiaeth ychwanegol. Cododd y mynychwyr hefyd y risg y gallai rhai ymwelwyr ailystyried taith i'r ardal.

Nid oedd y sesiwn yn unffurf wrthwynebus. Amlygodd y cynrychiolydd â chysylltiad ag UK Events ac NCASS y potensial i ardoll ddatgloi cyllid i'r sector a chefnogi digwyddiadau a yrrir yn lleol. Felly, mae'n well disgrifio tystiolaeth Biwmares fel un a arweinir yn gryf gan bryderon, ond gyda dadl amodol glir o blaid ailfuddsoddi lle mae'r buddion lleol yn weladwy.

12.3 Niwbwrch a chyfyngiadau'r dystiolaeth a gofnodwyd

Cofnododd sesiwn Niwbwrch ddau o fynychwyr. Mae'r trosolwg ffynhonnell yn cadarnhau'r lleoliad, y dyddiad a'r presenoldeb, ond nid yw'n darparu cofnod sylweddol o'r drafodaeth. Felly, byddai'n amhriodol priodoli safbwynt, nodi themâu pennaf neu gasglu blaenoriaethau lleol ar gyfer Niwbwrch o'r ffynhonnell hon yn unig.

Mae'r bwlch hwn yn bwysig yn fethodolegol. Lle mae cofnod yr ymgynghoriad yn denau, dylai'r adroddiad terfynol ddweud hynny yn hytrach na llenwi'r bwlch â thystiolaeth ehangach yr ynys. Gellir cynnwys Niwbwrch yn y dadansoddiad presenoldeb, ond dylai dehongliad thematig manwl fod yn seiliedig ar dystiolaeth a gofnodwyd mewn gwirionedd yn unig.

12.4 Caergybi: gwybodaeth, egwyddor a thwristiaeth gynaliadwy

Cofnododd Caergybi chwech o fynychwyr, gan gynnwys trigolion lleol, perchennog cartref gwyliau a thywysydd teithiau mordeithio, a darparwr llety hunanarlwyo. Roedd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth sylweddol ar sut y gellid cynllunio a gweithredu'r ardoll, gan awgrymu bod gwybodaeth ac eglurhad ymarferol yn elfennau pwysig o'r ymgysylltu.

Mae'r ffynhonnell yn cofnodi bod cyfranogwyr yn gyffredinol yn gefnogol i'r egwyddor ac yn ystyried y gallai ardaloedd lleol elwa o fuddsoddiad. Un enghraifft ymarferol oedd darparu rhagor o safleoedd aros i faniau gweryslla. Trafododd cyfranogwyr hefyd y cyfle i liniaru effeithiau negyddol gor-dwristiaeth a hyrwyddo twristiaeth fwy cynaliadwy, gan ddefnyddio Bae Trearddur fel enghraifft.

12.5 Porthaethwy: trafodaeth amodol a thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn

Cofnododd sesiwn Porthaethwy ddau o fynychwyr, a nodwyd fel ymwelwyr a chyfarwyddwyr busnes Holiday Cottages. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r sector twristiaeth ar Ynys Môn yn ehangach yn ogystal â'r cynnig ardoll ei hun.

Roedd y dystiolaeth yn gymysg ac yn amodol. Nodwyd tymoroldeb fel her bwysig, ac ystyriwyd digwyddiadau yn un ffordd o gefnogi'r sector drwy gydol y flwyddyn. Trafodwyd yn gadarnhaol y potensial i fuddsoddi incwm yr ardoll mewn digwyddiadau, twristiaeth natur, cynaliadwyedd a marchnata.

Ar yr un pryd, cododd y mynychwyr bryder ynghylch a fyddai derbyniadau'r ardoll yn cyfrif tuag at drosiant trethadwy TAW, ynghyd â thaliadau banc a cherdyn ychwanegol a ffioedd gweinyddol. Felly, mae'r sesiwn yn dangos sut y gall ymatebydd gydnabod buddion posibl tra'n parhau'n bryderus am ganlyniadau ymarferol treth a thrafodion.

12.6 Amlwch: gwrthwynebiad, tegwch ac ofn cael ei hanwybyddu

Cofnododd Amlwch chwech o fynychwyr, y mwyafrif ohonynt yn ddarparwyr llety hunanarlwy. Mae'r ffynhonnell yn cofnodi teimlad cyffredinol o wrthwynebiad ymhlith y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr. Roedd y rhesymau'n cynnwys baich gweinyddol ychwanegol, ansicrwydd ynghylch defnydd teg o'r refeniw a'r her barhaus a grëir gan y rheol gosod 182 diwrnod.

Cysylltodd y drafodaeth yr ardoll hefyd â phwysau ariannol ehangach, gan gynnwys Yswiriant Gwladol a chostau gweithredu presennol. Roedd pryderon am wasanaethau lleol yn cynnwys yr anhawster o gadw toiledau cyhoeddus ar agor y tu allan i'r prif dymor a phryder am wersyllwyr anghyfreithlon dros nos yr ystyriwyd nad oeddent yn cael eu plismona'n ddigonol nac yn cyfrannu at yr economi leol.

Yn bwysig, roedd y mynychwyr hefyd yn cydnabod y cyfle ar gyfer buddsoddi lleol ac arwyddocâd Gogledd Môn fel cyrchfan dwristiaeth. Un ofn penodol oedd y gallai Amlwch gael ei hanwybyddu wrth wneud penderfyniadau am gyllid a buddsoddi. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r canfyddiad daearyddol ehangach bod atebolrwydd lleol a budd gweladwy ar sail lle yn bwysig ochr yn ochr â chydlynu ar draws yr ynys.

Sesiwn	Natur y drafodaeth a gofnodwyd	Prif faterion a gefnogir gan y ffynhonnell
Biwmares	Wedi'i harwain yn bennaf gan bryderon, gyda rhywfaint o gefnogaeth amodol i fuddsoddi	Ailfuddsoddiad lleol; ymwelwyr dydd; cost i deuluoedd; gwariant ar y stryd fawr; rheol 182 diwrnod; tymoroldeb; TAW; gweinyddu; digwyddiadau.
Niwbwrch	Dim digon o fanylion wedi'u cofnodi i'w dosbarthu	Cofnodwyd presenoldeb, ond nid oes nodiadau thematig sylweddol yn y trosolwg ffynhonnell.
Caergybi	Yn gyffredinol gefnogol i'r egwyddor	Angen gwybodaeth; buddsoddi lleol; safleoedd aros i faniau gwersylla; twristiaeth gynaliadwy; lliniaru gor-dwristiaeth.
Porthaethwy	Cymysg ac amodol	Tymoroldeb; digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn; triniaeth TAW; taliadau cerdyn/banc; gweinyddu; twristiaeth natur; cynaliadwyedd; marchnata.
Amlwch	Yn bennaf yn gwrthwynebu, gyda chydabyddiaeth o fuddsoddiad lleol posibl	Gweinyddu; tegwch gwariant; rheol 182 diwrnod; pwysau ariannol; toiledau; gwersyllwyr anghyfreithlon; pryder am gael ei hanwybyddu.

12.7 Themâu trawsbynciol o'r sesiynau galw heibio

Er bod y presenoldeb yn fach, ailadroddwyd nifer o themâu ar draws y sesiynau a gofnodwyd. Mae trosolwg y Cyngor ei hun yn nodi ailfuddsoddi lleol, effeithiau ar fusnesau, baich gweinyddol, TAW a'r rheol 182 diwrnod, tymoroldeb a'r angen i sicrhau bod incwm twristiaeth o fudd i gymunedau lleol fel y themâu mwyaf cyson.

Thema drawsbynciol	Sut yr ymddangosodd yn y sesiynau	Perthynas â chanfyddiadau ehangach yr ymgynghoriad
Ailfuddsoddi lleol a thegwch daearyddol	Roedd Biwmares am i incwm a gynhyrchwyd yn lleol ddychwelyd i asedau ymwelwyr; roedd Amlwch yn ofni cael ei hanwybyddu.	Yn atgyfnerthu pwysigrwydd dyrannu ar sail lle ac adrodd daearyddol tryloyw.
Pwysau ar fusnesau a thymoroldeb	Trafododd Biwmares, Porthaethwy ac Amlwch nifer isel o ymwelwyr yn y gaeaf, galw tymhorol a chostau cronol.	Yn gyson â gwrthwynebiad cryf busnesau a phryder am hyfywedd a chystadleurwydd.
TAW a'r rheol 182 diwrnod	Wedi'i godi'n arbennig ym Miwmares, Porthaethwy ac Amlwch.	Yn dangos bod yr ardoll wedi'i hystyried ochr yn ochr â phwysau treth a rheoleiddiol presennol.
Baich gweinyddol	Cododd darparwyr reoli nosweithiau gwesteion, trafodion, taliadau a gwaith ychwanegol.	Yn cyd-fynd â'r dystiolaeth fusnes fanwl ar allu casglu a chydymffurfio.
Atal ymwelwyr a gwariant	Cododd Biwmares y risg o lai o ymweliadau a llai o wariant ar y stryd fawr.	Yn gyson â datganiadau ymwelwyr am ddewis cyrchfan ac arosiadau byrrach.
Toiledau cyhoeddus a seilwaith faniau gwersylla	Trafododd Amlwch gadw toiledau ar agor; nododd Caergybi fuddsoddiad mewn safleoedd aros i faniau gwersylla.	Yn dangos natur ymarferol a gweladwy'r ailfuddsoddi a ffefrir.
Digwyddiadau, cynaliadwyedd a thwristiaeth natur	Trafodwyd cyfleoedd cadarnhaol ym Miwmares, Caergybi a Phorthaethwy.	Yn dangos bod rhai cyfranogwyr yn gweld gwerth posibl lle roedd incwm yn cefnogi gwelliannau gweladwy i'r gyrchfan.

12.8 Cyrhaeddiad, cyfranogiad ac arwyddocâd methodolegol

Nid yw'r presenoldeb isel yn gwneud y sesiynau galw heibio yn amherthnasol, ond mae'n newid y pwysau y dylid ei roi iddynt. Mae eu prif werth yn gorwedd mewn egluro pam roedd cyfranogwyr yn arddel safbwyntiau penodol, nodi materion ymarferol na fydd cwestiynau arolwg caeedig o bosibl yn eu dal, a datgelu gwahaniaethau lleol mewn pwyslais. Ni ddylid eu defnyddio i amcangyfrif pa mor gyffredin yw cefnogaeth neu wrthwynebiad ar draws yr ynys.

Mae'r presenoldeb anwastad hefyd yn rhoi gwybodaeth am gyrhaeddiad yr ymgysylltu. Denodd un sesiwn ddim mynychwyr, denodd dwy sesiwn ddim ond dau berson, a denodd y mwyaf saith. Mae hyn yn awgrymu bod sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb yn rhan gymharol fach o'r ymgynghoriad cyffredinol a bod yr arolwg a ffurfiau eraill ar ymgysylltu wedi cyrraedd llawer mwy o bobl yn rhifiadol.

Roedd y cyfarfod darparwyr llety a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Llangefni ar 22 Mehefin yn ymarfer ar wahân ac nid yw wedi'i gynnwys yn ffigurau presenoldeb y chwe sesiwn galw heibio cymunedol. Mae cadw'r ddwy ffurf ar ymgysylltu ar wahân yn atal proffil presenoldeb cymunedol rhag cael ei chwyddo'n artiffisial.

12.9 Goblygiadau ar gyfer dehongli ac ymgysylltu yn y dyfodol

Mater	Tystiolaeth o'r sesiynau galw heibio	Arwyddocâd deongliadol
Cyfranogiad isel ac anwastad	23 o bresenoldebau wedi'u cofnodi ar draws chwe sesiwn, gan gynnwys un sesiwn heb neb.	Trin y canfyddiadau fel tystiolaeth ansoddol ac osgoi honiadau am amllder.
Amrywiad lleol	Roedd y sesiynau'n amrywio o ran pwyslais a safbwynt.	Cadw dadansoddiad lle-seiliedig yn hytrach na chyfuno holl dystiolaeth y digwyddiadau yn un safbwynt ar draws yr ynys.
Angen gwybodaeth ymarferol	Roedd trafodaeth Caergybi yn cynnwys eglurhad helaeth o gynllun a gweithredu.	Gofynnodd cyfranogwyr am enghreifftiau wedi'u gweithio, rheolau clir a senarios gweithredu.
Angen budd lleol gweladwy	Yn amlwg iawn ym Miwmares ac Amlwch.	Cysylltodd cyfranogwyr hyder ag eglurder ynghylch dyraniad daearyddol ac ailfuddsoddi lleol.
Hyder busnes	Ailadroddwyd TAW, y rheol 182 diwrnod, tymoroldeb a gweinyddu.	Gosododd sylwadau darparwyr yr ardoll o fewn cyd-destun ehangach o bwysau cronol.
Cyfleoedd cadarnhaol	Nodwyd digwyddiadau, cynaliadwyedd, twristiaeth natur a seilwaith faniau gwersylla.	Cyfeiriodd cyfranogwyr at brosiectau pendant a chanlyniadau mesuradwy wrth drafod buddion posibl.

12.10 Asesiad terfynol

Mae'r sesiynau galw heibio cymunedol yn darparu llinyn ansoddol bach ond defnyddiol o fewn yr ymgynghoriad ehangach. Roedd presenoldeb yn rhy isel ac anwastad i'r sesiynau gefnogi honiadau am ba mor gyffredin oedd barn, ond mae'r trafodaethau'n ychwanegu dyfnder pwysig at dystiolaeth yr arolwg.

Mae'r sesiynau'n dangos bod gwrthwynebiad a chefnogaeth yn aml yn amodol ac yn benodol i leoedd. Roedd Biwmares ac Amlwch yn bennaf yn pryderu am risg economaidd, tegwch a ailfuddsoddiad lleol; roedd Caergybi yn fwy cefnogol i'r egwyddor ac yn canolbwyntio ar dwristiaeth gynaliadwy a seilwaith; cyfunodd Porthaethwy bryder am TAW a chostau trafodion â diddordeb mewn digwyddiadau a chyfleoedd buddsoddi eraill. Mae ffynhonnell Niwbwrch yn cofnodi presenoldeb ond nid yw'n cynnwys digon o fanylion ar gyfer dosbarthiad thematig.

Ar draws y sesiynau a gofnodwyd, y neges fwyaf cyson oedd y byddai unrhyw ardoll yn cael ei barnu drwy ei chanlyniadau lleol ac ymarferol: a allai busnesau ei gweinyddu, a fyddai ymwelwyr yn newid eu hymddygiad, a oedd pwysau ariannol presennol yn cael eu cydnabod, ac a allai cymunedau weld ailfuddsoddi tryloyw ac ychwanegol yn y lleoedd lle profir pwysau ymwelwyr.

13. Cyfarfod darparwyr llety

Cynhaliwyd cyfarfod penodol i'r sector ar gyfer darparwyr llety yn Neuadd y Dref Llangefni ar 22 Mehefin 2026. Bwriad y cyfarfod oedd rhoi cyfle i fusnesau llety drafod y cynnig Ardoll Ymwelwyr yn fanylach. Cafodd ei hyrwyddo drwy Croeso Môn a sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn, a chysylltwyd yn uniongyrchol drwy e-bost â thua 40 o ddarparwyr llety yn Ynys Môn.

Mynychodd 17 o ddarparwyr llety, ynghyd â chynrychiolydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad gan Gyngor Sir Ynys Môn ar yr ymgynghoriad a chyflwyniad gwybodaeth gan ACC ar gofrestru a gweithredu'r Ardoll Ymwelwyr. Felly, darparodd y cyfarfod ffrwd dystiolaeth fwy technegol ac wedi'i chanolbwyntio'n fwy ar y sector na'r sesiynau galw heibio cymunedol cyffredinol.

Nodwedd y cyfarfod	Gwybodaeth a gofnodwyd	Arwyddocâd deongliadol
Dyddiad a lleoliad	Neuadd y Dref Llangefni, 22 Mehefin 2026	Sesiwn benodol i'r sector a gynhaliwyd ar wahân i'r sesiynau galw heibio cymunedol.
Allgymorth uniongyrchol	Anfonwyd e-bost at tua 40 o ddarparwyr llety yn Ynys Môn	Yn dangos cyswllt wedi'i dargedu yn ogystal â hyrwyddo cyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol.
Presenoldeb	17 o ddarparwyr llety	Yn darparu tystiolaeth ansoddol sylweddol gan y sector, ond nid yw'n gyfrifiad o sector llety'r ynys.
Mewnbwn technegol	Mynychodd cynrychiolydd Awdurdod Cyllid Cymru	Caniataodd i gwestiynau am gofrestru, cydymffurfio a gweithredu'r ardoll gael eu trafod yn uniongyrchol.
Cyflwyniadau	Trosolwg CSYM o'r ymgynghoriad a gwybodaeth ACC am gofrestru / yr Ardoll Ymwelwyr	Cyfunodd gyd-destun yr ymgynghoriad lleol â gwybodaeth dechnegol genedlaethol.

13.1 Cyrhaeddiad a chynrychioldeb ymgysylltu'r sector

Un mater amlwg a godwyd gan y mynychwyr oedd a oedd yr ymgynghoriad wedi cyrraedd digon o ddarparwyr llety. Teimlai'r cyfranogwyr fod y niferoedd a fynychodd yn is na'r disgwyl a gofynnwyd am fwy o ymgysylltu â pharciau carafanau a'r sector llety ehangach. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys defnyddio cyfeirlyfr busnes cynhwysfawr a llythyrau uniongyrchol at eiddo preswyl a busnes.

Mae'r pryder hwn yn bwysig wrth ddehongli'r cyfarfod ei hun. Mae'r 17 o fynychwyr yn darparu tystiolaeth fanwl gan fusnesau a ddewisodd gymryd rhan, ond ni ellir trin y sesiwn fel un sy'n cynrychioli pob math o lety neu fodel busnes ar yr ynys. Mae'r cais am ymgysylltu ehangach â pharciau carafanau a rhwydweithiau llety yn dangos bod rhai cyfranogwyr yn credu bod rhannau pwysig o'r sector yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Felly, cysylltodd y sector gyfreithlondeb yr ymgynghoriad â chyrhaeddiad. Nid y mater yn unig oedd a gafodd busnesau gyfle i ymateb, ond a allai'r Cyngor ddangos ei fod wedi cyrraedd gwahanol fodelau llety yn weithredol ac y byddai adborth y diwydiant yn cael ei adlewyrchu wrth gynllunio ac amseru unrhyw gynllun yn y dyfodol.

13.2 Gweinyddu a chydymffurfio

Roedd gweinyddu a chydymffurfio yn ffurfio rhan sylweddol o'r drafodaeth. Roedd cwestiynau'n ymdrin â chofrestru, cosbau, gorfodi, cofnodion gwesteion, cyfrifo'r ardoll,

eithriadau, ad-daliadau a thrin gwahanol categorïau o westeion. Mae'r pryderon hyn yn adlewyrchu'n agos y dystiolaeth fusnes ehangach, ond mae cyfarfod y sector yn ychwanegu mwy o fanylder am y gadwyn ymarferol o dasgau yr oedd darparwyr yn disgwyl eu rheoli.

Mater gweinyddol	Pryder a godwyd yn y cyfarfod	Arwyddocâd gweithredol
Cofrestru	Cwestiynau am y gofyniad i gofrestru a chanlyniadau peidio â chydymffurfio.	Mae busnesau angen eglurder ynghylch pwy sy'n gorfod cofrestru, pryd a thrwy ba system.
Cosbau	Cwestiynau am gosbau am fethu â chofrestru neu gydymffurfio; deallwyd bod cosbau cychwynnol yn dechrau ar £100.	Roedd darparwyr yn pryderu am gymesuredd ac effaith ymarferol y drefn gydymffurfio.
Gorfodi	Pryder am ba mor effeithiol y gellid gorfodi'r ardoll.	Gallai gorfodi anwastad greu canfyddiad o annhegwch rhwng gweithredwyr sy'n cydymffurfio a'r rhai nad ydynt.
Cofnodion gwesteion	Cyfrifoldeb ychwanegol am gofnodi arosiadau gwesteion.	Yn creu gofynion cylchol ar gyfer cadw cofnodion a rheoli data.
Cyfrifo'r ardoll	Angen cyfrifo a chodi'r ardoll yn gywir.	Yn gofyn am addasu systemau archebu a thriniaeth glir o nosweithiau a gwesteion atebol.
Eithriadau	Cwestiynau am categorïau eithriedig a sut mae darparwyr yn sefydlu cymhwysedd.	Gall amwysedd arwain at driniaeth anghyson ac anghydfodau â chwsmeriaid.
Ad-daliadau	Gweinyddu ychwanegol lle mae angen gwrthdroi neu addasu taliadau.	Yn gofyn am brosesau clir sy'n gysylltiedig â chansladau, diwygiadau a chymhwysedd.
Babanod a chategorïau gwesteion	Pryder penodol am gofnodi babanod a chategorïau eraill.	Yn ychwanegu manylder at gofnodion archebu ac yn cynyddu'r angen am ddiffiniadau clir.
Hawliadau anabled	Pryder y gallai eithriadau anabled ofyn am hawliadau ôl-weithredol yn hytrach nag eithriad awtomatig.	Gallai greu camau gweinyddol ychwanegol i westeion a darparwyr.

Mae'r drafodaeth yn dangos bod darparwyr yn gweld gweinyddu fel llif gwaith yn hytrach nag un trafodiad. Mae cofrestru, newidiadau i systemau archebu, dosbarthu gwesteion, casglu, addasu ac adrodd i gyd yn rhyngweithio. Felly, mae'r baich yn debygol o ddibynnu ar nifer a chymhlethdod archebion yn ogystal â maint y busnes.

13.3 Gorfodi a thegwch canfyddedig

Cymharodd y mynychwyr y fframwaith cydymffurfio arfaethedig â'r anawsterau presennol wrth blismona arosiadau anghyfreithlon dros nos gan faniau gwersylla. Roedd y gymhariaeth hon yn adlewyrchu pryder ynghylch tegwch: roedd darparwyr llety rheoledig yn rhagweld dyletswyddau newydd o ran cofrestru, cadw cofnodion a chasglu, tra'n cwestiynu a fyddai gweithgarwch dros nos anffurfiol neu anghyfreithlon yn destun gorfodi cyfatebol.

Mae'r pryder yn arwyddocaol oherwydd bod cyfreithlondeb cydymffurfio yn dibynnu'n rhannol ar gysondeb. Gall busnesau fod yn llai parod i dderbyn rhwymedigaethau gweinyddol ychwanegol os ydynt yn canfod bod ffurfiau eraill ar lety dros nos yn gallu osgoi gofynion cyfatebol. Nid yw'r ffynhonnell yn sefydlu graddfa gweithgarwch faniau gwersylla anghyfreithlon nac effeithiolrwydd gorfodi presennol, felly dylai'r pwyntiau hyn barhau wedi'u priodoli i bryderon y mynychwyr.

13.4 Materion economaidd a strategol

Cwestiynodd y cyfranogwyr a fyddai'r refeniw a gynhyrchir gan Ardoll Ymwelwyr yn fwy na'r colledion economaidd posibl sy'n gysylltiedig â'i chyflwyno. Felly, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio nid yn unig ar incwm gros yr ardoll ond ar y sefyllfa economaidd net ar ôl caniatáu am newidiadau posibl yn ymddygiad ymwelwyr a'r costau ychwanegol a ysgwyddir gan fusnesau.

Mater economaidd	Pryder a godwyd	Llwybr posibl pe bai'n digwydd
Archebion	Gallai costau uwch i ymwelwyr leihau nifer yr archebion.	Meddiannaeth is ac incwm llety is.
Hyd arhosiad	Gallai ymwelwyr fyrhau eu harosiadau.	Llai o nosweithiau meddiannol a llai o wariant eilaidd.
Gwariant ymwelwyr	Gallai fod gan ymwelwyr lai o wariant dewisol ar gyfer busnesau lleol.	Llai o incwm i letygarwch, manwerthu, atyniadau a gwasanaethau.
Busnesau eilaidd	Gallai busnesau sy'n dibynnu ar dwristiaeth y tu hwnt i lety gael eu heffeithio.	Gallai effeithiau economaidd ymestyn drwy'r gadwyn gyflenwi lleol.
Contractwyr a theithio busnes	Gallai gweithwyr yn yr ardal aros y tu allan i Ynys Môn os yw'r ardoll yn berthnasol yn lleol.	Gallai gwariant llety gael ei ddadleoli y tu allan i'r ynys.
Galw sy'n gysylltiedig â Wylfa	Cyfeiriwyd at Wylfa fel enghraifft o ddadleoli posibl o ran llety contractwyr.	Gall arosiadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â phrosiectau fod yn sensitif i wahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae enghraifft Wylfa yn ehangu'r drafodaeth y tu hwnt i dwristiaeth hamdden. Gall llety ar Ynys Môn hefyd wasanaethu contractwyr, gweithwyr ac arosiadau eraill nad ydynt at ddibenion hamdden. Roedd mynychwyr yn pryderu, lle mae llety amgen ar gael y tu allan i'r ynys, y gallai tâl lleol ddylanwadu ar ble y caiff yr arosiadau hynny eu harchebu.

Risgiau datganedig yn hytrach na rhagolygon yw'r pryderon hyn. Ni ddarparodd y cyfarfod amcangyfrifon mesuredig o golledion archebion, gostyngiadau mewn hyd arosiadau na dadleoli contractwyr. Eu gwerth yw nodi'r llwybrau economaidd yr oedd darparwyr yn credu y dylid eu profi cyn gweithredu.

13.5 TAW, trosiant trethadwy a'r rheol 182 diwrnod

Cododd y cyfarfod hefyd y rhyngweithio rhwng yr ardoll a TAW. Dadleuodd y mynychwyr nad yw cymariaethau ag ardollau ymwelwyr Ewropeaidd yn syml gan y gall triniaeth dreth a threfniadau TAW fod yn wahanol. Disgrifiwyd y rhyngweithio rhwng casglu'r ardoll, TAW a throsiant trethadwy fel pryder sylweddol.

Amlygwyd y rheol 182 diwrnod hefyd fel pwysau presennol sy'n effeithio ar lawer o fusnesau. Mae hyn yn atgyfnerthu thema sy'n ailadrodd yn yr ymgynghoriad ehangach: roedd darparwyr yn ystyried yr ardoll yn gronnol ochr yn ochr â phwysau trethiannol, rheoleiddiol a masnachu eraill, yn hytrach nag fel tâl ar ei ben ei hun.

Mater cynllunio	Pryder y sector	Pam mae eglurder yn bwysig
Triniaeth TAW	Ansicrwydd ynghylch y rhyngweithio rhwng derbyniadau'r ardoll a throsiant trethadwy.	Gofynnodd busnesau am enghreifftiau awdurdodol wedi'u gweithio ar brisio a goblygiadau trothwyon.
Cymariaethau Ewropeaidd	Roedd mynychwyr yn ystyried y gallai cymariaethau uniongyrchol fod yn gamarweiniol lle mae systemau treth yn wahanol.	Dadlodd mynychwyr y dylai meincnodi wahaniaethu rhwng cynllun y gyfradd a thriniaeth dreth ehangach.
Rheol 182 diwrnod	Wedi'i nodi fel pwysau busnes presennol sylweddol.	Mae amseru a baich rheoleiddiol cronol yn dylanwadu ar hyder mewn unrhyw gynllun ychwanegol.

13.6 Partneriaeth Cyrchfan Môn a llywodraethu

Awgrymodd cyfranogwyr y dylid ailsefydlu Partneriaeth Cyrchfan Môn (PCM). Nid ymgysylltu ymgynghorol yn unig ar ôl gweithredu oedd y diben arfaethedig; roedd y mynychwyr am weld strwythur cynrychioliadol a allai helpu i lywio penderfyniadau ar wariant yr ardoll a'i gweithredu o'r cychwyn cyntaf.

Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach yr ymgynghoriad ar lywodraethu ac ychwanegedd. I ddarparwyr llety, mae llywodraethu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â hyder busnes: os oes rhaid i fusnesau gasglu'r tâl a'i egluro i gwsmeriaid, maent am fod yn hyderus bod yr incwm yn cael ei reoli'n dryloyw, bod penderfyniadau gwariant yn adlewyrchu anghenion y gyrchfan a bod gan y sector lais ystyrlon.

Themâu llywodraethu sy'n dod i'r amlwg o'r cyfarfod	Mater a adlewyrchir yn y dystiolaeth	Goblygiad ymarferol
Cynigiodd cyfranogwyr PCM cyn gweithredu	Roedd cyfranogwyr am gael fforwm cynrychioliadol cyn dechrau casglu.	Cysylltodd y cynnig drefniadau llywodraethu â pharodrwydd i weithredu.
Cynrychiolaeth y sector llety	Roedd cyfranogwyr am i brofiad casglwyr lywio trafodaeth ar gynllun a gwariant.	Galwodd cyfranogwyr am gynrychiolaeth ar draws gwahanol fodelau llety, gan gynnwys rhannau o'r sector sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Mewnbwn i'r gwaith gweithredu	Defnyddiodd cyfranogwyr drafodaeth am weithredu i nodi problemau ymarferol gyda systemau a phrosesau.	Nododd cyfranogwyr grwpiau gwaith darparwyr a senarios archebu / ad-dalu / eithrio wedi'u profi fel dulliau posibl.
Cyfansymiau dilys amrywiol	Mae canrannau ar lefel cwestiwn yn defnyddio gwahanol enwaduron lle cafodd eitemau eu hepgor neu lle cymhwyswyd llwybro.
Ymddygiad datganedig ymwelwyr	Nid yw bwriadau ynghylch ymweld, hyd arhosiad neu leoliad llety yn ymddygiad a arsylwyd yn y dyfodol.
Presenoldeb isel mewn digwyddiadau	Mae sesiynau galw heibio yn darparu dyfnder ansoddol ond ni allant sefydlu amllder barn leol.
Sylwadau ysgrifenedig	Mae sefydliadau'n amrywio o ran aelodaeth, mandad, dull tystiolaethol a graddau cynrychiolaeth.
Rhagolygon a honiadau allanol	Mae ffigurau rhanddeiliaid yn parhau wedi'u priodoli oni chânt eu gwirio'n annibynnol.
Tystiolaeth gyfathrebu	Mae'r adolygiad yn seiliedig ar gofnodion cyhoeddus chwiliadwy a deunydd a ddarparwyd, nid dadansoddeg gyflawn o gyrhaeddiad a throsi.

17.1 Sensitifrwydd ymddygiadol ac economaidd

Mae angen gofal penodol wrth ddehongli ymddygiad ymwelwyr datganedig. Dywedodd llawer o ymatebwyr sy'n ymwelwyr y gallai'r ardoll effeithio ar a fyddent yn ymweld, pa mor hir y byddent yn aros neu ble y byddent yn archebu llety, ond roedd yr ymatebion hyn yn ddamcaniaethol ac fe'u casglwyd cyn gweithredu. Maent yn nodi risg ymddygiadol ganfyddedig ac maent yn ddefnyddiol ar gyfer monitro a chynllunio senarios, ond nid ydynt yn rhagolygon o nifer yr ymweliadau, y nosweithiau na'r punnoedd o wariant a fyddai'n cael eu colli mewn gwirionedd.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i ragolygon economaidd a geir mewn cyflwyniadau ysgrifenedig gan randdeiliaid. Dyfynnodd sawl sefydliad fodelu, tystiolaeth arolygon a chymariaethau â chyrchfannau eraill, tra tynnodd rhanddeiliaid cefnogol ar brofiad rhyngwladol a thystiolaeth amgylcheddol neu reoli cyrchfan. Oni chânt eu gwirio ar wahân, dylai ffigurau o'r fath aros wedi'u priodoli'n glir i'r sefydliad a'u cyflwynodd. Gall yr adroddiad gofnodi cryfder ac ailadroddiad y dadleuon hyn heb drin amcangyfrifon dadleuol fel ffeithiau sefydledig.

17.2 Tystiolaeth ansoddol a digwyddiadau ymgynghori

Mae'r sesiynau galw heibio cymunedol a chyfarfod y darparwyr llety yn ychwanegu tystiolaeth eglurhaol bwysig oherwydd eu bod yn dangos sut y cysylltodd cyfranogwyr yr ardoll ag amodau busnes, llywodraethu, buddsoddi lleol, gweinyddu ac ymddygiad ymwelwyr. Mae eu

gwerth yn gorwedd mewn dyfnder yn hytrach na chynrychioldeb. Roedd presenoldeb yn y chwe sesiwn galw heibio cymunedol yn isel ac yn anwastad, gan gynnwys un sesiwn heb unrhyw fynychwyr, felly ni ddylid dehongli sesiynau unigol fel mesurau dibynadwy o farn yn yr anheddiad lle cynhaliwyd y sesiwn.

Dylid deall cyflwyniadau ysgrifenedig yn yr un modd yn ôl eu ffynhonnell. Gall ymateb gan gorff masnach, cyngor tref, sefydliad academiaidd, sefydliad amgylcheddol neu fusnes unigol fod â gwerth arbenigol neu gynrychioliadol, ond nid yw'r cyflwyniadau hyn yn uniongyrchol gymaradwy o ran graddfa neu fandad. Felly, cânt eu defnyddio i nodi dadleuon, amodau, tystiolaeth a meysydd o gydgyfeirio yn hytrach na rhoi pwysau ystadegol artiffisial iddynt.

17.3 Adolygiad cyfathrebu

Mae'r adolygiad cyfathrebu yn cadarnhau hyrwyddo dwyieithog ailadroddus drwy sianeli'r Cyngor, Croeso Môn, y gymuned a chyswllt uniongyrchol â busnesau, ond nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn darparu archwiliad cyflawn o gyrhaeddiad. Nid yw'n cynnwys data cynhwysfawr ar argraffiadau cyfryngau cymdeithasol, ffigurau defnyddwyr unigryw, cyfraddau agor e-byst, cyfraddau clicio drwodd na chofnod llawn fesul sianel o sut y daeth ymatebwyr i mewn i'r ymgynghoriad. Felly, gall yr adolygiad asesu presenoldeb ac amrywiaeth gweithgarwch hyrwyddo, a chymharu hyn â chyfranogiad a gofnodwyd ac adborth y sector, ond ni all gyfrifo cyrhaeddiad neu gyfradd trosi'r cyfathrebu yn fanwl.

17.4 Dehongliad cyffredinol

Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn dileu arwyddocâd y canfyddiadau. Mae'r ymgynghoriad yn darparu cofnod clir o gydbwysedd y safbwyntiau a gyflwynwyd ac, drwy'r dystiolaeth ansoddol, y rhesymau dros gefnogaeth, gwrthwynebiad a safbwyntiau amodol. Mae cryfder y gwrthwynebiad ymhlith ymatebwyr busnes ac ymwelwyr, yr ymateb mwy rhanedig gan drigolion, pryderon ailadroddus am weinyddu ac ymddiriedaeth, a chydgyfeirio ynghylch llywodraethu ac ailfuddsoddi gweladwy yn parhau'n ganfyddiadau pwysig.

Dylid hefyd ystyried y cyfyngiadau gyda'i gilydd. Nid oes un mater unigol yn annilysu'r ymgynghoriad, ond mae sawl un yn effeithio ar faint o sicrwydd y gellir ei roi i gasgliadau penodol. Mae cwestiynau caeedig yr arolwg yn darparu'r dystiolaeth gryfaf ar gydbwysedd y farn a gyflwynwyd; mae sylwadau ansoddol yn egluro'r rhesymu y tu ôl i'r safbwyntiau hynny; mae digwyddiadau a chyflwyniadau rhanddeiliaid yn ychwanegu manylion gweithredol ac arbenigol; ac mae'r adolygiad cyfathrebu yn helpu i asesu sut y hyrwyddwyd yr ymgynghoriad. Felly, mae pwysau tystiolaethol pob ffrwd yn wahanol, ac mae'r adroddiad wedi osgoi'n fwriadol drin amllder ansoddol, mandad rhanddeiliaid ac ymatebion rhifiadol yr arolwg fel pethau cyfnewidiol.

At ddibenion gwneud penderfyniadau, y canfyddiadau mwyaf cadarn yw'r rhai sy'n ailadrodd ar draws mwy nag un ffrwd dystiolaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys pryder am weinyddu a gallu busnesau, diffyg ymddiriedaeth ynghylch sut y byddai reffeniwn'n cael ei ddyrannu, galw am lywodraethu clir a chynrychiolaeth leol, a nodi blaenoriaethau ailfuddsoddi ymarferol. Lle mae canfyddiadau'r arolwg, tystiolaeth digwyddiadau a sylwadau ysgrifenedig yn pwyntio i'r un cyfeiriad, mae'r hyder bod y mater yn bodoli yn gryfach, er na all yr ymgynghoriad fesur ei effaith economaidd yn y dyfodol yn fanwl gywir o hyd.

Fodd bynnag, maent yn diffinio sut y dylid defnyddio'r adroddiad. Mae'n well ei ddeall fel cofnod sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad, rhesymu rhanddeiliaid, pryderon gweithredol a materion parodrwydd. Ni ddylid ei drin fel refferendwm cynrychioliadol ar boblogaeth yr ynys, rhagfynegiad manwl o ymddygiad ymwelwyr yn y dyfodol nac asesiad effaith economaidd terfynol. Nid yw'r ymgynghoriad ei hun yn darparu

data economaidd wedi'i ddiweddarau, trefniadau gweinyddol wedi'u profi na thystiolaeth o effeithiau gwirioneddol gweithredu.

18. Casgliadau terfynol

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad sylfaen dystiolaeth sylweddol ac amrywiol, dan arweiniad arolwg dwyieithog mawr ac wedi'i ategu gan sesiynau galw heibio cymunedol, cyfarfod penodol i ddarparwyr llety, cyflwyniadau ysgrifenedig rhanddeiliaid, dadansoddiad daearyddol ac adolygiad o hyrwyddo a chyfathrebu. Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn darparu cofnod manwl o gydbwysedd y safbwyntiau a gyflwynwyd, y rhesymau y tu ôl i'r safbwyntiau hynny a'r amodau ymarferol yr oedd ymatebwyr a rhanddeiliaid yn eu hystyried yn bwysig i unrhyw benderfyniad lleol yn y dyfodol.

Y canfyddiad pennawd cliraf yw bod yr ymgynghoriad wedi'i arwain gan wrthwynebiad. Roedd gwrthwynebiad cyffredinol yn 70.8% ymhlith ymatebion dilys, gan godi i 83.1% ymhlith busnesau ac 84.2% ymhlith ymwelwyr. Roedd barn trigolion yn fwy rhanedig, gyda 57.8% yn gwrthwynebu a 38.1% yn cefnogi. Mae cryfder y gwrthwynebiad ymhlith busnesau, darparwyr llety ac ymwelwyr yn arbennig o arwyddocaol oherwydd mai'r grwpiau hyn fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf uniongyrchol gan gasglu, talu a newidiadau posibl yn ymddygiad ymwelwyr.

Canfyddiad terfynol	Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos	Dehongliad cyffredinol
Safbwynt cyffredinol y cyhoedd	Gwrthwynebodd mwyafrif clir gyflwyno ar unwaith.	Gwrthwynebiad oedd safbwynt mwyafrif y rhai a gyflwynodd ymateb.
Safbwynt trigolion	Roedd trigolion yn llawer mwy rhanedig na busnesau neu ymwelwyr.	Roedd barn trigolion yn fwy rhanedig na barn busnesau neu ymwelwyr, er bod gwrthwynebiad yn parhau'r safbwynt mwyafrif.
Hyder busnesau a chasglwyr	Gwrthwynebiad cryf a phryderon manwl am systemau, TAW, gweinyddu, cydymffurfio a gorfodi.	Cododd ymatebwyr busnes bryderon gweithredol a gweinyddol sylweddol.
Ymateb ymwelwyr	Gwrthwynebiad cryf a sensitifrwyd datanedig sylweddol ynghylch dewis cyrchfan, hyd arhosiad a lleoliad llety.	Adroddodd ymatebwyr sy'n ymwelwyr sensitifrwyd ymddygiadol datganedig sylweddol; nid rhagolygon yw'r ymatebion hyn.
Llywodraethu ac ymddiriedaeth	Roedd llywodraethu clir, ychwanegedd, neilltuo cyllid, cynrychiolaeth a chraffu yn bryderon a ailadroddwyd.	Roedd llywodraethu ac ymddiriedaeth yn themâu trawsbynciol a ailadroddwyd.
Blaenoriaethau ailfuddsoddi	Nododd ymatebwyr flaenoriaethau ymarferol a gweladwy ar gyfer unrhyw incwm yn y dyfodol.	Nododd ymatebwyr flaenoriaethau ymarferol a gweladwy ar gyfer incwm damcaniaethol yn y dyfodol.
Tystiolaeth rhanddeiliaid	Roedd buddiannau twristiaeth yn gwrthwynebu'n bennaf; nododd rhanddeiliaid academaidd ac amgylcheddol achos cefnogol neu amodol.	Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn wahanol, gyda meysydd o gydgyfeirio ynghylch llywodraethu, materion gweithredol ac atebolrwydd.

18.1 Tystiolaeth sy'n gysylltiedig â gwrthwynebiad i weithredu ar unwaith

Mae'r achos yn erbyn gweithredu ar unwaith yn gronol. Nid yw'n dibynnu ar un pryder nac un grŵp ymatebwyr. Disgrifiodd busnesau amgylchedd gweithredu anodd a siarwyd gan dymoroldeb, costau llafur, TAW, y rheol 182 diwrnod, ynni a phwysau gweithredu eraill. Ychwanegodd darparwyr llety bryderon ymarferol am gofrestru, cofnodion gwesteion,

eithriadau, ad-daliadau, systemau archebu, cosbau, gorfodi a thrin trafodion drwy asiantaethau a llwyfannau.

Cofnododd ymwelwyr hefyd wrthwynebiad cryf a dywedodd llawer y gallai ardoll ddylanwadu ar a fyddent yn ymweld, pa mor hir y byddent yn aros neu ble y byddent yn archebu llety. Ni ellir trosi'r ymatebion hyn yn uniongyrchol yn rhagolygon o ymweliadau neu wariant a gollir, ond maent yn nodi risg ganfyddedig sylweddol sy'n berthnasol i unrhyw fonitro neu asesu yn y dyfodol.

Mae ymddiriedaeth yn gyfyngiad yr un mor bwysig. Y pryder negyddol a ddewiswyd amlaf oedd na fyddai'r arian o bosibl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Cwestiynodd ymatebwyr neilltuo cyllid, ychwanegedd, didyniadau gweinyddol, tegwch daearyddol a'r posibilrwydd y gallai incwm yr ardoll ddisodli gwariant presennol yn hytrach na chreu budd newydd gweladwy. Mae hyn yn golygu nad mater o egluro'r tâl yn unig yw'r her. Mae hefyd yn gwestiwn a yw'r sefydliadau sy'n rheoli'r incwm yn cael eu hystyried yn gredadwy.

18.2 Tystiolaeth sy'n gysylltiedig â chefnogaeth a chefnogaeth amodol

Cefnogodd lleiafrif sylweddol yr ardoll, roedd barn trigolion yn fwy cytbwys na barn busnesau neu ymwelwyr, ac roedd ymatebwyr ar draws gwahanol safbwyntiau yn nodi anghenion rheoli cyrchfan dro ar ôl tro. Mae'r canfyddiadau hyn yn disgrifio'r llinyn cefnogol ac amodol o'r dystiolaeth ochr yn ochr â'r gwrthwynebiad mwyafrifol a gofnodwyd yn gyffredinol.

Toiledau cyhoeddus a glendid oedd y flaenoriaeth ailfuddsoddi bennaf, ac yna trafndiaeth, parcio a mynediad, cefnogaeth i fusnesau lleol, llwybrau a phromenadau, yr amgylchedd naturiol a chyfleusterau cymunedol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ymarferol, yn weladwy ac wedi'u cysylltu'n agos â phrofiad beunyddiol trigolion ac ymwelwyr. Nid yw eu nodi yn awgrymu cefnogaeth i'r ardoll, ond mae'n dangos bod ymatebwyr yn gallu gweld meysydd lle gallai buddsoddiad ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr fod o fudd.

Amlygodd cyflwyniadau cefnogol ac amodol rhanddeiliaid fuddion posibl gan gynnwys data twristiaeth gwell, atebolrwydd lleol cryfach a gwerthuso ffurfiol. Nododd rhanddeiliaid amgylcheddol bwysau ar seilwaith, mannau cyhoeddus, sbwriel, bioamrywiaeth ac agweddau eraill ar ansawdd cyrchfan. Dangosodd tystiolaeth fusnes amodol fod rhai sefydliadau'n agored i'r egwyddor ar yr amod na fyddai perchnogion a chyfryngwyr yn cael eu cosbi'n ariannol drwy gomisiwn, TAW neu strwythurau trafodion.

18.3 Llywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd lleol

Llywodraethu yw'r maes cliriaf lle mae safbwyntiau gwrthwynebus, cefnogol ac amodol yn cydgyfeirio. Roedd ymatebwyr am weld cynrychiolaeth ystyrllon gan ddarparwyr llety, busnesau twristiaeth, trigolion a grwpiau cymunedol. Roeddent hefyd am gael rheolau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, gwrthdaro buddiannau, adrodd a chraffu. Nodwyd Partneriaeth Cyrchfan Môn, neu gorff cyfatebol, gan rai cyfranogwyr a rhanddeiliaid fel un strwythur llywodraethu posibl.

Cysylltodd ymatebwyr a rhanddeiliaid hyder mewn neilltuo cyllid ac ychwanegedd â chyhoeddi gwariant gwaelodlin sy'n gysylltiedig â'r gyrchfan, cyfrifyddu ar wahân ar incwm yr ardoll, gwelededd costau gweinyddol ac adrodd sy'n cysylltu incwm gros, didyniadau, dyraniad daearyddol, prosiectau a ariannwyd a chanlyniadau.

Mae'r dystiolaeth ddaearyddol yn dangos bod ymatebwyr yn ystyried atebolrwydd ar lefel yr ynys gyfan ac ar lefel lleol. Mae Ynys Môn yn gyrchfan gydlynol, ond mae pwysau ymwelwyr a blaenoriaethau lleol yn amrywio rhwng lleoedd. Cofnododd yr ymgynghoriad alw am ystyriaeth strategol ar draws yr ynys a budd gweladwy ar sail lle.

18.4 Amseru, parodrwydd a thrwydded gymdeithasol

Mae'r ymgynghoriad yn dangos nad yr un cwestiwn yw amseru ac egwyddor. Gwrthwynebodd rhai ymatebwyr yr ardoll oherwydd eu bod yn ystyried yr amgylchedd economaidd presennol yn anaddas, tra roedd eraill yn agored i'r egwyddor ond am weld llywodraethu cliriach, cynllun gweinyddol neu drefniadau gwariant yn gyntaf. Mae'r ymgynghoriad yn dangos bod ymatebwyr yn gwahaniaethu rhwng egwyddor Ardoll Ymwelwyr, amseru ei chyflwyno a'r trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu. Mae'r dystiolaeth yn cofnodi derbyniad a hyder gweithredol cyfyngedig ymhlith sawl grŵp yr effeithir arnynt yn uniongyrchol adeg yr ymgynghoriad.

At ddibenion presennol, defnyddir trwydded gymdeithasol yn ddisgrifiadol i gyfeirio at dderbyniad, ymddiriedaeth a pharodrwydd grwpiau yr effeithir arnynt i gydweithredu; nid prawf statudol mohono. Cysylltodd cyfranogwyr weithredu ymarferol â busnesau'n deall y rheolau, bod â hyder mewn systemau casglu a gallu egluro i gwsmeriaid sut y byddai'r incwm yn cael ei ddefnyddio.

18.5 Materion a nodwyd ar gyfer unrhyw adolygiad yn y dyfodol

Nododd yr ymgynghoriad gyfres o faterion a fyddai'n berthnasol pe bai'r Cyngor yn ystyried yr ardoll eto yn y dyfodol: llywodraethu, parodrwydd busnes, eglurder treth a llwyfannau, ymgysylltu â'r sector, dyrannu lleol, adrodd cyhoeddus a monitro annibynnol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y gallai profiad awdurdodau lleol Cymru sy'n gweithredu ardoll yn gynharach ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gofrestru, cydymffurfio, llwyth gwaith busnesau, ymateb ymwelwyr, costau casglu, lefelau incwm ac ailfuddsoddi. Nid oedd tystiolaeth o'r fath ar gael o fewn yr ymgynghoriad presennol.

Mater a nodwyd yn y dystiolaeth	Tystiolaeth neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r mater
Llywodraethu cynrychioliadol	Codwyd llywodraethu cynrychioliadol, gan gynnwys rôl bosibl Partneriaeth Cyrchfan Môn neu gorff cyfatebol, gan ymatebwyr a rhanddeiliaid.
Neilltuo cyllid ac ychwanegedd	Roedd neilltuo cyllid, ychwanegedd, cyllidebau gwaelodlin ac adrodd ariannol ar wahân yn themâu a ailadroddwyd.
Parodrwydd casglwyr	Cododd darparwyr gwestiynau am lifoedd gwaith, canllawiau, cymorth systemau a gwahanol fodelau llety.
Triniaeth TAW a llwyfannau	Gofynnodd rhanddeiliaid am eglurder ynghylch archebion uniongyrchol, asiantaethau, llwyfannau, ad-daliadau a throthwyon treth perthnasol.
Dyraniad daearyddol	Mae'r dystiolaeth yn cofnodi blaenoriaethau ar draws yr ynys a galw am fudd gweladwy ar sail lle.
Cyfathrebu ac ymddiriedaeth	Mae'r dystiolaeth yn cofnodi pryderon am gyrhaeddiad y sector a galw am gyfathrebu clir am egwyddor, amseru, gweinyddu a gwariant.
Monitro a gwerthuso	Nodwyd dangosyddion gwaelodlin a monitro annibynnol fel ystyriaethau perthnasol.
Tystiolaeth benderfynu wedi'i diweddarau	Nodwyd amodau economaidd presennol, tystiolaeth cost ac incwm, a phrofiad awdurdodau eraill yng Nghymru fel tystiolaeth gyd-destunol a allai fod yn berthnasol.

19. Casgliad cyffredinol y dystiolaeth

Cofnododd yr ymgynghoriad fwyafrif clir yn erbyn cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ymhlith y rhai a ymatebodd, gyda gwrthwynebiad yn arbennig o amlwg ymhlith busnesau, darparwyr llety ac ymwelwyr. Nododd hefyd bryderon am amseru, pwysau cronol ar fusnesau, gweinyddu, TAW, gorfodi, cystadleurwydd, tegwch a hyder yn y ffordd y byddai reffeniwn cael ei lywodraethu a'i wario.

Ochr yn ochr â'r gwrthwynebiad mwyafrifol hwn, nododd lleiafrif sylweddol o ymatebwyr a sawl rhanddeiliad cefnogol neu amodol fuddion posibl sy'n gysylltiedig â buddsoddiad ychwanegol, rheoli cyrchfan, ansawdd amgylcheddol, data gwell ac atebolrwydd lleol. Nododd ymatebwyr hefyd flaenoriaethau ymarferol ar gyfer incwm damcaniaethol yn y dyfodol.

Roedd cydgyfeirio sylweddol ynghylch llywodraethu a thryloywder er gwaethaf gwahaniaethau yn y safbwynt cyffredinol. Cododd ymatebwyr ar draws gwahanol safbwyntiau bwysigrwydd ychwanegedd, cynrychiolaeth, budd lleol gweladwy, adrodd ariannol clir a monitro. Nododd yr ymgynghoriad hefyd gwestiynau gweithredol heb eu datrys ar gyfer darparwyr llety.

Nid yw'r dystiolaeth yn penderfynu a ddylai'r Cyngor gyflwyno, gohirio neu wrthod Ardoll Ymwelwyr. Penderfyniad polisi i'r Cyngor yw hwnnw. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gydbwysedd y safbwyntiau a gyflwynwyd, y rhesymau dros y safbwyntiau hynny a'r ystyriaethau ymarferol a nodwyd drwy'r ymgynghoriad.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

[cyngormon/angleseycouncil](#)

[cyngormon/angleseycouncil](#)

[cyngormon](#)



Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Ardoll Ymwelwyr

[ynysmon.llyw.cymru](#) [anglesey.gov.wales](#)

Cynnwys

1	Cyflwyniad _____	1
2	Y Cyd-destun Deddfwriaethol _____	3
3	Methodoleg _____	4
4	Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ____	6
5	Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb _____	11

1 Cyflwyniad

- 1.1 Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyrir yr effeithiau a allai ddod i ran cydraddoldeb pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ardoll ymwelwyr. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn i ategu ei ystyriaethau ynglŷn â gosod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

- 1.2 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.
- 1.3 Gellir codi'r ardoll ar ddwy gyfradd wahanol:
- Lleiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hostelau ac ystafelloedd aml-wely): 75c y pen, y noson
 - Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson
- 1.4 Ceir esemptiadau¹; ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os byddant:
- dan 18 oed ac yn gwersylla neu'n aros mewn ystafell a rennir (fel hostelau neu ystafelloedd aml-wely)
 - yn aros am fwy na 31 noson ar un archeb
 - yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol
- 1.5 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:
- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
 - cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
 - hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
 - darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 1.6 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr ai peidio, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').² Diben yr Asesiad o'r Effaith ar

¹ Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol: Ar gael [yma](#)

² Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth a all gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel awdurdod lleol wrth arfer Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

- 1.7 Yn **Adran 2** yr adroddiad hwn, nodir y cyd-destun trwy bennu'r cyd-destun deddfwriaethol, ac esbonnir y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.
- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ymwelwyr ledled Cymru.³ Yn **Adran 3**, crynhoir canfyddiadau'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.
- 1.9 Yn **Adran 4**, ystyrir yr effaith a fyddai'n deillio o osod ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn a'r ffyrdd posibl y gallai'r effeithiau hynny ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.
- 1.10 Cynhaliwyd asesiad ar wahân o'r effaith economaidd – pan fo'n berthnasol, croesgyfeirir ato yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

³ Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [yma](#)

2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Deddf 2010 yw sail y gyfraith atal gwahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Yn Adran 4 o Ddeddf 2010, diffinnir gwahanol fathau o nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i'r Ddeddf, sef:

- Oedran;
- Anabled;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb wrth iddynt arfer eu swyddogaethau. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw beth arall a waherddir gan neu dan y Ddeddf hon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (fel y nodir yn Adran 149 (3) o Ddeddf 2010):

- Dileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anghenion sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad unigolion o'r fath yn anghymesur o isel.

3 Methodoleg

Dull

- 3.1 Bydd pob ymyriad yn esgor ar amrywiaeth o effeithiau, gan gael effaith a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.
- 3.2 Yn achos pawb y bydd rhyw ymyriad yn effeithio arnynt, byddant yn meddu ar rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf 2010, bydd croestoriadedd yn digwydd i wahanol raddau (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd yr ymyriadau'n effeithio'n gyfartal ar bawb. Ond nid yw hyn yn cyfateb, o angenrheidrwydd, i effaith ar gydraddoldeb.
- 3.3 Er mwyn canfod pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn pennu bod effeithiau cydraddoldeb yn cyfateb i effeithiau sy'n effeithio'n anghymesur neu'n wahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol o gymharu ag unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr esbonnir isod:
 - **Anghymesur:** efallai y ceir effaith anghymesur ar gydraddoldeb pan fo cyfran fwy o bobl â nodwedd warchodedig arbennig yn dioddef effeithiau o gymharu â'r boblogaeth ehangach.
 - **Gwahaniaethol:** efallai y ceir effaith wahaniaethol ar gydraddoldeb pan fo pobl â nodwedd warchodedig yn dioddef effeithiau gwahaniaethol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, a hynny gan eu bod yn agored i niwed neu oherwydd cyfyngiadau a wynebant yn sgil y nodwedd warchodedig honno.
- 3.4 Nid oes modd mesur graddfa nac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. O'r herwydd, mae'r broses o ystyried effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl, a hefyd nodir a fydd effeithiau o'r fath yn niweidiol ynteu'n fanteisiol.
- 3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth, ac maent yn anodd eu rhagweld yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mater personol yw nodweddion gwarchodedig pobl, ac ni wyddys beth ydynt bob amser. Ychwaith, nid yw'r holl bobl a fydd yn byw wrth ymyl yr ardal, yn gweithio yn yr ardal, neu'n ymweld â'r ardal yn y dyfodol, yno heddiw. Oherwydd hyn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol a ystyrir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 3.6 Mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus, efallai y bydd angen ystyried a chydbwyso amrediad o wahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol. Efallai y ceir mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau anghymesur neu wahaniaethol ar gydraddoldeb, ond efallai na fydd modd osgoi rhai effeithiau bob amser.

Cwmpas yr Asesiad

- 3.7 Prif amcan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'i effaith ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn llywio'i benderfyniadau.
- 3.8 Gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar dri grŵp cyffredinol o bobl, sef:

- Pobl sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn cael eu cyflogi mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig), y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – yn cynnwys perchnogion busnesau y gellid effeithio arnynt.
- Pobl sy'n byw yn yr ardal, y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio arnynt – trwy weld newid yn nifer yr ymwelwyr a/neu a fyddai'n elwa ar fuddsoddi arian yr ardoll.
- Ymwelwyr (neu bobl eraill sy'n aros dros nos) y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

3.9 O fewn y grwpiau hyn, fe fydd yna bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, ac fe fydd yna wahanol raddau o groestoriadedd.

3.10 Y man cychwyn ar gyfer cynnal yr asesiad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan⁴ (Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb), yn cynnwys yr asesiad, yr ymgynghoriad / gwaith ymgysylltu a'r mesurau lliniaru. Yna, awn ati i ystyried a oes yna unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn a allai newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol.

⁴ Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [yma](#)

4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol

4.1 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio ffigurau a data ystadegol yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd, er mwyn pennu – a lliniaru, pan fo modd – unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

'Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n dewis defnyddio ardoll, ac ni ddisgwyllir y bydd effeithiau "uniongyrchol" ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.'

4.3 Yn yr asesiad, nodir y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Diffinnir 'effaith uniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil gorfod talu neu godi'r ardoll. Diffinnir 'effaith anuniongyrchol' fel unrhyw effaith bosibl yn sgil bodolaeth yr ardoll.

4.4 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai gwaith ymchwil cyfyngedig yn unig a geir mewn perthynas â'r effaith y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei chael ar nodweddion gwarchodedig, felly defnyddir gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i lunio casgliadau ynglŷn ag effeithiau "anuniongyrchol" posibl. Mae'r un amodau'n berthnasol i'r asesiad lleol.

Y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ad-daliadau ac esemptiadau

4.5 Ar sail yr ymgynghoriad ffurfiol, gwelwyd bod y rhai a oedd o blaid esemptio rhai grwpiau yn tueddu i gredu bod angen gwneud hynny oherwydd y rhesymau canlynol:

4.5.1 dylid rhoi esemptiadau ar waith er mwyn hyrwyddo tegwch a chanlyniadau cyfartal trwy gynorthwyo grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a hefyd

4.5.2 ni ddylai rhai grwpiau gael eu dosbarthu fel ymwelwyr, ac o'r herwydd ni ddylent orfod talu ardoll.

4.6 Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â gosod esemptiadau, roeddynt o'r farn y gallai esemptiadau gyflwyno cymhlethdodau a chynyddu'r baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, ac roeddynt o'r farn y gallai esemptiadau fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa ar seilwaith a gwasanaethau i ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn bendant ei barn bod angen sylfaen bolisi glir ar gyfer esemptiadau neu gyfraddau is ar sail nodweddion gwarchodedig. Y dull, felly, yw lleihau'r defnydd o esemptiadau a defnyddio cyfradd ardoll is.

4.8 Er mwyn sicrhau dull graddoledig a gwneud yn siŵr na fydd pobl ar incwm is yn cael eu datgymell neu eu rhwystro rhag talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r ardoll, nodir dwy gyfradd yn

y Bil, sef cyfradd is ar gyfer hostelau a safleoedd gwersylla a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr.

4.9 Bydd modd i Weinidogion Cymru asesu a diwygio'r cyfraddau a bennir yn y ddeddfwriaeth os daw effeithiau niweidiol i'r amlwg.

4.10 Caiff y grwpiau a'r sefyllfaoedd canlynol eu hesemptio:

- Arosiadau dros nos ar safleoedd sipswyn a theithwyr.
- Arosiadau a drefnir gan y Swyddfa Gartref fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnir gan awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Arosiadau a drefnir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Ni chynhwysir pobl dan 18 oed yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is.

4.11 Yn yr un modd, bydd modd cael ad-daliadau mewn achosion pan na fydd modd darparu esemptiad, megis:

- Arosiadau'n ymwneud â llety brys dros dro a drefnir gan sefydliadau elusennol mewn llety ymwelwyr ar ran pobl ddigartref, yn cynnwys ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Pobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys, a dalodd ardoll ymwelwyr tra'r oeddynt yn aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
- Arosiadau lle ceir risg i iechyd a diogelwch neu les pe bai rhyw unigolyn wedi aros yn ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl agored i niwed; neu pan fo tân, llifogydd neu drychineb arall yn golygu nad oes modd byw yn yr eiddo; neu pan fo'r gwasanaethau brys wedi cynghori na ddylid aros yn yr eiddo am resymau o'r fath).

4.12 Fel rhan o'r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru ac yn y trydydd sector er mwyn deall mwy am brofiadau byw grwpiau agored i niwed sydd angen llety ymwelwyr.

4.13 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwnnw, cymerwyd y camau canlynol mewn perthynas ag esemptiadau ac ad-daliadau.

- Esemptiadau:
 - Nodi'n glir yn Neddf 2025 y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr a fydd yn esempt rhag talu ardoll ymwelwyr er mwyn sicrhau bod nodau'r polisi yn cael eu gwireddu.
 - Y gallu i gyflwyno esemptiadau newydd, ynghyd â'r gallu i addasu neu ddileu esemptiadau, pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg ynglŷn ag unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios a allai fod yn gymwys i gael ad-daliadau, pe bai tystiolaeth berthnasol yn dod i'r amlwg.

Nodweddion gwarchodedig

4.14 Yn Nhabl 3-1 isod, ceir crynodeb o'r effaith ar bob nodwedd warchodedig a'r mesurau ar gyfer lliniaru'r effeithiau a gynhwysir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Tabl 3-1: Yr effaith ar nodweddion gwarchodedig – Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru
Oedran	Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Pennwyd rhai effeithiau eilaidd ar gyfer plant a phobl ifanc. Efallai y bydd y gallu i dalu ardoll yn effeithio'n wahanol ar bobl ar incwm is, e.e. pobl iau neu bobl hŷn.	Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is.
Anabledd	Pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol. Y rheswm am hyn yw y gallai pobl anabl sydd angen gofalwr wynebu costau ychwanegol oherwydd bod yr ardoll yn berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r unigolyn anabl yn ysgwyddo'r costau ychwanegol hynny.	System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help.
Ailbennu rhywedd	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat (e.e. fel rhan o broses ailbennu rhywedd unigolion) eu hesemptio rhag yr ardoll.
Priodas neu bartneriaeth sifil	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Hil	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll. Mae esemptiadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e.

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru
		ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
Crefydd a chred	Dim effaith negyddol uniongyrchol. Efallai y gallai'r ardoll effeithio ar fforddiadwyedd twristiaeth grefyddol, ond mae llety am ddim yn esempt.	Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol. Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is. Gellid defnyddio'r refeniw a gynhyrchir yn sgil yr ardoll i ddiogelu a chynnal a chadw safleoedd crefyddol.
Rhyw	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim effaith negyddol uniongyrchol.	

4.15 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda rhanddeiliaid, mae'r mesurau lliniaru ychwanegol a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad yn ymwneud â faint o refeniw a gynhyrchir a'r modd y cafodd / y caiff y refeniw ei ddefnyddio er budd y gyrchfan ac i wella'r ardal leol (adlewyrchir hyn yn Adran 45 o Ddeddf 2025).
- Dylai Gweinidogion Cymru gynnal adolygiad ar weithrediad ac effaith Deddf 2025 a dylent gyhoeddi adolygiad bob 5 mlynedd (adlewyrchir hyn yn Adran 63 o Ddeddf 2025).
- Dylid monitro'r defnydd a wneir o ddata, megis arolygon Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth a gwaith ymgysylltu gyda busnesau ac awdurdodau lleol.
- Dylai Awdurdod Cyllid Cymru fonitro ac adolygu pa mor effeithiol y gweinyddir yr ardoll trwy ymgysylltu â busnesau ac awdurdodau lleol, a dylai adrodd am swm y refeniw a gesglir.

4.16 Isod, ystyrir canfyddiadau'r asesiad 'cenedlaethol' hwn a'r mesurau lliniaru pan fo'n briodol.

5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb

- 5.1 Yn yr adran ganlynol, cyflwynir data sylfaenol yn ymwneud â demograffeg yr ymwelwyr a'r boblogaeth leol mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf 2010 pan fo data ar gael. Hefyd, llunnir cymhariaeth â data demograffig sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- 5.2 Rhagwelir y bydd gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid yn dechrau'n gynnar yn 2026. Bydd y sylwadau a dderbynnir drwy gydol y broses ymgynghori yn llywio cam nesaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (fel y bo'n briodol).
- 5.3 Mae'r mesurau lliniaru a'r argymhellion a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u seilio ar y rhai a gyflwynir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ledled Cymru, a'r rhai y cyfeirir atynt yn Neddf 2025.

Nodweddion Gwarchodedig

Oedran

- 5.4 Mewn perthynas ag oedran, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

Ymwelwyr

- 5.5 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: 'Mae'n bosibl bod y rhai mewn oed sydd fel arfer yn cael eu cysylltu ag incwm is (er enghraifft, pobl iau), yn llai tebygol o allu fforddio'r gost ychwanegol ar gyfer llety ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r ardoll'.
- 5.6 Yn achos pobl dan 18 oed sy'n aros mewn arosiadau cyfradd is, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc, oherwydd efallai y byddant yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr cyfradd is (er, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nad oes unrhyw ddata ar gael i gadarnhau'r honiad hwn).
- 5.7 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi na fyddai costau ychwanegol, o angenrheidrwydd, yn datgymell pobl sy'n ennill llai o arian rhag mynd ar wyliau, ond y gallai costau ychwanegol o'r fath newid eu hymddygiad mewn ffyrdd eraill – fel peri iddynt aros am gyfnod byrrach neu wario llai o arian.
- 5.8 Nid yw Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn mynd ati'n benodol i ystyried yr effaith bosibl ar bobl hŷn.
- 5.9 Yn Nhabl 4-1, dangosir dosbarthiad oedran y bobl sy'n ymweld ag Ynys Môn a Chymru. Ymddengys fod cyfran lai o ymwelwyr ifanc yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru, ac ymddengys fod cyfran fwy o bobl hŷn yn ymweld ag Ynys Môn (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael).

5.10 Wrth ddehongli'r tabl, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024 – oherwydd argaeledd data ar lefel Ynys Môn.
- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-1: Proffil oedran ymwelwyr

	16 – 24	25 – 34	35 – 44	45 – 54	55 – 64	65+
Ynys Môn (% yr ymwelwyr) ⁵	16	14	15	20	18	17
Cymru (% y triplau) ⁶	20	27	19	13	13*	7*

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig.

5.11 Caiff y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dioddef effaith wahaniaethol ei liniaru (yn rhannol) gan yr esemptiad ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, sy'n golygu na fydd yn rhaid iddynt dalu band isaf yr ardoll. Ymddengys na cheir effaith anghymesur (oherwydd awgryma'r data fod llai o ymwelwyr ifanc o Gymru yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru gyfan).

5.12 Gallai'r gyfran fwy o bobl hŷn sy'n ymweld ag Ynys Môn arwain at effaith anghymesur o ganlyniad i effaith niweidiol y cynnydd yng nghost y trip. Ar y llaw arall, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn nodi'r manteision canlynol, sy'n berthnasol i ymwelwyr a thrigolion (ychwanegwyd y pwyslais):

5.12.1 'Gallai'r refeniw ychwanegol hefyd fod o fudd anuniongyrchol i drigolion hŷn a thrigolion iau drwy wella ansawdd bywyd yn y gymuned yn gyffredinol, pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella seilwaith, gan wneud y cyrchfan yn fwy hygyrch i fwy o bobl'.

5.12.2 'Gallai'r arian hefyd gefnogi ymdrechion i ddiogelu diwylliant, a allai helpu i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, a fyddai o fudd i bobl hŷn a allai fod â chysylltiad dyfnach â'r elfennau diwylliannol hyn, ac ar y llaw arall byddai cynnal a chreu cyfleusterau newydd i'r cenedlaethau iau eu defnyddio o fudd i bobl ifanc'.

Cyflogaeth

5.13 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod swyddi'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn llai diogel – h.y. maent yn gweithio'n rhan-amser neu'n treulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr. Ymhellach, mae'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn iau.

5.14 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio'r asesiad o'r effaith economaidd ar lefel genedlaethol, a nodir bod effaith yr ardoll ymwelwyr ar gyflogaeth rhwng +100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a -400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r

⁵ Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

⁶ Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (triplau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

amrediad yn deillio o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gellir gwrthbwysu llai o alw am wasanaethau twristiaeth gyda gwariant refeniw'r ardoll ymwelwyr.

- 5.15 Mae'r nifer cyfatebol ar gyfer Ynys Môn rhwng -31 a +7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (gweler yr Asesiad o'r Effaith Economaidd i gael rhagor o ddata). Gallai unrhyw golledion mewn swyddi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc.
- 5.16 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod 38% o'r gweithwyr twristiaeth ledled Cymru yn 2022 rhwng 16-29 oed. Dengys data diweddarach (ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2024 a Medi 2025) fod 25% o drigolion Cymru a oedd yn gweithio yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï rhwng 16-24 oed.⁷ Y ganran gyfatebol ar gyfer Ynys Môn yw 27%. Mae cyfran uchel iawn o bobl 16-19 oed (15%) yn gweithio yn y sector hwn yn Ynys Môn, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (sef 10%).

Tabl 4-2: Cyflogaeth yn ôl oedran (Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï) – preswyl (Hydref 2024 – Medi 2025)
8

Grŵp oedran	Ynys Môn		Cymru	
16 – 19	900	15%	23,700	10%
20 – 24	700	12%	35,300	15%
25 – 49	2,200	37%	104,800	45%
50+	2,100	36%	67,000	29%
Cyfanswm	5,900	100%	230,800	100%

- 5.17 Er y gellir esgor ar effaith anghymesur (oherwydd y tebygolrwydd uwch y cyflogir pobl ifanc yn y sector twristiaeth), mae'n debyg y bydd maint unrhyw effaith negyddol yn fach iawn – dim ond hyd at 31 o swyddi a fydd yn cael eu colli, sy'n cyfateb i ostyngiad o -0.17% yng nghyflogaeth Ynys Môn, a dyna'r senario waethaf. Hefyd, gellir esgor ar effaith gadarnhaol (sef hyd at oddeutu 7 swydd).
- 5.18 Ymhellach, nodir y canlynol yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: '[P]e bai'r refeniw ychwanegol a godir yn ysgogi gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaethau lleol, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, gan sbarduno mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth.'

Oedran yn gyffredinol

- 5.19 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is). Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth
⁸ *Ibid*

- 5.20 Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau'r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwysu, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll.
- 5.21 Pan ddaw rhagor o wybodaeth i law ynglŷn â'r modd y caiff yr arian ei wario, gellir cynnal asesiad arall o'r effaith debygol ar bobl iau neu bobl hŷn.

Rhyw

5.22 Mewn perthynas â rhyw, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

Ymwelwyr

- 5.23 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail rhyw.
- 5.24 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod astudiaethau wedi crybwyll bod dynion yn fwy agored i dalu ardoll ymwelwyr. Efallai fod hyn yn deillio o'r rhyngweithio rhwng rhywedd ac incwm, o gofio bod merched yn cael incwm is na dynion ar gyfartaledd.
- 5.25 Mae Tabl 4-3 isod yn dangos bod cyfrannau tebyg o ymwelwyr benywaidd a gwrywaidd yn ymweld ag Ynys Môn a Chymru gyfan (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael). Yn y ddau achos, ceir cyfran fwy o ymwelwyr benywaidd. Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi'r canlynol:
- Mae proffil rhyw ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
 - Mae proffil rhyw ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-3: Dosbarthiad ymwelwyr yn ôl rhyw

	Ynys Môn ⁹	Cymru ¹⁰
Merched	60%	59%
Dynion	40%	40%
Pawb	100%	100%

D.S. Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.26 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod arolygon yn awgrymu'r canlynol:

⁹ Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

¹⁰ Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydai Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

- Mae'r mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a chadw a buddsoddi yn y cyrchfannau yr arhosant ynddynt. Ychydig iawn (13%) sy'n anghytuno.
- Ceir cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a chadw cyrchfannau a buddsoddi mewn cyrchfannau, ac mae hyn yn cyfateb yn gryf i radd gymdeithasol a 'modd ariannol'.

5.27 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Rhyw. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cyflogaeth

5.28 O ran cyflogaeth, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod mwy o ferched na dynion fel arfer yn gweithio yn y sector twristiaeth, ledled Ewrop. Ond yn Nhabl 4-4 isod, gwelir bod y rhaniad rhwng merched a dynion yn weddol gyfartal yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwyta, ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

Tabl 4-4: Cyflogaeth yn ôl rhyw (Dosbarthu, Gwestai a Bwyta)¹¹

	Ynys Môn	Cymru
Merched	3,085 (50%)	132,116 (49%)
Dynion	3,062 (50%)	137,360 (51%)
Pawb	6,147 (100%)	269,476 (100%)

5.29 Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol i'w chael yn Ynys Môn ar ferched (na dynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth, o ganlyniad i'r ardoll.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

5.30 Ni ddisgwylir y bydd darpariaethau Deddf 2025 yn cael unrhyw effaith ar nodweddion priodas a phartneriaeth sifil. Bydd ardoll yn cael ei chodi ar lety ymwelwyr dros nos ar gyfer priodasau / seremonïau partneriaeth sifil.

5.31 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Ailbennu Rhywedd

5.32 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.

¹¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

- 5.33 Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn rhoi ystyriaeth i'r bobl hynny sydd angen triniaeth feddygol ar gyfer ailbennu rhywedd ac ni chodir ardoll ar arosiadau mewn ysbytai.
- 5.34 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- 5.35 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Ymwelwyr

- 5.36 Awgryma'r dystiolaeth fod 10% o'r tripiâu a wnaed i Gymru rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024 wedi cael eu gwneud gan ymwelwyr LHDTC+. ¹² Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodwedd 'cyfeiriadedd rhywiol' yn dioddef anfantais yn sgil darpariaethau Deddf 2025. Ar hyn o bryd, nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Cyflogaeth

- 5.37 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y canlynol:
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn llai o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï yn Ynys Môn (3%) o gymharu â Chymru (4%).
 - Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï (3%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (2%) – gwelir yr un patrwm yng Nghymru (sef 4% o gymharu â 3%).

Tabl 4-5: Cyflogaeth trigolion yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol¹³

		Syth neu Heterory wiol	Hoyw neu Lesbiaidd	Deurywio l	Pob cyfeiriade dd rhywiol arall	Nid atebwyd y cwestiwn	CYFANS WM
Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï	Ynys Môn	90%	2%	1%	0%	7%	100%
	Cymru	90%	2%	2%	0%	6%	100%
Pob sector	Ynys Môn	92%	1%	1%	0%	6%	100%
	Cymru	91%	2%	1%	0%	5%	100%

¹² Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael [yma](#)
¹³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Cyfeiriadedd Rhywiol – yn gyffredinol

5.38 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Hil

5.39 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail hil.

5.40 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gall ardollau ymwelwyr effeithio ar hil mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar y cyd-destunau penodol a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir, a chan ddibynnu hefyd ar y modd y caiff y refeniw ei wario. Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, gan roi lle hollbwysig i ymgysylltu â'r cyhoedd a phrosesau penderfynu cynhwysol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl ar grwpiau ethnig leiafrifol.

5.41 Fel y nodir yn Adran 5, ceir system ad-dalu sy'n golygu y gellir rhoi ad-daliadau pan gaiff grwpiau eu cartrefu dros dro mewn llety ymwelwyr a phan fydd elusen yn talu am hynny, mewn argyfwng.

Ymwelwyr

5.42 Yn Nhabl 4-7, dangosir proffil ethnigrwydd twristiaeth ddomestig dros nos Cymru yn 2024 a phroffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn.

Tabl 4-7: Proffil ethnigrwydd ymwelwyr a thripiâu ymwelwyr

Ethnigrwydd yr ymatebwyr	Cymru (% y tripiâu) ¹⁴	Ynys Môn (% yr ymwelwyr) ¹⁵
Gwyn	80%	99%
Grwpiau Cymysg / Amlethnig	3%**	2%
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	6%*	
Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	7%*	
Tsieineaidd	0%**	
Arabaid	0%**	
Grŵp ethnig arall	0%**	
Roedd yn well gan yr ymatebwyr beidio â dweud / Ddim yn gwybod / Ni nodwyd	3%**	
Cyfanswm	100%	100%

¹⁴ Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (trippiâu dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael [yma](#)

¹⁵ Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig. Mae dwy seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 30; cynghorir y defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwnnw.

Sylwer: Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.43 Wrth ddehongli'r tabl uchod, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.
- Gan fod proffiliau ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn a Chymru yn deillio o ffynonellau data gwahanol, mae'r categorïau'n wahanol.

5.44 Serch hynny, awgrymir bod cyfran lai o ymwelwyr Ynys Môn yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Cyflogaeth

5.45 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y canlynol:

- Caiff cyfrannau llai o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï yn Ynys Môn (5%) o gymharu â Chymru (12%).
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï (5%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (4%) – golyga hyn y gallai newid mewn lefelau cyflogaeth effeithio ar y grŵp hwn (er bod unrhyw newid yn debygol o fod yn fach).

Tabl 4-8: Cyflogaeth trigolion yn ôl ethnigrwydd¹⁶

		Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	Grwpiau Cymysg neu Amlethnig	Gwyn: Sais/Saesnes, Cymro/Cymraes, Albanwr/Albanes/Gwyddel/Gwyddel o Ogledd Iwerddon neu Brydeinigwr/Prydeinigwr	Gwyn: Gwyddel/Gwyddel	Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddel, Roma neu Unigolyn Gwyn Arall	Grŵp ethnig arall	Cyfanswm
Dosbarthu, Gwestai a Bwytai	Ynys Môn	2%	0%	1%	95%	0%	2%	0%	100%
	Cymru	4%	1%	1%	88%	0%	5%	1%	100%
Cyfanswm	Ynys Môn	1%	0%	1%	96%	1%	2%	0%	100%
	Cymru	3%	1%	1%	91%	0%	4%	1%	100%

Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

¹⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

- 5.46 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn byw bywyd crwydrol a'u bod yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- 5.47 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Tros Gynnal Plant Cymru wedi dweud na fyddai effaith fawr yn dod i ran Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ôl pob tebyg, pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig yn esempt rhag talu'r ardoll.
- 5.48 Ymhellach, mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn esempt rhag yr ardoll. Ni cheir safleoedd cofrestredig yn Ynys Môn.
- 5.49 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn defnyddio nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, yn cynnwys safleoedd tymhorol, tir sy'n addas ar gyfer mannau aros a negodwyd, a safleoedd gwyliau prif ffrwd ar gyfer teithio tymhorol. Yn achos aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n defnyddio llety ymwelwyr ac eithrio ar gyfer eu prif breswylfa neu eu preswylfa arferol, byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.
- 5.50 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu esemptiadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

- 5.51 Oherwydd nad oes gan geiswyr lloches ddim, neu fawr ddim, gallu i gael arian, gallai'r ardoll gael effaith negyddol arnynt. Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn nodi y bydd llety ar gyfer ceiswyr lloches, a drefnir gan awdurdodau lleol, yn esempt rhag talu'r ardoll. Hefyd, ceir system ad-dalu ar gyfer galluogi elusennau i adennill costau'r ardoll ar gyfer unrhyw arhosiad cymwys.
- 5.52 Ym mis Medi 2025, roedd 3,331 o geiswyr lloches yng Nghymru a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Wrth Gefn (gwestai), Llety Cychwynnol neu Llety Gwasgaru (llety tymor hwy), neu'n cael cynhaliath yn unig.¹⁷
- 5.53 Yn yr un modd, ym mis Medi 2025, roedd 30 o geiswyr lloches yn Ynys Môn a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Gwasgaru.¹⁸
- 5.54 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi anawsterau o ran canfod faint o ffoaduriaid sydd i'w cael yng Nghymru, a hynny oherwydd diffyg data'n ymwneud â ble yn union y mae ffoaduriaid yn preswyllo. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf fod yna 11 achos o adsefydlu yng Nghymru yn ail chwarter 2025 (yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Phowys).¹⁹
- 5.55 Drachefn, mae Deddf 2025 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu esemptiadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

¹⁷ Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael [yma](#)

¹⁸ Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael [yma](#)

¹⁹ Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael [yma](#)

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

- 5.56 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r gwaith ymgysylltu a gynhaliodd Llywodraeth Cymru gyda darparwyr gwasanaethau a goroeswyr er mwyn deall eu profiad bywyd yn well a deall lefel y mathau hyn o senarios.
- 5.57 Cynhwysir esemptiadau a systemau ad-dalu yn y Ddeddf, a bydd canllawiau'n cael eu paratoi ar gyfer y broses ymgeisio arall y cyfeiriwyd ati eisoes (mewn perthynas â datgelu manylion personol).

Hil – y casgliad cyffredinol

- 5.58 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 5.59 Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru.
- 5.60 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth (yn cynnwys y modd y caiff yr arian ei wario).

Y Gymraeg

- 5.61 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y wlad. Un Nod Llesiant ar gyfer cyflawni hyn yw creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu'r Gymraeg. Yn unol â hyn, mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar gyffredinrwydd y Gymraeg yn Ynys Môn.
- 5.62 Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi cyffredinrwydd sgiliau Cymraeg ledled Cymru. Mae cyfran y trigolion a chanddynt rywfaint o sgiliau Cymraeg (sef darllen, ysgrifennu, siarad neu ddeall Cymraeg llafar) yn sylweddol fwy yn Ynys Môn (69%) o gymharu â Gogledd Cymru (39%) a Chymru (25%).
- 5.63 Ymhellach, mae cyfran y trigolion yn Ynys Môn sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (45%) bron ddwbl y cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru (24%) a dros deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd rhanbarthol (14%).
- 5.64 Nodir hyn hefyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf. Yn yr asesiad hwnnw, dangosir y ceir nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth dros 16 oed a hyn sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd (47.7%).
- 5.65 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi hefyd y gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar y Gymraeg pe bai'n cael ei chyflwyno mewn ardaloedd lle mae cyfrannau cymharol fawr o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd. Nodir y gellid esgor ar effeithiau cadarnhaol yn sgil y canlynol:

- Hwb i'r economi leol yn sgil gwario arian yr ardoll gan arwain at gynyddu swyddi yn y sector twristiaeth – mae'r Asesiad o'r Effaith Economaidd yn awgrymu y gellid cael rhwng -31 a +7 o swyddi, felly mae'n debygol y bydd yr effaith yn gymharol fach.
- Effaith gadarnhaol o ran dod i gysylltiad â'r Gymraeg.
- Defnyddio refeniw'r ardoll i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg neu i ariannu mentrau sy'n gwella'r seilwaith a'r gwasanaethau mewn ardaloedd lle ceir canran gymharol fawr o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd (neu mewn ardaloedd lle ceid canran gymharol fawr o siaradwyr Cymraeg tan ddegawdau diweddar). Gallai hyn hyrwyddo amlygrwydd, bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad yr ymwelwyr a'r trigolion fel ei gilydd.

5.66 Nodir rhai effeithiau negyddol posibl hefyd:

- 5.66.1 Effaith economaidd negyddol bosibl yr ardoll – ond fel y nodir uchod, rhagwelir na fydd mwy na 31 o swyddi'n cael eu colli yn y senario waethaf, felly cymharol fach fydd yr effaith mewn gwirionedd.
- 5.66.2 Yr effaith bosibl ar dripiâu dros nos sy'n anelu at gefnogi'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn esgor ar effaith addysgol a diwylliannol. Ond ni fydd yn rhaid i bobl ifanc dan 18 oed dalu'r ardoll pan fyddant yn aros mewn llety fel hostelaau neu mewn safleoedd gwersylla. Rhoddir rhyddhad i arosiadau dros nos a gyflenwir gan ddarparwyr addysg fel rhan o'r gwaith o gyflenwi cyrsiau astudio a gynigir i ddisgyblion neu fyfyrwyr.


5.67 Yn gyffredinol, ceir canran fawr o siaradwr Cymraeg yn Ynys Môn, yn cynnwys yn y sector twristiaeth. Gallai ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn esgor ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Gallai'r ardoll esgor ar effeithiau negyddol bach yn ymwneud â gostyngiad mewn gwariant ymwelwyr, neu gellid gweld cynnydd bach yn sgil y swyddi a fyddai'n cael eu cefnogi gan arian yr ardoll. Yn yr un modd, gallai'r ardoll esgor ar effeithiau cadarnhaol yn ymwneud â chanlyniad y gwariant – bydd hyn yn ddibynol ar y modd y caiff yr arian ei wario (a fydd yn cael ei ddatblygu yn cynnwys adborth trwy ymgynghori).

Crefydd a Chred

- 5.68 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amcangyfrif bod 174,456 o dwristiaid domestig wedi "ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abaty neu adeilad crefyddol arall" yn 2023.
- 5.69 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir na cheir cydberthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddim cred. Nodir hefyd y gallai trethi neu bolisiau twristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolion i arfer crefydd, gan ddibynnu ar natur yr ymweliad. Trwy gyflwyno ardoll ymwelwyr, gellid effeithio ar allu pobl i fforddio ymweld â mannau o'r fath, gan ddylanwadu o bosibl ar nifer y pererinion neu'r twristiaid a fyddai'n ymweld â safleoedd crefyddol gan y byddai'r ardoll yn cynyddu'r costau i ymwelwyr a fyddai'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr.
- 5.70 Wrth gynnal yr asesiad ar lefel genedlaethol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023, a hefyd cafwyd ymateb i gais arall am adborth ym mis Mehefin 2024 trwy gyfrwng cynrychiolaeth ar Grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector.

- 5.71 Ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety a gâi ei ddarparu am ddim. Ond byddai'r ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos cyfradd is (sef mater a godwyd trwy ymgysylltu, gan fod grwpiau ffydd yn trefnu tripiâu gweryslla yn aml); er, gallai'r gyfradd is liniaru'r effeithiau negyddol posibl.
- 5.72 Ar hyn o bryd, nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer nifer y twristiaid sy'n ymweld ag adeiladau crefyddol yn Ynys Môn. Ond dengys Ffigur 4-1 fod yna 212 o fannau addoli yn Ynys Môn. Sylwer: proses ddangosol yn unig yw mapio mannau addoli ac efallai na fydd y manylion bob amser yn gyflawn, ac ni cheir diffiniad cyfreithiol clir o fannau addoli.

Ffigur 4-1: Mannau addoli yn Ynys Môn



- 5.73 Efallai y bydd pobl nad ydynt yn ymhél â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd yn dioddef effaith niweidiol. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl, bydd gwasanaeth ac eithrio gwasanaeth digidol yn cael ei ddarparu pan fo angen.
- 5.74 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Anabledd

- 5.75 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail anabledd.

Y boblogaeth

- 5.76 Yn Ynys Môn, roedd yna oddeutu 24,250 o bobl a oedd yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef 20.7% o gyfanswm y boblogaeth. Mae'r ganran hon yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 21.6%.²⁰

Ymwelwyr

- 5.77 Ar sail tystiolaeth hanesyddol, nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb y gallai pobl anabl wynebu costau uwch ar gyfer aros mewn llety mewn rhai senarios, a nodwyd rhai rhwystrau a heriau ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys:

- Rhwystrau amgylcheddol: Dangosodd adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU yn 2021 fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oes modd iddynt fynd ar wyliau oherwydd materion yn ymwneud â hygyrchedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus.
- Ceir diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o argaeledd a nifer y gwasanaethau a'r cyfleusterau twristiaeth hygyrch sydd ar gael, ynghyd â diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygyrch yn hollbwysig o ran cynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl.
- Efallai y bydd archebu gwyliau yn arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd opsiynau teithio a llety hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod tymhorau prysur. Mewn arolwg diweddar gan Leonard Chesire Disability, a gyhoeddwyd yn Enable Magazine, dywedodd 8 rhan o 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau wrth aros mewn cyrchfannau a gwestai yn y DU. Soniodd mwy na 70% am broblemau o ran dod o hyd i ystafelloedd hygyrch. Hefyd, yn ôl 6 rhan o 10 o'r ymatebwyr, mae costau llety hygyrch yn rhwystr cyffredin sy'n atal pobl rhag mynd ar wyliau, ac yn aml ystyrir bod ystafelloedd hygyrch yn ddrytach.

- 5.78 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nifer o heriau eraill, yn cynnwys:

- Dewisiadau a chyfleoedd cyfyngedig i bobl anabl a rhai ag amhariadau – gall hyn effeithio ar eu boddhad â'u profiadau twristiaeth.
- Gall diffyg hygyrchedd i rai pobl anabl mewn safleoedd gwersylla a hostelaau arwain at roi straen at gyllidebau teithio – caiff hyn ei liniaru i ryw raddau gan y gyfradd is a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth.
- Costau ychwanegol a/neu opsiynau cyfyngedig i bobl sydd angen gofalwr, cyfarpar arbenigol neu gi tywys.

- 5.79 Gan gydnabod bod yna ddifffyg data a thystiolaeth yn gyffredinol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr Anabledd Cymru, Autistic UK a Triniaeth Deg i Fenywod Cymru wrth lunio Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

- 5.80 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol.

²⁰ Cyfrifiad 2021

- 5.81 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer rhoi ad-daliadau i bobl anabl a'u gofalwyr. Yn y pen draw, mae a wnelo'r opsiwn a gynhwysir yn y Ddeddf â rhoi ad-daliadau i bobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys ac sydd wedi talu ardoll ymwelwyr tra'n aros mewn llety ymwelwyr yng nghwmni unigolyn sy'n darparu gofal. Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod y canlynol: 'Er nad yw'r opsiwn hwn yn dileu'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn llwyr, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwysu'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol ond hefyd yn sicrhau cywirdeb ac effeithlonrwydd y system dreth.'
- 5.82 O ran gweithgarwch twristiaeth, mae 31% o'r holl dripiâu i Gymru yn cynnwys pobl sy'n anabl neu sydd ag amhariad. Ymhellach, cafodd 20% o'r holl dripiâu dros nos i Gymru, rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, eu gwneud gan bobl a oedd yn gofalu am unigolion â chyflyrau meddygol.²¹ Mae rhai o'r tripiâu hyn yn ymwneud ag aros gyda chyfeillion a theulu yn eu cartrefi yn hytrach nag aros mewn llety ymwelwyr. Nid yw hyn yn golygu bod yr ymwelwyr hyn wedi mynd gyda'r unigolyn y gofalent amdano; yn hytrach, mae'n arwydd eu bod yn ysgwyddo'r math hwn o gyfrifoldeb gofalu. Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Cyflogwyr a chyflogaeth

- 5.83 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r ardoll. Yn achos darparwyr llety, rhagwelir na fydd y modd y gweithredir yr ardoll o ddydd i ddydd yn cael fawr o effaith ar berchnogion busnesau sydd ag amhariad ar y golwg a/neu'r clyw gan fod modd iddynt ryngweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru mewn nifer o wahanol ffyrdd – system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i Awdurdod Cyllid Cymru ochr yn ochr â gwasanaeth ffôn a phapur pan fo angen.
- 5.84 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sy'n tueddu i fod yn llai diogel o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl. O blith y gweithwyr sy'n gweithio yn sector twristiaeth Cymru, mae 18% yn anabl – sef cyfran debyg i'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant.²²
- 5.85 Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Ynys Môn ar gael.

Anabled yn gyffredinol

- 5.86 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur.
- 5.87 Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy'n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

²¹ Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael [yma](#)

²² Llywodraeth Cymru: Ystadegau busnes a marchnad lafur sector twristiaeth Cymru: Ar gael [yma](#)

- 5.88 Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, yn cynnwys y modd y caiff yr arian ei wario – gallai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod safleoedd twristiaeth yn fwy hygyrch i bobl anabl.

Beichiogrwydd a mamolaeth

- 5.89 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.
- 5.90 Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu ystadegau'n ymwneud â faint o bobl sy'n feichiog. O'r herwydd, ystyriwyd data genedigaethau byw yn y dadansoddiad sylfaenol hwn.²³ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael, sy'n deillio o 2024, yn dangos bod y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol²⁴ yn uwch yn Ynys Môn (48.6) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (45.7).
- 5.91 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.


²³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Genedigaethau Byw.

²⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021. Cyfrifiad.

Amddifadedd

- 5.92 Er na chaiff amddifadedd ei ddosbarthu fel nodwedd warchodedig yn Neddf 2010, rhoddir ystyriaeth iddo gan ei fod yn croestorri â gwahanol nodweddion gwarchodedig.
- 5.93 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Llywodraeth Cymru (2025) yn cyfuno dangosyddion, yn cynnwys ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd a thai, er mwyn esgor ar sgôr amddifadedd ar gyfer holl ardaloedd Cymru (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is). Ymchwilir i wyth maes amddifadedd, sef:
- Incwm
 - Cyflogaeth
 - Iechyd
 - Addysg
 - Mynediad at wasanaethau
 - Tai
 - Diogelwch cymunedol
 - Yr amgylchedd ffisegol
- 5.94 Rhestrir yr holl ardaloedd yn eu trefn yn ôl lefel eu hamddifadedd. Yn Ffigur 4-2 isod, dangosir lefelau cymharol amddifadedd Ynys Môn – mae'r ardaloedd coch ymhlith y 10% mwyaf amddifad, mae'r ardaloedd oren ymhlith y 10%-20% mwyaf amddifad, ac mae'r ardaloedd melyn ymhlith y 20%-30% mwyaf amddifad.
- 5.95 Fel y gwelir yn Ffigur 4-2, mae rhai ardaloedd yn Ynys Môn ymhlith y 10%-20% a'r 20%-30% mwyaf amddifad yng Nghymru, ac mae ardal fach ymhlith y 10% mwyaf amddifad.

Ffigur 4-2: Map Mynegai Amddifadedd Lluosog o Ynys Môn



5.96 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwaith o reoli'r gyrchfan a gwella'r ardal, yn cynnwys darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio), a lliniaru'r effaith a gaiff ymwelwyr. Gan ddibynnu ar y modd y defnyddir yr arian, gallai leihau amddifadedd (neu ddangosyddion amddifadedd) o ganlyniad i fuddsoddi.

Crynodeb o'r effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig

5.97 Mae Tabl 4-10 yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn erbyn nodweddion gwarchodedig.

Tabl 4-10: Crynodeb o'r effeithiau

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru posibl pan fo angen
Oedran	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is). Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau'r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwyso, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll.	Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Anabledd	Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur. Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy'n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad	System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru posibl pan fo angen
	Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	
Ailbennu rhywedd	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat (e.e. fel rhan o broses ailbennu rhywedd unigolion) eu hesemptio rhag yr ardoll.
Priodas a phartneriaeth sifil	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	Ni nodwyd effeithiau posibl
Beichiogrwydd a mamolaeth	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Er y ceir cyfradd ffrwythlondeb uwch yn Ynys Môn, ni ragwelir y bydd hyn yn newid y canfyddiad 'dim effaith'.	Ni nodwyd effeithiau posibl
Hil	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni	Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru posibl pan fo angen
	ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytaï yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.	cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll. Mae esemptiadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Crefydd a chred	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol. Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is. Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol
Rhyw	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Rhyw. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol i'w chael yn Ynys Môn ar ferched (na dynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth, o ganlyniad i'r ardoll.	Ni nodwyd effeithiau posibl
Cyfeiriadedd rhywiol	Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad	Ni nodwyd effeithiau posibl

Nodwedd warchodedig	Effeithiau posibl	Mesurau lliniaru posibl pan fo angen
	Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

[cyngormon/angleseycouncil](#)

[cyngormon/angleseycouncil](#)

[cyngormon](#)



Asesiad Effaith Economaidd yr Ardoll Ymwelwyr

[ynysmon.llyw.cymru](#) [anglesey.gov.wales](#)

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol _____	2
2	Cyflwyniad _____	4
3	Astudiaethau i ategu Deddf Llywodraeth Cymru - Yr Effaith Economaidd _____	6
4	Adolygiad pellach o'r llenyddiaeth _____	13
5	Asesiad amodol o'r effaith economaidd ar lefel Ynys Môn _____	16
6	Croeswrio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru _____	27
7	Casgliadau _____	32

1 Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.
- 1.2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried cyflwyno ardoll ymwelwyr. Mae'r Asesiad Economaidd hwn yn anelu at ganfod yr effaith economaidd bosibl a allai ddeillio o gyflwyno ardoll o'r fath.
- 1.3 Cynhaliwyd nifer o astudiaethau i ategu penderfyniad Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf. Yn yr adroddiad hwn, adolygir yr adroddiadau hyn er mwyn canfod pa mor addas fyddai rhoi'r un dull ar waith ar lefel fwy lleol.
- 1.4 Mae'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas ag effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol anaeddfed; o'r herwydd mae'r asesiad cenedlaethol, hyd yn oed, yn ddarostyngedig i nifer o amodau, ac mae'n ddibynol ar ystodau eang. Mae ychwaneg o gymhlethdodau'n perthyn i asesiadau lleol oherwydd bylchau yn y data a sylfaen dystiolaeth fwy anaeddfed fyth mewn perthynas â'r effaith a gaiff ardollau ymwelwyr ar lefel leol (yn hytrach nag ar lefel genedlaethol). Dyma'r amodau hollbwysig sy'n berthnasol i'r asesiad lleol:
 - Ceir cryn ansicrwydd ynglŷn ag elastigeddau'r galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac mae'n fwy aciwt fyth ar lefel Ynys Môn.
 - Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir yn achos ardaloedd llai – er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gwario rhywfaint o arian yng Ngwynedd (a vice versa).
 - Yn yr un modd, efallai y bydd cryn dipyn o arian yr ardoll yn cael ei ddadleoli, oherwydd efallai na fydd yr holl fusnesau a fydd yn elwa ar gontractau trwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yn Ynys Môn.
 - Yn yr asesiad cenedlaethol, rhagdybir (o reidrwydd) y bydd yr ardoll yn cael ei chodi ledled Cymru. Ar lefel Ynys Môn, byddai gwahanol effeithiau i'w cael pe bai un awdurdod lleol yn codi'r taliad ond pe na bai'r awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad, o gymharu â sefyllfa pan fyddai'r holl awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad.
- 1.5 O'r herwydd, mae nifer o amodau'n perthyn i'r asesiad a gynhelir ar lefel Ynys Môn, a dylid darllen yr asesiad yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.
- 1.6 Serch hynny, rydym yn hyderus mai effaith gymharol fach a ddaw i ran Ynys Môn – o ran yr effaith ar gyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros. Rydym wedi defnyddio dull sy'n eithaf tebyg i'r dull a roddwyd ar waith yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn pennu ystod debygol yr effeithiau hyn.
- 1.7 Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad yn geidwadol (pesimistaidd) o ran y dull o asesu'r effaith ar yr economi. Rhagdybir mai Ynys Môn a fydd yn dioddef yr holl golledion mewn perthynas â gwariant ymwelwyr; ond mewn gwirionedd, bydd rhywfaint o'r gwariant yn cael ei golli y tu allan i Ynys Môn. Hefyd, rhagdybir mai dim ond hanner gwariant yr ardoll a ddaw i ran busnesau Ynys

Môn (oherwydd rhagdybir y bydd 50% o arian yr ardoll ymwelwyr yn cael ei wario mewn busnesau y tu allan i Ynys Môn); a rhagdybir hefyd na fydd busnesau Ynys Môn yn elwa ar gontractau a fydd yn deillio o wario ardollau ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill.

- 1.8 Hyd yn oed gyda'r rhagdybiaethau ceidwadol hyn (h.y. rhagdybiaethau sydd, o bosibl yn goramcanu unrhyw effaith negyddol), amcangyfrifir y gallai'r ardoll esgor ar y canlynol:
- Newid mewn cyflogaeth a all amrywio o -31 i +7 o swyddi – h.y. newid a all amrywio o -0.17% o golled i 0.04% o gynnydd mewn swyddi yn Ynys Môn.
 - Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros blyneddol a all amrywio o -£2.1m i +£0.09m – h.y. newid a all amrywio o -0.14% o golled i 0.01% o gynnydd yn economi Ynys Môn.
- 1.9 Mae'r ystod hon, sy'n amrywio o effaith negyddol gymharol fach i effaith gadarnhaol gymharol fach, yn adlewyrchu canfyddiadau Arfarniad Llywodraeth Cymru. Yn yr arfarniad hwnnw hefyd, daethpwyd i'r casgliad y gellid esgor ar effaith a fyddai'n amrywio o effaith negyddol fach i effaith gadarnhaol fach ar lefel genedlaethol.

2 Cyflwyniad

Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

- 2.1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.
- 2.2 Gellir codi'r ardoll ar ddwy gyfradd wahanol:
- Lleiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hostelau ac ystafelloedd aml-wely): 75c y pen, y noson
 - Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson
- 2.3 Ceir esemptiadau¹; ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os byddant:
- dan 18 oed ac yn gwersylla neu'n aros mewn ystafell a rennir (fel hostelau neu ystafelloedd aml-wely)
 - yn aros am fwy na 31 noson ar un archeb
 - yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol
- 2.4 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:
- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
 - cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
 - hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
 - darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

Diben yr adroddiad hwn

- 2.5 Mae Ynys Môn yn dymuno canfod yr effaith economaidd bosibl a allai ddeillio o gyflwyno ardoll ymwelwyr.
- 2.6 Y man cychwyn yw adolygu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall effeithiau economaidd y Ddeddf ar lefel genedlaethol, ac i ba raddau y gallai'r dull fod yn berthnasol ar lefel fwy lleol.

¹ <https://www.llyw.cymru/yr-ardoll-ymwelwyr-cyfraniad-bach-ar-gyfer-etifeddiaeth-barhaol>

2.7 Mae'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas ag effaith economaidd ardollau ymwelwyr yn gymharol anaeddfed; o'r herwydd mae'r asesiad cenedlaethol, hyd yn oed, yn ddarostyngedig i nifer o amodau, ac mae'n ddibynnol ar ystodau eang.

2.8 Bydd y cyfyngiadau hyn yn amlycach fyth ar lefel leol. Dyma'r amodau hollbwysig sy'n berthnasol i'r asesiad lleol:

- Ceir ansicrwydd ynglŷn â faint o'r ardoll a drosglwyddir i ddefnyddwyr (modelir y sefyllfa ar sail 0% a 100% yn unig).
- Ceir cryn ansicrwydd ynglŷn ag elastigeddau'r galw – mae hyn yn wir ar lefel Cymru ac mae'n fwy aciwt fyth ar lefel Ynys Môn.
- Ar lefel genedlaethol, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd y rhan fwyaf o wariant ymwelwyr yn cael ei gadw yng Nghymru. Nid yw hyn yn wir yn achos ardaloedd llai – er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gwario rhywfaint o arian yng Ngwynedd (a vice versa).
- Yn yr un modd, efallai y bydd cryn dipyn o arian yr ardoll yn cael ei ddadleoli, oherwydd efallai na fydd yr holl fusnesau a fydd yn elwa ar gontractau trwy wario'r ardoll wedi'u lleoli yn Ynys Môn.
- Yn yr asesiad cenedlaethol, rhagdybir (o reidrwydd) y bydd yr ardoll yn cael ei chodi ledled Cymru. Ar lefel Ynys Môn, byddai gwahanol effeithiau i'w cael pe bai un awdurdod lleol yn codi'r taliad ond pe na bai'r awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad, o gymharu â sefyllfa pan fyddai'r holl awdurdodau cyfagos yn codi'r taliad.

2.9 O'r herwydd, mae nifer o amodau'n perthyn i'r asesiad lleol (Ynys Môn), a dylid darllen yr asesiad yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth gymharol gyfyngedig, yn enwedig ar lefel leol.

2.10 Mae gweddill yr adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:

- Adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall effaith economaidd y Ddeddf (Adran 3).
- Adolygiad ehangach o lenyddiaeth er mwyn deall faint o dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â'r gallu i roi'r dull cenedlaethol ar waith ar raddfa ddaearyddol lai (Adran 4).
- Asesiad amodol o'r effaith economaidd ar lefel Ynys Môn (Adran 5)
- Croeswrio Dadansoddiad Llywodraeth Cymru, gan ystyried pwysigrwydd cymharol twristiaeth i Ynys Môn (Adran 6)
- Casgliadau (Adran 7)

3 Astudiaethau i ategu Deddf Llywodraeth Cymru – Yr Effaith Economaidd

3.1 Cynhaliwyd nifer o astudiaethau i ategu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Ddeddf, yn cynnwys:

- 'Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru', Alma Economics, 2022
- 'Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr', Ysgol Fusnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024 – gelwir yr astudiaeth hon yn 'Ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2024' yn yr adroddiad hwn
- 'Dadansoddiad diwygiedig o effeithiau posibl ardoll ymwelwyr yng Nghymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr', Llywodraeth Cymru, 2025 – gelwir yr astudiaeth hon yn 'Ddadansoddiad Llywodraeth Cymru 2025' yn yr adroddiad hwn
- 'Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang', Prifysgol Bangor, 2024

3.2 Cynhaliwyd yr adroddiadau hyn ar lefel Cymru gyfan ac mae nifer o amodau'n perthyn iddynt.

Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru, Alma Economics, 2022

3.3 Cynhaliodd Alma Economics Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth. Adolygwyd y llenyddiaeth a oedd yn ymwneud ag elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.

3.4 Anelwyd at amcangyfrif elastigedd pris y galw mewn perthynas â thwristiaeth a llety yn arbennig. Mae Elastigedd Pris y Galw (a elwir hefyd yn PED) yn mesur pa mor ymatebol yw'r galw am nwyddau neu wasanaethau ar ôl i'r pris newid. Mae PED negatif yn dynodi gostyngiad yn y galw ar ôl i'r pris godi. Mae elastigedd uchel yn arwydd bod y galw am nwyddau neu wasanaethau yn ymatebol iawn i newidiadau yn y pris; golyga hyn y gall newid bach yn y pris arwain at newid mawr yn y galw. Mae galw anelastig yn golygu nad yw'r galw yn ymatebol i'r pris.

3.5 Yn yr adroddiad, nodir bod yna gryn ansicrwydd a bylchau mawr yn y dystiolaeth. Hyd yn oed pan ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth berthnasol, gwelwyd amrywio mawr yn amcangyfrifon yr elastigeddau ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw astudiaeth a oedd yn nodi amcangyfrifon ar gyfer Cymru yn benodol. Ymhellach, dim ond nifer fechan o astudiaethau a oedd wedi ystyried marchnad y DU.

3.6 Gwelwyd cryn amrywio yn y canfyddiadau ar gyfer twristiaeth. Er bod y mwyafrif o'r astudiaethau (70%) wedi canfod bod twristiaeth yn anelastig, cyfeiriodd rhai astudiaethau at alw elastig. Y PED canolig cyfartalog ar draws yr holl astudiaethau oedd -0.7, a'r PED canolrifol oedd -0.9. Golyga hyn y byddai cynnydd o 1% ym mhrisiau nwyddau neu wasanaethau yn arwain at leihad o 0.7% yn y galw.

3.7 Dim ond dwy astudiaeth a aeth ati'n benodol i ystyried llety – a dangoswyd ei fod yn anelastig o ran pris (-0.7). Mae'r adroddiad yn nodi y dylid dehongli'r astudiaethau hyn gyda gofal, o gofio eu

nifer cyfyngedig. Roedd o leiaf un o'r adroddiadau hyn wedi'i seilio ar dwristiaeth ryngwladol – ac o'r herwydd, bydd yn llai perthnasol i farchnadoedd domestig.

- 3.8 Fel yr addefir yn yr adroddiad ei hun, ychydig iawn o dystiolaeth a ddeilliodd o'r adolygiad mewn perthynas â chwestiynau ymchwil mwy cynnil ac amwys, yn cynnwys (i) mewnwelediad i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr, (ii) effaith ardollau ymwelwyr neu elfennau o'r fath ar y galw ym maes twristiaeth, (iii) y modd y gall yr elastigeddau a archwiliwyd amrywio gan ddibynnu ar nodweddion twristiaid (e.e. ar sail nodweddion gwarchodedig).
- 3.9 Hefyd, mae'r adroddiad ei hun yn nodi mai ychydig iawn o dystiolaeth a geir yn yr astudiaethau hyn mewn perthynas â gwahaniaethau a allai ddigwydd ar lefel is-ranbarthol, gan fod y mwyafrif o'r astudiaethau'n canolbwyntio ar effeithiau cenedlaethol a/neu dwristiaeth ryngwladol.

Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr, Ysgol Fusnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru, 2024

- 3.10 Mae'r adroddiad hwn yn amcangyfrif effeithiau ardoll ar lefel Cymru ar yr economi a nwyon tŷ gwydr. Rydym wedi adolygu'r adroddiad er mwyn deall i ba raddau y gellid defnyddio dull tebyg i amcangyfrif effaith ardoll ymwelwyr mewn Awdurdodau Lleol unigol.
- 3.11 Mae'r adroddiad yn cynnwys dwy senario:
- i. Trosglwyddo'r holl ardoll o fusnesau i ddefnyddwyr.
 - ii. Caiff yr holl ardoll ei hamsugno gan fusnesau.
- 3.12 Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.

i. Trosglwyddo'r holl ardoll o fusnesau i ddefnyddwyr

- 3.13 Mae'r astudiaeth yn cyfrifo'r effaith debygol ar ffurf tair senario (optimistaidd, niwtral a phesimistaidd) ar sail ystod o elastigeddau sydd wedi deillio o astudiaeth Alma. Cymhwysir y rhain at wahanol segmentau o ymwelwyr (dau segment domestig gyda phatrymau gwario gwahanol ac ymwelwyr tramor). Mae hyn yn esgor ar newid yng ngalw'r defnyddwyr ar gyfer pob segment.
- 3.14 Mae'r adroddiad yn defnyddio elastigeddau sydd wedi deillio o astudiaeth economaidd Alma – sef astudiaeth (fel y nodir uchod) a chanddi gryn ansicrwydd a bylchau mewn data, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth ryngwladol ac effeithiau cenedlaethol. Tasg anos fydd cymhwyso elastigeddau cenedlaethol at Awdurdodau Lleol, yn hytrach nag at Gymru gyfan.
- 3.15 Mae'r astudiaeth yn rhagdybio bod elastigedd pris y galw yn bwydo'n uniongyrchol i'r economi – h.y. bod y cynnydd yn yr ardoll yn esgor ar leihad yn y galw (oddi mewn i ardal yr astudiaeth), sy'n arwain at ostyngiad yng nghyfanswm gwariant y trip (hefyd yn ardal yr astudiaeth). Gallai hyn ddigwydd gan nad yw pobl yn ymweld ag ardal yr astudiaeth, neu gan eu bod yn ymweld ag ardal yr astudiaeth am gyfnod byrrach, o ganlyniad i'r ardoll.
- 3.16 Yna, mae'r model yn defnyddio tablau Mewnbwn-Allbwn i bennu effaith debygol Economi Cymru.

ii. *Caiff yr holl ardoll ei hamsugno gan fusnesau*

- 3.17 Mae'r senario hon yn rhagdybio na ddaw unrhyw newid i ran nifer yr ymwelwyr na maint y refeniw, ac y bydd busnesau'n amsugno'r holl gostau. Mae'r adroddiad yn rhagdybio na cheir newidiadau'n ymwneud â'r cyflenwad – h.y. na fydd busnesau'n gadael y farchnad neu'n cael eu datgymell rhag ymuno â'r farchnad yn y dyfodol; yn hytrach, cymerir yr ardoll o allbwn y busnesau.
- 3.18 Rhagdybir na fydd swyddi'n cael eu colli, ac mai'r unig beth a welir fydd gostyngiad mewn cyflogau (ac elfennau eraill yn ymwneud â'r allbwn). Mae hyn yn debygol o danamcanu nifer y swyddi a gollir – mewn gwirionedd, byddai colli refeniw yn arwain at ostyngiad yn nifer y staff yn ogystal â gostyngiad mewn cyflogau.

Problemau ac Amodau

- 3.19 Mae'r adroddiad ei hun yn nodi amodau hollbwysig:

- **Ansicrwydd ynghylch elastigedd prisiau:** Fel y nodir uchod, ceir cryn ansicrwydd mewn perthynas ag elastigeddau – mae hyn yn wir ar lefel Cymru, a bydd yn fwy aciwt fyth yn achos ardaloedd llai.
- **Cyflenwad llety:** Fel y nodir uchod, nid yw'r model yn ystyried newidiadau yn y cyflenwad, megis darparwyr yn gadael y farchnad oherwydd yr ardoll.
- **Rhagdybiaethau trosglwyddo:** Fel y nodir uchod, mae'r adroddiad yn asesu ystodau'r effaith debygol trwy asesu'r effaith pe bai'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i ymwelwyr neu'n cael ei hamsugno gan fusnesau – nid yw'n asesu i ba raddau y mae'r elfennau hyn yn fwy neu'n llai tebygol o ddigwydd.
- 7.2 Rydym wedi anelu at atgynhyrchu'r dulliau arfarnu a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan geisio sicrhau eu bod yn berthnasol ar lefel leol pan fo modd, ac rydym wedi cynnwys rhagdybiaethau ac amodau mewn modd tryloyw. Hefyd, rydym wedi ychwanegu profion sensitifrwydd a gwiriadau synnwyr er mwyn gwella trylwyrdd yr arfarniad.
- 7.3 Er gwaethaf yr amodau sy'n gysylltiedig â'r fethodoleg a'r sylfaen dystiolaeth, rydym yn hyderus mai effaith gymharol fach a fyddai'n dod i ran Ynys Môn – mewn perthynas â'r effaith ar gyflogaeth a'r effaith ar Werth Ychwanegol Gros blyneddol.
- 7.4 Hyd yn oed gyda rhagdybiaethau ceidwadol (h.y. rhagdybiaethau sydd, o bosibl, yn goramcanu'r effaith negyddol), rhagwelwn y canlynol:
- O ran cyflogaeth, newid sy'n amrywio o -31 i +7 o swyddi – sef rhwng colled o -0.17% a chynnydd o 0.04% mewn cyflogaeth yn Ynys Môn.
 - O ran Gwerth Ychwanegol Gros blyneddol, newid sy'n amrywio o -£2.1m i +£0.09m – sef rhwng colled o -0.14% a chynnydd o 0.01% yn economi Ynys Môn.

Tabl 7.1: Crynodeb o'r effeithiau tebygol

			Ystod debygol
Cyflogaeth	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr)	Swyddi cyfwerth h ag amser llawn	-31 i -5
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r ardoll)	Swyddi cyfwerth h ag amser llawn	6-7
	Ystod gyfunol	Swyddi cyfwerth h ag amser llawn	-31 i +7
Gwerth Ychwanegol Gros blyneddol (£m)	Dull amodol Ynys Môn (trosglwyddo'r Ardoll i ymwelwyr)		-£0.8 i +£0.09m
	Dull amodol Ynys Môn (busnesau'n amsugno'r Ardoll) – Adran 5		-£2.1m
	Ystod gyfunol		-£2.1m i +£0.09m

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	22/09/2026
Pwnc:	Newid i gasgliadau ailgylchu a gwastraff
Aelod(au) portffolio:	Cynghorydd Ieuan Williams
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Huw Percy Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Awdur yr adroddiad:	Lois Jones, Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff / Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Aelodau lleol:	Pawb

A – Argymhellion a rhesymau

Argymhellion:

- Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy gasglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240litr presennol, o 2029.
- Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu erbyn 2029 drwy:
 - gasglu cardfwrdd a phapur gyda'u gilydd yn y bocs top y trolibocs.
 - gynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd ac/ neu plastig caled a chaniau ychwanegol
- Cyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio.
- Cynnal ymchwil i ymestyn y deunydd sy'n cael ei gasglu i'w ailgylchu i gynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill.
- Symud ymlaen i ddatblygu a cyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid i Llywodraeth Cymru.

Cefndir:

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn ymrwmo i sefydlu cyfradd ailgylchu gwastraff cartref o 70% ac yn cyd fynd gyda'r rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu hynny erbyn 2024/25 a Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu y Cyngor. Gall methu â chyrraedd targedau ailgylchu arwain at ddirwy gan Lywodraeth Cymru o £200 y tunnell am pob tunnell o dan y targed.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Glasbrint Casgliadau yn 2025 sy'n argymell cyfyngu casgliad gwastraff gweddilliol i 60l yr wythnos. Mae hyn yn cyd-fynd â prif argymhelliad WRAP Cymru ar sut gall y Cyngor gyrraedd y targed o 70% ar sail y syniad bod cyfyngu'r cyfaint gwastraff gweddilliol yn gorfodi bobl i ailgylchu mwy

65% oedd cyfradd ailgylchu Ynys Môn ar gyfer 2024/25 ac mae'n ymddengys fod cyfradd 2025/26 ychydig yn is. Pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu dirwyo'r Cyngor am beidio a chyrraedd y targed yn 2024/25 a 2025/26 byddai'r dirwy tua £800k. Bu'r Llywodraeth Cymru blaenorol nodi eu bod yn ystyried cynlluniau Awdurdodau Lleol ar gyfer cyrraedd y targed fel sail i benderfynu os yw'n addas dirwyo ac fel sail i gynnig grantiau i gyflwyno newidiadau i gyrraedd y targed. Yn ddiweddar mae'r Gweinidog presennol wedi ysgrifennu mewn ffordd tebyg at yr Arweinydd mewn perthynas a methiant y Cyngor i gyrraedd targed 2024/25.

Yn Ionawr a Chwefror 2026 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 'Newidiadau Posib i Wasanaeth Casglu Ailgylchu a Gwastraff ar Ynys Môn. Derbyniwyd dros 4,000 o ymatebion o led led yr Ynys. Mae'r adroddiad llawn o allbwn yr ymgynghoriad i weld yn Atodiad 1 ond dyma grynodedb:

- 65% o'r ymatebion o aelwydydd o 3 neu llai o bobl
- 4% o'r ymatebion o aelwydydd o 6 neu fwy, sef y rhai sydd â hawl i fin mwy (360l ar hyn o bryd)
- 64% o'r ymatebion wedi eu cwblhau gan unigolion rhwng 35 a 64 oed.
- 76% yn cytuno'n gryf/ cytuno bod cyflawni'r targed ailgylchu ar Ynys Môn yn bwysig.
- 60% yn cytuno yn gryf/ cytuno bod ailgylchu gartref yn hawdd ond 24% yn anghytuno/ anghytuno'n gryf.
- 80% yn gwrthwynebu'n gryf/ gwrthwynebu newid y casgliadau biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos.
- 69% yn cytuno'n gryf/ cytuno y byddai opsiynau storio ychwanegol yn eu helpu i ailgylchu mwy gyda 23% yn nodi bod cynwysyddion gwastraff yn rhy fach
- Dadansoddiad o ddefnydd y trolibocs a'r biniau ailgylchu bwyd a du:

	Blwch Uchaf (papur)	Blwch canol (plastig, caniau)	Blwch gwaelod (gwydr, cardfwrdd)	Bin bwyd	Bin du
Dim ateb	0%	0%	0%	1%	0%
Llawyn cyn diwrnod casglu	18%	51%	53%	15%	51%
Llawyn	11%	30%	29%	23%	25%
Tri chwarter llawyn	9%	10%	9%	14%	12%
Hanner Llawyn	16%	6%	5%	14%	8%
Chwarter llawyn neu lai	34%	1%	2%	6%	4%
Dim yn ei ddefnyddio	11%	1%	1%	27%	0%

- 8% am weld mwy o ddeunyddiau ailgylchu ychwanegol (e.e. plastig meddal) yn cael eu casglu wrth y stepen drws.

Rhesymau dros yr argymhellion:

- 76% yn cytuno bod cyrraedd y targed ailgylchu o 70% yn bwysig. Yr unig ffordd i gau y bwlch presennol o tua 5% yw lleihau'r cyfaint gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu. Mae hyn yn cyd fynd gyda amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28 mewn perthynas a Newid Hinsawdd, y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024-2029, y Cynllun Strategol Sero Net, a gofyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
- Mae dau opsiwn i leihau'r cyfaint gwastraff gweddilliol sydd cael ei anfon i gyfleuster Ynni o Wastraff, Barc Adfer, sef casglu yn llai aml, neu cyfyngu faint sy'n cael ei gasglu. Mae Swyddogion Rheoli Gwastraff a'r contractwr casglu yn ffafrio casglu yn llai aml. Mae'r gwaith modelu cychwynnol yn cadarnhau bod modd symud staff casglu gwastraff gweddilliol i'r gwasanaeth ailgylchu os am newid amllder y casglu i bob 4 wythnos, ac mae hyn hefyd yn osgoi'r angen i fuddsoddi tua £1.1M am finiau 180l newydd a chael gwared o'r hen finiau. Ond gan fod 80% yn gwrthwynebu newid amllder casglu'r bin du, yr argymhelliad yw i leihau'r cyfaint a pharhau i gasglu'r bin du pob 3 wythnos ond darparu biniau du llai. Mi fyddai'r hen finiau yn cael eu ailgylchu

drwy gyfuniad o gael eu ail pwrpasu ac eu torri fynnu i greu deunydd newydd yn yr un modd a plastig caled arall.

- Os yw cyfaint y gwastraff gweddilliol yn cael ei leihau, mae'n hanfodol cynyddu'r gofod sydd ar gael ar gyfer ailgylchu. Mae hyn yn cyd-fynd gyda 69% o'r ymatebion a nododd eu bod yn cytuno y byddai opsiynau storio ychwanegol yn eu helpu i ailgylchu mwy. Byddai darparu cynhwysyddion ychwanegol ar gyfer cardfwrdd a papur ac / neu caniau a plastig yn rhoi mwy o ofod ailgylchu i'r aelwydydd sy'n dymuno eu derbyn.
- Drwy gyflwyno mwy o gyfleon i ailgylchu gall cyfaint y gwastraff a all gael ei ailgylchu, ond sy'n cael ei rhoi'n y bin du, leihau. Mae sawl Cyngor yng Nghymru wedi cadarnhau bod o'u profiad nhw mae lleihau cyfaint y bin du wedi arwain at drigolion ailgylchu mwy a bod trigolion yn addasu'n sydyn i'r newid. Mae cyfyngu ar y cyfaint gwastraff gweddilliol hefyd yn arwain at fwy o ailgylchu bwyd, sydd ar lefel isel ym Môn ar hyn o bryd.
- 76% wedi nodi bod eu bin du yn llawn ar neu cyn diwrnod casglu ond mae ymchwil yn nodi bod bosib ailgylchu 80% o wastraff y cartref. Yn ôl ymchwil i gyfansoddiad gwastraff Ynys Môn mae'r bin du yn cynnwys 16% o ailgylchu sych, 27% gwastraff bwyd, 2% gwastraff gwyrdd a 7% o ddeunyddiau a all gael eu hailgylchu drwy'r canolfannau ailgylchu. Mae hyn yn awgrymu bod trigolion ddim yn ailgylchu popeth y gallent.
- 80% yn nodi fod bocs canol (caniau a plastig) ac / neu waelod (gwydr a cardbord) yn llawn ar neu cyn ddiwrnod casglu, a dim ond 29% yn nodi bod eu bocs top (papur) yn llawn ar neu cyn diwrnod casglu. Gall casglu papur a chardfwrdd gyda'u gilydd yn y bocs top wneud gwell ddefnydd o'r gofod sydd ar gael yn y trolibocs ac hefyd gwneud casglu'n haws i'r contractwr casglu gan bod dim rhaid iddynt wahanu'r cardfwrdd a'r gwydr. Ni fyddai casglu papur a chardfwrdd gyda'u gilydd yn cael effaith sylweddol ar y pris mae'r Cyngor yn dderbyn wrth eu gwerthu'n eu blaen.
- Fel a nodwyd eisoes, mae ymchwil yn awgrymu bod trigolion ddim yn ailgylchu popeth y gallent. Drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trigolion ar gyfer ailgylchu gall cyfaint y gwastraff a all gael ei ailgylchu, ond sy'n cael ei rhoi'n y bin du leihau. Mae'r 27% a nododd nad ydynt yn defnyddio'r bin bwyd yn enghraifft o lle gall ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trigolion gael effaith ar y cyfradd ailgylchu.
- 8% am weld mwy o ddeunyddiau (e.e. plastig meddal) yn cael eu casglu wrth y stepen drws. Mae Glasbriant Casgliadau Llywodraeth Cymru 2025 yn nodi'r angen i ystyried y gofyniad arfaethedig y pecyn Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (pEPR) i gasglu plastig meddal wrth y stepen drws o 2027 ymlaen. Ystyrir yn amserol felly i ymchwilio i sut y gall deunyddiau ychwanegol gael eu casglu a'u prosesu wrth ystyried unrhyw newid arall i'r trefniadau casglu.

Nodir bod hyn yn benderfyniad hir dymor ac ei fod yn annhebygol y gall unrhyw newid i'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu ar y ddaear ddigwydd am tua 3mlynedd wedi i benderfyniad gael ei gymryd. Mae hyn oherwydd bod angen cwblhau cais am arian cyfalaf, creu dyluniadau cysyniad a manwl ar gyfer uwchraddio isadeiledd canolfannau ailgylchu a gwastraff, ceisio a derbyn caniatâd cynllunio, gwaith adeiladu, a cymeradwyo trwyddedau. Bydd hefyd angen a pwrcasu a dosbarthu cynhwysyddion ailgylchu/ gwastraff a cherbydau ychwanegol i'r fflyd gan y disgwylir i'r tunelli sy'n cael eu casglu ar y stepen drws gynyddu wrth i gyfaint wythnosol y bin du leihau. Er bod modd cyflwyno symud cardfwrdd i gael ei gasglu gyda phapur yng hynt, mae WRAP Cymru yn argymhell gwneud yr holl newidiadau sy'n ynghlwm ar newid i'r gwasanaeth yr un pryd gan bydd yn lleihau risg o fethu ymdopi gyda'r ailgylchu ychwanegol (cerbydau a prosesu) ac yn hwyluso'r newid i'r cwsmer drwy gael un cynllun cyfathrebu clir.

O ran cytundebau, mi fyddai angen cytuno amrywiad i'r cytundeb casglu gyda'r contractwr ac ystyried effeithiau ariannol ar y cytundeb gyda Parc Adfer, gan fod yno isafswm pris o fewn y gytundeb hynny a gall lleihau y cyfaint o wastraff gweddilliol sy'n mynd yno olygu bod y Cyngor yn talu mwy am waredu o llai. Mae'r cytundeb casglu cyfredol yn dod i ben 31/03/2029 ond mae opsiwn i ymestyn y cytundeb hynny am hyd at 8mlynedd ychwanegol. Barn swyddogion yw fod yn hanfodol sicrhau bod yno gytundeb cadarn a sefydlog ar waith am gyfnod cyn, yn ystod ac wedi cyflwyno unrhyw newid i'r trefniadau casglu. Byddai ceisio caffael cytundeb newydd ar yr un pryd a chyflwyno newidiadau yn risg sylweddol i barhad busnes casgliadau gwastraff.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae dau prif opsiwn wedi ei ystyried ac wedi ei diystyru, sef:

- Lleihau'r cyfaint drwy gasglu'r biniau du 240 litr presennol bob 4 wythnos
 - 80% o'r ymatebion yn gwrthwynebu'n gryf/ gwrthwynebu newid y casgliadau biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos.
- Gwneud dim a derbyn y dirwy blyneddol gan Llywodraeth Cymru.
 - Mae peidio a chael cynllun credadwy i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% yn golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cais am gyllid sylweddol i uwchraddio'r canolfannau ailgylchu a gwastraff a di-carboneiddio'r fflyd ac yn dirwyo
 - Ddim yn gyson gyda Cynllun y Cyngor.
 - Byddai angen i'r Cyngor gyllido gwaith gwerth £10-12m ar welliannau i gadw'r canolfannau ailgylchu yn gweithio. Nid yw grant tuag at hyn yn debygol, heb ymrwymiad i gynyddu cyfraddau ailgylchu ac felly byddai gwaith arferol casglu ailgylchu a gwastraff ar risg.

Nodir bod Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai ailgylchu gael ei wahanu allan cyn iddo gael ei gasglu. Felly nid yw casglu'r ailgylchu i gyd mewn un cynhwysydd a'i rannu allan wrth ei brosesu wedi ei ystyried fel opsiwn.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Byddai cyflwyno newid sylweddol i'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn effeithio ar pob cartref ac yn golygu buddsoddiad sydd tu hwnt i'r hyn mae swyddogion yn medru ei awdurdodi.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Bydd cymeradwyo'r argymhellion uchod yn sicrhau cydgysylltiad â Amcan Newid Hinsawdd Cynllun y Cyngor 2023-28 i sefydlu cyfradd ailgylchu gwastraff cartref o 70% a Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024-29. Mae hefyd yn gyson gyda Cynllun Strategol Sero Net y Cyngor a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae Swyddogion yn datblygu cais am arian cyfalaf sylweddol i Lywodraeth Cymru, gyda'r Asesiad Prosiect Strategol Cychwynnol a gyflwynwyd wedi ei gymeradwyo i symud i'r cam nesaf sef paratoi Achos Busnes Amlinellol. Mae'r cais o tua £24m yn cynnwys cefnogaeth i ddatblygu cynlluniau ailddefnyddio, gweithredu newid sylweddol i gasgliadau wrth y stepen drws (£4m), gwelliannau i isadeiledd y safleoedd ailgylchu/ gwastraff (£15m) a newid y fflyd casglu ailgylchu/ gwastraff o ddisel i drydan (£5m). Nodwyd fod newid y fflyd yn fater ar wahân i newid trefniadau casglu ailgylchu a gwastraff ond yn gysylltiedig.

Bydd gwaith modelu ariannol mwy manwl yn cael ei baratoi yn y cam Achos Busnes Amlinellol a bydd gwell dealltwriaeth o ran anghenion cyllidol.

Bu'r Llywodraeth Cymru blaenorol ddatgan bod yn debygol y gall Llywodraeth Cymru ariannu oddeutu 60% o'r costau pe bai'r Cyngor yn cyflwyno cais ond byddai rhaid i'r cais hynny ddangos ymrwymiad i gynllun clir i gyrraedd cyfradd ailgylchu o o leiaf 70%.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Bydd y newidiadau yn effeithio ar bob cartref ar yr Ynys, trwy leihau cyfaint y bin du a rhoi mwy o ofod i'r ailgylchu ac yn cyfrannu tuag at nod y Cyngor i ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd. Mae'r nifer o elfennau eraill yn ynghlwm a'r newid fel nodir uchod a bydd y buddsoddiad yn siapio/ paratoi'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, diogelu'r gallu i barhau i gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd, a gwneud Ynys Môn yn le gwell i cenedlaethau'r dyfodol fyw.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Bydd gwaith modelu ariannol mwy manwl yn cael ei baratoi yn y cam Achos Busnes Amlinellol ond mae'n cael ei rhagweld y bydd angen buddsoddiad ariannol o tua £24m os am wireddu'r newid. Fel a nodwyd, mae cadarnhau bwriad i gyflwyno'r newid yn dangos i Llywodraeth Cymru bod ymrwymiad i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%, sydd yn ei hun yn rhoi cyfle i rhoi cais i Llywodraeth Cymru am gyllid sylweddol. Ar sail y cyllideb oedd y Llywodraeth Cymru blaenorol yn ddatgan, byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido oddeutu £14.4m a'r Cyngor yn cyllido oddeutu £9.6m o'r £24m.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd angen buddsoddi rhwng £10m a £12m er mwyn cadw canolfannau prosesu gwastraff y Cyngor i weithredu'n effeithiol dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn er mwyn diweddarau cydrannau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac i ymateb i Anghenion Deddfwriaethol newydd. Byddai bwrw ymlaen gyda'r argymhelliad yn cynnig cyfle am arian grant sylweddol tuag at y gwaith yma o ddiogelu busnes fel arfer. Nid yw y grant ar gael oni bai y bydd y Cyngor yn gallu dangos llwybr clir i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.

Derbyniwyd incwm EPR o £2.282m yn 2025/26 a disgwylir y bydd y Cyngor yn parhau i dderbyn arian EPR ar raddfa tebyg dros y 5 mlynedd nesaf. Os felly, arian sylweddol wrth gefn i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol mewn perthynas a unrhyw grant gan

Llywodraeth Cymru neu i'r Cyngor fuddsoddi yn ei safleoedd gwastraff pe bai grant ddim yn cael ei dderbyn.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.

Llywodraeth Cymru, WRAP Cymru a Local Partnerships.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y newid posib i'r gwasanaeth wedi cael ei gwblhau a mae'r ymateb yn sail i'r argymhelliad.

Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal gyda'r Fforwm Plant a Pobl Ifanc gan ma cenedlaethau'r dyfodol bydd yn elwa o neu'n dioddef sgil effeithiau'r penderfyniad.

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cafodd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ei gwblhau cyn cyfnod yr ymgynghoriad ar sail cadw biniau 240l a'u casglu pob 4 wythnos.

Y prif effaith negyddol a nodwyd yn yr asesiad hynny oedd y byddai'r biniau du yn drymach a fwy llawn ac yn effeithio grwpiau gwarchodedig oedran ac anabledd. Gellir leihau'r effaith yma drwy'r gwasanaeth cymorth casglu a drwy defnyddio biniau llai.

Gall mynediad at wybodaeth am newid yn y gwasanaeth fod yn anoddach i bobl sydd a nam ar y golwg neu iechyd meddwl ac i'r rhai nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith cyntaf (grwpiau gwarchodedig anabledd a hil / ethnigrwydd / cenedligrwydd). Gellir lleihau'r effaith yma trwy baratoi Cynllun Cyfathrebu clir.

Mae'r asesiad effaith wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu newid y bin i rhai 180l a'u casglu pob 3 wythnos. Nid oes effaith negyddol wedi ei adnabod o ran y newid hyn ond mae'r asesiad effaith yn nodi y gall y gofyn i symud cynhwysyddion ychwanegol gael effaith negyddol ar unigolion sydd â anabledd neu yn feichiog..Lle mae'r aelwyd yn gymwys, gall yr effaith hyn gael ei liniaru drwy dansgriio i'r gwasanaeth cymorth casglu.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid oes unrhyw effaith sy'n profi anfantais economaidd- gymdeithasol wedi ei adnabod.

Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad hwn os bydd yr argymhellion hynny'n cael ei derbyn.

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oes unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg wedi ei adnabod.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Yn gefnogol o'r argymhellion
2. Cyllid / Swyddog 151	Yn gefnogol o'r argymhellion
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Yn gefnogol o'r argymhellion
4. Adnoddau Dynol	Dim yn berthnasol
5. Eiddo	Dim yn berthnasol
6. Technoleg Gwybodaeth	Dim yn berthnasol
7. Caffael	Dim yn berthnasol
8. Sgriwtini	
9. Aelodau lleol	

F – Atodiadau

1. Adroddiad Canlyniad yr Ymgynghoriad
2. Asesiad Effaith

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 [Cynllun-y-Cyngor-2023-i-2028.pdf](#)
 Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024 i 2029 [Cynllun-Strategol-Adnoddau-a-Gwastraff-2024-i-2029.pdf](#)
 Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith Rhagfyr 2025 ar Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff [Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff.pdf](#)
 Adroddiad modelu WRAP Cymru Hydref 2022 [Adroddiad Modelu WRAP Cymru Hydref 2022 \(Saesneg yn unig\).pdf](#)
 Wales National Waste Composition Initial Results – Medi 2022 [Wales National Waste Composition Initial Result- Medi 2022 \(Saesneg yn unig\).pdf](#)
 Isle of Anglesey Container Trial Evaluation Report – Gorffennaf 2024 [Isle of Anglesey Container Trial Evaluation Report- Gorffennaf 2024 \(Saesneg yn Unig\).pdf](#)
 Review of Waste Management Infrastructure in Anglesey – Hydref 2024 [Review of Waste Management Infrastructure in Anglesey- Hydref 2024 \(Saesneg yn unig\).pdf](#)
 Cais ISPA – Ionawr 2026 [Cais ISPA- Ionawr 2026 \(Saesneg yn unig\).pdf](#)
 Infograffeg cyfansoddiad bin gweddilliol Ynys Môn [Infograffeg cyfansoddiad bin gweddillion Ynys Mon.pdf](#)

Ymgynghoriad ar Newidiadau Posibl i Wasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Ynys Môn

Dadansoddiad o Ymatebion

Dyddiad yr ymchwil: Ebrill 2026
Cod y prosiect: COL200-095



Ynglŷn â WRAP

Corff anllywodraethol gweithredu amgylcheddol byd-eang yw WRAP, sy'n trawsnewid ein systemau nwyddau a bwyd i greu Ffordd Gylchol o Fyw. Rydym yn archwilio heriau cynaliadwyedd drwy lens bywydau beunyddiol pobl. Rydym yn trawsnewid y systemau sy'n cyflenwi'r nwyddau a ddefnyddiwn. Rydym yn gweithio fel catalydd i weithredu gan lunwyr polisïau, busnesau, sefydliadau anllywodraethol a dinasyddion i wireddu hyn.

Cyfeirnod y ddogfen

COL200-095

Ymgynghoriad ar Newidiadau Posibl i Wasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Ynys Môn

Ysgrifennwyd gan

Circular Resource Specialists (CRS) Ltd

Ymwadiad: Er ein bod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr adroddiad hwn yn gywir, nid yw WRAP yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, cost, neu draul a achosir neu sy'n deillio o ddibynnu ar yr adroddiad hwn. Mae darllenwyr yn gyfrifol am asesu cywirdeb a chasgliadau cynnwys yr adroddiad hwn. Mae dyfyniadau ac astudiaethau achos wedi'u tynnu o'r parth cyhoeddus, a gofynnwyd am ganiatâd lle bo hynny'n ymarferol. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli cefnogaeth i'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd ac nid yw wedi'i gymeradwyo gan y sefydliadau a'r unigolion sy'n rhan ohono. Mae'r deunydd hwn yn destun hawlfraint. Cewch ei gopïo am ddim a gallwch ddefnyddio dyfyniadau ohono ar yr amod nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol, a rhaid i chi nodi ffynhonnell y deunydd a chydabod hawlfraint WRAP. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r adroddiad hwn na'r deunydd ohono i gymeradwyo neu awgrymu bod WRAP wedi cymeradwyo cynnyrch neu wasanaeth masnachol.

I gael rhagor o fanylion, gweler telerau ac amodau WRAP ar ein gwefan yma www.wrap.ngo

Tabl Cynnwys

1.0 Crynodeb Gweithredol	5
2.0 Crynodeb	7
2.1 Trosolwg	7
3.0 Dull Dadansoddol	8
3.1 Camddefnydd	8
3.2 Methodoleg a Chategoreiddio	9
4.0 Cwestiynau ac Ymatebion	10
4.1 Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig"?	10
4.2 Cwestiwn 2: Pam ydych chi'n teimlo nad yw'n bwysig cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn?	10
4.3 Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae ailgylchu gartref yn hawdd"?	12
4.4 Cwestiwn 4: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu?	12
4.5 Cwestiwn 5: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu?	15
4.6 Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy"	18
4.7 Cwestiwn 7: Pam ydych chi'n teimlo na fydddech chi'n ailgylchu mwy pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu opsiynau storio ychwanegol i chi ar gyfer eich ailgylchu?	19
4.8 Cwestiwn 8: Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos?	20
4.9 Cwestiwn 9: Pam ydych chi'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos?	20
4.9.1 Dadansoddiad Ystod Oedran	22
4.10 Cwestiwn 10: Dywedwch wrthym am unrhyw bryderon, awgrymiadau neu amgylchiadau cartref a allai effeithio ar sut rydych chi'n ailgylchu a rheoli gwastraff.	23

4.11 Cwestiwn 11: Beth yw eich cod post? Mae hyn yn ein helpu i ddeall gwahanol dueddiadau mewn gwahanol rannau o Ynys Môn.	24
4.12 Cwestiwn 12: Faint o bobl sy'n byw yn eich cyfeiriad?	25
4.13 Cwestiwn 13: Beth yw eich ystod oedran?	27
4.14 Cwestiwn 14: Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn? Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi.	29
4.15 Cwestiwn 15: Ydych chi'n credu y byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff yn effeithio ar y Gymraeg?	30

1.0 Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn 2026 ynghylch newidiadau posibl i wasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu cartrefi. Rhoddodd cyfanswm o 4,177 o gyfranogwyr ymatebion meintiol ac ansoddol i gyfres o 15 cwestiwn.

Roedd y dull dadansoddol yn cynnwys asesiad meintiol a chategoreiddio thematig o ymatebion testun agored. Cynhaliwyd adolygiad hefyd i asesu cyflwyniadau dyblyg neu anarferol posibl, ond ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddefnydd eang.

At ei gilydd, mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i ailgylchu a chyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol, ond gwrthwynebiad i gynigion i leihau amllder casglu gwastraff gweddilliol o bob tair wythnos i bob pedair wythnos. Nododd ymatebwyr bryderon yn ymwneud â chapasiti gwastraff gweddilliol, maint cynwysyddion ailgylchu, maint aelwydydd, hylendid, plâu, ac ymarferoldeb storio gwastraff am gyfnodau hwy. Ar draws y cwestiynau, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y capasiti ailgylchu presennol yn annigonol. Ar yr un pryd, nododd cyfran o'r ymatebwyr y gallai mwy o gapasiti storio ailgylchu neu ehangu gwasanaethau ailgylchu helpu i wella perfformiad ailgylchu.

Dangosodd data demograffig a gasglwyd fel rhan o'r arolwg fod aelwydydd mwy ac ymatebwyr 35-64 oed wedi'u gorgynrychioli yn yr ymatebion ymgynghori o'i gymharu â phoblogaeth ehangach Ynys Môn, ac roedd oedolion iau ac aelwydydd un person wedi'u tangynrychioli. Nododd y dadansoddiad gysylltiadau cyson rhwng oedran a phatrymau cynhyrchu gwastraff, gyda'r ymatebwyr iau yn fwy tebygol o sôn am gynwysyddion ailgylchu a gwastraff gweddilliol mwy llawn. Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o godi pryderon ynghylch hylendid ac ymarferoldeb cyfnodau hwy rhwng casgliadau.

Canfu'r ymgynghoriad fod 76% o'r ymatebwyr yn cytuno bod cyflawni targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru yn bwysig, gan ddangos cefnogaeth eang i amcanion amgylcheddol. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, y prif resymau oedd blaenoriaethau personol cystadleuol, amheuaeth ynghylch polisi cenedlaethol, amheuan ynghylch effaith ailgylchu ar newid hinsawdd, a chanfyddiadau bod newidiadau i wasanaethau yn bennaf dan gymhelliad ariannol.

Er bod 60% o'r ymatebwyr wedi nodi bod ailgylchu gartref yn hawdd, roedd bron i chwarter yn anghytuno. Y rhwystrau a adroddwyd amlaf oedd diffyg lle a chapasiti annigonol mewn cynwysyddion ailgylchu. Gofynnwyd droeon hefyd am gasglu deunyddiau ychwanegol ar garreg y drws, yn enwedig ffilm blastig, batris a thecstilau.

Dangosodd dadansoddiad llawnder cynwysyddion gyfraddau defnyddio uchel ar gyfer cynwysyddion ailgylchu a gwastraff gweddilliol. Dywedodd dros 80% o'r ymatebwyr fod blychau ailgylchu plastigion/caniau a gwydr/cardbord yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu, ac fe nododd 76% yr un peth am finiau gwastraff gweddilliol. Daeth llawer o'r ymatebion hyn gan aelwydydd sy'n cynnwys tri neu lai o breswylwyr, sy'n awgrymu nad yw pryderon ynghylch capasiti wedi'u cyfyngu i aelwydydd mwy yn unig.

Nododd yr ymgynghoriad gefnogaeth gref i gynyddu'r ddarpariaeth storio ailgylchu, gyda 69% yn nodi y byddent yn ailgylchu mwy pe bai opsiynau storio ychwanegol ar gael.

Roedd 80% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu neu'n gwrthwynebu'n gryf i'r cynnig i symud o gasgliadau gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos i bob 4 wythnos, gyda 10% yn mynegi cefnogaeth. Pryder a godwyd gan hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn agored cysylltiedig oedd bod aelwydydd eisoes yn cynhyrchu gormod o wastraff gweddilliol i'w reoli o fewn yr amllder casglu arfaethedig. Roedd pryderon ychwanegol yn cynnwys aelwydydd mwy, mwy o dipio anghyfreithlon, problemau hylendid, plâu, a chapasiti ailgylchu annigonol. Cynyddodd pryderon ynghylch cyfnodau casglu hirach a hylendid gydag oedran, ac roedd ymatebwyr canol oed yn fwy tebygol o nodi maint yr aelwyd a chyfaint y gwastraff fel rhwystrau allweddol.

Yn olaf, archwiliodd yr ymgynghoriad a allai newidiadau i wasanaethau gwastraff effeithio ar y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai ychydig iawn o effaith fyddai'n ei chael, neu ddim effaith o gwbl. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai bwysigrwydd cynnal cyfathrebu dwyieithog, argaeledd gwasanaeth yn Gymraeg, a darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Nododd nifer fach effeithiau anuniongyrchol yn ymwneud â rhyngweithio cymunedol, cyflogaeth, neu newid demograffig ehangach.

2.0 Crynodeb

2.1 Trosolwg

Er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru a dangos ei uchelgais ar gyfer ei seilwaith ailgylchu a gwastraff yn y sir, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) Arfarniad Opsiynau manwl yn 2024. Asesodd yr asesiad hwn y dull sy'n perfformio orau ac sy'n fwyaf cost-effeithiol ar gyfer cynyddu faint o ailgylchu sych a gwastraff bwyd sy'n cael ei gasglu yn ei gasgliadau ar garreg y drws. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i amlder/capasiti casglu gwastraff gweddilliol.

Ar ddechrau 2026, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ar y camau gweithredu a nodwyd yn yr arfarniad opsiynau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pymtheg cwestiwn a oedd yn casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol gan gyfranogwyr. Derbyniwyd cyfanswm o 4,177 o ymatebion. Mae'r ddogfen ganlynol yn cyflwyno'r canlyniadau a'r prif ganfyddiadau.

Roedd yr ymgynghoriad ei hun yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau, ac roedd rhai ohonynt yn caniatáu i ymatebwyr gynnwys eu meddyliau a'u materion eu hunain. Yn yr achosion hyn, mae'r ymatebion wedi cael eu hasesu a'u grwpio yn ôl themâu cyffredin.

3.0 Dull Dadansoddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull dadansoddi, gan gynnwys adolygiad o ansawdd a chynrychioldeb yr ymatebion ochr yn ochr â chategoreiddio data meintiol ac ansoddol i wneud allbynnau ystyrlon yn bosibl.

3.1 Camddefnydd

Cynhaliwyd adolygiad o uniondeb data i asesu a oedd unrhyw ymatebwyr wedi cyflwyno sawl cofnod i'r ymgynghoriad. Archwiliodd yr adolygiad yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad am gyflwyniadau dyblyg neu anarferol posibl gan ddefnyddio cyfuniad o:

- dadansoddiad o'r un cyfeiriad IP dro ar ôl tro;
- cyfuniadau ailadroddus o godau post a chyfeiriadau IP;
- adolygiad o batrymau stamp amser;
- cymharu cyflwyniadau dro ar ôl tro o'r un ffynhonnell ar amseroedd wedi'u clystyru'n agos at ei gilydd; a
- cymhariaeth o debygrwydd testun rhydd a phatrwm ymateb ar draws cofnodion a allai fod yn gysylltiedig.

Nodwyd nifer fach o glystyrau IP/cod post ailadroddus a'u harchwilio'n agosach. Cynhaliwyd adolygiad llaw ychwanegol o'r rhain i asesu a oeddent yn dynodi cyflwyniadau dyblyg bwriadol ynteu ymatebion lluosog dilys o'r un aelwyd neu gysylltiad rhyngrwyd a rennir. Canfu'r dadansoddiad:

- dim tystiolaeth o weithgarwch cyflwyno dyblyg neu dwyllodrus eang;
- dim cofnodion ymateb llawn wedi'u dyblygu'n union;
- dim achosion lle dangosodd cyflwyniadau dro ar ôl tro dystiolaeth gref o gynnwys ymateb wedi'i gopïo neu ei atgynhyrchu.

Mewn nifer gyfyngedig o achosion, tarddodd ymatebion lluosog o'r un cysylltiad rhyngrwyd aelwyd; fodd bynnag, dangosodd y rhain batrymau ymateb gwahanol iawn ac fe'u hystyrir yn fwy tebygol o gynrychioli ymatebwyr dilys ar wahân o fewn yr un aelwyd na gwyro bwriadol drwy ddyblygu.

3.2 Methodoleg a Chategoreiddio

Cafodd data meintiol o gwestiynau caeedig (gan gynnwys ymatebion ie/na, cwestiynau graddio, a dewisiadau yn seiliedig ar opsiynau) eu crynhoi a'u dadansoddi i gynhyrchu allbynnau cryno fel cyfrifon a chanrannau.

Adolygwyd ymatebion i gwestiynau ansoddol (penagored) yn fanwl. Ar gyfer pob cwestiwn, datblygwyd set strwythuredig o gategorïau i adlewyrchu'r themâu a'r materion allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr.

Dadansoddwyd y data meintiol a'r ymatebion ansoddol wedi'u categoreiddio, gyda siartiau, tablau a graffiau wedi'u cynhyrchu i gyflwyno'r canfyddiadau'n glir. Mae pob adran yn cynnwys crynodeb naratif i amlygu patrymau allweddol, tynnu sylw at naws wahanol, a darparu dehongliad yng nghyd-destun y strategaeth ddatblygol.

Pan fo'n berthnasol, cafodd themâu trawsbynciol a materion a nodwyd ar draws nifer o gwestiynau eu harchwilio'n fanylach, a darparwyd sylwebaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ystyried cysylltiadau â meysydd pwnc penodol a, phan fo'n briodol, amrywiadau yn ôl math o ymatebydd (er enghraifft, nodweddion demograffig).

Er hwylustod cyflwyno'r wybodaeth, mae rhai gwerthoedd canrannol wedi'u talgrynnu – ac felly gall rhai cyfansymiau fod yn hafal i +/- 1 pwynt canran i'r naill ochr a'r llall i 100%.


Defnyddio Arall / Amherthnasol wrth gategoreiddio

Yn ystod y broses o gategoreiddio'r cwestiynau agored, canfuwyd bod rhai sylwadau'n disgyn i ddau grŵp – 'Arall' ac 'Amherthnasol', a disgrifir y rhain isod ynghyd â'r dull o'u hintegreiddio yn y canlyniadau:

- **Arall:** dyma ymatebion sy'n berthnasol i wasanaethau/gweithgareddau gwastraff yn gyffredinol ond sydd naill ai'n rhy benodol neu'n rhy bersonol i'r ymatebydd, ac felly nid ydynt yn cyfiawnhau nac angen categori ar wahân. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain wedi'u grwpio a'u cynnwys yn y tablau dadansoddi.
- **Ddim yn berthnasol:** sylwadau yw'r rhain nad ydynt yn berthnasol i'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn na'r strategaeth wastraff yn gyffredinol. Mae'r niferoedd ar gyfer y rhain wedi'u cynnwys yn y tablau dadansoddi er mwyn cyflawnrwydd.

4.0 Cwestiynau ac Ymatebion

4.1 Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig"?



Ffigur 1: Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig

Dangosir nifer a chyfran yr ymatebion yn y ffigur uchod. Ymatebodd cyfanswm o 4,173 o bobl i'r cwestiwn hwn, ac roedd 76% ohonynt naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dim ond 7% oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ac nid oedd 17% yn cytuno nac yn anghytuno.

4.2 Cwestiwn 2: Pam ydych chi'n teimlo nad yw'n bwysig cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn?

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i Gwestiwn 1 gan ddatgan nad oeddent yn ystyried ei bod yn bwysig i Ynys Môn gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 70% nodi pam. Ymatebodd 300 o bobl i gwestiwn 1 gan ddweud eu bod naill ai'n anghytuno neu'n

anghytuno'n gryf bod cyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn bwysig – rhoddodd 272 o'r rheiny'r ymatebion canlynol ynghylch pam eu bod yn meddwl hyn:

Tabl 1: Sylwadau ar bwysigrwydd cyrraedd targedau ailgylchu

Categori	Cyfrif	%
Blaenoriaethau eraill	49	18%
Polisi cenedlaethol – amheuaeth	43	16%
Arall	40	15%
Ddim yn berthnasol	35	13%
Amheuaeth ynghylch yr effaith	21	8%
Effaith fyd-eang	20	7%
Polisi cenedlaethol	18	7%
Cymhelliad arbed cost	17	6%
Diffyg cyfrifoldeb/diddordeb personol	12	4%
Yn gwneud digon eisoes	8	3%
Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol	5	2%
Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu	4	1%

O'r ymatebion, dywedodd 18% eu bod yn teimlo bod ganddynt flaenoriaethau eraill, pwysicach yn eu bywydau na chyrraedd targedau ailgylchu.

Tynnodd 16% arall sylw at amheuaeth ynghylch dilysrwydd polisi cenedlaethol Cymru. Mynegodd llawer o'r rhain y farn bod targed o 70% yn ffigur mympwyol, ac nad oedd dewis y targed hwn yn seiliedig ar unrhyw ddata gwyddonol. Mae hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth gan ymatebwyr am yr ymchwil a'r dadansoddiad cyfansoddiadol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i ategu'r targedau ac ychwanegu cyfraniad at flaenoriaethau newid hinsawdd.

Rhoddodd 15% o bobl atebion penodol i amgylchiadau personol nad oeddent yn ffitio i unrhyw gategori diffiniedig ac maent wedi'u dosbarthu fel Arall, a rhoddodd 13% pellach atebion a oedd, er eu bod yn gysylltiedig â gwastraff ac ailgylchu, yn amherthnasol i'r cwestiwn penodol hwn.


Nododd 7% o'r ymatebion eu bod yn teimlo y byddai ailgylchu – ar lefel leol a Chymru gyfan – yn cael ychydig iawn o effaith ar fygythiad newid hinsawdd ar raddfa fyd-eang. Teimlai 7% arall fod angen newid polisi cenedlaethol – yn bennaf i leihau'r swm o becynwaith a chynyddu ailgylchadwyedd deunyddiau.

Dywedodd 6% mai er mwyn i CSYM gael arbed arian yn unig mae'r ymarfer hwn yn digwydd.

Nododd 4% nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ailgylchu, ac roedd 3% yn teimlo eu bod eisoes yn ailgylchu digon.

Roedd 2% yn teimlo y byddai math gwahanol o wasanaeth yn cefnogi cyrraedd targedau, ac roedd 1% eisiau gweld mwy o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu ar garreg y drws (ffilm blastig yn gyffredinol, y disgwylir i'r deunydd hwn gael ei gyflwyno fel rhan o bolisi cenedlaethol Cymru yn 2027).

4.3 Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae ailgylchu gartref yn hawdd"?



Ffigur 2: Mae ailgylchu gartref yn hawdd

Roedd 60% o bobl naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ailgylchu gartref yn hawdd. Teimlai 24% nad yw'n hawdd, ac roedd 14% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno.


4.4 Cwestiwn 4: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu?

Darparwyd yr ystod ganlynol o opsiynau i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ei chael yn anodd ailgylchu. Sylwer bod pobl yn gallu ymateb i fwy nag un o'r opsiynau.

Roedd Cwestiwn 4 yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer ymateb 'Ie' neu 'Na' (nodwch: ni chafodd cwestiwn 4.1 ei gynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus):

- 4.2. Dim digon o le / cynwysyddion ailgylchu yn rhy fach.
- 4.3. Ddim yn siŵr beth ellir ei ailgylchu ac na ellir ei ailgylchu.
- 4.4. Ddim yn cynhyrchu llawer o ailgylchu.
- 4.5. Mae ailgylchu yn flêr ac yn fudur.
- 4.6. Lle dan do i storio cyn rhoi deunyddiau y tu allan yn gyfyng.
- 4.7. Anawsterau corfforol (codi, cario, symudedd)
- 4.8. Dim diddordeb mewn ailgylchu.
- 4.9. Arall (sylwer).

Mae Ffigur 3 yn dangos nifer y bobl a atebodd le neu Na i gwestiynau 4.2-4.8 uchod allan o'r 996 a anghytunodd/anghytunodd yn gryf â chwestiwn 3.



Ffigur 3: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu? (Cyfrif atebion le – cyfanswm yr ymatebwyr = 996)

Dywedodd 871 o'r 996 (87%) a oedd yn anghytuno/anghytuno'n gryf â chwestiwn 3 nad oedd ganddynt ddigon o le a bod y Bocs Troli yn rhy fach. Mae hyn yn gyson â'r ymatebion i Gwestiwn 10, lle dywedodd 23% mai eu prif bryder oedd nad oedd y capasiti ar gyfer ailgylchu yn ddigonol.

Dywedodd 272 o'r 996 (27%) nad oeddent yn siŵr beth y gellid ei ailgylchu.

Dim ond 9 o'r 996 (>1%) ddywedodd nad ydyn nhw'n cynhyrchu llawer o ailgylchu.

Dywedodd 157 o'r 996 (16%) eu bod yn cael anhawster ailgylchu oherwydd problemau hylendid canfyddedig.

Dywedodd 419 o'r 996 (42%) fod storio cynwysyddion yn broblem iddyn nhw.

Tynnodd 147 o'r 996 (15%) sylw at broblemau corfforol yn ymwneud â symud deunyddiau i'w casglu.

Dim ond 16 o'r 996 (2%) a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ailgylchu.

Ar gyfer Cwestiwn 4.9 "Arall (eglwurwch os gwelwch yn dda)", rhoddodd 437 o gyfranogwyr ymateb, mae'r rhain wedi'u categorioeddio a'u crynhoi yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Sylwadau eraill ar anawsterau ailgylchu

Categori	Cyfrif	%
Cynwysyddion yn rhy fach	75	22%
Problemau cynwysyddion	61	18%
Problemau Casglu	49	14%
Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu	48	14%
Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol	40	12%
Arall	33	10%
Ddim yn berthnasol	9	3%
Maint yr aelwyd	7	2%
Cyfyngiadau corfforol	7	2%
Lle ar gyfer storio cynwysyddion	7	2%
Pryderon ynghylch fermin/plâu	3	1%
Hylendid	2	1%
Yr amser/ymdrech sydd ei angen	2	1%
Ffrydiau gwastraff penodol i aelwydydd	1	0.3%
Diffyg gwybodaeth/dryswch	1	0.3%
Gwasanaethau Eraill yr ALI	1	0.3%
Gwasanaeth yn rhy gymhleth	1	0.3%

At ei gilydd, cododd 54% faterion yn ymwneud â chasgliadau yn trafod pam eu bod yn cael anhawster i ailgylchu. Roedd y rhain yn cynnwys bod y Bocs Troli yn rhy fach ar gyfer yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy (22%), eu bod wedi cael problemau gyda'r Bocs Troli – yn gyffredinol, eu bod yn chwythu o gwmpas yn y gwynt a/neu'n cael eu difrodi'n hawdd – (18%), a'u bod wedi cael problemau casglu – yn bennaf

criwiau casglu ddim yn gwasanaethu casgliadau'n iawn neu'n difrodi cynwysyddion – (14%).

Roedd 14% o'r ymatebwyr eisiau mwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu ar garreg y drws, roedd nifer o'r rhain yn tynnu sylw at ffilm blastig, ac roedd eraill eisiau adfer casgliadau batris a thecstilau.


Teimlai 12% y byddai dull casglu gwahanol (fel arfer un bin ar gyfer casglu ailgylchu cymysg) yn gwneud ailgylchu'n haws.

Rhoddodd 10% o bobl resymau nad oeddent yn ffitio i gategorïau penodol, ac ychydig iawn o ymatebion cyfunol a gafodd y categorïau sy'n weddill.

4.5 Cwestiwn 5: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu?

Roedd Cwestiwn 5 yn rhoi'r opsiynau canlynol ar gyfer ymateb (dangosir yr opsiynau a'r ymatebion yn Ffigur 4):

- 5.1. Blwch uchaf y troli ailgylchu (papur)
- 5.2. Blwch canol y troli ailgylchu (plastig, caniau)
- 5.3. Blwch gwaelod y troli ailgylchu (gwydr, cardbord)
- 5.4. Bin bwyd
- 5.5. Bin du



Ffigur 4: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu?

4.5.1. Bocs Troli

Blwch Uchaf: Mae 29% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu cynhwysydd papur yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu. Er bod hyn yn is nag adrannau eraill y Bocs Troli, efallai ei fod yn arwydd bod symiau llai o bapur yn cael eu cynhyrchu o'i gymharu â deunyddiau ailgylchu sych eraill.

Blwch Canol: Mae 81% yn dweud bod eu cynhwysydd plastig a chaniau yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu. Mae dadansoddiad pellach o'r ymatebwyr hyn yn dangos bod 58% o'r rhain o aelwydydd â 3 neu lai o breswylwyr. Mae'n bosibl bod y nifer fawr o aelwydydd llai sy'n nodi problemau gyda'r capasiti sydd ar gael fod yn arwydd bod y Blwch Troli o bosibl yn rhy fach i gynnwys faint o ailgylchu sych a gynhyrchir gan y rhan fwyaf o aelwydydd.

Blwch Gwaelod: Dywedodd 82% o bobl fod eu cynhwysydd gwydr a chardbord yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu. O'r rhain roedd 57% o aelwydydd o 3 neu lai. Mae'n bosibl bod y nifer fawr o aelwydydd llai sy'n nodi problemau gyda'r capasiti sydd ar gael fod yn arwydd bod y Bocs Troli o bosibl yn rhy fach i gynnwys faint o ailgylchu sych a gynhyrchir gan y rhan fwyaf o aelwydydd.

4.5.2. Gwastraff Bwyd

Dywedodd 23% o'r ymatebwyr fod eu bin bwyd yn llawn ar eu diwrnod casglu, a dim ond 15% o'r ymatebwyr ddywedodd fod eu bin yn llawn cyn y diwrnod casglu.

Ar y lefelau dal presennol, mae'n ymddangos bod y capasiti yn ddigonol i'r rhan fwyaf o aelwydydd.

Dywedodd 27% o'r ymatebwyr nad ydyn nhw'n defnyddio'r bin gwastraff bwyd.

4.5.3. Gwastraff Gweddilliol

Bin du: Nododd 76% o'r ymatebion fod biniau du yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu.

O'r rhai a nododd fod eu biniau'n llawn ar eu diwrnod casglu, roedd 93% o aelwydydd ag 1-4 o breswylwyr.

O'r rhai a nododd fod eu biniau'n llawn cyn eu diwrnod casglu, roedd 79% o aelwydydd ag 1-4 o breswylwyr.


Rhai o'r rhesymau posibl pam mae cymaint o breswylwyr ar aelwydydd o bedwar neu lai yn dweud bod eu biniau eisoes yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu yw nad ydyn nhw'n defnyddio eu gwasanaeth ailgylchu a gwastraff bwyd wythnosol yn llawn, neu nad oes digon o le ganddynt yn eu Bocs Troli a'u bod yn gorfod gwaredu deunyddiau ailgylchadwy yn eu gwastraff gweddilliol.

4.5.4. Dadansoddiad oedran

Nododd dadansoddiad o lawnder cynwysyddion a adroddwyd yn ôl ystod oedran berthynas gyson rhwng oedran a pha mor llawn oedd cynwysyddion ar y diwrnod casglu. Ar draws pob ffrwd wastraff ac ailgylchu, roedd ymatebwyr iau yn gyffredinol yn dweud bod eu cynwysyddion yn llawnach o'i gymharu ag ymatebwyr hŷn. Roedd y duedd hon gryfaf ar gyfer y bin gwastraff gweddilliol du a chynwysyddion ailgylchu cymysg, lle'r oedd ymatebwyr 18-44 oed yn llawer mwy tebygol o nodi bod cynwysyddion yn "llawn" neu'n "llawn cyn diwrnod casglu". Roedd ymatebwyr 65 oed neu hŷn yn fwy tebygol o nodi mai dim ond rhannol llawn oedd eu cynwysyddion adeg casglu.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai aelwydydd iau gynhyrchu symiau uwch o wastraff gweddilliol a deunyddiau ailgylchu, a allai adlewyrchu gwahaniaethau ym meintiau aelwydydd, patrymau defnyddio, lefelau meddiannaeth, neu ddefnydd pecynwaith. Roedd y berthynas rhwng oedran a llawnder yn wannach ar gyfer ailgylchu papur nag ar gyfer ffrydiau gwastraff eraill, gan ddangos llai o amrywiad rhwng grwpiau oedran ar gyfer cyfeintiau papur. At ei gilydd, mae'r dadansoddiad yn dangos cysylltiad cymedrol ond cyson rhwng grwpiau oedran iau (18-44) a defnydd uwch o gynwysyddion a adroddir ar draws y system gasglu.

4.6 Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy"



Ffigur 5: Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy

